*This document is available in English.*

**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES FIRE AND RESCUE AUTHORITY**

Bydd cyfarfod o'r **PWYLLGOR ARCHWILIO** yn cael ei gynnal **DDYDD LLUN 18 MAWRTH 2024** am **09.30 o'r gloch** yn rhithiol **dros Zoom**.

Sylwch, bydd sesiwn hyfforddi seiber am 09:00 o'r gloch yn rhagflaenu'r cyfarfod hwn, i'w gyflwyno gan yr MIAA.

Yr eiddoch yn gywir,
Gareth Owens
Clerc

---

**AGENDA**

1. **Ymddiheuriadau**

2. **Datganiadau o Fuddiant**

3. **Hysbysiad o Faterion Brys**
Hysbysiad o'r eitemau y dylid, yn ôl y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972.

4. **Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Rhagfyr 2023**

5. **Materion yn Codi**

6. **Strategaeth Cronfeydd Ariannol wrth Gefn**

7. **Cyflwyniad Trosolwg Rheoli Trysorlys a Chyfalaf gan Arlingclose**

8. **Adroddiad Rheoli Trysorlys Ch3 2023/24**

9. **Arferion Rheoli Trysorlys (ARTs)**

10. **Strategaeth Rheoli Trysorlys (SRT) 2024/25**

11. **Strategaeth Gyfalaf 2024/34**

12. **Adroddiad Diweddaru Cynllun Archwilio Mewnol 2023/24**
    - **i) Rheolaethau Prosesu Ariannol Allweddol 2023/24**
    - **ii) Y Fenter Twyll Genedlaethol 2022/23**
    - **iii) Rheolaethau Rheoli Risg Craidd 2023/24**

13. **Cynllun Archwilio Mewnol 2024/25**

14. **Crynodeb Archwilio Blynyddol Archwilio Cymru**

15. **Materion Brys**
Ystyried unrhyw eitemau y penderfynodd y Cadeirydd eu bod yn eitemau brys (yn unol ag Adran 100B (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972) ac y datganwyd eu pwysigrwydd o dan eitem 3 uchod.

Parhad...

## RHAN II

Yn unol ag Adran 100A (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, argymhellir bod y Wasg a'r Cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitem(au) busnes canlynol oherwydd ei bod yn debygol y byddai gwybodaeth wedi'i heithrio yn cael ei datgelu iddynt fel sydd wedi'i diffinio ym Mharagraff(au) 12 i 18 yn Rhan 4 Atodlen 12A, Deddf Llywodraeth Leol 1972.

## 16. Dim

**PWYLLGOR ARCHWILIO**
**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**

Cofnodion cyfarfod **Pwyllgor Archwilio** Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd yn rhithiol ar Zoom ddydd Llun 18 Rhagfyr 2023. Dechreuodd y cyfarfod am 09.30 o'r gloch.

| **Cynghorydd** | **Yn Cynrychioli** |
|---|---|
| Mark Young (Cadeirydd) | Cyngor Sir Ddinbych |
| Gwynfor Owen (Dirprwy Gadeirydd) | Cyngor Gwynedd |
| Bryan Apsley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Y Cynghorydd Marion Bateman | Cyngor Sir y Fflint |
| Tina Claydon | Cyngor Sir y Fflint |
| Adele Davies-Cooke | Cyngor Sir y Fflint |
| Sharon Doleman | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Jeff Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| John Brynmor Hughes | Cyngor Gwynedd |
| Gareth R Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Marc Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Beverley Parry-Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Arwyn Herald Roberts | Cyngor Gwynedd |
| Austin Roberts | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |

**Hefyd yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Helen MacArthur | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |
| Dafydd Edwards | Trysorydd |
| Matt Brushett | Archwilio Cymru |
| Philippa Dixon | Archwilio Cymru |
| Anne-Marie Harrop | Mersey Internal Audit Agency |
| Angharad Ellis | Mersey Internal Audit Agency |
| George Jones | Atebol - Cyfieithydd |
| Lisa Allington | Cynorthwyydd Gweithredol – Cymerwr Nodiadau |

1 **YMDDIHEURIADAU**

| **Cynghorydd** | **Yn Cynrychioli** |
|---|---|
| Michelle Blakeley-Walker | Cyngor Sir Ddinbych |

**2 DATGANIADAU O FUDDIANT**

2.1 Ni chofnodwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.

**3 HYSBYSIAD O FATERION BRYS**

3.1 Ni chafwyd unrhyw hysbysiad o faterion brys.

**4 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 18 MEDI 2023**

4.1 Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 18 Medi 2023 i'w cymeradwyo.

4.2 **PENDERFYNWYD:**

**i) cymeradwyo'r cofnodion fel cofnod gwir a chywir o'r cyfarfodydd a gynhaliwyd.**

**5 MATERION SY'N CODI**

5.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

**6 DIWEDDARIAD CRAFFU AR Y GYLLIDEB**

6.1 Cyflwynodd PSTC MacArthur y papur Diweddariad Craffu ar y Gyllideb gyda'r bwriad o roi diweddariad i Aelodau'r Pwyllgor Archwilio (y Pwyllgor) ar waith y Gweithgor Craffu ar y Gyllideb (y Gweithgor) a cheisio cymeradwyaeth ar gyfer yr asesiad cynllunio ariannol cyfredol er mwyn pennu cyllideb gytbwys ar gyfer 2024/25.

6.2 Nododd y Cadeirydd fod cyfarfodydd y Gweithgor Craffu ar y Gyllideb wedi bod yn gyfarfodydd proffesiynol a chynhyrchiol a bod Swyddogion wedi cael eu herio drwy gydol y broses. Trwy waith y Gweithgor, roedd yr ardoll wedi gostwng o 15% i 10.8% a oedd hefyd wedi mynd i'r afael â'r diffyg o'r flwyddyn flaenorol.

6.3 Diolchodd y Trysorydd i aelodau'r Gweithgor am eu gwaith caled dros y misoedd diwethaf a nododd y bu o fudd mawr i'r broses pennu'r gyllideb. Nododd ymhellach y bu cais gan rai Aelodau i geisio dwyn yr ardoll yn is na 10% wrth ystyried y sefyllfa ariannol anodd y mae Awdurdodau Lleol yn ei hwynebu ar hyn o bryd.

6.4 Dywedodd PSTC MacArthur fod risgiau'n parhau mewn perthynas â'r gyllideb a oedd yn cynnwys negodiadau cyflog cenedlaethol heb eu penderfynu, eglurder ynghylch costau pensiynau yn dilyn y prisiad, ac ansicrwydd ynghylch chwyddiant a chyfraddau llog. Nododd PSTC MacArthur fod cymaint o waith â phosibl wedi'i wneud i sicrhau bod y gyllideb wedi'i lleihau cymaint ag y bo modd yn dilyn heriau gan y Gweithgor.

6.5 Dywedodd un Aelod fod eu cyngor cyfansoddol nhw wedi nodi mai dim ond ardoll o lai na 10% y byddent yn fodlon ei derbyn ac y byddai ffigur uwch na hynny'n cael ei wrthod. Mewn ymateb, dywedodd y Cadeirydd mai er mai dyna'r sefyllfa a ffefrir, ni ellid gwarantu ein bod yn ymrwymo iddi; fodd bynnag, roedd yr holl waith posibl yn cael ei wneud er mwyn canfod opsiynau ar gyfer lleihau rhagor ar y defnydd o gronfeydd wrth gefn.

6.6 Gofynnodd Aelod a fyddai modd i Swyddogion ddarparu datganiad cyffredin o esboniad i'r Aelodau er mwyn iddynt oll allu ei gyflwyno i'w cynghorau cyfansoddol i esbonio sut y penderfynwyd ar yr ardoll. Mewn ymateb, dywedodd y Cadeirydd fod Swyddogion wrthi yn gweithio ar hyn ac y byddant yn ei gyflwyno ar ôl i'r Awdurdod gymeradwyo'r gyllideb derfynol yn ei gyfarfod ym mis Ionawr.

6.7 Nododd Aelod arall eu bod o'r farn y byddai'n anghyfrifol anelu am ffigur is dim ond i sicrhau y byddai'n llai na 10%, ac y dylai anghenion a gofynion y Gwasanaeth i'w alluogi i weithredu'n effeithiol ddod yn gyntaf. Gallai hefyd olygu y bydd yn rhaid gohirio unrhyw symiau a dorrwyd o gyllideb eleni i'r flwyddyn ganlynol, a fyddai'n dal i gael effaith ariannol niweidiol ar awdurdodau lleol.

6.8 Nododd Aelod fod cyfeiriad at gostau lesio o fewn yr adroddiad a gofynnodd a oedd cynlluniau ar waith i edrych ar y rhain yn agosach. Mewn ymateb, dywedodd PSTC MacArthur fod mwyafrif helaeth y costau lesio yn gysylltiedig â cherbydau a oedd yn angenrheidiol fel rhan o'r model gweithredol. Fodd bynnag, cynhelid dadansoddiad cost a budd bob tro'r oedd angen cerbyd newydd i benderfynu a oedd y cerbyd yn anghenraid, ac a fyddai'n fwy cost-effeithiol lesio neu brynu.

6.9 Nodwyd bod y costau lesio hefyd yn cynnwys tri adeilad, gyda'r gost lesio fwyaf yn gysylltiedig â'r Ganolfan Gyfathrebiadau ar y Cyd. Mae hwn yn adnodd hanfodol gan ei fod yn caniatáu gweithio cydweithredol yn yr Ystafell Reoli gyda Heddlu Gogledd Cymru. Roedd y gweithio cydweithredol hwn yn ganlyniad penderfyniad a wnaed gan yr Awdurdod beth amser yn ôl ac argymhellwyd yn gryf parhau â'r trefniant. Felly byddai angen i unrhyw gynnig yn y dyfodol gael ei ddadansoddi'n fanwl a'i gymeradwyo gan yr Awdurdod.

6.10 Cadarnhaodd PSTC MacArthur y byddai ailasesiad o'r holl asedau wedi'u lesio, gan gynnwys y Ganolfan Gyfathrebiadau ar y Cyd, wrth iddynt gyrraedd eu cymal terfynu er mwyn cadarnhau eu bod yn hyfyw.

6.11 **PENDERFYNWYD:**

i) **Nodi a chymeradwyo canfyddiadau'r Gweithgor Craffu ar y Gyllideb; gan gynnwys**
ii) **y rhagdybiaethau cynllunio a ddefnyddir i ddatblygu'r gyllideb refeniw ar gyfer 2024/25;**
iii) **yr asesiad cynllunio ariannol presennol am ofyniad cyllideb o £49.194m ar gyfer 2024/25;**
iv) **y bwriad i ymgymryd â gwaith pellach i ganfod cyfleoedd ar gyfer gostyngiadau pellach mewn gwariant ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024/25 a/neu ddefnyddio cronfeydd wrth gefn; a'r**
v) **rhaglen waith arfaethedig ar gyfer 2024/25 ymlaen.**

## 7. DIWEDDARIAD RHEOLI'R TRYSORLYS

7.1 Cyflwynodd PSTC MacArthur y papur Diweddariad Rheoli'r Trysorlys a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau am waith rheoli'r trysorlys a chydymffurfiaeth â'r dangosyddion darbodus o ran rheoli'r trysorlys ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2023 i 30 Medi 2023.

7.2 Gofynnwyd sut yr oedd y ddarpariaeth o fenthyciadau yn cael ei rheoli ac o ble y ceisiwyd buddsoddiadau pan oedd eu hangen. Atebodd PSTC MacArthur fod benthyciadau'n dod yn bennaf o'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus er y defnyddiwyd rhai awdurdodau lleol hefyd ar gyfer benthyciadau tymor byr. Nodwyd bod daliadau arian parod yn cael eu cadw mewn cyfrifon cadw gyda bancwyr yr Awdurdod a hefyd Cyfleuster Adneuo Cyfrif Rheoli Dyledion (DMADF) Llywodraeth y DU.

7.3 **PENDERFYNWYD:**

i) **nodi gweithgareddau rheoli'r trysorlys a'r dangosyddion darbodus ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill – 30 Medi 2023.**

## 8 ADRODDIAD CYNNYDD ARCHWILIO MEWNOL

8.1 Cyflwynwyd y papur Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol i'r Aelodau gan Angharad Ellis o MIAA, a'i ddiben oedd amlinellu diweddariad o'r gwaith a wnaed ganddynt fel darparwyr archwilio mewnol yr Awdurdod.

8.2 Diolchodd PSTC MacArthur i MIAA am eu gwaith hyd yn hyn a nododd y buont yn edrych ar nifer o brif feysydd sylfaenol ar gyfer y Gwasanaeth a bod hynny wedi bod o fudd mawr.

8.3 **PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi'r gwaith a wnaed gan MIAA hyd at 30 Tachwedd 2023 a nodi'r adolygiadau arfaethedig ar gyfer gweddill y flwyddyn ariannol.**

## 9 ADOLYGIAD RHEOLI PRESENOLDEB A'R GYFLOGRES

9.1 Amlinellodd Angharad Ellis, MIAA, bapur yr Adolygiad Rheoli Presenoldeb a'r Gyflogres, a'i ddiben oedd cyflwyno i'r Aelodau ganfyddiadau'r adolygiad archwilio mewnol o'r trefniadau a'r rheolaethau cyflogres a rheoli presenoldeb.

9.2 Nodwyd bod nifer o argymhellion wedi'u gwneud gan MIAA o ran systemau presenoldeb a'r gyflogres yn y Gwasanaeth, ac y byddai camau dilynol yn y flwyddyn nesaf i sicrhau bod yr argymhellion hyn wedi'u cyflawni. Byddai adborth yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor bryd hynny.

9.3 Nododd PSTC MacArthur fod Cyllid, Cyflogres ac Adnoddau Dynol wedi gweithio'n galed iawn yn y maes hwn a braf oedd gweld hynny'n cael ei adlewyrchu yn yr adroddiad.

9.4 **PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi canfyddiadau'r adolygiad archwilio mewnol o'r trefniadau cyflogres a rheoli presenoldeb.**

## 10 ARDYSTIO AR GYDYMFFURFIO Â GOFYNION ASESU PERFFORMIAD MESUR LLYWODRAETH LEOL 2009

10.1 Cyflwynodd PSTC MacArthur y papur Ardystio ar Gydymffurfio â Gofynion Asesu Perfformiad Mesur Llywodraeth Leol 2009 a gadarnhaodd i'r Aelodau ganlyniad archwiliad allanol o fesurau gwella 2023/24 yr Awdurdod, fel sy'n ofynnol gan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

10.2 **PENDERFYNWYD:**

**i) Nodi'r llythyr archwiliad sy'n cadarnhau bod yr Awdurdod wedi cyflawni ei gyfrifoldebau o dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.**

## 11 MATERION BRYS

11.1 Nid oedd unrhyw faterion brys i'w trafod.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.32 o'r gloch

*This document is available in English* **Eitem Agenda 6**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **18 Mawrth 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Dafydd Edwards - Trysorydd** |
| Swyddog Cyswllt | **Helen MacArthur – Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Pwnc | **Strategaeth Cronfeydd wrth Gefn** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1. Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno fersiwn wedi'i diweddaru o'r Strategaeth Cronfeydd wrth Gefn (y Strategaeth) i Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod).

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2. Cafodd y Strategaeth Cronfeydd wrth Gefn ei chyflwyno ddiwethaf i'r Awdurdod ym mis Ionawr 2021, ac yn unol ag arferion da, mae wedi bod yn destun adolygiad.

3. Mae'r Strategaeth wedi cael ei diweddaru er mwyn adlewyrchu'r arferion a'r gweithdrefnau cyfredol.

**ARGYMHELLIAD**

4. Bod yr Aelodau'n argymell y canlynol i'r Awdurdod:

**i) Cymeradwyo'r Strategaeth Cronfeydd wrth Gefn sydd yn Atodiad 1, fel sail i reoli'r cronfeydd defnyddiadwy sydd gan yr Awdurdod.**

**CEFNDIR**

5. Mae'r Awdurdod yn wahanol i awdurdodau lleol eraill oherwydd mae'n cael ei ariannu gan gyfraniadau gan y chwe awdurdod cyfansoddol yng Ngogledd Cymru, felly nid yw'n awdurdod sy'n codi praesept nac yn bilio.

6. Fe wnaeth Llywodraeth Cymru ddeddfu 'Gorchymyn Cynlluniau Cyfunol y Gwasanaethau Tân ac Achub (Amrywio) (Cymru) 2009' er mwyn cydnabod y baich posibl ar gyllidebau cynghorau petai'r Awdurdod yn gofyn am gyfraniad ychwanegol mewn unrhyw flwyddyn. Mae hyn wedi darparu sail statudol i'r awdurdodau tân ac achub yng Nghymru allu dal cronfeydd wrth gefn.

7. Mae defnyddio cronfeydd wrth gefn yn rhan hanfodol o reoli materion ariannol yr Awdurdod, ac mae wedi sicrhau bod modd lleihau'r angen i ddiwygio'r cyfraniadau mewn unrhyw flwyddyn (h.y. osgoi ardoll atodol ar Gynghorau cyfansoddol).

**GWYBODAETH**

8. Mae'r Strategaeth Cronfeydd wrth Gefn i'w gweld yn Atodiad 1. Mae'n nodi manylion y cronfeydd sy'n cael eu dal ac mae'n dogfennu'r broses ar gyfer adolygu'r cronfeydd ac adrodd yn eu cylch.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Drwy ddal cronfeydd wrth gefn, gall yr Awdurdod gyflawni ei amcanion llesiant hirdymor, sef:<br>Cefnogi pobl i atal tanau damweiniol mewn cartrefi ac i aros yn ddiogel os bydd tanau o'r fath yn digwydd;<br>Hwyluso gwasanaethau tân ac achub sydd o ansawdd uchel, sy'n ymatebol ac wedi'u hintegreiddio'n well er mwyn i weithgareddau ataliol ac ymateb brys allu parhau i fod ar gael pryd a ble y mae eu hangen, a hynny'n fforddiadwy, yn deg ac ar sail risg. |
| Cyllideb | Cyfanswm y cronfeydd defnyddiadwy presennol yw £7.821m (31 Mawrth 2023) |
| Cyfreithiol | Mae dyletswydd gyfreithiol ar yr Awdurdod Tân ac Achub i osod cyllideb refeniw fantoledig. Gallai hyn gynnwys defnyddio cronfeydd wrth gefn ar gyfer ymrwymiadau sy'n hysbys. |
| Staffio | Dim |
| Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol/y Gymraeg | Dim |
| Risgiau | Mae incwm a gwariant yn cael eu monitro'n agos er mwyn sicrhau bod unrhyw achosion o wyro o'r gyllideb a gymeradwywyd yn cael eu canfod yn briodol, a'u hadrodd i'r Aelodau. Mae hyn yn cynnwys symudiadau yn y cronfeydd. |

# Strategaeth Cronfeydd Ariannol
# Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Nid yw'r ddogfen hon yn cael ei rheoli ar ôl iddi gael ei hargraffu. Cyn ei defnyddio, mae'r sawl sy'n ei defnyddio yn gyfrifol am wirio mai dyma'r fersiwn gyfredol.

## 1.0 Y CRONFEYDD SY'N CAEL EU DAL

Bydd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yn cadw cronfeydd wrth gefn yn unol â'r gofynion deddfwriaethol a rheoleiddiol sy'n arferol. Fel arfer, bydd yr Awdurdod yn ceisio osgoi defnyddio cronfeydd wrth gefn i ariannu diffyg cyffredinol yn y gyllideb refeniw net, oherwydd mae sefyllfa ariannol o'r fath yn anghynaliadwy.

Ni fydd yr Awdurdod yn cadw cronfeydd rhag ofn, ac eithrio'r rhai yr adroddir eu bod yn gronfeydd ariannol wrth gefn.

Yn ogystal â chronfa gyffredinol, bydd yr Awdurdod hefyd yn dal cronfeydd a glustnodwyd ar gyfer pwrpasau penodol, pan fo angen hynny er mwyn cwrdd â chostau cyfyngedig un-tro sy'n gysylltiedig ag ymrwymiadau neu fentrau penodol, neu grantiau penodol.

## 2.0 ADRODD YNGHYLCH CRONFEYDD

Wrth adrodd ynghylch cronfeydd yn y datganiadau ariannol, byddwn yn bodloni'r codau ymarfer cyfrifo cyfredol sy'n berthnasol i'r Awdurdod.

Er mwyn sicrhau tryloywder a chraffu, bydd adroddiadau sydd ar gael i'r cyhoedd, ac sy'n cynnwys rhagor o fanylder, yn cael eu cyflwyno i'r Awdurdod wrth gytuno ar y Strategaeth Adnoddau Tymor Canolig, ac wrth adrodd ynghylch yr alldro ariannol am y flwyddyn ariannol flaenorol.

Wrth adrodd ynghylch yr alldro ariannol am y flwyddyn flaenorol, caiff yr wybodaeth ganlynol ei darparu:

- Pwrpas pob cronfa
- Y sail ar gyfer asesu digonolrwydd
- Trosglwyddiadau i mewn ac allan o gronfeydd

## 3.0 CYFRIFOLDEB A DIRPRWYO

Mae'r gwaith o greu, dileu, asesu digonolrwydd y cronfeydd, a'r throsglwyddiadau i mewn/allan wedi'i ddirprwyo i Swyddog Adran 151 (Trysorydd yr Awdurdod), mewn ymgynghoriad gyda'r PSTC Cyllid ac Adnoddau a gyda'r Pennaeth Cyllid.

Bydd asesiad o ddigonolrwydd y cronfeydd o leiaf unwaith y flwyddyn, fel rhan o broses cau'r cyfrifon.

Bydd y Swyddog Adran 151 yn adrodd i'r Awdurdod yn unol â'r Strategaeth hon.

## 4.0 SWYDDOGAETH Y SWYDDOG ADRAN 151

Nid oes gan Weinidogion Llywodraeth Cymru unrhyw rôl na grym i bennu na chynghori ar y lefel briodol o gronfeydd sydd gan awdurdodaulleol unigol (gan gynnwys Awdurdodau Tân ac Achub).

Mae'n fater i'w benderfynu ar lefel y sefydliad, lle rhaid ystyried y risgiau, yr amgylchiadau a'r cynlluniau sy'n bodoli ar yr adeg hynny.

O fewn y fframwaith statudol a rheoleiddiol presennol, cyfrifoldeb y Swyddog Adran 151 (Trysorydd yr Awdurdod) yw cynghori'r Awdurdod ynghylch lefelau'r cronfeydd dylid eu cadw, ac i sicrhau bod protocolau clir yn bodoli ar gyfer eu sefydlu a'u defnyddio.

## 5.0 CRONFEYDD DEFNYDDIADWY

Yn gyffredinol, mae'r Awdurdod yn cadw Cronfeydd Defnyddiadwy ar gyfer tri prif bwrpas:

- Balans digonol i helpu i arbed rhag effaith llif arian anwastad ac i osgoi gorfod benthyca'n ddiangen dros dro – mae hyn yn rhan o'r cronfeydd cyffredinol;

- Cronfa wrth gefn i leddfu effaith digwyddiadau annisgwyl neu argyfyngau – mae hyn hefyd yn rhan o gronfeydd cyffredinol; neu

- Ffordd o gynyddu arian a elwir yn gronfeydd wedi'u clustnodi, neu cronfeydd penodol, er mwyn cwrdd â gofynion a ragwelir - rhoddir cyfrif ar wahân i rhain, ond yn gyfreithiol maent yn rhan o Gronfa Gyffredinol yr Awdurdod.

| Categori o Gronfa a Glustnodwyd | Rhesymeg |
|---|---|
| Symiau a neilltuwyd ar gyfer cynlluniau mawr, megis datblygiadau cyfalaf neu brynu asedau, neu i ariannu gwaith adsefydlu pwysig a blaenoriaethau'r Gwasanaeth. | Pan fo gwariant wedi'i gynllunio mewn cyfnodau cyfrifyddu yn y dyfodol, peth darbodus yw neilltuo adnoddau ymlaen llaw. |
| Cronfeydd yswiriant. | Lle nad oes unrhyw sail statudol, adroddir ar symiau sy'n cael eu dal i gwrdd ag ymrwymiadau posibl ac annisgwyl fel cronfeydd a glustnodwyd, pan nad yw'r ymrwymiadau hyn yn bodloni'r diffiniad o 'ddarpariaeth' o dan ofynion Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol 37, sef *Darpariaethau, Asedau ac Ymrwymiadau Annisgwyl.* |
| Cronfeydd ar gyfer grantiau refeniw a rhoddion heb eu gwario. | Pan nad oes unrhyw amodau i grantiau refeniw neu roddion, neu pan fo'r amodau wedi cael eu bodloni a'r gwariant heb ddigwydd eto, caiff y symiau eu dal fel cronfeydd a glustnodwyd. |

Gall yr Awdurdod hefyd ddal y cronfeydd defnyddiadwy canlynol -

Cronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn

Mae'r gronfa hon yn dal derbyniadau ar ôl gwerthu asedau hir-dymor, ac ni chaiff y gronfa ei defnyddio heblaw ar gyfer y pwrpasau a nodir yn y "Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003 fel y'u diwygiwyd", sef:

- I dalu gwariant cyfalaf;
- I ad-dalu prifswm unrhyw swm a fenthyciwyd; neu
- I dalu unrhyw rwymedigaeth ar gyfer trefniant credyd, heblaw am rwymedigaeth rhaid eu rhoi ar gyfrif refeniw, yn unol ag arferion priodol.

Cyfrif Grantiau Cyfalaf Heb eu Defnyddio

Bydd y gronfa hon yn dal adnoddau cyfalaf (o grantiau cyfalaf) sydd wedi'u cydnabod fel incwm ac nad ydynt eto wedi'u defnyddio fel gwariant cyfalaf.

Caiff yr Awdurdod hefyd wneud darpariaeth ar gyfer gwariant yn unol â'r diffiniadau llym sydd yn y codau ymarfer ar gyfer cyfrifo. Mae'r rhwymedigaethau penodol ar gyfer rhain yn bodoli ar ddyddiad y fantolen a gellid gwneud amcangyfrif dibynadwy o'r rhwymedigaeth.

Roedd crynodeb o'r cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy wedi'i gynnwys yn y Strategaeth Adnoddau Tymor Canolig (MTRS) a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Tân ac Achub yn ei gyfarfod ar 22 Ionawr 2024 [MTFS 2009-12 (gov.wales)]

**6.0 CRONFEYDD ANNEFNYDDIADWY**

Mae cronfeydd annefnyddiadwy yn deillio o addasiadau cyfrifyddu technegol yn sgil rhyngweithio deddfwriaeth ac arferion cyfrifo priodol. Gellir sefydlu'r rhain naill ai er mwyn cofnodi enillion ailbrisio, neu fel addasiad er mwyn cysoni gofynion cyfrifo a gofynion statudol.

Nid yw'r cronfeydd hyn wedi'u cefnogi gan adnoddau, ac ni ellir eu defnyddio ar gyfer unrhyw bwrpas arall. Gweler isod ddisgrifiad o'r cronfeydd annefnyddiadwy cyffredin:

| | |
|---|---|
| Cronfa Ailbrisio | Mae'r gronfa hon yn cofnodi enillion heb eu gwireddu yng ngwerth eiddo, peiriannau a chyfarpar. Mae'r gronfa'n cynyddu pan fo asedau'n cael eu hailbrisio am i fyny, ac mae'n gostwng wrth i asedau gael eu dibrisio, neu pan fo asedau'n cael eu hailbrisio am i lawr, neu pan geir gwared ag asedau. Dim ond enillion ailbrisio a gronnwyd ers 1 Ebrill 2007 sydd yn y Gronfa, sef y dyddiad pryd cafodd y Gronfa ei chreu. Mae enillion wedi'u cronni cyn y dyddiad hwnnw wedi'u cydgrynhoi yn y Cyfrif Addasu Cyfalaf. |
| Cyfrif Addasu Cyfalaf | Mae'r gronfa hon yn cysoni'r gwahanol gyfraddau y mae'r asedau yn cael eu dibrisio o dan arferion cyfrifyddu priodol, ac yn cael eu hariannu drwy'r system rheolaethau cyfalaf. Mae'n ofyn statudol bod y taliad i'r Gronfa Gyffredinol yn cael ei bennu gan y system rheolaethau cyfalaf. Er enghraifft, mae'r balans credyd ar y Cyfrif yn dangos bod yr Awdurdod yn gyffredinol wedi ariannu buddsoddiadau cyfalaf cyn derbyn buddion y buddsoddiadau hynny. Mae'r Cyfrif hefyd yn cynnwys enillion ailbrisio a gronnwyd ar Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar cyn 1 Ebrill 2007, sef y dyddiad pryd cafodd y Gronfa Ailbrisio ei chreu er mwyn dal enillion o'r fath. |
| Cronfa wrth gefn ar gyfer Pensiynau | Mae'r gronfa hon yn cysoni'r taliadau a wnaed yn y flwyddyn i wahanol gynlluniau pensiwn statudol, yn unol â gofynion y cynlluniau hynny, a'r newid net yn rhwymedigaeth ariannol yr Awdurdod dan Safon Cyfrifyddu Rhyngwladol 19 parthed *Buddion Cyflogeion,* ar gyfer yr un cyfnod. Gwneir trosglwyddiad i mewn neu allan o'r gronfa bensiynau er mwyn sicrhau bod y taliad i'r Gronfa Gyffredinol yn adlewyrchu'r swm sydd angen ei gyllido . Er enghraifft, mae balans debyd yn y Gronfa yn dangos bod awdurdod wedi gwneud ymrwymiadau i ariannu pensiynau y mae'r Llywodraeth wedi caniatáu iddo ariannu o gyfraniadau i'w gwneud mewn blynyddoedd i ddod. |

| | |
|---|---|
| Cyfrif Absenoldebau Cronedig | Mae'r cyfrif hwn yn cynnwys gwahaniaethau a fyddai'n codi fel arall yn y Gronfa Gyffredinol o gronni hawl i absenoldebau taladwy na chymerwyd yn y flwyddyn, e.e. hawl i wyliau blynyddol wedi'u cario drosodd ar 31 Mawrth. Mae gofyn statudol i niwtraleiddio'r effaith ar y Gronfa Gyffredinol drwy drosglwyddo i mewn neu allan o'r Cyfrif. |
| Cyfrif Addasu Offerynnau Ariannol | Mae'r cyfrif hwn yn cysoni'r gwahanol gyfraddau y mae enillion a cholledion (megis premiwm ar ad-dalu dyled yn gynnar) yn cael eu cydnabod dan arferion cyfrifo priodol, lle rhaid iddynt, dan statud, ddod o'r Gronfa Gyffredinol. Er enghraifft, mae'r balans debyd ar y Cyfrif yn dangos bod yr Awdurdod wedi cael treuliau ar fenthyciadau ac mae'r Llywodraeth wedi caniatáu iddo wasgaru'r rheini dros flynyddoedd i ddod. |

Gellir hefyd greu cronfeydd yn y dyfodol pan fo datblygiadau mewn dulliau cyfrifo yn arwain at wahaniaethau mewn amseru rhwng yr incwm a'r gwariant, dan arferion cyfrifo priodol ac o dan statud neu reoliad.

## 7.0 ADRODD YNGHYLCH CRONFEYDD WRTH GEFN

Mae'r *Cod Ymarfer ar gyfer Cyfrifyddu mewn Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig* (y Cod), sy'n seiliedig ar y Safon Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS), yn pennu'r gofynion adrodd ar gyfer cronfeydd wrth gefn. Mae'r Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd yn cyflwyno'r symudiad yng nghronfeydd yr awdurdod yn ystod y flwyddyn, wedi'i ddadansoddi'n gronfeydd defnyddiadwy ac yn gronfeydd annefnyddiadwy.

Mae'r Cod yn argymell bod y cronfeydd a glustnodwyd yn cael eu hadrodd ar wyneb ddalen y Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd. Mae'r gyfundrefn adrodd statudol a rheolaeth ariannol effeithiol yn tanategu'r angen am drefniadau clir a thryloyw i adrodd ar gronfeydd wrth gefn, ac mae arfer dda yn awgrymu y dylid adrodd yr wybodaeth ganlynol ar gyfer pob cronfa a glustnodwyd:

- y rheswm dros y gronfa;
- sut a phryd gellir defnyddio'r gronfa;
- y gweithdrefnau ar gyfer rheoli'r gronfa; a
- mecanweithiau adolygu.

Dylai'r adroddiad ar y gyllideb i'r Awdurdod gynnwys y canlynol:

- unrhyw ddefnydd o gronfeydd neu ychwanegu atynt, gan gynnwys unrhyw achos penodol o ddefnyddio cronfeydd er mwyn cwrdd â chostau rheolaidd;
- datganiad gan y Swyddog Adran 151 ynghylch digonolrwydd y balansau cyffredinol a'r darpariaethau.

## 8.0 PA MOR DDIGONOL YW'R CRONFEYDD

Er mwyn asesu digonolrwydd y cronfeydd wrth osod y gyllideb, bydd y Swyddog Adran 151 (Trysorydd yr Awdurdod, mewn ymgynghoriad gyda'r PSTC Cyllid ac Adnoddau, a gyda'r Pennaeth Cyllid) yn ystyried y risgiau strategol, gweithredol ac ariannol sy'n wynebu'r Awdurdod. Bydd yr asesiad o'r risgiau yn cynnwys risgiau allanol, megis materion a allai effeithio ar barhad busnes, yn ogystal â risgiau mewnol, er enghraifft y gallu i allu gwireddu arbedion a gynllunnir.

Mewn termau ariannol, bydd y risgiau canlynol yn cael eu hystyried:

| | |
|---|---|
| Ymdrin â chwyddiant a chyfraddau llog | • Sefyllfa ariannol gyffredinol yr awdurdod<br>• Cynnydd ym mhrisiau rhai nwyddau, ac a yw'r cronfeydd yn ddigonol i ddelio ag unrhyw amrywiadau annisgwyl mewn prisiau.<br>• Sut bydd newidiadau mewn cyfraddau llog yn effeithio ar fenthyciadau neu incwm, yng nghyd-destun Strategaeth Rheoli Trysorlys a gytunwyd. |
| Amcangyfrifon o lefel ac amseriad derbyniadau cyfalaf | • Hanes yr Awdurdod o ran rheoli'r gyllideb a rheolaeth ariannol, yn cynnwys cadernid cynlluniau tymor-canolig.<br>• Sut mae'r farchnad eiddo yn effeithio ar dderbyniadau, o ran yr amseriad a'r swm. |
| Ymdrin â phwysau oherwydd galw | • Gallu'r Awdurdod i reoli pwysau ar y gyllideb yn ystod y flwyddyn, a'r strategaeth ar gyfer rheoli'r galw a'r modd o ddarparu gwasanaethau yn y tymor hir. |
| Ymdrin ag arbedion effeithlonrwydd/enillion cynhyrchiant arfaethedig | • Cryfder yr wybodaeth ariannol a'r trefniadau adrodd. |
| Risgiau ariannol sydd ymhlyg mewn unrhyw bartneriaethau ariannu newydd arwyddocaol, trefniadau contractau allanol sylweddol, neu ddatblygiadau cyfalaf mawr | • Gallu'r Awdurdod i drosglwyddo cyllideb, a'r gweithdrefnau ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer tanwariant/gorwariant, ar lefel cyllideb yr awdurdod ac ar lefel adrannol.<br>• Mesurau rheoli risg mewn partneriaethau, gan gynnwys ystyried sut caiff risg ei ddyrannu.<br>• Darpariaethau mewn contractau wedi'u dylunio i ddiogelu sefyllfa'r awdurdod pe bai problemau'n deillio o gontractau allanol. |

| | |
|---|---|
| I ba raddau y mae cronfeydd wrth gefn, grantiau llywodraeth ac arian arall ar gael i ddelio â digwyddiadau annisgwyl pwysig, a pha mor ddigonol yw'r darpariaethau | • Defnyddir asesiadau risg wrth gydbwyso lefelau premiymau yswiriant a chronfeydd wrth gefn. |
| Yr hinsawdd ariannol cyffredinol y mae'r awdurdod yn agored iddo | • Ffactorau allanol, megis newidiadau mewn ariannu yn y dyfodol, y tirlun gwleidyddol, ac amodau economaidd y byd. |

This document is available in English. **Eitem Agenda 8**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **18 Mawrth 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur – Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Helen Howard – Pennaeth Cyllid a Chaffael** |
| Pwnc | **Adroddiad Rheoli Trysorlys Ch3 2023/24** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Aelodau am weithgarwch rheoli trysorlys ac am gydymffurfiaeth â dangosyddion darbodus rheoli trysorlys ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill 2023 – 30 Rhagfyr 2023.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Ym mis Rhagfyr 2003, mabwysiadodd Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) *Treasury Management in the Public Services: Code of Practice (2021)* y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (Cod CIPFA), sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod (neu'r Pwyllgor Archwilio ag awdurdod dirprwyedig), fan lleiaf, gymeradwyo adroddiadau alldro chwemisol a blynyddol ynghylch rheoli trysorlys. Roedd Cod CIPFA hefyd yn cynnwys gofyniad newydd i wneud adroddiadau chwarterol ar y dangosyddion rheoli trysorlys o fis Ebrill 2023 ymlaen. Mae'r dangosyddion darbodus nad ydynt yn rhai trysorlys wedi'u cynnwys yn adroddiad monitro refeniw a chyfalaf arferol yr Awdurdod.

3 Cymeradwywyd Strategaeth Rheoli Trysorlys yr Awdurdod ar gyfer 2023/24 mewn cyfarfod ar 20 Mawrth 2023. Gan fod yr Awdurdod yn benthyca ac yn buddsoddi symiau sylweddol o arian, rhaid rhoi ystyriaeth i risgiau ariannol, gan gynnwys y pobisilrwydd o golli arian a fuddsoddwyd (adneuon arian parod) ac effaith newid cyfraddau llog ar refeniw. Mae adnabod, monitro a rheoli'r risg yn llwyddiannus yn parhau i fod yn ganolog i strategaeth rheoli trysorlys yr Awdurdod.

4 Yn ystod y cyfnod o naw mis rhwng 1 Ebrill a 31 Rhagfyr 2023, roedd benthyca a buddsoddiadau'r Awdurdod yn parhau i fod ymhell o fewn y terfynau a bennwyd yn wreiddiol. Nid oedd unrhyw ddiffygion newydd gan fanciau lle mae'r Awdurdod wedi adneuo arian. Yn ogystal, amcangyfrifir y bydd incwm buddsoddi gwirioneddol yr Awdurdod yn uwch na'r incwm disgwyliedig yng nghyllideb 2023/24.

**ARGYMHELLIAD**

5 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

**i) nodi'r gweithgarwch rheoli trysorlys a'r dangosyddion darbodus ar gyfer y cyfnod 1 Ebrill - 31 Rhagfyr 2023.**

## CYD-DESTUN ALLANOL

6 Dechreuodd cyfraddau chwyddiant y DU ostwng o'r diwedd, gan adlewyrchu'r gostyngiad sydyn ond cynharach a welwyd yn Ardal yr Ewro ac UDA. Er gwaethaf y cwymp, arhosodd y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) yn sylweddol uwch na tharged 2% Banc Lloegr, sef ar 3.9% ar gyfer Tachwedd 2023. Gostyngodd disgwyliadau'r farchnad o ran codiadau pellach yng Nghyfradd y Banc o fis Hydref hyd at ddiwedd y flwyddyn, gan nodi mai'r lefel o 5.25% a gyrhaeddwyd ym mis Awst 2023 oedd yr uchafbwynt ar gyfer cyfraddau'r banc.

7 Cynhaliodd Pwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr (MPC) gyfradd y banc ar 5.25% trwy gydol y cyfnod, er bod lleiafrif sylweddol yn parhau i bleidleisio dros gynnydd o 0.25%. Mae Banc Lloegr yn parhau i dynhau polisi ariannol trwy werthu asedau, wrth iddo leihau maint ei fantolen. Gwelwyd disgwyliadau'r farchnad ariannol o ran cyfraddau banc yn cymedroli dros y cyfnod wrth i chwyddiant sy'n gostwng a data sy'n gwanhau ddangos bod cyfraddau llog uwch yn gweithio yn y DU, UDA ac Ardal yr Ewro.

8 Yn dilyn cyfarfod MPC Rhagfyr, cynhaliodd Arlingclose, cynghorydd trysorlys yr Awdurdod, ei farn ganolog mai 5.25% yw'r uchafbwynt o ran Cyfradd y Banc. Mae risgiau tymor byr yn gytbwys yn gyffredinol, ond dros yr amser sy'n weddill mae'r risgiau'n cynnwys gweithgarwch economaidd yn gwanhau'n fwy na'r disgwyl.

9 Disgwylir i anwadalrwydd uwch y farchnad barhau i fod yn ffactor, o leiaf yn y dyfodol agos, ac, fel erioed, mae'r sefydliadau a'r cyfnodau ar restr gwrthbartïon yr Awdurdod a argymhellwyd gan Arlingclose yn parhau i gael eu hadolygu'n gyson.

## CYD-DESTUN LLEOL

10 Ar 31 Mawrth 2023, roedd benthyciad net yr Awdurdod yn £22.48m, a hynny'n deillio o wariant cyfalaf.

11 Mae'r angen sylfaenol i fenthyca at ddibenion cyfalaf yn cael ei fesur gan y Gofyniad Ariannu Cyfalaf (CFR), ac adnoddau mantolen yw'r adnoddau sylfaenol sydd ar gael i'w buddsoddi. Ymhellach, strategaeth gyfredol yr Awdurdod yw cynnal benthyca a buddsoddiadau islaw eu lefelau sylfaenol, a elwir yn fenthyca mewnol, er mwyn lleihau risg a chadw costau llog yn isel. Mae'r ffactorau hyn yn cael eu crynhoi yn Nhabl 1 isod.

**Tabl 1: Crynodeb o'r Fantolen**

| | **31.03.23 Gwirioneddol £m** | **31.12.23 Gwirioneddol £m** |
|---|---|---|
| CFR y Gronfa Gyffredinol | 28.88 | 32.16 |
| Benthyca allanol | -26.65 | -21.62 |
| **Benthyca mewnol** | 0.00 | -8.61 |
| Llai: Adnoddau mantolen | -6.40 | -9.68 |
| Llai: Buddsoddiadau Newydd | 4.17 | 7.75 |
| **Benthyca newydd** | **0.00** | **0.00** |

12 Mae Tabl 1 yn cadarnhau bod benthyciadau net yr Awdurdod yn is na'r Gofyniad Ariannu Cyfalaf (CFR).

13 Mae'r sefyllfa rheoli trysorlys ar 31 Rhagfyr a'r newid dros y naw mis yn cael eu dangos yn Nhabl 2 isod.

**Tabl 2: Crynodeb Rheoli Trysorlys**

| | 31.3.23 Balans £m | Symudiad £m | 31.12.23 Balans £m | 31.12.23 Cyfradd % |
|---|---|---|---|---|
| Benthyca hirdymor (PWLB) | 17.79 | -1.09 | 16.70 | 1.00 - 4.90 |
| Benthyca byrdymor | 8.86 | -3.94 | 4.92 | 1.30 - 3.91 |
| **Cyfanswm benthyciadau** | **26.65** | **-5.03** | **21.62** | |
| Buddsoddiadau byrdymor | 0.00 | -6.40 | -6.40 | 5.19 - 5.38 |
| Arian parod a chyfwerth ag arian parod | -4.17 | 2.82 | -1.35 | 4.65 - 5.14 |
| **Cyfanswm y buddsoddiadau** | **-4.17** | **-3.58** | **-7.75** | |
| **Benthyciadau net** | **22.48** | **-8.61** | **13.87** | |

**BENTHYCA**

14 Mae Cod Darbodus CIPFA 2021 yn amlinellu na ddylai awdurdodau lleol (gan gynnwys Awdurdodau Tân ac Achub) fenthyca er mwyn buddsoddi gyda'r nod pennaf o elwa'n ariannol. Nid yw'n ddarbodus i awdurdodau lleol wneud unrhyw benderfyniad buddsoddi neu wariant a fydd yn cynyddu'r gofyniad ariannu cyfalaf ac yn arwain at fenthyciadau newydd, oni bai ei fod yn uniongyrchol ac yn bennaf gysylltiedig â swyddogaethau'r Awdurdod.

15 Nid yw'r Awdurdod wedi buddsoddi mewn asedau ar gyfer elw ariannol ac mae'r holl wariant yn gysylltiedig â chyflawni swyddogaethau'r Awdurdod.

**STRATEGAETH A GWEITHGARWCH BENTHYCA**

16 Yn unol â strategaeth y trysorlys, prif amcan yr Awdurdod wrth fenthyg oedd mabwysiadu strategaeth risg isel, gan gydbwyso costau llog isel a chael sicrwydd cost trwy gydol y cyfnod y mae angen cyllid. Ail nod yw sicrhau hyblygrwydd i aildrafod benthyciadau, pe bai cynlluniau tymor hir yr Awdurdod yn newid. Mae strategaeth fenthyca yr Awdurdod yn parhau i fynd i'r afael â'r mater allweddol o fforddiadwyedd, a hynny heb gyfaddawdu ar sefydlogrwydd tymor hwy y portffolio dyled.

17 Bu cynnydd sylweddol yng nghost benthyca byrdymor a hirdymor dros y 18 mis diwethaf. Cododd y gyfradd banc 1%, o 4.25% ar ddechrau mis Ebrill i 5.25% ddiwedd Rhagfyr. Roedd cyfradd y banc 2% yn uwch nag yr oedd ym Medi 2022.

18 Gostyngodd cyfraddau benthyca'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) ychydig yn ystod y chwarter. Ar 31 Rhagfyr, roedd cyfraddau sicrwydd PWLB ar gyfer benthyciadau aeddfed yn 4.19% ar gyfer benthyciadau 10 mlynedd, 4.90% ar gyfer benthyciadau 20 mlynedd, a 4.67% ar gyfer benthyciadau 50 mlynedd. Ar 31 Mawrth 2023, y ffigyrau cyfatebol oedd 4.33%, 4.70% a 4.41% yn y drefn honno.

19 Ar 30 Rhagfyr, roedd gan yr Awdurdod £21.62m o fenthyciadau, gostyngiad o £5.03m o'i gymharu â 31 Mawrth 2023, gan adlewyrchu ei strategaeth ar gyfer ariannu rhaglenni cyfalaf y blynyddoedd blaenorol a'r presennol. Mae'r benthyciadau sy'n weddill ar 30 Rhagfyr yn cael eu crynhoi yn Nhabl 3A isod.

**Tabl 3A: Sefyllfa fenthyca**

| | **31.3.23 Balans £m** | **Symudiad Net £m** | **31.12.23 Balans £m** | **31.12.23 Cyfradd Gyfartalog wedi'i Phwysoli %** | **31.12.23 Aeddfedrwydd Cyfartalog wedi'i Bwysoli (blynyddoedd)** |
|---|---|---|---|---|---|
| Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus | 20.65 | -2.03 | 18.62 | 2.46 | 6.48 |
| Awdurdodau lleol (tymor byr) | 6.00 | -3.00 | 3.00 | 4.35 | 1.00 |
| **Cyfanswm benthyciadau** | **26.65** | **-5.03** | **21.62** | | |

20 Mae cost benthyca tymor byr yr Awdurdod wedi parhau i gynyddu yn unol â'r cynnydd yng nghyfradd y banc a chyfraddau marchnad dyddiad byr. Roedd benthyciadau tymor byr yr Awdurdod ar 30 Rhagfyr 2023 yn £3.00m gyda chyfradd o 4.35%, mae hyn yn cymharu â chyfradd o 1.3% ar fenthyciadau o £6.00m ar ddiwedd mis Mawrth 2023.

**Tabl 3B: Benthyciadau Dyddiad Hir a fenthycwyd**

| | **Swm £m** | **Cyfradd %** | **Cyfnod sy'n Weddill (Blynyddoedd)** |
|---|---|---|---|
| Benthyciad Aeddfedrwydd PWLB | 2.00 | 4.80 | 29 |
| Benthyciad EIP PWLB | 0.67 | 3.09 | 14 |
| Benthyciad EIP PWLB | 4.86 | 3.91 | 17 |
| **Benthyciadau dros 5 mlynedd** | **7.53** | | |

21 Nid yw penderfyniadau benthyca'r Awdurdod yn cael eu seilio ar unrhyw ganlyniad unigol o ran cyfraddau llog, a chynhaliwyd portffolio cytbwys o fenthyca byrdymor a hirdymor.

22 Yn ystod y cyfnod 1 Ebrill – 30 Rhagfyr 2023, ad-dalwyd benthyciad marchnad byrdymor o £3m. Cymerwyd ei le gan fenthyciad PWLB tymor hir, a fenthycwyd yn 2022/23. Gwnaethpwyd hyn yn dilyn cyngor gan Airlingclose, ein cynghorwyr rheoli trysorlys, ac fe'i gwnaethpwyd pan oedd cyfraddau llog yn ffafriol.

## GWEITHGARWCH BUDDSODDI'R TRYSORLYS

23 Cyhoeddodd CIPFA God Ymarfer a Nodiadau Canllaw Traws-Sectoraidd diwygiedig ar Reolaeth Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus ar 20 Rhagfyr 2021. Mae'r rhain yn diffinio buddsoddiadau rheoli trysorlys fel rhai sy'n deillio o lifoedd arian a gweithgarwch rheoli risg trysorlys y sefydliad sydd, yn y pen draw, yn cynrychioli balansau sydd i'w buddsoddi nes bydd angen yr arian ar gyfer busnes. Yn syml, rheoli arian hyd nes y bydd ei angen ar gyfer y busnes o ddydd i ddydd, yn hytrach na buddsoddi arian parod at yr unig ddiben o sicrhau adenillion Buddsoddi.

24 Mae'r Awdurdod yn dal cronfeydd sydd wedi'u buddsoddi, sy'n cynrychioli incwm a dderbyniwyd o flaen gwariant, ynghyd â balansau a chronfeydd wrth gefn a ddelir. Yn ystod y flwyddyn, amrywiodd balansau buddsoddi'r Awdurdod rhwng £4.17m a £10.18m, oherwydd gwahaniaethau amseru rhwng incwm a gwariant. Mae'r rhan fwyaf o'r balans yn ymwneud â'r incwm a dderbynnir mewn perthynas â Chronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân, a fydd yn cael ei wario drwy gydol y flwyddyn. Mae'r sefyllfa fuddsoddi yn cael ei dangos yn Nhabl 4 isod.

**Tabl 4: Sefyllfa Buddsoddi'r Trysorlys**

| | 31.3.23 Balans £m | Symudiad Net £m | 31.12.23 Balans £m | 31.12.23 Adenillion ar Incwm % | 31.12.23 Aeddfedrwydd Cyfartalog wedi'i Bwysoli dyddiau |
|---|---|---|---|---|---|
| Cymdeithasau Adeiladu a Banciau | 4.17 | -2.82 | 1.35 | 4.65 - 5.14 | ar alwad |
| Banc yr Alban | | 3.00 | 3.00 | 5.38 | |
| DMADF | | 3.40 | 3.40 | 5.19 | |
| **Cyfanswm y buddsoddiadau** | **4.17** | **3.58** | **7.75** | | |

25 Mae Cod CIPFA a chanllawiau'r Llywodraeth yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod fuddsoddi ei gyllid yn ddoeth, a rhoi sylw i ddiogelwch a hylifedd ei fuddsoddiadau trysorlys cyn ceisio'r gyfradd enillion neu incwm orau bosibl. Amcan yr Awdurdod wrth fuddsoddi arian yw taro cydbwysedd priodol rhwng risg ac adenillion, gan leihau'r risg o golledion oherwydd diffygdalu a'r risg o dderbyn incwm buddsoddi anaddas o isel.

26 Fel y mae'r meincnod rhwymedigaeth yn yr adroddiad hwn yn ei ddangos, mae'r Awdurdod yn disgwyl bod yn fenthyciwr hirdymor ac felly gwneir buddsoddiadau trysorlys newydd yn bennaf er mwyn rheoli llif arian parod o ddydd i ddydd gan ddefnyddio offerynnau risg isel tymor byr. Mae hyn yn cynnwys defnyddio Cyfleuster Adnau Cyfrif Rheoli Dyledion Trysorlys y DU (DMADF, a elwir hefyd 'y DMO').

27 Gwelwyd cynnydd o 1% yn y gyfradd banc, o 4.25% ar ddechrau Ebrill 2023, i 5.25% erbyn diwedd Rhagfyr 2023. Bu cynnydd cymesur mewn cyfraddau arian parod dyddiad byr, gyda chyfraddau 3 mis yn codi i tua 5.25% a chyfraddau 12 mis yn codi i bron i 6%. Cododd y cyfraddau ar fuddsoddiadau DMADF hefyd, yn amrywio rhwng 5.17% a 5.29% erbyn diwedd mis Rhagfyr, a Chyfraddau Marchnad Arian Parod rhwng 4.65% a 5.38%.

**CYDYMFFURFIAETH**

28 Mae'r holl weithgareddau rheoli trysorlys a gynhaliwyd yn ystod y chwarter wedi cydymffurfio â'r egwyddorion yng Nghod Rheoli Trysorlys a Strategaeth Rheoli Trysorlys yr Awdurdod, a gymeradwywyd.

29 Dangosir cydymffurfiaeth â therfynau buddsoddi penodol yn Nhabl 5 isod.

**Tabl 5: Terfynau Buddsoddi**

| Sefydliad | Disgrifiad | Terfyn | 31.12.23 Gwirioneddol | Wedi Cydymffurfio? Do / Naddo |
|---|---|---|---|---|
| Banciau | Holl fanciau'r DU a'u his-gwmnïau sydd â chyfraddau da (Fitch neu gyfwerth). Mae hyn yn cael ei ddiffinio fel hirdymor (BBB) ar hyn o bryd. | £5m fesul banc | £4.35m | Do |
| Llywodraeth Ganolog | Swyddfa Rheoli Dyledion (DMO) | Diderfyn | £3.4m | Do |
| Cronfeydd y Farchnad Arian (MMF) | Dim ond ar ôl ceisio cyngor Arlingclose. | £1m fesul cronfa | 0 | Do |
| Awdurdodau Lleol | Pob un ac eithrio'r rhai sy'n destun cyfyngiad treth gyngor a phraeseptau o dan Ran 1 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 | £2m | 0 | Do |
| Cymdeithasau Adeiladu | Cymdeithasau adeiladu sydd â sgôr (fel ar gyfer y sector bancio) | £2m | 0 | Do |
| Cymdeithasau Adeiladu (Asedau £1bn) | Cymdeithasau adeiladu heb sgôr ond gydag asedau o £1biliwn neu fwy | £2m/9 mis | 0 | Do |

30 Dangosir Cydymffurfiaeth â'r Terfyn Awdurdodedig a'r Ffin Weithredol ar gyfer dyled allanol yn Nhabl 6 isod.

**Tabl 6: Dyled a'r Terfyn Awdurdodedig a'r Ffin Weithredol**

| | 31.12.23 Gwirioneddol £m | 2023/24 Ffin Weithredol £m | 2023/24 Terfyn Awdurdodedig £m | Wedi Cydymffurfio? |
|---|---|---|---|---|
| Benthyca | 21.62 | 28.99 | 30.99 | Ydy |
| **Cyfanswm y ddyled** | **21.62** | **28.99** | **30.99** | |

31 Gan fod y ffin weithredol yn offeryn rheoli ar gyfer monitro yn ystod y flwyddyn, efallai y bydd achlysuron pan fydd benthyca gwirioneddol yn fwy na'r targed hwn. Gallai hyn ddigwydd oherwydd amrywiadau yn y llif arian parod ac ni fyddai toramod byrdymor yn cyfrif fel methiant i gydymffurfio.

## DANGOSYDDION RHEOLI TRYSORLYS

32 Fel sy'n ofynnol gan God Rheoli Trysorlys CIPFA 2021, mae'r Awdurdod yn monitro ac yn mesur y dangosyddion darbodus canlynol o ran rheoli'r trysorlys.

### Meincnod Rhwymedigaeth

33 Mae'r dangosydd newydd hwn yn cymharu benthyca gwirioneddol yr Awdurdod yn erbyn meincnod rhwymedigaeth a gyfrifwyd i ddangos y lefel risg isaf o fenthyca. Mae'r meincnod rhwymedigaeth yn offeryn pwysig i helpu i benderfynu a yw'r Awdurdod yn debygol o fod yn fenthyciwr hirdymor neu'n fuddsoddwr hirdymor yn y dyfodol, ac i addasu ei ffocws strategol a'i benderfyniadau yn sgil hynny.


34 Mae'n cynrychioli amcangyfrif o swm cronnol y benthyca allanol y mae'n rhaid i'r Awdurdod ei gynnal er mwyn ariannu ei gynlluniau cyfalaf a refeniw presennol, gan gadw buddsoddiadau'r trysorlys ar y lefel isaf o £2.0m sy'n ofynnol i reoli llif arian o ddydd i ddydd.

| | **31.3.23 Gwirioneddol £m** | **31.3.24 Rhagolwg £m** | **31.3.25 Rhagolwg £m** | **31.3.26 Rhagolwg £m** |
|---|---:|---:|---:|---:|
| Benthyciadau CFR | 28.88 | 32.42 | 34.50 | 37.70 |
| Llai: Adnoddau mantolen | -6.40 | -5.00 | -4.50 | -4.00 |
| **Gofyniad benthyciadau net** | 22.48 | 27.42 | 30.00 | 33.70 |
| A: Lwfans hylifedd | 2.00 | 2.00 | 2.00 | 2.00 |
| **Meincnod rhwymedigaeth** | **24.48** | **29.42** | **32.00** | **35.70** |
| **Benthyciadau presennol** | **-26.65** | **-17.80** | **-14.10** | **-10.50** |

35 Nid yw'r rhagolygon uchod yn cynnwys unrhyw gostau ar gyfer y ganolfan hyfforddi arfaethedig, gan nad yw'r Awdurdod wedi cytuno ar hynny eto.

36 Mae'r meincnod rhwymedigaeth yn fesur hirdymor o'r angen sylfaenol i fenthyca ar gyfer pob diben yn yr hirdymor, ac mae'n seiliedig ar y rhaglen gyfalaf gyfredol ac ar symudiadau llif arian eraill a ragolygir. Mae'n offeryn i gymharu'r portffolio benthyciadau cyfredol yn erbyn yr angen cyfredol a chynlluniedig i fenthyca, o ran lefel a thymor y benthyca. Mae'n nodi a yw benthyca hirdymor yn fwy priodol.

37 Yn dilyn y rhagolwg tymor canolig uchod, mae'r meincnod rhwymedigaeth hirdymor yn tybio yr ariennir gwariant cyfalaf drwy fenthyca £4m - £6m rhwng 2023/24 a 2025/26, cynnydd o [2.5]% y flwyddyn oherwydd chwyddiant yn yr darpariaeth isafswm refeniw ar wariant cyfalaf newydd yn seiliedig ar fywydau'r asedau presennol, yn unol â'r polisi cyfrifyddu, incwm a gwariant, a gostyngiad yn y cronfeydd wrth gefn. Dangosir hyn yn y siart isod ynghyd â phroffil aeddfedrwydd benthyca presennol yr Awdurdod.




38 Mae'r graff yn dangos bod yr Awdurdod yn disgwyl y bydd angen iddo fenthyca yn y blynyddoedd i ddod. Bydd gan yr Awdurdod ofyniad benthyca trwy'r adeg gan nad oes ganddo arian parod neu gronfeydd wrth gefn sylweddol a dim ond mynediad cyfyngedig sydd ganddo at gyllid grant cyfalaf.

39 Mae'r llinell las yn cynrychioli'r angen i ariannu gwariant cyfalaf trwy fenthyca (y Gofyniad Ariannu Cyfalaf neu CFR). Mae'r llinellau coch yn cynrychioli'r angen i ariannu gwariant cyfalaf trwy fenthyca unwaith y bydd cronfeydd wrth gefn a'r gwarged (neu ddiffygion) cyfalaf gweithredol wedi'u hystyried – mewn gwirionedd dyma'r gwir angen i fenthyca y mae CIPFA wedi'i ddiffinio fel y Meincnod Rhwymedigaeth. Mae'r llinell goch bytiog yn cynrychioli'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ac mae'r llinell gyflawn yn cynrychioli'r sefyllfa ganol blwyddyn ar gyfartaledd. Mae'r ardaloedd llwyd yn dangos benthyciadau gwirioneddol. Pan fo'r ardal lwyd o dan y llinellau coch, mae'n dangos angen benthyca.

### Strwythur Aeddfedrwydd Benthyciadau

40 Mae'r dangosydd hwn yn rheoli amlygiad yr Awdurdod i risg ailgyllido. Y terfynau uchaf ac isaf ar strwythur aeddfedrwydd pob benthyciad oedd:

| | 31.12.23 Gwirioneddol | Terfyn Gwirioneddol | Terfyn Uchaf | Terfyn Isaf | Wedi cydymffurfio Do/Naddo |
|---|---|---|---|---|---|
| O dan 12 mis | 5.61 | 25.95% | 60.00% | 0.00% | Do |
| 12 mis ac o fewn 24 mis | 2.38 | 11.01% | 45.00% | 0.00% | Do |
| 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | 6.10 | 28.21% | 45.00% | 0.00% | Do |
| 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | 0.67 | 3.10% | 75.00% | 0.00% | Do |
| 10 mlynedd a mwy | 6.86 | 31.73% | 100.00% | 0.00% | Do |

41 Mae'r cyfnodau amser yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf pob blwyddyn ariannol. Dyddiad aeddfedrwydd benthyciadau yw'r dyddiad cynharaf pan allai'r benthyciwr hawlio ad-daliad.

### Buddsoddiadau Rheoli Trysorlys Hirdymor

42 Nid oes gan yr Awdurdod fuddsoddiadau trysorlys hirdymor.

## GOBLYGIADAU

| | |
|---|---|
| **Amcanion Llesiant** | Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu ag amcanion llesiant hirdymor GTAGC. Mae'n sicrhau bod pryniant asedau i gefnogi darparu gwasanaethau rheng flaen yn ddarbodus, yn fforddiadwy ac yn gynaliadwy. Mae'n sicrhau bod digon o fuddsoddiad yn cael ei wneud mewn seilwaith i alluogi Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru i ddarparu ymatebion brys a gwaith atal ymhell i'r dyfodol. |
| **Cyllideb** | Mae'r gyllideb yn cael ei gosod yn flynyddol ar gyfer ariannu cyfalaf yn unol ag adroddiad y Trysorlys. |
| **Cyfreithiol** | Mae'r fframwaith rheoleiddio wedi'i nodi ym mharagraff 1. |
| **Staffio** | Dim |
| **Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/y Gymraeg** | Dim |
| **Risgiau** | Buddsoddi arian dros ben – mae risg y gallai'r sefydliad ariannol lle buddsoddir arian y gwasanaeth fethu, gan arwain at golli rhan o'r prif fuddsoddiad. Fodd bynnag, un o ddibenion yr adroddiad yw lliniaru'r risg hon. |

*This document is available in English* **Eitem Agenda 9**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **18 Mawrth 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Dafydd Edwards - Trysorydd** |
| Swyddog Cyswllt | **Helen MacArthur – Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Pwnc | **Arferion Rheoli Trysorlys (ARhT)** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1. Mae Cod Ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) ar Reoli Trysorlys yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru gymeradwyo arferion, egwyddorion ac amserlenni perthnasol yn flynyddol. Mae'n ofynnol i'r rhain sicrhau bod polisi Rheoli Trysorlys yr Awdurdod yn cael ei osod a bod yr Awdurdod yn cadw ato, ac i sefydlu arferion gwaith a rheolaethau er mwyn gweithredu'r strategaeth gymeradwy.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2. Fel rhan o'r trefniadau llywodraethu ar gyfer Rheoli Trysorlys, mae'n ofynnol i'r Awdurdod gadw at elfennau allweddol *Treasury Management in the Public Services: Code of Practice* CIPFA (y Cod)

3. Mae Adran 5 o'r Cod yn nodi'r dogfennau ffurfiol y mae'n rhaid iddynt fod yn eu lle ac wedi'u cymeradwyo gan yr Awdurdod. Mae'r rhain yn cynnwys:

   - Datganiad polisi rheoli trysorlys yn nodi'r polisïau, amcanion a'r dull o reoli risg mewn gweithgareddau rheoli trysorlys; a
   - Datganiad o arferion rheoli trysorlys (ARhT), sy'n nodi'r modd y bydd yr Awdurdod / Gwasanaeth yn ceisio gweithredu'r polisïau hynny i gyflawni'r amcanion, a phennu sut y bydd yn rheoli ac yn cadw rheolaeth ar y gweithgareddau hynny.

4. Yn y pen draw, yr Awdurdod sy'n gyfrifol am sefydlu'r trefniadau hyn, a bydd yn cymeradwyo'r polisïau, arferion a gweithgareddau rheoli buddsoddiadau, ac yn cymeradwyo strategaeth a chynllun blynyddol, cyn y flwyddyn ei hun. Wedi hynny, bydd y gwaith craffu a monitro chwarterol yn cael ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Archwilio.

5. Yn unol â chynllun dirprwyo'r Gwasanaeth, bydd y gwaith o weinyddu a gweithredu penderfyniadau rheoi'r trysorlys o ddydd i ddydd yn nwylo'r Pennaeth Cyllid a Chaffael a'r tîm Cyllid, o dan arweiniad y PSTC Cyllid ac Adnoddau, ac o dan oruchwyliaeth Trysorydd yr Awdurdod (y Swyddog Adran 151). Bydd yr holl swyddogion perthnasol yn gweithredu yn unol â datganiad polisi'r Awdurdod, ARhT, a Chod Ymarfer CIPFA ar reolaeth trysorlys.

6. Mae ymgynghorydd trysorlys yr Awdurdod, Arlingclose, yn rhoi gwybodaeth ddyddiol i swyddogion cyllid am statws credyd gwrthbartïon buddsoddi, crynodebau economaidd, a chyngor ar dueddiadau cyfraddau llog gyda'r bwriad o hwyluso benthyca amserol.

7. Bydd y Pwyllgor Archwilio yn craffu ar adroddiadau ar bolisïau, arferion a gweithgareddau rheoli trysorlys a buddsoddiadau'r Awdurdod, a bydd yn argymell cymeradwyaeth ohonynt wedyn gan yr Awdurdod. Cyn pob blwyddyn ariannol, bydd y Pwyllgor Archwilio yn craffu ar adroddiadau ar strategaeth a chynllun blynyddol yr Awdurdod, a bydd yn argymell cymeradwyaeth gan yr Awdurdod. Bydd y Pwyllgor Archwilio hefyd yn craffu ar ac yn cymeradwyo diweddariadau chwarterol yn ystod y flwyddyn ac adroddiad blynyddol ar ôl diwedd y flwyddyn, ar y ffurf a bennir gan ARhT yr Awdurdod.

**ARGYMHELLIAD**

8. Gofynnir i'r Aelodau:

**i) argymell bod yr Awdurdod yn cymeradwyo Arferion, Egwyddorion ac Atodlenni Rheoli Trysorlys ar gyfer 2024/25 fel y nodir yn yr adroddiad hwn a'r Atodiad. Bydd hyn yn sicrhau cydymffurfiaeth â Chod Ymarfer CIPFA ar Reoli'r Trysorlys.**

**CEFNDIR**

9. Mae'r Awdurdod yn diffinio ei weithgareddau rheoli trysorlys fel rheoli benthyca, buddsoddiadau a llif arian parod yr Awdurdod, gan gynnwys ei drafodion bancio, marchnad arian a marchnad gyfalaf, rheolaeth effeithiol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hynny a cheisio sicrhau'r perfformiad gorau posibl yn gyson â'r risgiau hynny.

10. Mae Cod Ymarfer CIPFA *Treasury Management in the Public Services: Code of Practice* (y Cod) yn darparu'r fframwaith llywodraethu ar gyfer y gweithgareddau hyn. Mae cydymffurfio â'r Cod yn dangos bod yr Awdurdod wedi cymryd mesurau rhesymol yn y maes cymhleth a thechnegol hwn.

**GWYBODAETH**

11. Mae rheoli'r trysorlys yn effeithiol yn cefnogi'r Awdurdod i gyflawni ei amcanion busnes a gwasanaeth. Felly, mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i egwyddorion sicrhau gwerth am arian wrth reoli trysorlys, ac i ddefnyddio technegau mesur perfformiad addas, cynhwysfawr, o fewn cyd-destun rheoli risg effeithiol.

12. Mae'n ofynnol i fenthyca'r Awdurdod fod yn fforddiadwy, yn gynaliadwy ac yn ddarbodus, a rhoddir ystyriaeth i reoli risg cyfraddau llog a risg ailgyllido. Dylai'r ffynhonnell fenthyca a'r math o fenthyca ganiatáu tryloywder a rheolaeth i'r Awdurdod dros ei ddyled. Prif amcan yr Awdurdod wrth fenthyg arian yw mabwysiadu strategaeth risg isel, gan gydbwyso costau llog isel a chael sicrwydd o'r costau hynny trwy gydol y cyfnod y mae angen cyllid. Ail nod yw sicrhau hyblygrwydd i aildrafod benthyciadau pe bai cynlluniau tymor hir yr Awdurdod yn newid.

13. Blaenoriaeth yr Awdurdod mewn perthynas â'i fuddsoddiadau trysorlys (arian parod mewn banciau yn bennaf) yw diogelwch y cyfalaf a hylifedd (neu hygyrchedd) y buddsoddiadau hyn. Amcan yr Awdurdod wrth fuddsoddi arian y trysorlys yw taro cydbwysedd priodol rhwng risg ac adenillion, gan leihau'r risg o golledion oherwydd diffygdalu, a'r risg o dderbyn incwm buddsoddi anaddas o isel.

14. Dim ond yn y tymor byr y mae'r Awdurdod yn buddsoddi, at ddibenion rheoli trysorlys, ac nid yw'n buddsoddi balansau am fwy na blwyddyn.

15. Yr Adran Cyllid a Chaffael sy'n gyfrifol am reoli'r trysorlys o ddydd i ddydd, gyda gwybodaeth a chyngor gan gynghorydd trysorlys yr Awdurdod, Arlingclose. Mae'r ddogfen Arferion Rheoli Trysorlys yn nodi cyfrifoldebau a dyletswyddau Aelodau a swyddogion, gan roi fframwaith ar gyfer adrodd a gwneud penderfyniadau ar bob agwedd ar reoli trysorlys.

16. Mae Arferion Rheoli Trysorlys arfaethedig yr Awdurdod ar gyfer 2024/25 wedi'u nodi yn Atodiad 1 yr adroddiad hwn, ac maent yn darparu'r mecanwaith ar gyfer cynnal gweithgareddau rheoli trysorlys a'r risgiau cysylltiedig sy'n cael eu rheoli.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae rheoli'r trysorlys yn effeithiol yn galluogi'r Awdurdod i gyflawni ei amcanion llesiant hirdymor, sef:<br>Cefnogi pobl i atal tanau damweiniol yn y cartref a chadw'n ddiogel os ydyn nhw'n digwydd;<br>Hwyluso gwasanaethau tân ac achub integredig o ansawdd uchel, ymatebol a gwell fel y gall gweithgareddau atal ac ymateb brys barhau i fod ar gael pan fo'u hangen, a hynny'n fforddiadwy, yn deg ac ar sail risg |
| Cyllideb | Mae Darpariaeth Isafswm Refeniw a chostau llog yn rhan o'r gyllideb. Ar gyfer 2024/25 bydd hyn yn £2.8m. |
| Cyfreithiol | Mae gan yr Awdurdod ddyletswydd gyfreithiol i osod cyllideb refeniw fantoledig. Mae hyn yn cynnwys cost rheoli trysorlys. |
| Staffio | Dim – mae rheoli'r trysorlys yn cael ei weinyddu gan staff o fewn yr Adran Cyllid a Chaffael |
| Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol/y Gymraeg | Dim |
| Risgiau | Caiff incwm a gwariant eu monitro'n ofalus i sicrhau bod gwyriadau o'r gyllideb a gymeradwywyd yn cael eu nodi a'u hysbysu'n briodol i'r Aelodau. Mae hyn yn cynnwys symudiadau yng nghost rheoli trysorlys. |

Gwasanaeth Tân ac Achub
Fire and Rescue Service

# Arferion Rheoli'r Trysorlys

# (ARhT)

*Ar ôl ei hargraffu, mae hon yn ddogfen na ellir ei rheoli. Mae'r holl ddefnyddwyr yn gyfrifol am wirio i gadarnhau mai dyma'r fersiwn gyfredol cyn ei defnyddio.*

| | | | |
|---|---|---|---|
| Fersiwn: | 1.0 | Adolygiad nesaf: 31/03/2027 | ARhT |
| Statws: | Drafft | Dyddiad cyhoeddi: xx/xx/2024 | |

## EGWYDDORION AC ATODLENNI

Paratowyd y ddogfen hon yn ôl y dilyniant a ddarparwyd gan CIPFA. Er hwylustod, cyfeirir at y meysydd allweddol ar gyfer gweithrediadau trysorlys Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru isod:

| ARFERION RHEOLI'R TRYSORLYS | Rhif ARhT | Tudalen |
|---|---|---|
| Siart sefydliadol Is-adran Cyllid a Thrysorlys yr Awdurdod<br>Datganiad o ddyletswyddau a chyfrifoldebau<br>Cyflenwi yn ystod absenoldeb | ARhT5<br><br>ARhT5<br>ARhT5 | 33<br><br>33<br>36 |
| Rheoli Hylifedd, Llif Arian, gorddrafft banc, benthyca tymor byr<br>Rhagolygon Llif Arian<br>Datganiadau banc, amserlennu taliadau | ARhT1 [2]<br><br>ARhT8<br>ARhT8 | 9<br><br>47<br>50 |
| Bancio a delio electronig<br>Cyfarwyddiadau Setliad Safonol, Awdurdodi Taliadau | ARhT1 [8]<br>ARhT1 [8] | 18<br>18 |
| Mathau a ffynonellau benthyca cymeradwy<br>Offerynnau buddsoddi cymeradwy | ARhT4<br>ARhT4 | 30<br>31 |
| Rheoli Risg Gwrthbarti a Chredyd<br>Meini prawf cyfredol<br>Rhestrau Gwrthbartïon a Throthwyon | ARhT1 [1] | 6<br>7<br>9 |
| Delio:<br>- Delwyr awdurdodedig<br>- Trothwyon delio<br>- Rhestr o froceriaid cymeradwy<br>- Profforma Tocyn Trafodiad<br>- Rhestr delio uniongyrchol<br>- Gweithdrefnau trosglwyddo'r setliad | ARhT5 | <br>37<br>37<br>37<br>38<br>38<br>38 |
| Trefniadau adrodd/Mesur perfformiad<br>Cyfrifoldebau'r swyddogion wrth adrodd | ARhT6<br>ARhT2<br>ARhT5 | 39<br>23<br>36 |
| Cyllideb, Datganiad Cyfrifon, gofynion gwybodaeth sy'n gysylltiedig â'r Trysorlys ar gyfer Archwilwyr | ARhT7 | 43 |
| Nodiadau Gweithdrefn ar gyfer system rheoli trysorlys yr Awdurdod | Llawlyfr LogoTech (ar yriant a rennir) | |
| Gweithdrefnau Atal Gwyngalchu Arian | ARhT9 | 52 |
| Trefniadau Wrth Gefn | ARhT1 [8] | 20 |
| Darparwyr Gwasanaethau Allanol | ARhT11 | 57 |
| Cyfeiriadau at Statud a Deddfwriaeth | ARhT1 [7] | 16 |

## **Cyflwyniad:**

Cafodd Cod Ymarfer y CIPFA ar Reoli'r Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus (y Cod RhT) ei ddiwygio ddiwethaf ym mis Rhagfyr 2021. Mae'r Cod RhT yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod greu a chynnal, fel y sylfeini ar gyfer rheoli'r trysorlys a buddsoddiadau'n effeithiol:

– datganiad polisi rheoli'r trysorlys yn nodi'r polisïau, amcanion a'r dull o reoli risg yn ei weithgareddau rheoli'r trysorlys;

– arferion rheoli'r trysorlys (ARhT – h.y. y ddogfen hon), sy'n nodi'r modd y bydd yr Awdurdod yn ceisio cyflawni'r polisïau ac amcanion hynny, a phennu sut y bydd yn rheoli ac yn cadw rheolaeth ar y gweithgareddau hynny.

Mae'r ddogfen ARhT hon yn nodi cyfrifoldebau a dyletswyddau aelodau a swyddogion, gan roi fframwaith ar gyfer adrodd a gwneud penderfyniadau ar bob agwedd ar reoli'r trysorlys.

Diffiniadau

Mae **Rheoli'r Trysorlys** yn cael ei ddiffinio gan CIPFA fel

> **Rheoli benthyca, buddsoddiadau a llif arian parod yr Awdurdod, gan gynnwys ei drafodion bancio, marchnad arian a marchnad gyfalaf, rheolaeth effeithiol o'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r gweithgareddau hynny a cheisio sicrhau'r perfformiad gorau posibl yn gyson â'r risgiau hynny.**

Mae **'Buddsoddiadau'** yn cynnwys holl asedau ariannol yr Awdurdod, yn ogystal ag asedau anariannol eraill sydd gan yr Awdurdod yn bennaf neu'n rhannol i gynhyrchu elw, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i eiddo masnachol. Bydd buddsoddiadau'n cael eu categoreiddio yn unol â phrif bwrpas y buddsoddiad.

- Mae buddsoddiadau rheoli trysorlys yn fuddsoddiadau sy'n deillio o lifoedd arian yr Awdurdod neu weithgarwch rheoli risg trysorlys sydd, yn y pen draw, yn cynrychioli balansau sydd i'w buddsoddi nes bydd angen yr arian ar gyfer busnes.
- Mae buddsoddiadau gwasanaeth yn rhai a ddelir yn bennaf ac yn uniongyrchol ar gyfer darparu gwasanaethau cyhoeddus, neu i gefnogi mesurau cydweithio ag eraill i ddarparu gwasanaethau o'r fath. Efallai y bydd adenillion ariannol yn deillio ohonynt, ond nid o reidrwydd.
- Mae buddsoddiadau masnachol yn rhai a ddelir yn bennaf ar gyfer elw ariannol ac nid ydynt yn gysylltiedig â gweithgarwch rheoli trysorlys nac yn rhan uniongyrchol o ddarparu gwasanaethau.

Mae'r Cod yn nodi tair egwyddor allweddol

(1) Dylai cyrff gwasanaethau cyhoeddus sefydlu amcanion, polisïau ac arferion, strategaethau a threfniadau adrodd ffurfiol a chynhwysfawr i reoli eu gweithgareddau rheoli trysorlys mewn modd effeithiol.

(2) Dylai eu polisïau a'u harferion ei gwneud yn glir mai rheoli risgiau mewn modd effeithiol yw'r prif amcan yn eu gweithgareddau rheoli trysorlys a bod cyfrifoldeb am y rhain yn disgyn yn ddiamwys ar y sefydliadau eu hunain. Dylai eu hawydd am risg ffurfio rhan o'u strategaeth flynyddol, gan gynnwys unrhyw ddefnydd o offerynnau ariannol ar gyfer rheolaeth ddarbodus o'r risgiau hynny, a dylid sicrhau y rhoddir blaenoriaeth i ddiogelwch a hylifedd y portffolio wrth fuddsoddi arian rheoli trysorlys.

(3) Dylent gydnabod bod ceisio gwerth am arian yn y maes rheoli trysorlys a'r defnydd o fesurau perfformiad addas yn ystyriaethau dilys a phwysig i sefydliadau cyfrifol eu defnyddio i gynorthwyo i gwrdd ag amcanion eu busnes a'u gwasanaethau; ac, o fewn cyd-destun rheoli risg yn effeithiol, dylai eu polisïau a'u harferion rheoli'r trysorlys adlewyrchu hyn.

Mae CIPFA yn argymell bod pob sefydliad gwasanaeth cyhoeddus yn mabwysiadu, fel rhan o'u rheolau sefydlog, rheoliadau ariannol, neu ddogfennau polisi ffurfiol eraill sy'n briodol i'w hamgylchiadau, y pedwar cymal canlynol.

(1) Bydd yr Awdurdod yn creu ac yn cynnal, fel y sylfeini ar gyfer rheolaeth effeithiol o'r trysorlys

   a. **Datganiad ar y polisi rheoli trysorlys**, sy'n datgan y polisïau, yr amcanion a'r dull o reoli risg yn ei weithgareddau rheoli'r trysorlys.

   b. **Arferion Rheoli'r Trysorlys (ARhT)** addas yn nodi'r modd y bydd y sefydliad yn ceisio cyflawni'r polisïau a'r amcanion hynny, ac yn nodi sut y bydd yn trin ac yn rheoli'r gweithgareddau hynny.

   c. **Arferion rheoli buddsoddiadau (ARhB)** ar gyfer buddsoddiadau nad ydynt at ddibenion rheoli'r trysorlys

Bydd cynnwys y Datganiad Polisi, yr ARhT a'r ARhB yn dilyn yr argymhellion a gynhwysir yn Adrannau 6 a 7 o God Rheoli'r Trysorlys, yn amodol yn unig ar newid lle bo angen i adlewyrchu amgylchiadau penodol yr Awdurdod. Ni fydd newidiadau o'r fath yn golygu y bydd yr Awdurdod yn gwyro'n sylweddol oddi wrth egwyddorion allweddol y Cod.

(2) Bydd yr Awdurdod yn derbyn adroddiadau ar ei bolisïau, arferion a gweithgareddau rheoli trysorlys a rheoli buddsoddiadau, gan gynnwys, strategaeth a chynllun blynyddol cyn y flwyddyn, adroddiad adolygu ym mhob cyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio ac adroddiad blynyddol ar ôl i'r flwyddyn ddod i ben, mewn ffurf sydd wedi'i bennu gan ei ARhT ac ARhB.

(3) Mae'r Awdurdod yn dirprwyo cyfrifoldeb am weithredu a monitro ei bolisïau a'i arferion rheoli'r trysorlys yn rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio, ac am weithredu a gweinyddu penderfyniadau rheoli'r trysorlys i'r Pennaeth Cyllid a Chaffael, a fydd yn gweithredu yn unol â datganiad polisi'r sefydliad a'i ARhT ac ARhB.

(4) Mae'r Awdurdod yn enwebu'r Pwyllgor Archwilio i fod yn gyfrifol am sicrhau craffu effeithiol ar strategaeth a pholisïau rheoli trysorlys

Mae Arferion Rheoli'r Trysorlys (ARhT) fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| ARhT1 | Rheoli risg |
| ARhT2 | Mesur perfformiad |
| ARhT3 | Gwneud penderfyniadau a dadansoddi |
| ARhT4 | Offerynnau, dulliau a thechnegau cymeradwy |
| ARhT5 | Trefniadaeth, eglurdeb a gwahanu cyfrifoldebau a threfniadau delio |
| ARhT6 | Gofynion adrodd a threfniadau gwybodaeth reoli |
| ARhT7 | Trefniadau cyllidebu, cyfrifyddu ac archwilio |
| ARhT8 | Rheoli arian parod a llif arian |
| ARhT9 | Atal gwyngalchu arian |
| ARhT10 | Hyfforddiant a chymwysterau |
| ARhT11 | Defnyddio darparwyr gwasanaeth allanol |
| ARhT12 | Llywodraethu corfforaethol |

Mae atodlenni sy'n cefnogi'r arferion hyn a dogfennau eraill a gedwir ar lefel weithredol yn nodi'r systemau a'r arferion i'w defnyddio a'r cofnodion sydd i'w cadw wrth gyflawni swyddogaethau trysorlys yr Awdurdod.

**ARhT1: RHEOLI RISG**

Mae'r Awdurdod yn ystyried diogelwch y prif symiau a fuddsoddir ganddo yn un o brif amcanion ei weithgareddau rheoli trysorlys. Yn unol â hynny, bydd yn sicrhau bod gweithdrefnau diwydrwydd dyladwy cadarn yn rheoli'r holl fuddsoddiad allanol.

Bydd y Pennaeth Cyllid a Chaffael yn llunio, gweithredu a monitro'r holl drefniadau ar gyfer adnabod, trin a rheoli risgiau mewn perthynas â rheoli'r trysorlys. Bydd yn adrodd o leiaf unwaith y flwyddyn ar ddigonolrwydd/addasrwydd y trefniadau hyn, a bydd yn adrodd, fel mater brys, ynghylch amgylchiadau unrhyw anhawster sydd wedi codi, neu'n debygol o godi wrth geisio cyflawni amcanion y sefydliad yn y cyswllt hwn. Bydd yn cyflawni'r holl weithredoedd hyn yn unol â'r gweithdrefnau a restrir yn ARhT6 *Gofynion adrodd a threfniadau gwybodaeth reoli.*

Mewn perthynas â phob un o'r risgiau canlynol, mae'r trefniadau sy'n ceisio sicrhau cydymffurfiaeth â'r amcanion hyn wedi eu rhestru fel atodlenni isod.

**[1] Risg credyd a gwrthbartïon**

Y risg i wrthbarti fethu â chyflawni ei ymrwymiadau cytundebol i sefydliad dan fuddsoddiad, benthyciad, cyfalaf, arian prosiect neu bartneriaeth, yn enwedig o ganlyniad i ostyngiad yn nheilyngdod credyd y gwrthbarti, a'r effaith andwyol ar gyfalaf neu adnoddau cyfredol (refeniw) yr Awdurdod.

**Egwyddor**

Bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod ei restrau o wrthbartïon a chyfyngiadau mewn perthynas â hwy yn adlewyrchu agwedd ddarbodus tuag at sefydliadau y gallai arian gael ei adneuo neu ei fuddsoddi ynddynt, a bydd yn cyfyngu ei weithgareddau buddsoddi rheoli trysorlys i'r offerynnau, dulliau a thechnegau y cyfeirir atynt yn *ARhT4 Offerynnau, dulliau a thechnegau cymeradwy.*

Mae hefyd yn cydnabod yr angen i fod â pholisi gwrthbartïon ffurfiol yng nghyswllt y sefydliadau hynny y gall fenthyca ganddynt, neu y gall fynd i drefniadau ariannu neu eraill gyda hwy, ac felly bydd yn cynnal polisi o'r fath.

**Atodlen**

| | |
|---|---|
| Meini prawf i'w defnyddio ar gyfer creu/rheoli rhestrau gwrthbarti/trothwyon a gymeradwywyd | Y *Pennaeth Cyllid a Chaffael* sy'n gyfrifol am osod meini prawf darbodus a bydd cynghorwyr trysorlys yr Awdurdod hefyd yn darparu arweiniad a chymorth wrth osod y meini prawf.<br><br>Bydd y Pwyllgor Archwilio yn cytuno ar y meini prawf.<br><br>Mae'r meini prawf presennol wedi'u cynnwys yn Strategaeth Rheoli'r Trysorlys.<br><br>Bydd cynghorwyr rheoli trysorlys yr Awdurdod yn cynghori ar bolisi credyd a materion sy'n ymwneud â theilyngdod credyd. Bydd yr Awdurdod yn cadw rhestr o wrthbartïon yn seiliedig ar ei feini prawf credyd (a bennir o leiaf yn flynyddol) a bydd yn monitro ac yn diweddaru statws credyd y sefydliadau yn rheolaidd.<br><br>Bydd yr asesiad hwn yn cynnwys ystyried statws credyd gan y prif asiantaethau sgorio credyd fel y rhestrir isod ac asesiadau amgen eraill o gadernid credyd (er enghraifft, datganiadau o gefnogaeth bosibl gan y llywodraeth lle bo hynny'n berthnasol, mecanweithiau datrys ar gyfer sefydliadau ariannol sy'n methu, gwybodaeth CDS, cyfansoddiad rhwymedigaethau mantolen sefydliad).<br><br>Gosodir trothwyon buddsoddi trwy gyfeirio at y sgôr hirdymor isaf gan yr asiantaethau [A- ar hyn o bryd] a ffactorau perthnasol eraill, gan gynnwys cyngor allanol.<br><br>Pan fydd y wybodaeth hon ar gael, fe ddefnyddir y statws credyd sy'n berthnasol i'r buddsoddiad penodol neu'r dosbarth buddsoddi, neu fel arall fe ddefnyddir statws credyd y gwrthbartïon.<br><br>Fodd bynnag, nid yw penderfyniadau buddsoddi byth yn cael eu gwneud yn seiliedig ar statws credyd yn unig, a bydd yr holl ffactorau perthnasol eraill, gan gynnwys cyngor allanol, yn cael eu hystyried, gan gynnwys gwybodaeth ar ddatblygiadau corfforaethol a theimlad y farchnad tuag at wrthbartïon buddsoddi.<br><br>Gellir pennu terfynau amser ac arian parod uwch ar gyfer buddsoddiadau gwarantedig (e.e. y rhai sydd â gwarant cyfochrog neu sydd, drwy reoleiddio, wedi'u heithrio rhag cael cymorth 'bail-in'/ailstrwythuro pe bai trallod ariannol.)<br><br>Lle nad oes statws credyd penodol ar gyfer y buddsoddiad, ond bod statws credyd ar gyfer y gwarant cyfochrog y mae'r buddsoddiad wedi ei sicrhau arno, defnyddir yr uchaf o statws credyd y gwarantau cyfochrog a statws credyd y gwrthbarti i bennu terfynau amser ac arian parod. |

| | |
|---|---|
| Methodoleg gymeradwy ar gyfer newid trothwyon ac ychwanegu/dileu gwrthbartïon<br><br>Rheoli risg<br>(a) mae teilyngdod credyd yn dirywio islaw'r meini prawf gofynnol<br><br><br><br>(b) mae'r statws credyd yn destun adolygu ar gyfer israddio posibl | Mae'r *Pennaeth Cyllid a Chaffael* wedi dirprwyo cyfrifoldeb i ychwanegu neu ddileu gwrthbartïon ac adolygu trothwyon o fewn paramedrau y meini prawf a nodir uchod.<br><br>Lle bo statws credyd endid yn cael ei israddio fel ei fod yn methu â bodloni'r meini prawf buddsoddi gofynnol, yna:<br>- Ni wneir unrhyw fuddsoddiadau newydd,<br>- Os oes modd galw buddsoddiadau cyfredol yn ôl neu eu gwerthu heb gost, fe wneir hynny, a<br>- Rhoddir ystyriaeth fanwl i alw yn ôl neu werthu unrhyw fuddsoddiadau cyfredol eraill gyda'r gwrthbarti dan sylw<br><br>Os bydd statws credyd yn cael ei adolygu gyda golwg ar ei israddio (a elwir hefyd yn "adolygiad statws negyddol" neu "adolygiad credyd negyddol"), ac y gallai syrthio o dan y meini prawf gofynnol cymeradwy ar gyfer graddio, dim ond buddsoddiadau y gellir eu cael yn ôl ar y diwrnod gwaith nesaf a wneir gyda'r sefydliad hwnnw hyd nes bydd canlyniad yr adolygiad yn cael ei gyhoeddi.<br><br>Ni fydd y polisi hwn yn berthnasol ar gyfer 'rhagolygon negyddol' sy'n awgrymu tuedd hirdymor yn hytrach na phosibiliad o israddio sydd ar fin digwydd. |
| Manylion gwasanaethau asiantaethau sgorio credyd a sut y'u defnyddir<br><br><br>Cyfyngiadau statws credyd a gwybodaeth arall ar ddiogelwch buddsoddiadau | Mae'r Awdurdod yn ystyried sgoriau'r prif asiantaethau sgorio credyd e.e. Fitch, Moody's S&P wrth wneud penderfyniadau buddsoddi. Mae gwybodaeth asiantaeth sgorio credyd yn un o nifer o fesurau a ddefnyddir i asesu teilyngdod credyd sefydliadau.<br><br>Mae'r Awdurdod yn deall bod statws credyd yn rhagfynegydd da, ond nid perffaith, o ddiffygdalu mewn perthynas â buddsoddiad. Felly, rhoddir ystyriaeth lawn i wybodaeth arall sydd ar gael am ansawdd credyd y sefydliadau y mae'n buddsoddi ynddynt, gan gynnwys<br>- metrigau risg 'bail-in'<br>- prisiau cyfnewid diofyn credyd;<br>- datganiadau ariannol;<br>- gwybodaeth am gefnogaeth bosibl y llywodraeth / effaith 'bail-in'<br>- adroddiadau yn y wasg ariannol o ansawdd, a dadansoddiad a chyngor gan gynghorydd rheoli trysorlys yr Awdurdod.<br>Ni wneir buddsoddiadau gyda sefydliad os oes amheuon sylweddol ynghylch ansawdd ei gredyd, hyd yn oed os yw'n bodloni'r meini prawf gofynnol mewn perthynas â statws credyd. |

| | |
|---|---|
| Disgrifiad o'r dull cyffredinol o gasglu a defnyddio gwybodaeth heblaw am sgoriau credyd ar gyfer asesu risg gwrthbartïon | Mae Arlingclose, Ymgynghorydd Trysorlys yr Awdurdod, yn darparu gwybodaeth amserol am wrthbartïon o ran diweddariadau statws credyd a chrynodebau economaidd. Derbynnir gwybodaeth gyfnewid diofyn credyd bob mis, yn ogystal â gwybodaeth am brisiau cyfranddaliadau.<br><br>Mae Arlingclose hefyd yn cynnal dadansoddiad ar strwythur mantolen sefydliadau bancio allweddol i helpu i lywio'r broses o ailstrwythuro posibl (h.y. 'bail-in') rhwymedigaethau diwarant banc pe bai'r awdurdodau rheoleiddio yn gofyn am hyn.<br><br>Yn ogystal, mae'r *Pennaeth Cyllid a Chaffael* yn darllen erthyglau yn y wasg i gael gwybodaeth am wrthbartïon. |
| Rhestr lawn o wrthbartïon unigol a throthwyon gwrthbartïon. | Darperir rhestr a chyfoes o wrthbartïon bancio unigol yn seiliedig ar y meini prawf gan ymgynghorwyr y trysorlys. |
| Rhestrau o wrthbartïon fesul gwlad, sector a grŵp a'r trothwyon cyffredinol sy'n berthnasol i bob un, lle bo hynny'n briodol | Gosodir terfynau ariannol ar gyfer unrhyw un sefydliad (ac eithrio llywodraeth y DU) gan gyfeirio at gronfeydd refeniw sydd ar gael i dalu am golledion buddsoddi er mwyn lleihau'r effaith ar gronfeydd wrth gefn yn achos un diffyg.<br><br>Bydd lefel y cronfeydd refeniw wrth gefn, ac felly'r terfyn ariannol, yn cael ei adolygu o leiaf bob blwyddyn.<br><br>Bydd grŵp o endidau dan yr un berchnogaeth yn cael eu trin fel un sefydliad o ran y terfynau hyn.<br><br>Mae terfynau hefyd yn cael eu gosod ar<br>- gwledydd tramor, h.y. adneuon gyda a CDs/bondiau a roddir gan sefydliadau y tu allan i'r DU<br>- cyfanswm y symiau a fuddsoddir gydag un cwmni rheoli cronfa,<br>- buddsoddiadau mewn cyfrifon enwebeion broceriaid.<br><br>Nid yw buddsoddiadau mewn cronfeydd a gydgasglwyd a banciau datblygu amlochrog yn cyfrif yn erbyn y terfyn ar gyfer unrhyw wlad dramor unigol, gan fod y risg wedi ei rhannu ar draws nifer o wledydd. |
| Buddsoddi Cyfrifol / ESG | Nod yr Awdurdod yw bod yn fuddsoddwr cyfrifol a bydd yn ystyried materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (ESG) wrth fuddsoddi.<br><br>**Polisi ESG**: Mae ystyriaethau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (ESG) yn ffactor cynyddol wrth i fuddsoddwyr byd-eang wneud penderfyniadau, ond mae'r fframwaith ar gyfer gwerthuso cyfleoedd buddsoddi yn dal i ddatblygu ac felly nid yw polisi ESG yr Awdurdod ar hyn o bryd yn cynnwys sgoriau ESG neu feini prawf ESG amser real eraill ar lefel buddsoddiad unigol.<br><br>Wrth fuddsoddi mewn banciau a chronfeydd, bydd yr Awdurdod yn blaenoriaethu banciau sydd wedi llofnodi Egwyddorion y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Bancio Cyfrifol. |

**[2] Risg hylifedd**

Y risg na fydd arian ar gael pan fydd ei angen, bod rheolaeth aneffeithiol ar hylifedd yn creu costau ychwanegol nad oeddynt wedi'u cynnwys yn y gyllideb ac y bydd amcanion busnes/gwasanaeth yr Awdurdod gan hynny o dan anfantais.

**Egwyddor**

Bydd yr Awdurdodyn sicrhau bod ganddo ddigon, ond nid gormod, o adnoddau ariannol, trefniadau benthyca, gorddrafft neu gyfleusterau wrth gefn fel bod ganddo bob amser y lefel angenrheidiol o gyllid ar gyfer cyflawni ei amcanion busnes/gwasanaeth.

Ni fydd yr Awdurdod yn benthyca yn gynt na'r hyn sy'n ofynnol i ddiwallu anghenion llif arian oni bai bod achos busnes clir dros wneud hynny a bydd ond yn gwneud hynny ar gyfer y rhaglen gyfalaf bresennol, i gyllido dyledion a fydd yn aeddfedu yn y dyfodol neu i sicrhau lefel ddigonol o fuddsoddiadau tymor byr i ddarparu hylifedd i'r sefydliad.

**Atodlen**

| | |
|---|---|
| Manylion llif arian a balansau arian parod | Bydd yr Awdurdod yn anelu at ragweld llif arian, a monitro cronfeydd arian parod yn effeithiol, a bydd yn cynnal rhagolwg treigl llif arian parod o 12 mis o leiaf i benderfynu ar y cyfnod hiraf y gellir ymrwymo cronfeydd yn ddoeth. Mae'r rhagolygon yn cael eu llunio ar sail ddarbodus i leihau'r risg y bydd yr Awdurdod yn cael ei orfodi i fenthyca ar delerau anffafriol i gyflawni ei ymrwymiadau ariannol. |
| Symiau o falansau arian parod a buddsoddiadau tymor byr gofynnol cymeradwy | Mae balans o tua £2m i ddelio ag amrywiadau llif arian o ddydd i ddydd yn cael ei gynnal drwy fuddsoddi arian dros nos gyda bancwyr yr Awdurdod.<br><br>Mae'r Awdurdod hefyd yn defnyddio gwahanol Gyfrifon Adalw i reoli ei ofynion hylifedd. Mae'r rhain wedi'u henwi ar restr gwrthbartïon cymeradwy'r Awdurdod. Mae'r balans uchaf ar bob un o'r cyfrifon hyn yn cael ei adolygu a'i bennu fel rhan o strategaeth fuddsoddi'r Awdurdod. |
| Manylion cyfleusterau benthyca tymor byr | Mae benthyciadau dros dro hyd at flwyddyn drwy'r farchnad arian ar gael os bydd diffyg llif arian ar unrhyw adeg yn ystod y flwyddyn.<br><br>Ni fydd y cyfanswm o fenthyciadau dros dro a thymor hir ynghyd ag unrhyw orddrafft banc yn fwy na'r Dangosydd Darbodus ar gyfer y Terfyn Benthyca Awdurdodedig y cytunwyd arno gan yr Awdurdod cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. |
| Manylion trefniadau gorddrafft banc a chyfleusterau wrth gefn | Nid oes gan yr Awdurdod derfyn gorddrafft awdurdodedig gyda'i fancwyr. Codir tâl llog o 15% am bob cyfnod dros nos mae balans debyd. |

**[3] Rheoli Risg Cyfraddau Llog**:

Risg y bydd amrywiadau yn lefelau cyfraddau llog yn creu baich annisgwyl neu nas rhagwelwyd ar gyllid yr Awdurdod, ac y mae'r Awdurdod wedi methu amddiffyn ei hun yn ddigonol yn eu herbyn.

**Egwyddor**

Bydd yr Awdurdod yn rheoli pa mor agored ydyw i'r amrywiadau mewn cyfraddau llog drwy ffrwyno ei gostau llog net neu refeniw yn unol â'i bolisi a'i strategaeth rheoli trysorlys ac yn unol ag ARhT6 *Gofynion adrodd a threfniadau gwybodaeth reoli*.

Bydd yn cyflawni hyn drwy ddefnyddio'i offerynnau, ei ddulliau a'i dechnegau cymeradwy yn ddarbodus. Gwneir hyn yn bennaf er mwyn creu sefydlogrwydd a sicrwydd mewn perthynas â chostau ac arian, ond ar yr un pryd, bydd yn cynnal lefel ddigonol o hyblygrwydd i allu manteisio ar newidiadau annisgwyl, ac o bosib buddiol, yn lefel neu strwythur cyfraddau llog. Dylai hyn fod yn amodol ar ystyriaeth ac, os oes angen, cymeradwyaeth o unrhyw bolisi neu oblygiadau cyllidebol.

Bydd yr Awdurdod yn sicrhau mai dim ond ar gyfer rheoli risg a rheoli materion ariannol yn ddoeth y defnyddir unrhyw offer ymddiogelu fel deilliadau a bod y polisi ar gyfer defnyddio deilliadau yn cael ei nodi'n glir yn y strategaeth flynyddol.

**Atodlen**

| | |
|---|---|
| Cyfrannau'r ddyled cyfradd sefydlog/amrywiol | Gall benthyca/buddsoddiadau fod ar gyfradd llog sefydlog neu amrywiol.<br><br>Wrth osod ei flaen Strategaeth Trysorlys yn flynyddol, bydd yr Awdurdod yn penderfynu ar y graddau angenrheidiol o sicrwydd sydd ei angen ar gyfer ei gynlluniau cyfalaf a'i gyllidebau, ond ar yr un pryd, bydd yn caniatáu digon o hyblygrwydd i'w alluogi i elwa o newidiadau a allai fod yn fanteisiol yng nghyflwr y farchnad.<br><br>Mae gostyngiad mewn cyfraddau llog yn fuddiol ar gyfer dyledion cyfradd amrywiadwy a benthyca tymor byr y mae angen ei ailgyllido, ond nid ar gyfer buddsoddiadau cyfradd amrywiadwy.<br><br>I'r gwrthwyneb, mae cynnydd mewn cyfraddau llog yn fuddiol ar gyfer buddsoddiadau tymor byr y gellir eu hailfuddsoddi ar gyfraddau uwch ond bydd yn gost ar gyfer benthyca cyfradd amrywiadwy neu fenthyciadau tymor byr y mae angen eu hail-gyllido.<br><br>Mae'r Awdurdod yn gosod dangosydd Risg Cyfraddau Llog fel rhan o'i Strategaeth Rheoli'r Trysorlys i reoli pa mor agored ydyw i risg cyfraddau llog. Mae hyn yn cael ei osod fel<br><br>(a) Terfyn uchaf ar effaith refeniw blwyddyn o gynnydd o 1% mewn cyfraddau llog a (b) Terfyn uchaf ar effaith refeniw blwyddyn o ostyngiad o 1% mewn cyfraddau llog.<br><br>Nid yw'r dangosydd Risg Cyfraddau Llog yn orfodol, ond mae'r CIPFA yn annog ei ddefnydd. Mae'r dangosydd uchod yn cyfateb i'r un yn nodiadau datgelu'r datganiad o gyfrifon. |

| | |
|---|---|
| Canllawiau ar gyfer rheoli newidiadau i lefelau cyfraddau llog | Mae prif effaith newidiadau mewn lefelau cyfraddau llog ar arian sydd wedi'i fenthyg a'i fuddsoddi ar gyfraddau llog amrywiiadwy.<br><br>Bydd yr Awdurdod yn ystyried cyfateb lefel y benthyca ar gyfraddau amrywiol gyda buddsoddiadau sy'n agored i'r un newidiadau mewn cyfraddau llog fel ffordd o liniaru unrhyw effaith gyllidebol anffafriol.<br><br>Mae rhagolygon cyfraddau llog yn cael eu darparu gan Ymgynghorwyr yr Awdurdod ac yn cael eu monitro'n agos gan y *Pennaeth Cyllid a Chaffael*. Mae amrywiadau o amcangyfrifon gwreiddiol a'u heffaith ar ddyled a buddsoddiadau'r Awdurdod yn cael eu hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio yn ôl yr angen.<br><br>Fel arall, gall yr Awdurdod ystyried benthyciadau sy'n cychwyn yn hwyrach lle cytunir ar y gyfradd llog a'i phennu ymlaen llaw ond derbynnir yr arian yn ddiweddarach. Byddai hyn yn galluogi cyflawni sicrwydd cost heb ddioddef y 'gost gludo' yn y cyfamser. Fodd bynnag, mae perygl y gallai cyfraddau llog ostwng yn y cyfamser, ond mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i dderbyn y benthyciad y cytunwyd arno ymlaen llaw ar y dyddiad perthnasol ar y gyfradd uwch.<br><br>Ar gyfer ei fuddsoddiadau, efallai y bydd yr Awdurdod yn ystyried delio o flaen gyfnodau yn dibynnu ar amodau'r farchnad. Bydd terfynau tymor gwrthbartïon yr Awdurdod yn berthnasol a byddant yn cynnwys blaen gyfnod y buddsoddiad. Fodd bynnag, mae risgiau (i) y gall cyfraddau llog godi yn y cyfamser a/neu (ii) bod teilyngdod credyd y benthyciwr wedi dirywio yn ystod y blaen gyfnod, ond mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i fenthyca arian y cytunwyd arno ymlaen llaw i'r gwrthbarti ar y dyddiad perthnasol. |
| Polisïau sy'n ymwneud â defnyddio deilliadau ariannol ar gyfer rheoli risg cyfraddau llog | Ni fydd yr Awdurdod yn defnyddio deilliadau ariannol annibynnol, fel cyfnewidiadau, rhagolygon, blaendrafodion ac opsiynau.<br><br>Gellir defnyddio deilliadau wedi eu hymgorffori mewn benthyciadau a buddsoddiadau, gan gynnwys cronfeydd cyfun a thrafodion tua'r dyfodol, a bydd y risgiau y maent yn eu cyflwyno yn cael eu rheoli yn unol â'r strategaeth gyffredinol ar gyfer rheoli risg trysorlys. |
| Cyfraddau llog negyddol | Os bydd amodau economaidd yn golygu bod Banc Lloegr yn gosod Cyfradd y Banc ar neu islaw sero, mae hyn yn debygol o fwydo i gyfraddau negyddol ar fuddsoddiadau risg isel tymor byr. Mewn achos o'r fath, caiff diogelwch ei fesur fel derbyn y swm y cytunwyd arno'n gytundebol yng nghyfnod ei aeddfedrwydd, er y gallai hyn fod yn llai na'r swm a fuddsoddwyd yn wreiddiol. |

**[4] Rheoli'r Risg sydd ynghlwm wrth y Gyfradd Gyfnewid**

Risg y bydd amrywiadau yng nghyfraddau cyfnewid tramor yn creu baich annisgwyl neu baich nas rhagwelwyd ar gyllid yr Awdurdod, ac y mae'r Awdurdod wedi methu amddiffyn ei hun yn ddigonol yn eu herbyn.

**Egwyddor**

Bydd yr Awdurdod yn rheoli pa mor agored ydyw i amrywiadau yn y cyfraddau cyfnewid er mwyn lleihau unrhyw effaith niweidiol ar y lefelau incwm/gwariant y cyllidebwyd ar eu cyfer.

**Atodlen**

| | |
|---|---|
| Manylion terfynau amlygiad i gyfraddau cyfnewid cymeradwy ar gyfer buddsoddiadau arian parod/dyled | Nid yw'r Awdurdod hwn, o ddydd i ddydd, yn cynnal trafodion neu dderbyniadau arian cyfred tramor. Bydd unrhyw arian cyfred tramor a delir i'r Awdurdod yn cael ei newid i sterling cyn gynted ag y bo modd.<br><br>Os oes gan yr Awdurdod rwymedigaeth gytundebol i wneud taliad mewn arian cyfred heblaw sterling, yna bydd blaen drafodion cyfnewid tramor yn cael eu hystyried a cheisir cyngor proffesiynol.<br><br>Nid yw'r Awdurdod yn benthyca arian cyfred heblaw sterling. Mae'r Awdurdod hefyd wedi penderfynu y bydd ei holl fuddsoddiadau mewn sterling. |

**[5] Rheoli Risg Chwyddiant**

Risg chwyddiant, a elwir hefyd yn risg pŵer prynu, yw'r siawns na fydd y llifoedd arian o offerynnau'r trysorlys werth cymaint yn y dyfodol oherwydd newidiadau mewn pŵer prynu oherwydd chwyddiant.

**Egwyddor**

Bydd yr Awdurdod yn parhau i adolygu sensitifrwydd asedau a rhwymedigaethau ei drysorlys i chwyddiant a bydd yn ceisio rheoli'r risg yn unol â hynny yng nghyd-destun pa mor agored i chwyddiant yw'r Awdurdod cyfan.

| | |
|---|---|
| Buddsoddiadau dros flwyddyn | Nid yw'r Awdurdod, o dan amgylchiadau arferol, yn buddsoddi am fwy na blwyddyn.<br>Fodd bynnag, lle y disgwylir buddsoddi balansau am fwy na blwyddyn, bydd yr Awdurdod yn anelu i sicrhau cyfanswm elw sy'n gydradd â'r gyfradd chwyddiant gyffredinol neu'n uwch na hynny (o fewn rheswm ac heb gymryd risg diangen) er mwyn cynnal pŵer gwario'r swm a fuddsoddwyd. |

| | |
|---|---|
| Rhwymedigaethau cytundebol sy'n gysylltiedig â chwyddiant | Bydd yr Awdurdod yn nodi'r holl rwymedigaethau cytundebol sy'n gysylltiedig â chwyddiant, boed yn dderbynebau neu'n daliadau, mewn perthynas ag asedau a rhwymedigaethau ei drysorlys ac yn adolygu'n rheolaidd effaith ariannol cynydd/gostyngiad o <+/- 1%> mewn chwyddiant o'r lefelau presennol.<br><br>Y rhwymedigaethau sylweddol a nodwyd ar hyn o bryd yw:<br>Benthyciadau byrdymor<br>Benthyciadau PWLB<br>Adneuon DMO<br>Adneuon banc |

**[6] Rheoli Risg Ailgyllido**

Y risg na ellir ailgyllido benthyciadau sy'n aeddfedu, cyfalaf, prosiectau neu bartneriaethau ar delerau sy'n adlewyrchu'r darpariaethau a wnaed gan yr Awdurdod ar gyfer yr ailgyllido, cyfalaf a chyfredol (refeniw) ill dau, a/neu fod y telerau'n anghyson â chyflwr cyffredinol y farchnad ar y pryd.

**Egwyddor**

Bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod ei fenthyciadau a rhwymedigaethau eraill hirdymor yn cael eu trafod, eu strwythuro a'u dogfennu. Bydd hefyd yn sicrhau bod proffil aeddfedu'r arian a godir felly yn cael ei reoli, gyda golwg ar sicrhau telerau cynnig ar gyfer adnewyddu neu ailgyllido os bydd angen, sydd yn gystadleuol ac mor ffafriol i'r Awdurdod ag y gellir yn rhesymol ei ddisgwyl o ystyried amodau'r farchnad ar y pryd.

Bydd yn ymroi i reoli ei berthynas â'i wrthbartïon yn y trafodion hyn mewn modd sy'n sicrhau ei fod yn cyflawni'r amcan hwn, a bydd hefyd yn osgoi gorddibyniaeth ar unrhyw un ffynhonnell ariannu os oes perygl y gallai hynny beryglu ei allu i gyflawni'r uchod.

**Atodlen**

| | |
|---|---|
| Y gofynion ariannu cyfalaf a ragwelir | Mae rhagamcanion tair blynedd ar waith ar gyfer gwariant cyfalaf a'r modd y caiff ei ariannu neu ei gyllido. Bydd yr arian yn dod o dderbyniadau cyfalaf, cronfeydd wrth gefn ac unrhyw grantiau neu gyfraniadau a ddyfernir, adnoddau refeniw neu gronfeydd wrth gefn. Bydd y cyllid yn dod o fenthyca mewnol neu allanol, fel y penderfynwyd.<br><br>Fel sy'n ofynnol gan y Cod Darbodus, bydd yr Awdurdod yn cynnal Arfarniad Opsiynau i werthuso'r dull gorau o gyllido gwariant cyfalaf. |

| | |
|---|---|
| Proffilio, polisïau ac arferion aeddfedrwydd dyled/ariannu cyfalaf<br><br>Meincnod Rhwymedigaeth | Bydd yr Awdurdod yn cadw trwy ei system drysorlys, Logotech, gofnodion dibynadwy o delerau a chyfnod aeddfedu ei fenthyciadau, cyfalaf, cyllid prosiect a phartneriaeth a, lle bo'n briodol, yn cynllunio ac yn llwyddo i drafod telerau ar gyfer ei ofynion ailgyllido.<br><br>I gynorthwyo gyda phenderfyniadau benthyca hirdymor, mae'r Awdurdod yn creu, gyda chyngor a chymorth ei ymgynghorydd trysorlys, '**Meincnod Rhwymedigaeth'** sef y lefel risg isaf o fenthyca. Mae'r Meincnod Rwymedigaeth yn arf pwysig sy'n ystyried benthyciadau sy'n aeddfedu, ac sy'n cynrychioli amcangyfrif o swm cronnol y benthyca allanol y mae'n rhaid i'r Awdurdod ei gynnal er mwyn ariannu ei gynlluniau cyfalaf a refeniw presennol, gan gadw buddsoddiadau'r trysorlys ar y lefel isaf sy'n ofynnol i reoli llif arian o ddydd i ddydd.<br><br>Mae'r Meincnod Rwymedigaeth yn cael ei gynrychioli fel graff yn y strategaeth rheoli trysorlys flynyddol. Bydd yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd drwy'r flwyddyn gan yr Awdurdod ar y cyd a'r ymgynghorwyr rheoli trysorlys gyda datblygiadau a/neu newidiadau amseru yn y rhaglen gyfalaf yn ogystal â newidiadau i adnoddau ar y fantolen.<br><br>Yn seiliedig ar allbwn y Meincnod Rhwymedigaeth a rhagolygon yr Awdurdod ar gyfraddau llog, bydd unrhyw fenthyca tymor hwy yn cael ei wneud yn unol â'r Cod a byddant yn cydymffurfio â Dangosyddion Darbodus yr Awdurdod a'r Strategaeth Reoli Trysorlys Flynyddol.<br><br>Bydd osgoi cael sawl benthyciad yn aeddfedu mewn un flwyddyn ariannol neu dros unrhyw gyfnod o 2-3 blynedd yn lleihau'r risg o orfod ailgyllido ar adeg pan fo cyfraddau llog yn anffafriol i'r Awdurdod. |
| Benthyca gan fenthycwyr masnachol | Pan fo benthycwyr i'r Awdurdod yn gyrff masnachol, bydd yr Awdurdod yn anelu at arallgyfeirio er mwyn lledaenu risg ac osgoi gorddibynnu ar nifer fach o wrthbartïon. |

**[7] Rheoli Risgiau Cyfreithiol a Rheoleiddiol**

Y risg bod yr Awdurdod ei hun, neu sefydliad y mae'n ymdrin ag ef fel rhan o'i weithgareddau rheoli trysorlys, yn methu â gweithredu yn unol â'i bwerau cyfreithiol neu ofynion rheoleiddiol, a bod yr Awdurdod yn dioddef colledion o ganlyniad i hynny.

**Egwyddor**

Bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod ei holl weithgareddau rheoli trysorlys yn cydymffurfio â'i bwerau statudol a'i ofynion rheoleiddio. Bydd yn dangos cydymffurfiaeth o'r fath, os oes angen, i bob parti y mae'n delio â hwy mewn gweithgareddau o'r fath. Wrth lunio ei bolisi credyd a gwrthbartïon dan ARhT[1] *Rheoli risg credyd a gwrthbartïon*, bydd yn sicrhau bod tystiolaeth o bwerau, awdurdod a chydymffurfiad gwrthbartïon mewn perthynas ag unrhyw drafodion gyda'r Awdurdod, yn enwedig mewn perthynas â dyletswydd gofal a'r ffioedd a godir.

Mae'r Awdurdod yn cydnabod y gall newidiadau cyfreithiol a rheoleiddiol yn y dyfodol gael effaith ar ei weithgareddau rheoli trysorlys a bydd yn ceisio, cymaint ag sy'n rhesymol, lleihau'r risg bod y rhain yn cael effaith andwyol ar y sefydliad.

**Atodlen**

| | |
|---|---|
| Cyfeiriadau at statud, rheoliadau, canllawiau statudol a chodau ymarfer cydnabyddedig | Bydd gweithgareddau rheoli trysorlys yr Awdurdod yn cydymffurfio'n llawn â statud a rheoliadau ac yn ystyried canllawiau statudol a Chodau Ymarfer cydnabyddedig. Sef:<br><br>▪ Deddf Llywodraeth Leol 2003<br>▪ Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (mewn perthynas â phŵer cymwysedd cyffredinol)<br>▪ Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003 a gwelliannau a wnaed wedyn<br>▪ Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Contractio Allan o Swyddogaethau Buddsoddi) 1996 a gwelliannau a wnaed wedyn<br>▪ Llywodraeth Cymru Canllawiau Statudol ar Fuddsoddiadau Llywodraeth Leol (Argraffiad 2019)<br>▪ CIPFA Rheoli'r Trysorlys yn y Gwasanaethau Cyhoeddus: Cod Ymarfer a Chanllawiau Traws-sectoraidd (Argraffiad 2021) a Canllawiau ar gyfer Awdurdodau Lleol<br>▪ CIPFA Y Cod Darbodus ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol (Argraffiad 2021) a Canllawiau i Ymarferwyr<br>▪ Bwletinau CIPFA perthnasol<br>▪ Banc Lloegr Cod Marchnadoedd Arian (Argraffiad 2021) a ENodiadau esboniadol |
| Cyfeiriadau at rannau perthnasol o gyfansoddiad yr Awdurdod | ▪ Rheolau Gweithdrefn Contractau a gyhoeddir ar wefan ATAGC– adran ariannol<br>▪ Rheoliadau Ariannol a gyhoeddir ar wefan ATAGC – adran ariannol<br>▪ Cynllun Dirprwyo Ariannol y Gwasanaeth – cyhoeddwyd ar y fewnrwyd – Adran Llywodraethiant |

| | |
|---|---|
| Gweithdrefnau ar gyfer dangos tystiolaeth o bwerau/awdurdod y sefydliad i wrthbartïon | Er mwyn osgoi'r posibilrwydd o ddelio anghyfreithlon neu afreolaidd yn ei weithgareddau rheoli trysorlys, bydd yr Awdurdod yn cynnal ac yn sicrhau bod cofnodion cyfoes o'i bwerau a'r drefn reoleiddiol y mae gweithgareddau rheoli trysorlys yn cael eu cynnal oddi tani.<br><br>Mae Rheoliadau Ariannol yr Awdurdod yn cynnwys tystiolaeth o'r pŵer/awdurdod i weithredu fel sy'n ofynnol gan adran 151 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, o dan gyfarwyddyd cyffredinol yr Awdurdod Tân ac Achub.<br><br>Bydd yr Awdurdod yn cadarnhau, os gofynnir iddo wneud hynny gan wrthbartïon, y pwerau a'r awdurdod y mae'r Awdurdod yn ymgymryd â thrafodion gyda nhw oddi tanynt.<br><br>Lle bo angen, bydd yr Awdurdod hefyd yn sefydlu pwerau'r rhai y maent yn gwneud trafodion â hwy, gan gynnwys unrhyw ofynion cydymffurfio mewn perthynas â dyletswydd gofal ac arfer gorau. |
| Cyfarwyddeb Marchnadoedd mewn Offerynnau Ariannol II (MiFID II) wedi newid | Mae'r Awdurdod wedi cadw statws cleient manwerthu gyda'i ddarparwyr gwasanaethau ariannol, gan gynnwys ymgynghorwyr, banciau a broceriaid, gan ganiatáu iddo gael mynediad at ystod lai o wasanaethau ond heb y diogelwch rheoleiddiol mwy a roddir i unigolion a chwmnïau bach.<br><br>O ystyried maint ac ystod gweithgareddau rheoli trysorlys yr Awdurdod, mae'r Prif Swyddog Ariannol o'r farn mai dyma'r statws mwyaf priodol. |
| Trywydd adrodd ac archwilio | Er mwyn dangos ei fod yn agored ac yn atebol ac i leihau'r risg o gael ei herio ynghylch a oedd yr Awdurdod yn dilyn y prosesau dyladwy, bydd yr Awdurdod yn cynnal trywydd archwilio o benderfyniadau a thrafodion rheoli trysorlys.<br><br>Mae hyn nid yn unig yn cyd-fynd â thryloywder ar broses gwneud penderfyniadau'r Awdurdod ac asesu effeithiolrwydd penderfyniadau rheoli trysorlys, mae hefyd yn helpu os daw yn angenrheidiol i ddangos cyfreithlondeb neu gywirdeb trafodion. |
| Datganiad ar risgiau gwleidyddol y sefydliad a rheoli'r risgiau hyn | Rheolir risgiau gwleidyddol trwy:<br>• gadw at Lywodraethu Corfforaethol (ARhT12 *Llywodraethu Corfforaethol*)<br>• rôl yr Awdurdod Tân ac Achub. |

**[8] Risgiau gweithredol, gan gynnwys twyll, camgymeriad a llygredd**

Y risg o golled uniongyrchol neu anuniongyrchol sy'n deillio o brosesau, pobl a systemau mewnol annigonol neu rai sydd wedi methu, neu o ddigwyddiadau allanol. Mae hyn yn cynnwys y risg o dwyll, camgymeriad, llygredd neu bosibiliadau eraill yn nhrefniadau rheoli trysorlys.

**Egwyddor**

Bydd yr Awdurdod yn sicrhau ei fod wedi nodi'r amgylchiadau a allai ei adael yn agored i'r risg sy'n deillio o brosesau, pobl a systemau mewnol annigonol neu rai sydd wedi methu, neu o ddigwyddiadau allanol. Yn unol â hynny, bydd yn defnyddio systemau a gweithdrefnau addas, a bydd yn cynnal trefniadau rheoli wrth gefn effeithiol, i'r dibenion hyn.

**Atodlen**

<table>
<tr><td>Manylion systemau a gweithdrefnau i'w dilyn, gan gynnwys gwasanaethau Rhyngrwyd</td><td>Mae gwahanu dyletswyddau yn lleihau'r posibilrwydd o dwyll a cholled oherwydd gwall, ac fe'i nodir yng Nghynllun Dirprwyo'r Adran.<br><br>1. Bancio a Delio Electronig<br><br>(a) Mae gwasanaeth bancio ar-lein yr Awdurdod a ddarperir gan Fanc Barclays yn defnyddio systemau mewngofnodi ar wahân a rheoli cyfrineiriau sy'n caniatáu lefelau gwahanol o fynediad. Mae manylion trafodion a balansau ar gael yn ôl yr angen, ac mae'r system hefyd yn cadw data hanesyddol. Mae swyddogion sydd â mynediad at system ar-lein y banc fel a ganlyn:<br>• Pennaeth Cyllid & Chaffael<br>• Dirprwy Bennaeth Cyllid a Chaffael<br>• Uwch Swyddog Cyllid – Cyfrifyddu Ariannol<br><br>Mae mynediad swyddogion yn cael ei adolygu o leiaf 6 mis neu yn ôl yr angen.<br><br>(b) Mae mynediad i system rheoli trysorlys yr Awdurdod, Logotech wedi'i gyfyngu i'r swyddogion hynny a restrir isod, pob un â manylion mewngofnodi a chyfrinair ar wahân.<br>• Pennaeth Cyllid & Chaffael<br>• Uwch Swyddog Cyllid – Cyfrifyddu Ariannol<br><br>Mae'r rhain hefyd yn cael eu hadolygu o leiaf 6 mis neu yn ôl yr angen.<br><br>Darperir hyfforddiant ar weithrediad y system bancio ar-lein o ddydd i ddydd i staff newydd. Mae llawlyfr proses mewn perthynas â'r system rheoli trysorlys ar gael ar y gyriant a rennir.<br><br>2. Cyfarwyddiadau Setliad Safonol (SSI): Y swyddogion a enwir sydd â'r awdurdod i drafod ar gyfer benthyciadau a buddsoddiadau yw:<br>• Y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau);<br>• Pennaeth Cyllid a Chaffael ;<br>• Dirprwy Bennaeth Cyllid a Chaffael ;</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | 3. <u>Awdurdodi Taliadau</u>:<br><br>• Dim ond llofnodwr/llofnodwyr cytunedig yr Awdurdod sy'n gallu awdurdodi taliadau, ac mae'r rhestr o lofnodwyr wedi eu cytuno â banc yr Awdurdod yn flaenorol.<br>• Bydd mewnlifoedd ac all-lifoedd arian a fenthyciwyd ac a fuddsoddwyd yn dod o gyfrifon banc y gwrthbartï yn unig.<br>• Mae'r Uwch Swyddog Cyllid yn cwblhau'r gweithgareddau rheoli trysorlys o ddydd i ddydd, o dan oruchwyliaeth y Pennaeth a'r Dirprwy Bennaeth Cyllid a Chaffael. Ni gymerir unrhyw gamau heb awdurdod y swyddogion goruchwylio. Mae trosglwyddo arian a adneuwyd yn cael ei fewnbynnu a'i gymeradwyo, ar borth y banc gan swyddogion ar wahân. |
| Gwirio | Bydd benthyciadau a buddsoddiadau yn cael eu cynnal yn y system rheoli trysorlys a fydd yn cynnwys y ffioedd a'r broceriaeth a delir.<br><br>Bydd trafodion yn cael eu croeswirio yn erbyn nodiadau brocer /nodiadau cadarnhau gan wrthbartïon / nodiadau contract / cofnodion cadarnhau benthyciadau PWLB trwy wirio dyddiadau, symiau, cyfraddau llog, adeg aeddfedu, dyddiadau talu llog, ac ati.<br><br>Wrth dderbyn ceisiadau am **newid manylion talu**, bydd gofal dyladwy yn cael ei arfer i sicrhau bod y cais yn un bona fide ac osgoi twyll posibl. Bydd gwiriadau ychwanegol yn cael eu gwneud drwy fanylion cyswllt sy'n bodoli eisoes ar gyfer y talai cyn diwygio manylion talu. |
| Cadarnhad | 1. Mae balansau y system Rheoli Trysorlys yn cael eu cysoni â chodau cyfriflyfr ariannol ar ddiwedd pob mis ac ar ddiwedd y flwyddyn ariannol<br><br>2. Cedwir papurau gwaith er dibenion archwilio<br><br>3. Caiff cysoniadau banc eu cynnal o leiaf yn wythnosol o'r datganiad banc i'r cyfriflyfr ariannol, drwy'r system ariannol. |
| Archwilio Mewnol | Mae Archwilio Mewnol yn cynnal adolygiad o'r swyddogaeth rheoli trysorlys fel rhan o'u harchwiliad o'r system ariannol. |

| | |
|---|---|
| Trefniadau cynllunio brys ac wrth gefn | 1. Mae'r system trysorlys yn seiliedig ar y cwmwl<br>2. Mae taenlenni yn cael eu cynnal gyda gwybodaeth trysorlys, rhag ofn y bydd y system yn methu dros dro.<br>3. Cyfleuster gweithio oddi ar y safle dros dro: Y swyddogion sy'n gallu manteisio ar y cyfleuster hwn yn dilyn argyfwng yw'r Pennaeth Cyllid a Chaffael ac Uwch Swyddog (Cyfrifyddu Ariannol) a fydd yn cael gwybod yn unigol am y gweithdrefnau i'w dilyn.<br>4. Methiant y System Bancio Electronig: cytunwyd ar drefniadau brys gyda banc yr Awdurdod ar gyfer cael manylion balans a gwybodaeth am fewnlifoedd/all-lifoedd arian, dros y ffôn. Bydd y banc hefyd yn cefnogi o ran gwneud taliadau critigol, trwy hysbysu'r Cyfarwyddwr Perthynas.<br>5. Mae'r Cynllun Parhad Busnes yn cael ei gynnal gan y Pennaeth Cyllid a Chaffael a'i gadw ar y gyriant Cyllid a rennir. Gofynnwyd i staff gadw copïau printiedig er mwyn cyfeirio atynt. |
| Manylion yswiriant: | Mae gan yr Awdurdod yswiriant Indemniad Swyddogion. Mae manylion y darparwr a'r yswiriant yn cael eu cadw gan y DPO. |

**[9] Rheoli Risgiau Prisiau:** Y risg, oherwydd amrywiadau marchnad anffafriol yng ngwerth y prif symiau y mae'r Awdurdod yn eu benthyca a'u buddsoddi, bod ei bolisïau ac amcanion rheoli trysorlys datganedig dan fygythiad, a'i fod heb ddiogelu ei hun yn ddigonol yn erbyn effeithiau hynny.

**Egwyddor**

Bydd yr Awdurdod yn ceisio sicrhau na fydd ei bolisïau na'i amcanion rheoli trysorlys datganiedig yn cael eu peryglu gan amrywiadau marchnad anffafriol yng ngwerth y prif symiau a fuddsoddir ganddo, a bydd drwy hynny yn ceisio diogelu ei hun rhag effeithiau'r fath amrywiadau.

**Atodlen**

| | |
|---|---|
| *Manylion y gweithdrefnau a therfynau a gymeradwywyd ar gyfer rheoli risg i fuddsoddiadau y gall eu gwerth cyfalaf amrywio* | Mae offerynnau buddsoddi a ddefnyddir gan reolwyr cronfeydd allanol (er enghraifft CDs, bondiau neu gronfeydd sy'n buddsoddi mewn ecwitïau/bondiau/eiddo ac ati) yn destun amrywiadau mewn symudiadau cyfalaf ac yn agored i risg o ran cyfraddau llog. Er mwyn lleihau'r risgiau hyn, cynnal cyfalaf yw'r y prif amcan a dylai mynd ar drywydd perfformiad buddsoddi fod yn gymesur â'r amcan hwn.<br><br>Gall yr Awdurdod ystyried buddsoddi mewn Cronfeydd Cyfun gyda Gwerth Asedau Net Amrywiol (VNAV), fel y bo'n briodol, yn unol â'i strategaeth trysorlys ac ar gyngor ei ymgynghorwyr trysorlys. |

| | |
|---|---|
| | Bydd gwerth y cronfeydd cyfun yn newid yn unol â phrisiau'r farchnad ac, mewn rhai achosion, efallai y bydd hefyd gyfnod rhybudd cyn adbrynu. Felly bydd cronfeydd o'r fath yn cael eu defnyddio am gyfnodau buddsoddi hirach. Bydd y terfynau fesul cronfa/dosbarth asedau fel y pennir yn strategaeth fuddsoddi flynyddol yr Awdurdod. |
| *Cyfrifo am enillion/colledion nas gwireddwyd* | Mae gorddrafft statudol ar waith tan fis Mawrth 2023 ar gyfer enillion a cholledion gwerth teg ar y rhan fwyaf o gronfeydd buddsoddi cyfun na ddylid eu cymryd i refeniw (rheoliad ariannu cyfalaf 24K).<br><br>Mae'r rheoliad yn ei gwneud yn ofynnol i enillion a cholledion gwerth teg ar gronfeydd buddsoddi cyfun gael eu cymryd i gronfa wrth gefn na ellir ei defnyddio, Cyfrif Addasu Cronfa Buddsoddi Cyfun, ac eithrio'r rhai:<br>• a ddelir ar ran cronfa bensiwn neu gronfa ymddiriedolaeth,<br>• sy'n cael eu hystyried yn wariant cyfalaf,<br>• nad ydynt yn gronfeydd UCITS nac yn cael eu cymeradwyo gan Drysorlys EF i'w defnyddio gan awdurdodau lleol,<br>• sydd wedi eu mesur ar werth teg drwy anfoneb gynhwysfawr arall (FVOCI), neu<br>• sydd wedi'u hadbrynu,, eu gwerthu neu eu gwaredu fel arall.<br><br>Nid yw'r Awdurdod, o dan amgylchiadau arferol, yn buddsoddi mewn cronfeydd cyfun. |

**ARhT2: MESUR PERFFORMIAD**

**Egwyddor**

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i geisio sicrhau gwerth am arian yn ei weithgareddau rheoli'r trysorlys, ac i ddefnyddio methodoleg perfformiad i gynnal y nod hwnnw, o fewn y fframwaith a nodir yn ei ddatganiad polisi rheoli'r trysorlys.

O ganlyniad, bydd swyddogaeth rheoli'r trysorlys yn destun dadansoddiad parhaus o'r gwerth y mae'n ei ychwanegu o ran ategu amcanion busnes a gwasanaeth datganedig yr Awdurdod. Bydd hefyd yn destun archwilio rheolaidd o ran dulliau eraill o ddarparu gwasanaethau, neu argaeledd cymhellion megis grantiau ariannol neu gymorthdaliadau eraill, a'r cyfleoedd ar gyfer gwelliannau posib eraill.

Bydd perfformiad swyddogaeth rheoli'r trysorlys yn cael ei fesur gan ddefnyddio'r meini prawf a nodir isod: Bydd y meini prawf yn cynnwys mesurau rheoli risg effeithiol y trysorlys ac nid yn unig mesurau perfformiad ariannol (incwm neu arbedion).

**Atodlen**

| | |
|---|---|
| Polisi ynghylch dulliau o brofi gwerth am arian | Bydd adolygiadau gwerth gorau yn cynnwys cynhyrchu cynlluniau i adolygu'r ffordd y caiff gwasanaethau eu darparu trwy:<br><br>▪ Herio<br>▪ Cymharu perfformiad<br>▪ Ymgynghori â defnyddwyr eraill a phartïon sydd â diddordeb<br>▪ Cymhwyso egwyddorion cystadlu<br><br>Er mwyn mynd ar drywydd gwelliant parhaus yn y ffordd y caiff swyddogaethau'r Awdurdod eu harfer, gan ystyried cyfuniad o werth am arian, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. |

| | |
|---|---|
| Polisi ynghylch dulliau o fesur perfformiad | • Bwriad mesur perfformiad yn yr Awdurdod yw cyfrifo effeithiolrwydd gweithgarwch y trysorlys wrth gyflawni'r amcanion strategol a osodir drwy'r Strategaeth Rheoli Trysorlys a Dangosyddion Darbodus yr Awdurdod ac i wella atebolrwydd.<br>• Mae Dangosyddion Darbodus yn benodol i'r Awdurdod ac ni fwriedir iddynt fod yn gymharydd rhwng awdurdodau.<br>• Bydd yr adolygiad perfformiad yn cael ei wneud yng ngoleuni tueddiadau cyffredinol mewn cyfraddau llog yn ystod y flwyddyn a sut roedd y penderfyniadau a wnaed yn cyfateb i'r tueddiadau hyn a strategaeth gytunedig yr Awdurdod (h.y. bydd yr Awdurdod yn osgoi dadansoddiad sy'n edrych yn ôl).<br><br>Bwriad unrhyw gymhariaeth o bortffolio trysorlys yr Awdurdod yn erbyn safonau cydnabyddedig y diwydiant, mynegeion y farchnad a phortffolio eraill yw:<br>(i) rhoi cyfle i'r Awdurdod asesu'r potensial i ychwanegu gwerth drwy newidiadau i'r ffyrdd presennol y caiff ei bortffolio ei reoli, a<br>(ii) caniatáu dyfarniad gwybodus am rinweddau neu anfanteision defnyddio technegau neu offerynnau rheoli trysorlys newydd.<br><br>Wrth ddod i unrhyw gasgliadau, bydd yr Awdurdod yn cadw mewn cof y gallai nodweddion gweithrediadau ei drysorlys fod yn wahanol i rai Cynghorau, yn enwedig o ran rheoli risg yn effeithiol. |
| Methodoleg ar gyfer gwerthuso effaith penderfyniadau rheoli'r trysorlys | Ar hyn o bryd nid oes dangosyddion darbodus wedi'u gosod yn lleol mewn perthynas â mesur rheoli trysorlys. Mae'r adrodd yn digwydd yn erbyn y dangosyddion darbodus statudol.<br><br>Bydd monitro canlyniad gweithgarwch rheoli trysorlys yn erbyn Dangosyddion Darbodus a gymeradwywyd gan yr Awdurdod yn cael ei gynnal fel rhan o adroddiadau rheoli trysorlys i'r Pwyllgor Archwilio ym mhob cyfarfod.<br><br>Bydd yr Adroddiadau Trysorlys hefyd yn cynnwys, fel mater o drefn, yr alldro yn erbyn y dangosyddion darbodus a osodwyd cyn dechrau'r flwyddyn ariannol ac unrhyw newidiadau a wnaed yn ystod y flwyddyn.<br><br>Gan fod gweithgareddau trysorlys yr Awdurdod yn gyffredinol yn cynnwys benthyca ar wahanol adegau, byddant yn mesur perfformiad y portffolios benthyca a buddsoddi yn unigol yn ogystal ag ar sail trysorlys net. Os yw'n fenthyciwr net, bydd hyn yn gostau benthyca net o incwm buddsoddi'r trysorlys gan defnyddio'r gyfradd gyfartalog.<br><br>Mae'r Awdurdod yn cymryd rhan ym meincnodi buddsoddi chwarterol yr Ymgynghorydd Rheoli Trysorlys ac o bryd i'w gilydd, meincnodi eraill megis ar gyfer y Fantolen a Dyled. |

| | |
|---|---|
| Dulliau i'w defnyddio i fesur perfformiad gweithgareddau rheoli trysorlys yr Awdurdod | Mae'r gweithgarwch rheoli trysorlys yn cael ei adolygu'n chwarterol yn erbyn y strategaeth ac amodau economaidd a marchnad cyffredinol drwy'r adroddiad Rheoli Trysorlys i'r Pwyllgor Archwilio.<br><br>Gellir gweld enghreifftiau o fesurau perfformiad drwy gyrchu'r adroddiadau yn [Awdurdod Tân ac Achub - Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (llyw.cymru)](#) |
| Meincnodau a methodoleg cyfrifo mewn perthynas â risg ac adenillion: rheoli dyledion a buddsoddi | Dylai pob meincnodi ystyried risg yn ogystal ag adenillion/cost.<br><br>**Costau Rheoli Trysorlys**<br>Nid oes unrhyw gostau Rheoli Trysorlys ar wahân i'r Gwasanaeth, gan fod y swyddogaeth yn rhan o gostau'r adrannau cyllid. Mae'r Gwasanaeth yn rhy fach i gael staff Rheoli Trysorlys penodol.<br><br>**Adenillion ar Fuddsoddiadau**<br>Cyn trefnu buddsoddiadau, adolygir cyfraddau llog a dewisir y gyfradd orau ar gyfer swm a chyfnod y buddsoddiad. Nid oes gan y Gwasanaeth fuddsoddiadau tymor hir ac mae adneuon yn ymwneud â balansau llif arian, fel arfer yn cael eu gosod dros nos. Gwneir buddsoddiadau yn unol â'r Strategaeth Rheoli Trysorlys.<br>Mae'r Gwasanaeth yn cymryd rhan yn ymarfer meincnodi chwarterol Arlingclose ac mae'r canlyniadau'n cael eu hadolygu fel rhan o'r cyfarfodydd Rheoli Trysorlys.<br><br>***Rheoli Dyled***<br><br>▪ Benthyca fel % o'r gofyniad refeniw net<br>▪ Canran y dyledion sy'n aeddfedu mewn (i) 12 mis a (ii) 12-24 mis y bydd angen ei ailgyllido.<br>▪ Canran y PWLB a dyled y farchnad (dechrau a diwedd y cyfnod)<br>▪ Canran y dyledion cyfradd sefydlog a chyfradd amrywiadwy (dechrau a diwedd y cyfnod) |
| Polisi ynghylch dulliau o brofi gwerth am arian wrth reoli trysorlys | Bydd y swyddogaeth rheoli trysorlys yn destun dadansoddiad parhaus o'r gwerth y mae'n ei ychwanegu o ran ategu amcanion corfforaethol a gwasanaeth datganedig yr Awdurdod.<br><br>Wrth dendro ar gyfer gwasanaethau sy'n ymwneud â'r trysorlys neu fancio, mae'r Awdurdod yn cadw at ei Reoliadau Ariannol a Rheolau Gweithdrefnau Contractau - *[31 (llyw.cymru)](#)*<br><br>a) Os bydd angen, bydd yr Awdurdod hefyd yn ymgynghori â defnyddwyr eraill gwasanaethau tebyg yn ogystal â gyda phartïon â diddordeb.<br><br>b) Bydd yr Awdurdod hefyd yn gwerthuso dulliau amgen o argaeledd mentrau cyllidol, grantiau neu gymorthdaliadau, a darparu gwasanaethau. |

**ARhT3: GWNEUD PENDERFYNIADAU A DADANSODDI**

**Egwyddor**

Bydd yr Awdurdod yn cynnal cofnod manwl o benderfyniadau rheoli'r trysorlys, ac o'r prosesau a'r arferion a weithredwyd wrth ddod i'r penderfyniadau hynny, er mwyn dysgu o'r gorffennol, ac er atebolrwydd, e.e. dangos bod camau rhesymol wedi eu cymryd i sicrhau bod yr holl faterion a oedd yn berthnasol i'r penderfyniadau hynny wedi cael eu hystyried ar y pryd.

Mae'r materion y dylid mynd i'r afael â nhw a'r prosesau a'r arferion i'w dilyn wrth wneud penderfyniadau yn cael eu rhestru isod.

**Atodlen**

| | |
|---|---|
| Gwariant cyfalaf a chynlluniau buddsoddi | Mae'r Cod Darbodus yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod edrych ar wariant cyfalaf a chynlluniau buddsoddi yng ngoleuni strategaeth ac adnoddau sefydliadol cyffredinol a sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu gwneud gan roi sylw digonol i'r goblygiadau ariannu hirdymor a'r risgiau posibl i'r Awdurdod. Felly, mae cynllunio ariannol effeithiol, gwerthuso opsiynau a phrosesau llywodraethu yn hanfodol er mwyn cyflawni dull darbodus o ymdrin â gwariant cyfalaf, buddsoddiad a dyled.<br><br>Mae'r Cod Darbodus yn annog pennu blaenoriaethau gwariant a meini prawf fforddiadwyedd. Yr amcan sylfaenol wrth ystyried fforddiadwyedd cynlluniau cyfalaf yr Awdurdod yw sicrhau bod cyfanswm buddsoddiad cyfalaf yr awdurdod yn parhau i fod o fewn terfynau cynaliadwy.<br><br>Wrth ystyried fforddiadwyedd y cynlluniau cyfalaf, mae'n ofynnol i'r Awdurdod ystyried yr holl adnoddau sydd ar gael iddo neu eu hamcangyfrif ar gyfer y dyfodol, ynghyd â'r cynlluniau cyfalaf, y rhagolygon incwm a gwariant yn eu cyfanrwydd. |

| | |
|---|---|
| Penderfyniadau mawr y trysorlys | Fel sefydliad gwasanaeth cyhoeddus, bydd yr Awdurdod yn dangos didwylledd ac atebolrwydd o ran gweithgareddau rheoli trysorlys a bydd yn creu ac yn cynnal trywydd archwilio o benderfyniadau rheoli trysorlys sy'n cynnwys:<br>a) gosod Dangosyddion Darbodus ac unrhyw newidiadau yn ystod y flwyddyn iddynt<br>b) arfarniad opsiynau i benderfynu ar benderfyniad cyllido<br>c) codi benthyciadau byrdymor neu hirdymor/ffynhonnell gyllid hirdymor arall<br>d) ailstrwythuro/adbrynu benthyciad(au) presennol yn gynnar<br>e) buddsoddiadau byrdymor<br>g) lesio<br>(h) defnyddio deilliadau<br>i) newid mewn trefniadau bancio<br>j) penodi/amnewid ymgynghorydd trysorlys<br>k) penodi/amnewid rheolwr cronfa |
| Diben y benthyciadau | Mae Cod Darbodus 2021 yn datgan yn glir, er mwyn cydymffurfio â'r Cod hwn, na ddylai awdurdod fenthyca i fuddsoddi yn bennaf ar gyfer gwneud elw ariannol.<br><br>Nid yw'n ddoeth i'r Awdurdod wneud unrhyw benderfyniad buddsoddi neu wariant a fydd yn cynyddu'r gofyniad ariannu cyfalaf, ac felly arwain at fenthyca newydd, oni bai ei fod yn uniongyrchol ac yn bennaf gysylltiedig â swyddogaethau'r Awdurdod a lle mae unrhyw adenillion ariannol naill ai'n gysylltiedig â hyfywedd ariannol y prosiect dan sylw neu fel arall yn gysylltiedig â'r prif ddiben.<br><br>Mae Canllawiau Statudol Buddsoddiadau Awdurdodau Lleol yng Nghymru 2019 o'r farn bod benthyca cyn angen yn unig i elwa o fuddsoddi'r symiau ychwanegol a fenthycwyd yn groes i'r egwyddorion yn y fframwaith statudol. Os yw'r Awdurdod yn dewis peidio â chydymffurfio â'r egwyddor hon er mwyn buddsoddi mewn eiddo neu asedau ariannol eraill er mwyn sicrhau adenillion masnachol, yna rhaid i'r Awdurdod wneud datgeliadau ychwanegol am y rhesymau dros wneud hynny. |

| | |
|---|---|
| Proses | **Meincnod rhwymedigaeth:** Mae'r Meincnod Rhwymedigaeth yn fesur hirdymor o'r angen sylfaenol i fenthyca ar gyfer pob diben hirdymor, ac mae'n seiliedig ar ei raglen gyfalaf gyfredol ac ar symudiadau llif arian eraill a ragolygir.<br><br>Mae'n offeryn i gymharu'r portffolio benthyciadau cyfredol yn erbyn yr angen cyfredol a chynlluniedig i fenthyca, o ran lefel a thymor y benthyca. Mae'n nodi a yw benthyca tymor hir (neu fuddsoddiadau tymor hir, os yw'r Awdurdod yn fuddsoddwr net) yn fwy priodol.<br><br>Mae'r Meincnod Rwymedigaeth yn fesur rheoli risg benthyca pwysig a bydd yn rhan o'r broses o wneud penderfyniadau er mwyn atal gorfenthyca; bydd hefyd yn rhan o drywydd archwilio'r Awdurdod sy'n cyfiawnhau penderfyniadau benthyca tymor hir.<br><br>Er mwyn pennu gofyniad dyled blynyddoedd i ddod neu, i'r gwrthwyneb, arian sydd ar gael ar gyfer buddsoddiad tymor hwy, bydd yr Awdurdod yn amcangyfrif ac yn mesur y Meincnod Rwymedigaeth ar gyfer proffil aeddfedrwydd llawn y ddyled. Fe'i cyflwynir fel siart o bedwar balans:<br>• CFR a MRP benthyciadau presennol a rhagamcanol yr Awdurdod<br>• dyledion presennol (nid yw'n cynnwys dyled a ragwelir),<br>• gofyniad benthyciadau net, gan ystyried adnoddau ar y fantolen<br>• meincnod rhwymedigaeth, sydd hefyd yn ystyried lwfans hylifedd gofynnol yr Awdurdod.<br>• gofyniad hylifedd, mae'r Meincnod Rwymedigaeth yn cael ei ddadansoddi fel rhan o'r strategaeth rheoli trysorlys flynyddol.<br><br>***Dylid cyfeirio at adrannau perthnasol Nodiadau Cyfarwyddyd Cod RhT 2021 i gael manylion am y Meincnod Rwymedigaeth.***<br><br>Mae unrhyw flynyddoedd lle mae benthyciadau gwirioneddol yn llai na'r meincnod yn nodi gofyniad benthyca yn y dyfodol; mae unrhyw flynyddoedd lle mae benthyciadau gwirioneddol sy'n weddill yn fwy na'r meincnod yn cynrychioli sefyllfa orfenthyg, a fydd yn arwain at arian dros ben sydd angen ei fuddsoddi.<br><br>Mae ein hymgynghorydd trysorlys Arlingclose yn darparu arf byw ar-lein i'r Awdurdod (gan ddefnyddio Microsoft Teams) i gynorthwyo gyda pharatoi a diweddaru'r dangosydd rheoli trysorlys pwysig hwn yn rheolaidd. |
| Pwerau dirprwyedig ar gyfer rheoli trysorlys | Mae gan y Pennaeth Cyllid a Chaffael bwerau dirprwyedig i gyflawni strategaeth yr Awdurdod ar gyfer rheoli dyledion, ariannu cyfalaf a benthyca, adneuo cronfeydd dros ben a rheoli llif arian parod yr Awdurdod. |

| | |
|---|---|
| Materion i fynd i'r afael â nhw | Wrth arfer y pwerau hyn, bydd y Pennaeth Cyllid a Chaffael a'r rhai y dirprwywyd gweithgareddau'r trysorlys iddynt<br>• yn glir ynghylch natur a maint unrhyw risgiau cysylltiedig y gall yr Awdurdod ddod i gysylltiad â hwy a rhoi mecanweithiau effeithiol ar waith ar gyfer rheoli risg a lliniaru<br>• yn sicr ynghylch cyfreithlondeb y penderfyniad a wnaed a bod yr awdurdod angenrheidiol i fwrw ymlaen wedi'i gael<br>• yn sicrhau bod diwydrwydd dyladwy perthnasol wedi digwydd<br>• yn fodlon bod y ddogfennaeth yn briodol i gyflawni amcanion yr Awdurdod, diogelu buddiannau'r Awdurdod, a chynnal trywydd archwilio effeithiol<br>• sicrhau bod y risg credyd canfyddedig sy'n gysylltiedig â'r gwrthbartïon cymeradwy yn cael ei farnu'n foddhaol a'i fod o fewn terfynau y cytunwyd arnynt<br>• yn fodlon bod telerau unrhyw drafodion wedi cael eu gwirio'n llawn yn erbyn y farchnad, ac wedi cael eu canfod i fod yn gystadleuol<br>• yn dilyn arfer gorau wrth weithredu'r trafodiad trysorlys<br><br>**Amcan benthyca**: Prif amcan yr Awdurdod wrth fenthyg arian yw mabwysiadu strategaeth risg isel, gan gydbwyso costau llog isel a chael sicrwydd o'r costau hynny trwy gydol y cyfnod y mae angen cyllid. Ail nod yw sicrhau hyblygrwydd i aildrafod benthyciadau pe bai cynlluniau tymor hir yr Awdurdod yn newid.<br><br>Wrth wneud **penderfyniadau benthyca ac ariannu**, bydd y Pennaeth Cyllid a Chaffael yn:<br>• gwerthuso ffactorau economaidd a'r farchnad a allai ddylanwadu ar ddull ac amseriad unrhyw benderfyniad i ariannu<br>• gwerthuso swm, strwythur a hyd benthyca newydd a'i amseru mewn perthynas ag anghenion benthyca arfaethedig yr Awdurdod (e.e. trwy ddefnyddio meincnod rhwymedigaeth)<br>• ystyried rhwymedigaethau refeniw parhaus a grëwyd a'r goblygiadau ar gyfer cynlluniau a chyllidebau'r sefydliad yn y dyfodol<br>• ystyried mathau eraill o gyllid, gan gynnwys defnyddio adnoddau refeniw, prydlesu a phartneriaethau preifat<br>• ystyried defnyddio adnoddau mewnol a/neu'r cyfnodau mwyaf priodol i ariannu a'r proffiliau ad-dalu i'w defnyddio<br>• lle bo'n berthnasol, monitro buddion benthyca mewnol yn rheolaidd yn erbyn y potensial ar gyfer costau ychwanegol drwy ohirio benthyca i flynyddoedd i ddod<br><br>**Amcan buddsoddi**: Amcan yr Awdurdod wrth fuddsoddi arian yw taro cydbwysedd priodol rhwng risg ac adenillion, gan leihau'r risg o golledion oherwydd diffygdalu a'r risg o dderbyn incwm buddsoddi anaddas o isel. |

| | |
|---|---|
| | Wrth wneud penderfyniadau buddsoddi, bydd y Pennaeth Cyllid a Chaffael yn:<br>• pennu bod y buddsoddiad o fewn strategaeth yr Awdurdod a bennwyd ymlaen llaw ac yn cydymffurfio ag offerynnau (a nodir yn ARhT 4) ac unrhyw feini prawf credyd (a nodir yn ARhT 1) yn ogystal â'r risg credyd sy'n gysylltiedig â buddsoddiadau heb eu gwarantu gyda banciau a chymdeithasau adeiladu<br>• ystyried y risgiau i gyfalaf ac adenillion a'r goblygiadau i gynlluniau a chyllidebau'r Awdurdod yn y dyfodol, gan gynnwys goblygiadau unrhyw newidiadau sy'n gysylltiedig â'r farchnad i werth y cyfalaf a fuddsoddwyd<br>• ystyried a ellir defnyddio arian yn lle benthyca allanol<br>• ystyried y cyfnod gorau posibl, yng ngoleuni argaeledd llif arian ac amodau cyffredinol y farchnad<br>• ystyried cynhyrchion a thechnegau buddsoddi amgen sydd ar gael, os yw'n briodol. |
| Prosesau i'w dilyn | Bydd y prosesau a ddilynir yn gydnaws ag ARhT4 *Offerynnau, dulliau a thechnegau cymeradwy*. |
| Cofnodion i'w cadw | Bydd yr Awdurdod yn cadw cofnod o'r holl benderfyniadau rheoli trysorlys, y prosesau a wnaed a'r rhesymeg dros ddod i'r penderfyniad a wnaed. Bydd y rhain yn caniatáu asesiad hanesyddol o'r penderfyniadau a wnaed a chadarnhau bod unrhyw wiriadau a mesurau diogelu yn eu lle ac yn gweithredu'n gywir.<br><br>Bydd cofnodion electronig a phapurau gwaith yn cael eu cadw gan yr Awdurdod. |

**ARhT4: OFFERYNNAU, DULLIAU A THECHNEGAU CYMERADWY**

**Egwyddor**

Bydd yr Awdurdod yn ymgymryd â'i weithgareddau rheoli trysorlys drwy ddefnyddio'r offerynnau, y dulliau a'r technegau hynny a nodir yn yr atodlen i'r ddogfen hon yn unig, ac o fewn y terfynau a'r paramedrau a bennir yn ARhT1 *Rheoli Risg*.

Lle mae'r Awdurdod yn bwriadu defnyddio offerynnau deilliadol ar gyfer rheoli risgiau, bydd y rhain yn gyfyngedig i'r rhai a nodir yn ei strategaeth drysorlys flynyddol. Bydd yr Awdurdod yn ceisio cyngor priodol a bydd yn ystyried y cyngor hwnnw wrth ymrwymo i drefniadau i ddefnyddio cynhyrchion o'r fath i sicrhau ei fod yn deall y cynhyrchion hynny'n llawn.

Mae'r Awdurdod wedi adolygu ei ddosbarthiad gyda sefydliadau ariannol o dan MiFID II ac wedi nodi isod y sefydliadau hynny y mae wedi'u cofrestru â hwy fel cleient proffesiynol a'r rhai y mae ganddo gais ar y gweill i gofrestru fel cleient proffesiynol.

**Atodlen**

| | |
|---|---|
| Gweithgareddau rheoli trysorlys cymeradwy | Caniateir i'r Awdurdod ymgymryd â'r gweithgareddau canlynol:<br>▪ Rheoli llif arian<br>▪ Ariannu cyfalaf<br>▪ Benthyca gan gynnwys ailstrwythuro dyledion ac ad-dalu dyledion<br>▪ Buddsoddi gan gynnwys adbrynu buddsoddiadau<br>▪ Bancio<br>▪ Prydlesu<br>▪ Rheoli'r risg sylfaenol sy'n gysylltiedig â gweithgareddau ariannu cyfalaf a chronfeydd dros ben yr Awdurdod<br><br>Nid yw'r rhestr uchod yn derfynol a byddai'r Awdurdod, o bryd i'w gilydd, yn ystyried offerynnau ariannol a thechnegau rheoli trysorlys newydd. Fodd bynnag, bydd yr Awdurdod yn ystyried yn ofalus a oes gan y swyddogion y sgiliau a'r profiad i nodi a rheoli'r manteision a'r risgiau sy'n gysylltiedig â defnyddio'r offerynnau/technegau cyn eu cyflawni, yn arbennig gan na fydd rhai risgiau efallai yn gwbl dryloyw nac yn dryloyw yn syth. |
| Dulliau ariannu cyfalaf cymeradwy a mathau/ffynonellau ariannu | • benthyciadau marchnad arian dros dro (hyd at 364 diwrnod)<br>• gorddrafft banc<br>• benthyciadau gan gyrff fel Banc Buddsoddi Ewrop (EIB)<br>• Grantiau Cyfalaf gan y Llywodraeth a'r UE<br>• Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau Eraill<br>▪ Menter Cyllid Preifat<br>▪ Prydlesu<br>▪ Hurbwcasu<br><br>Gall yr Awdurdod hefyd ddefnyddio adnoddau mewnol:<br>• Derbyniadau Cyfalaf<br>• Balansau Refeniw<br>• Cronfeydd Wrth Gefn |

| | |
|---|---|
| | Mae'r ffynonellau sydd wedi eu cymeradwyo ar gyfer benthyciadau hirdymor a thymor byr yn cynnwys<br>• Cyfleuster benthyca PWLB Trysorlys EF (y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus gynt)*<br>• Unrhyw sefydliad a gymeradwywyd ar gyfer buddsoddi<br>• Cyrff eraill yn y sector cyhoeddus – e.e. awdurdodau lleol<br>• Unrhyw fanc neu gymdeithas adeiladu arall sydd wedi'u hawdurdodi i weithredu yn y DU<br>• Asiantaeth Bondiau Trefol y DU a chwmnïau diben arbennig eraill a grëwyd i gyhoeddi bondiau i awdurdodau lleol<br><br>* Mae Trysorlys EF wedi cyhoeddi canllawiau newydd ynghylch benthyca PWLB a fydd yn berthnasol i unrhyw fenthyciad a drefnwyd o 26 Tachwedd 2020. https://www.dmo.gov.uk/media/17136/pwlb-guidance-for-applicants.pdf<br><br>Bydd lefel y ddyled yn gyson â'r Strategaeth Rheoli Trysorlys a'r Dangosyddion Darbodus. |

| | |
|---|---|
| Offerynnau buddsoddi cymeradwy y trysorlys | Bydd yr Awdurdod yn penderfynu trwy ei Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol pa offerynnau y bydd yn eu defnyddio, gan roi blaenoriaeth i ddiogelwch a hylifedd ac yna arenillion (yn y drefn honno) yr arian a fuddsoddwyd ganddo yn unol â Chanllawiau Buddsoddi Llywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn 2019.<br><br>Dylai'r Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol gael ei chymeradwyo gan yr Awdurdod Tân ac Achub llawn, tra bod adolygiadau chwarterol dilynol (monitro perfformiad buddsoddi gwirioneddol) yn cael eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Archwilio.<br><br>Bydd yr Awdurdod yn penderfynu trwy'r AIS pa offerynnau fydd yn cael eu defnyddio'n fewnol ac a fydd yn cael eu defnyddio gan reolwyr/rheolwyrpenodedig y gronfa allanol gan gynnwys yr amlygiad uchaf ar gyfer pob categori o fuddsoddiadau amhenodol. Lle bo'n berthnasol, bydd meini prawf credyd yr Awdurdod hefyd yn berthnasol.<br><br>▪ Adneuon gyda llywodraeth y DU, y Cyfleuster Adnau Rheoli Dyledion (DMADF),<br>▪ Banciau a chymdeithasau adeiladu tymor-byr diwarant (cyfrifon ar alw a chyfrifon rhoi rhybudd, adneuon, tystysgrifau adneuo)<br>▪ Buddsoddiadau mewn Cronfeydd y Farchnad Arian<br>▪ Biliau Trysorlys (dyled llywodraeth y DU sydd wedi ei dyddio'n fyr)<br>▪ Bondiau Llywodraeth y DU (Giltiau)<br><br>Bydd yr Awdurdod yn sicrhau ei fod yn cynnal y sgiliau a'r profiad angenrheidiol i werthuso'r buddion a rheoli'r risgiau sy'n gysylltiedig â'r offerynnau buddsoddi uchod. |

| | |
|---|---|
| Buddsoddiadau nad ydynt yn rhan o weithgaredd rheoli trysorlys | Nid oes gan yr Awdurdod fuddsoddiadau nad ydynt yn rhan o weithgaredd rheoli trysorlys |
| Defnyddio Deilliadau | Nid yw'r Awdurdod yn defnyddio deilliadau. |
| Statws cleient proffesiynol MiFID II | Nid yw'r Awdurdod wedi optio i fyny, gan felly gadw statws **mânwerthu** gan gydnabod y bydd ganddo ystod fwy cyfyngedig o offerynnau buddsoddi ariannol ond y bydd hefyd mwy o amddiffyniad rheoleiddiol o'r buddsoddiadau hynny.<br><br>Bydd dynodiad o dan MiFID II yn cael ei gymeradwyo gan strategaeth y trysorlys ac yn cael ei adolygu'n flynyddol i sicrhau bod y dynodiad yn parhau'n briodol. |

## ARhT5: TREFNIADAETH, EGLURDEB A GWAHANU CYFRIFOLDEBAU, A THREFNIADAU DELIO

### Egwyddorion

Mae'r Awdurdod yn ystyried ei bod yn hanfodol, at ddibenion rheoli a monitro ei weithgareddau rheoli'r trysorlys yn effeithiol, ac er mwyn lleihau'r perygl o dwyll neu gamgymeriad, ac er mwyn ceisio sicrhau'r perfformiad gorau posib, bod y gweithgareddau hyn yn cael eu strwythuro a'u rheoli mewn modd cwbl integredig, a bod eglurdeb bob amser ynghylch cyfrifoldebau rheoli'r trysorlys.

Yr egwyddor a fydd yn sail i hyn yw gwahaniaethu clir rhwng y rhai y mae'r gwaith o bennu polisïau rheoli trysorlys wedi ei ymddiried iddynt a'r rhai y mae'r gwaith o weithredu a rheoli'r polisïau hyn wedi ei ymddiried iddynt, yn enwedig mewn perthynas â gweithredu a throsglwyddo arian, cofnodi a gweinyddu penderfyniadau rheoli'r trysorlys, ac archwilio ac adolygu swyddogaeth rheoli'r trysorlys.

Os a phan fydd yr Awdurdod yn bwriadu gwyro o'r egwyddorion hyn, o ganlyniad i ddiffyg adnoddau neu amgylchiadau eraill, bydd y Pennaeth Cyllid a Chaffael yn sicrhau bod y rhesymau'n cael eu hadrodd yn gywir yn unol ag ***ARHT6 Gofynion Adrodd a Threfniadau Gwybodaeth Reoli***, a bod y goblygiadau'n cael eu hystyried a'u harfarnu'n briodol.

Bydd y Pennaeth Cyllid a Chaffael yn sicrhau bod yna ddatganiadau ysgrifenedig clir o gyfrifoldebau pob swydd sydd yn ymwneud â rheoli trysorlys, ac o'r trefniadau cyflenwi mewn achos o absenoldeb. Bydd y Pennaeth Cyllid a Chaffael hefyd yn sicrhau bob amser bod y rheiny sy'n ymwneud â rheoli trysorlys yn dilyn y polisïau a'r gweithdrefnau a bennir. Mae'r trefniadau presennol i'w gweld yn yr atodlen isod.

Bydd y Pennaeth Cyllid a Chaffael yn sicrhau bod dogfennaeth gywir ar gyfer pob cytundeb a thrafodyn a bod gweithdrefnau ar waith ar gyfer trosglwyddo arian yn effeithiol. Mae'r trefniadau presennol i'w gweld yn yr atodlen isod.

Mae'r dirprwyaethau i'r Pennaeth Cyllid a Chaffael mewn perthynas â rheoli trysorlys wedi'u nodi yn yr atodlen isod. Bydd y Pennaeth Cyllid a Chaffael yn cyflawni holl gyfrifoldebau o'r fath yn unol â datganiad polisi'r Awdurdod a'r ARhT ac, os yw'n aelod o CIPFA, â'r Safon Ymarfer Proffesiynol ar reoli trysorlys.

### Atodlen

| |
|---|
| **Awdurdod Tân ac Achub** - cymeradwyo'r strategaeth yn flynyddol, a derbyn adroddiadau gan y Pwyllgor Archwilio ar gyfer gweithredu, lle bo hynny'n berthnasol. |
| |
| **Pwyllgor Archwilio** - derbyn adroddiadau rheoli trysorlys, gan gynnwys y strategaeth ddrafft a'r adolygiadau chwarterol (monitro perfformiad gwirioneddol), ac argymell gweithredu i'r Awdurdod Tân ac Achub, lle bo'n berthnasol. |
| |

| |
|---|
| **Trysorydd yr Awdurdod** (rhan amser) – cynghori'r PSTC a'r Pennaeth Cyllid a Chaffael ar y strategaeth rheoli trysorlys eang a chynghori Aelodau'r Awdurdod os yw adroddiadau a gweithrediad rheoli trysorlys yn gadarn ac yn briodol. |
| |
| **PSTC Cyllid ac Adnoddau** - cymeradwyo benthyca a chymeradwyo buddsoddiadau pan fydd y Pennaeth Cyllid a Chaffael neu'r Dirprwy Bennaeth Cyllid a Chaffael yn absennol. |
| |
| **Pennaeth Cyllid a Chaffael** - cwblhau ceisiadau benthyca a chymeradwyo buddsoddiadau, a chwblhau taliadau banc pan fydd y Dirprwy Bennaeth Cyllid a Chaffael yn absennol. Yn yr achos hwn, mae'r PSTC yn cymeradwyo'r buddsoddiad. |
| |
| **Dirprwy Bennaeth Cyllid a Chaffael** - cwblhau taliadau buddsoddi ar y porth bancio. |
| |
| **Uwch Swyddog Cyllid (Cyfrifyddu Ariannol)** - cynnal amserlenni, cwblhau cyfarwyddiadau ar gyfer buddsoddiadau, sefydlu taliadau ar y porth bancio. |
| |

| | |
|---|---|
| Cyfyngiadau ar gyfrifoldebau / disgresiwn ar lefel pwyllgor / gweithredol | Pwyllgor Archwilio: derbyn ac adolygu<br>• Strategaeth Gyfalaf<br>• Dangosyddion Darbodus Rheoli Trysorlys<br>• Strategaeth Rheoli Trysorlys<br>• Adroddiadau gweithgaredd chwarterol y trysorlys<br>• Arferion Rheoli'r Trysorlys<br>• Adroddiadau archwilio allanol a gweithredu ar argymhellion<br><br>Awdurdod Tân:<br>• cymeradwyo datganiad polisi rheoli trysorlys, Strategaeth rheoli trysorlys a'r Strategaeth Gyfalaf ac arferion rheoli'r trysorlys<br>• ystyried a chymeradwyo'r gyllideb<br>• cymeradwyo'r dewis o ddarparwyr gwasanaethau allanol |

| | |
|---|---|
| Egwyddorion ac arferion sy'n ymwneud â gwahanu dyletswyddau | Bydd gwahanu dyletswyddau yn cael ei benderfynu gan y Pennaeth Cyllid a Chaffael<br><br>Mae gwahanu dyletswyddau yn bodoli fel a ganlyn:<br>• mae'r swyddog(ion) sy'n gyfrifol am negodi a chau cytundebau rheoli trysorlys yn gwbl ar wahân i'r swyddog sydd â chyfrifoldeb am gofnodi'r trafodion yn y llyfr arian parod a chwblhau'r gwaith cysoni sieciau a'r banc<br>• mae'r swyddogion sy'n gyfrifol am negodi a chau cytundebau rheoli trysorlys ar wahân i swyddog(ion) sy'n awdurdodi taliadau ar y porth bancio.<br>• rhaid i bob penderfyniad benthyca/buddsoddi gael ei awdurdodi gan y Pennaeth neu'r Dirprwy Bennaeth Cyllid a Chaffael<br><br>Yn ogystal, mae'r Awdurdod yn derbyn datganiadau banc yn ddyddiol. Mae'r rhain yn cael eu postio'n annibynnol o'r swyddogion sy'n gyfrifol am gymeradwyo gweithgareddau'r trysorlys, er mwyn sicrhau bod dyletswyddau'n cael eu gwahanu'n ddigonol. |
| Datganiad o ddyletswyddau/cyfrifoldebau pob swydd trysorlys / swydd berthnasol | Y Pennaeth Cyllid a Chaffael<br>• cyflwyno cyllidebau ac amrywiadau ar y gyllideb<br>• argymell cymalau, polisi rheoli trysorlys, arferion i'w cymeradwyo, adolygu'r rhain yn rheolaidd a monitro cydymffurfiaeth<br>• pennu Dangosyddion Darbodus a'r Strategaeth Rheoli Trysorlys gan gynnwys y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol<br>• cyflwyno adroddiadau polisi rheoli trysorlys rheolaidd<br>• derbyn ac adolygu adroddiadau gwybodaeth reoli<br>• adolygu perfformiad y swyddogaeth rheoli trysorlys a hyrwyddo adolygiadau gwerth gorau<br>• sicrhau digonolrwydd adnoddau a sgiliau rheoli trysorlys, a'r rhaniad effeithiol o gyfrifoldebau o fewn t swyddogaeth rheoli trysorlys<br>• sicrhau digonolrwydd archwilio mewnol a chysylltu ag archwiliadau allanol<br>• argymell penodi darparwyr gwasanaethau allanol<br>• penderfynu ar benderfyniadau ariannu cyfalaf a buddsoddi tymor hir<br>• Mae'r Pennaeth Cyllid a Chaffael wedi dirprwyo pwerau i bennu ac ymgymryd â'r math mwyaf priodol o fenthyca o'r ffynonellau cymeradwy, ac i wneud y math mwyaf priodol o fuddsoddiadau mewn offerynnau cymeradwy.<br>• Gall y Pennaeth Cyllid a Chaffael ddirprwyo'i bŵer i fenthyg a buddsoddi i'r Dirprwy Bennaeth Cyllid a Chaffael. |

| | |
|---|---|
| | Uwch Swyddog Cyllid (Cyfrifyddu Ariannol)<br><br>• gweithredu trafodion<br>• cadw at bolisïau ac arferion y cytunwyd arnynt o ddydd i ddydd<br>• cynnal perthynas â thrydydd partïon a darparwyr gwasanaethau allanol<br>• monitro perfformiad o ddydd i ddydd<br>• cyflwyno adroddiadau gwybodaeth reoli i'r swyddog cyfrifol<br>• cofnodi trafodion rheoli trysorlys yn y system rheoli trysorlys<br>• cysoni trafodion rheoli trysorlys â'r cyfriflyfr ariannol<br>• cofnodi/cysoni dogfennaeth gwrthbartïon |
| Trefniadau wrth gefn adeg absenoldeb | Darperir gwasanaeth wrth gefn yn absenoldeb y swyddog rheoli trysorlys perthnasol gan y Dirprwy Bennaeth Cyllid a Chaffael.<br><br>Mae'r trefniadau wrth gefn yn cael eu hadolygu o leiaf bob 6 mis, neu yn ôl yr angen.<br><br>Mae nodiadau y weithdrefn gyflawn ar gael, gan fanylu ar y prosesau sydd eu hangen i alluogi gweithrediad y system rheoli trysorlys o ddydd i ddydd. |
| Disgrifiad o'r berthynas rhwng y prif swyddog cyllid, y swyddog monitro a'r pennaeth gwasanaeth cyflogedig. | • Y Pennaeth Cyllid a Chaffael sy'n gyfrifol am redeg y swyddogaeth rheoli trysorlys. Mae'r rôl hon yn adrodd i'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol PSTC (Cyllid ac Adnoddau), sy'n derbyn pob adroddiad rheoli trysorlys cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio. Yn ogystal, y Trysorydd rhan amser yw'r swyddog S151, a fydd yn cynghori'r PSTC a'r Penneth Cyllid ar y strategaeth rheoli trysorlys eang ac yn tafod yr adroddiadau rheoli'r trysorlys gyda'r PSTC.<br><br>• Naill ai'r Trysorydd neu'r PSTC sy'n cyflwyno'r adroddiadau i'r Pwyllgor Archwilio a'r Awdurdod Tân. |

**Delio**

| | |
|---|---|
| Swyddogion awdurdodedig | Swyddog â chyfrifoldeb am benderfyniadau benthyca/buddsoddi<br>Gweithgaredd benthyca:<br>• PSTC (Cyllid ac Adnoddau)<br>• Pennaeth Cyllid a Chaffael<br>Gweithgaredd benthyca i eraill:<br>• Nid oes unrhyw weithgaredd benthyca i eraill<br>Awdurdodi taliadau ar gyfer benthyca/benthyca i eraill:<br>• Pennaeth Cyllid a Chaffael<br>• Dirprwy Bennaeth Cyllid a Chaffael<br>Buddsoddiadau:<br>• PSTC (Cyllid ac Adnoddau)<br>• Pennaeth Cyllid a Chaffael<br>Cofnodi trafodion:<br>• Uwch Swyddog Cyllid (Cyfrifyddu Ariannol) |
| Trothwyon delio | Buddsoddiadau a Reolir yn Fewnol:<br>• yr uchafswm ar gyfer unrhyw un trafodiad buddsoddi yw £5 miliwn (yn amodol ar y trothwyon benthyca a nodir yn Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol yr Awdurdod.) |
| Cyfleuster benthyca y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) – telerau ac amodau | Mae'r trefniadau benthyca ar gyfer benthyciadau PWLB yn cael eu darparu gan Drysorlys EF. https://www.dmo.gov.uk/responsibilities/local-authority-lending/lending-arrangements/<br><br>Mae Trysorlys EF wedi cyhoeddi canllawiau newydd ynghylch benthyca PWLB sy'n berthnasol i unrhyw fenthyciad a drefnwyd o 26 Tachwedd 2020. Diweddarwyd y canllawiau hyn ar 12 Mai 2022, gan fewnosod paragraffau newydd 12 -17.<br>https://www.dmo.gov.uk/media/zuxnuyir/pwlb-guidance-for-applicants-may-2022.pdf<br><br>Mae'r telerau a'r broses ymgeisio bresennol yng Nghylchlythyr Gweithredol 163, sy'n berthnasol i fenthyciadau a drefnwyd ers 21/10/21.<br>a. Cwblheir ceisiadau gan ddefnyddio templed electronig PWLB. Yn ogystal â manylion y benthyciad, mae'r ffurflen yn cynnwys cwestiynau cymhwyso i'w cyflwyno yn ystod oriau gweithredol PWLB (0930-1615).<br>b. Derbynnir llythyr Cadarnhau Benthyciad Amodol Mae'r cais am fenthyciad yn amodol ar adolygiad gan Drysorlys EF. Os na chodir unrhyw ymholiadau/gwrthwynebiadau erbyn y dyddiad masnachu + 4, gwneir taliad y benthyciad ar ddyddiad masnachu + 5.<br>Bydd unrhyw newidiadau i dermau PWLB fel y'u dogfennwyd mewn cylchlythyrau dilynol yn cael eu cyfleu i'r holl swyddogion perthnasol yn y Tîm Cyllid. |

| | |
|---|---|
| Delwyr awdurdodedig PWLB | Y delwyr sydd wedi'u hawdurdodi i drafod gyda'r PWLB yw:<br>*PSTC (Cyllid ac Adnoddau)*<br>*Pennaeth Cyllid a Chaffael*<br><br>Darperir rhestr gyflawn o swyddogion sydd wedi'u hawdurdodi i drafod â'r PWLB, ac unrhyw newidiadau iddi, i'r PWLB gan ddefnyddio'r ffurflen diwygio trefniadau awdurdodi sydd ar gael ar y wefan. |
| Llwyfannau / pyrth delio | Safle PWLB |
| Rhestr o froceriaid cymeradwy | Yr unig froceriaid a ddefnyddir ar hyn o bryd gan yr Awdurdod yw Tradition, oherwydd y gostyngiad mewn benthyciadau tymor byr |
| Polisi ar wasanaethau broceriaid | Polisi'r Awdurdod yw defnyddio'r gwasanaethau rhwng o leiaf dau frocer. Bydd yr Awdurdod yn rhannu busnes rhyngddynt er mwyn osgoi dibynnu ar wasanaethau unrhyw un brocer. |
| Polisi ar recordio sgyrsiau | Nid yw'r Awdurdod yn recordio'r sgyrsiau gyda broceriaid.<br><br>Nid yw sgyrsiau gyda broceriaid yn cael eu tapio gan y broceriaid. |
| Arferion delio uniongyrchol | Cynhelir delio uniongyrchol â sefydliadau a'u nodi yn yr Atodlen Weithredol yn ddarostyngedig i therfynau gwrthbartïon ac aeddfedrwydd a therfynau delio.<br><br>Cyn ymgymryd â delio uniongyrchol, bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod pob gwrthbarti wedi cael rhestr yr Awdurdod o ddelwyr awdurdodedig a Gweithdrefnau Setliad Safonol yr Awdurdod. |
| Delio rhwng awdurdodau | Mae'r Awdurdod hefyd yn delio ag awdurdodau lleol eraill i fenthyg arian at ddibenion rheoli trysorlys.<br><br>Yn ogystal â thrafodion a gynhelir trwy froceriaid, gellir cynnal trafodion trwy blatfform gweithredu iDealTrade Arlingclose.<br><br>Bydd cofnod o bob dêl, ynghyd â'u telerau penodol, yn cael ei gynnal gan yr Awdurdod. |
| Profforma Tocyn Trafodiad | Bydd trafodion yn cael eu cofnodi yn unol â'r profforma tocyn trafodiad a gyflenwir gan y brocer / banc / DMO. |
| Gweithdrefnau trosglwyddo setliadau | • bydd setliadau yn cael eu gwneud drwy drosglwyddiad banc<br>• mae holl daliadaubanc sy'n ymwneud â thrafodion setliadau angen awdurdodiad gan y Pennaeth neu'r Dirprwy Bennaeth Cyllid a Chaffael.<br>• Os na chaiff ei setlo drwy ddebyd uniongyrchol, mae'r manylion yn cael eu mewnbynnu ar y porth bancio. |

| | |
|---|---|
| Gofynion o ran dogfennaeth | Ar gyfer pob trafodiad a wnaed, dylid paratoi cofnod gan roi manylion y deliwr, swm, cyfnod, gwrthbarti, cyfradd llog, dyddiad delio, dyddiad(au) talu, brocer.<br><br>Buddsoddiadau<br>• e-bost gan swyddog perthnasol yn gofyn am y buddsoddiad<br>• cadarnhad gan y brocer/banc<br>• cadarnhad gan y gwrthbarti<br><br>Benthyciadau:<br>• tocyn trafodiad gyda llofnod i gytuno ar y benthyciad<br>• cadarnhad gan y brocer a gwrthbarti'r farchnad<br>• cadarnhad gan PWLB |
| Trefniadau ynghylch rheoli rhestrau gwrthbartïon | Y Pennaeth Cyllid a Chaffael sy'n gyfrifol am gynnal brîff gwylio ynghylch gwrthbartïon. Mae gwybodaeth am sgoriau credyd gwrthbartïon yn cael ei derbyn gan Ymgynghorwyr Trysorlys Arlingclose a chaiff ei monitro fel mater o drefn. |

## ARhT6: GOFYNION ADRODD A THREFNIADAU GWYBODAETH REOLI

### EGWYDDORION

Bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod adroddiadau rheolaidd yn cael eu paratoi a'u hystyried ar weithredu ei bolisïau rheoli trysorlys; ar effeithiau penderfyniadau a wneir a thrafodion a gyflawnir wrth fynd ar drywydd y polisïau hynny; ar oblygiadau newidiadau, yn benodol o ran cyllideb, yn deillio o ffactorau rheoleiddio, economaidd, marchnad neu eraill sy'n effeithio ar ei weithgareddau rheoli trysorlys; a pherfformiad swyddogaeth rheoli trysorlys.

Bydd yr Awdurdod Tân ac Achub llawn yn derbyn, o leiaf:

- Adroddiad blynyddol ar y strategaeth a'r cynllun ar gyfer y flwyddyn i ddod

Bydd y Pwyllgor Archwilio, y dirprwyir rhai cyfrifoldebau'r trysorlys iddo, yn derbyn:

- Adroddiadau monitro chwarterol ar weithgareddau a risgiau rheoli trysorlys, ac
- Adroddiad blynyddol ar berfformiad y swyddogaeth rheoli trysorlys, effeithiau'r penderfyniadau a wnaed a'r trafodion a wnaed yn y flwyddyn ddiwethaf, ac ar unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth â'r datganiad ar bolisi rheoli trysorlys ac ARhT y sefydliad.

Bydd y Pwyllgor Archwilio yn gyfrifol am graffu ar bolisïau ac arferion rheoli'r trysorlys.

Bydd yr Awdurdod yn rhoi gwybod am ddangosyddion rheoli trysorlys sy'n ofynnol gan reoleiddio fel y manylir yn nodiadau cyfarwyddyd sector-benodol Cod Rheoli'r Trysorlys.

Mae'r trefniadau presennol a ffurf yr adroddiadau hyn wedi'u hamlinellu isod.

**Atodlen**

| | |
|---|---|
| Cymalau i'w mabwysiadu fel rhan o Reolau Sefydlog yr Awdurdod<br><br>Datganiad Polisi Rheoli Trysorlys | Mae'r cymalau a argymhellir i'w mabwysiadu fel rhan o reolau sefydlog, rheoliadau ariannol neu ddogfennau polisi ffurfiol eraill yr Awdurdod yn Adran 5 Cod Rheoli'r Trysorlys 2021.<br><br>Mae'r Datganiad Polisi Rheoli Trysorlys yn ddogfen fer sy'n diffinio polisïau ac amcanion gweithgareddau rheoli trysorlys yr Awdurdod.<br><br>Darperir y testun a argymhellir i'w fabwysiadu gan CIPFA yn Adran 6 Cod Rheoli Trysorlys 2021.<br><br>Mae'r Datganiad Polisi Rheoli Trysorlys yn cael ei fabwysiadu gan yr Awdurdod Tân ac Achub |

<table>
<tr>
<td>Dangosyddion Darbodus</td>
<td>
Bydd yr Awdurdod yn cwmpasu'r Dangosyddion Darbodus yn ei ddogfennau strategol <u>blynyddol</u> a bennir cyn dechrau pob blwyddyn ariannol:
<table>
<tr>
<td>Strategaeth Gyfalaf
<ul>
<li>Gwariant cyfalaf</li>
<li>Gofyniad Ariannu Cyfalaf (CFR)</li>
<li>Terfyn Awdurdodedig a'r Ffin weithredol</li>
<li>Dyled gros a'r CFR</li>
<li>Costau cyllido i'r llif refeniw net</li>
<li>Incwm net o fuddsoddiadau masnachol a gwasanaeth i'r llif refeniw net</li>
</ul>
</td>
<td>Strategaeth Rheoli'r Trysorlys
<ul>
<li>Meincnod rhwymedigaeth</li>
<li>Strwythur aeddfedrwydd benthyciadau</li>
<li>Buddsoddiadau rheoli trysorlys hirdymor</li>
</ul>
</td>
</tr>
</table>
Mae Nodiadau Cyfarwyddyd Cod Darbodus 2021 yn cynnwys dangosyddion ar gyfer Fforddiadwyedd a Darbodrusrwydd (tudalennau 41-61). Mae Nodiadau Cyfarwyddyd Cod Rheoli Trysorlys 2021 yn cynnwys dangosyddion trysorlys (tudalennau 15-24). Mae diffiniadau CIPFA yn cael eu croesgyfeirio at y Codau priodol.
</td>
</tr>
<tr>
<td>Strategaeth Gyfalaf</td>
<td>
Mae'r ddogfen hon, sy'n cael ei chymeradwyo gan yr Awdurdod Tân <u>yn flynyddol cyn dechrau pob blwyddyn ariannol</u>, yn rhoi trosolwg lefel uchel o'r canlynol:
(i) y ffordd y mae gwariant cyfalaf, ariannu cyfalaf a gweithgarwch rheoli trysorlys yn cyfrannu at ddarparu gwasanaethau,<br>
(ii) sut gaiff y risg cysylltiedig ei reoli a<br>
(iii) goblygiadau ar gyfer cynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol.
Mae'n cael ei deilwra i amgylchiadau'r Awdurdod ac yn ymdrin â: :
<ul>
<li>Gwariant cyfalaf, sut gaiff ei ariannu, y broses lywodraethu, strategaeth ariannu tymor hir, rheoli asedau, gofynion cynnal a chadw, gwarediadau wedi'u cynllunio a chyfyngiadau ariannu</li>
<li>Dyled, benthyca, MRP, buddsoddiadau; strategaeth fenthyca, strategaeth fuddsoddi'r trysorlys</li>
<li>Buddsoddiadau at ddibenion gwasanaeth, sut gânt eu rheoli o ran risg a'u trefniadau llywodraethu</li>
<li>Gweithgareddau masnachol, buddsoddiadau at ddibenion masnachol, sut gânt eu rheoli o ran risg a'u trefniadau llywodraethu</li>
<li>Rhwymedigaethau hirdymor eraill, fel gwarantau ariannol a'u trefniadau llywodraethu</li>
<li>Dangosyddion darbodus</li>
<li>Goblygiadau'r Gyllideb Refeniw</li>
<li>Gwybodaeth a sgiliau, a chadarnhad bod y rhain yn gymesur ag awydd yr awdurdod am risg a'i weithgareddau</li>
</ul>
Mae CIPFA wedi rhoi manylion am y Strategaeth Gyfalaf yng Nghod Darbodus 2021 (Adran 5, tudalennau 17-19) ac yn y Nodiadau Cyfarwyddyd Cod Darbodus 2021 (tudalennau 21-33 yn ogystal â rhestr wirio yn Atodiad A).
</td>
</tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | *Mae'r PSTC (Cyllid ac Adnoddau) a'r Trysorydd yn adrodd yn benodol ar y fforddiadwyedd a'r risg sy'n gysylltiedig â'r Strategaeth Gyfalaf ac a ydynt yn fodlon bod y rhaglen gyfalaf arfaethedig yn ddarbodus, fforddiadwy a chynaliadwy, gydag esboniad o sut y daethpwyd i'r casgliad.*<br><br>Mae'r PSTC (Cyllid ac Adnoddau) a'r Trysorydd hefyd yn sicrhau, lle bo angen gwybodaeth fanwl, y bydd ar gael mewn fformat i annog ymgysylltu gweithredol ac, os oes angen, unrhyw anghenion hyfforddi cysylltiedig i aelodau. |
| Strategaeth Rheoli Trysorlys | Mae'r ddogfen hon, sy'n cael ei chymeradwyo gan yr Awdurdod Tân yn flynyddol cyn dechrau pob blwyddyn ariannol, yn ymdrin â'r canlynol -<br>Cyd-destun Allanol:<br>- Cefndir economaidd;<br>- Rhagolwg credyd;<br>- Rhagolwg cyfraddau llog<br>Cyd-destun lleol:<br>- Crynodeb a rhagolwg o'r fantolen ac esboniad o'r symudiadau<br>- Meincnod rhwymedigaeth<br>- Sefyllfa portffolio buddsoddiadau a dyledion presennol<br>- Strategaeth fenthyca yr Awdurdod; ffynonellau benthyca cymeradwy a ffynonellau eraill o gyllid dyled;<br>- Strategaeth Buddsoddi Trysorlys yr Awdurdod, polisi ESG ar gyfer buddsoddiadau, offerynnau buddsoddi cymeradwy, gwrthbartïon a therfynau amser/ariannol; isafswm statws credyd (lle bo hynny'n berthnasol) ac asesiad risg;<br>- Dangosyddion darbodus rheoli trysorlys<br>- Materion cysylltiedig - e.e. defnydd o ddeilliadau ariannol<br>- Statws MiFID II<br>- Goblygiadau ariannol y strategaeth<br>- Atodiad: Gofynion ychwanegol Llywodraeth Cymru |
| Adroddiadau Gweithgareddau y Trysorlys | Bydd **Adroddiad Alldro Blynyddol y Trysorlys** yn cael ei baratoi gan y Pennaeth Cyllid a Chaffael cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl diwedd y flwyddyn ariannol. Mae'n ymdrin â gweithgarwch y trysorlys a gyflawnir yn erbyn y rhagolygon a chefndir economaidd a chyfraddau llog cyffredinol ar gyfer y flwyddyn ariannol lawn.<br><br>Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn cynnwys:<br>- gweithgareddau benthyca a buddsoddi a wneir gan gynnwys blaen drafodion y cytunwyd arnynt a'u heffeithiau refeniw (cyfredol)<br>- adroddiad o benderfyniadau trysorlys sylweddol a wnaed yn ystod y flwyddyn<br>- goblygiadau o ran risg unrhyw benderfyniadau a wnaed a thrafodion a gyflawnwyd<br>- cydymffurfiaeth â pholisïau/arferion cytunedig ac ar ofynion statudol/rheoleiddiol<br>- adroddiad ar gydymffurfio ag argymhellion Cod Rheoli Trysorlys CIPFA<br>- monitro dangosyddion rheoli trysorlys ar gyfer awdurdodau lleol<br>- hyfforddiant / DPP a gynhaliwyd gan swyddogion y trysorlys. |

| | |
|---|---|
| | Bydd **Adroddiad Alldro Chwarterol y Trysorlys** yn cael ei baratoi gan y Pennaeth Cyllid a Chaffael, ac yn adrodd ar weithgareddau rheoli trysorlys ar gyfer pob chwarter o'r flwyddyn ariannol. Mae'n ymdrin â gweithgarwch y trysorlys a gyflawnir yn erbyn y rhagolygon a chefndir economaidd a chyfraddau llog cyffredinol ar gyfer y cyfnod perthnasol.<br><br>Mae'r adolygiad chwarterol hwn yn cynnwys:<br>- gweithgareddau benthyca a buddsoddi a wneir gan gynnwys blaen drafodion y cytunwyd arnynt<br>- adroddiad o benderfyniadau trysorlys sylweddol<br>- gwyriadau (os o gwbl) o'r polisïau / arferion y cytunwyd arnynt;<br>- adroddiad perfformiad interim<br>- monitro dangosyddion rheoli trysorlys<br>- rhagolwg ar gyfer gweddill y flwyddyn ariannol<br>Cyflwynir y ddau adroddiad i'r Pwyllgor Archwilio sy'n gyfrifol am graffu ar bolisïau, arferion a gweithgareddau rheoli trysorlys. Lle bo'n berthnasol, gall y Pwyllgor Archwilio argymell camau gweithredu i'r Awdurdod Tân. |

**ARhT7: TREFNIADAU CYLLIDEBU, CYFRIFYDDU AC ARCHWILIO**

Bydd y Pennaeth Cyllid a Chaffael yn paratoi - a bydd yr Awdurdod yn cymeradwyo ac, os bydd angen, o bryd i'w gilydd, yn diwygio - cyllideb flynyddol ar gyfer rheoli trysorlys, a fydd yn dwyn ynghyd yr holl gostau sy'n gysylltiedig â rhedeg y swyddogaeth rheoli trysorlys, ynghyd ag incwm cysylltiedig. Bydd y materion sydd i'w cynnwys yn y gyllideb yn cynnwys, o leiaf, y rhai sy'n ofynnol trwy statud neu reoliad, ynghyd â gwybodaeth a fydd yn dangos cydymffurfiaeth ag ARhT1 Rheoli Risg, ARhT2 Mesur Perfformiad ac ARhT4 Offerynnau, dulliau a thechnegau cymeradwy.

Bydd y Pennaeth Cyllid a Chaffael yn arfer rheolaeth effeithiol dros y gyllideb hon, ac yn argymell unrhyw newidiadau gofynnol, ac yn adrodd arnynt, yn unol ag ARhT6 Gofynion Adrodd a Threfniadau Gwybodaeth Reoli.

Bydd yr Awdurdod yn rhoi cyfrif am ei weithgareddau rheoli trysorlys, am y penderfyniadau a wnaed a'r trafodion a weithredwyd, yn unol â'r arferion a'r safonau cyfrifyddu priodol, ac â'r gofynion statudol a rheoleiddiol sydd mewn grym ar y pryd.

**Atodlen**

| | |
|---|---|
| Gofynion statudol/rheoleiddiol | *Gofyniad Cyllideb Gytbwys*: Mae Rhan 1 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gyfrifo ei ofyniad cyllidebol ar gyfer pob blwyddyn ariannol gan gynnwys, ymhlith agweddau eraill:<br>(a) y gwariant yr amcangyfrifir yr eir iddo yn y flwyddyn wrth gyflawni ei swyddogaethau ac a delir gan gyfrif refeniw, a<br>(b) costau refeniw sy'n deillio o benderfyniadau ariannu cyfalaf<br>Mae'r Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod osod digon o dreth gyngor i dalu am wariant ar ôl ystyried ffynonellau incwm eraill. |
| Arferion a safonau cyfrifyddu | ▪ Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 a gwelliannau a wnaed wedyn<br>▪ Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyllid Cyfalaf a Chyfrifyddu) (Cymru) 2003 a gwelliannau a wnaed wedyn<br>▪ Llywodraeth Cymru Canllawiau statudol ar Ddarpariaeth Isafswm Refeniw (Argraffiad 2018)<br>▪ CIPFA/LASAAC Cod Ymarfer ar Gyfrifyddu Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig (Argraffiad 2022/23)<br>▪ Bwletinau CIPFA perthnasol<br>▪ IFRS 7 Offerynnau Ariannol: Datgeliadau<br>▪ IFRS 9 Offerynnau Ariannol<br>▪ IAS 23 Costau Benthyca<br>▪ IAS 32 Offerynnau Ariannol: Cyflwyniad<br>▪ IPSAS 28 Offerynnau Ariannol: Cyflwyniad<br>▪ IPSAS 30 Offerynnau Ariannol: Datgeliadau<br>▪ IPSAS 41 Offerynnau Ariannol: |
| Datganiadau Ariannol | Mae'r Datganiadau Ariannol yn cynnwys:<br>▪ Adroddiad Naratif<br>▪ Cyfrifoldebau ar gyfer y Datganiad Cyfrifon<br>▪ Datganiad Llywodraethu Blynyddol<br>▪ Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr<br>▪ Datganiad Symudiad mewn Cronfeydd<br>▪ Y Fantolen<br>▪ Datganiad Llif Arian Parod<br>▪ Nodiadau i'r Datganiadau Ariannol |
| Ffurf cyfrifon yr Awdurdod | Mae ffurf bresennol cyfrifon yr Awdurdod ar gael ar wefan ATAGC – tudalen ariannol. |

| | |
|---|---|
| Datgeliadau'n ymwneud â rheoli trysorlys | Mae nodiadau i'r Datganiad Cyfrifon blynyddol yn cynnwys:<br>• Offerynnau Ariannol – Asedau Ariannol, Rhwymedigaethau Ariannol; Incwm, Gwariant, Enillion a Cholledion ar Offerynnau Ariannol<br>• Gwerth Teg Asedau a Rhwymedigaethau Ariannol<br>• Natur a Maint y Risgiau sy'n Deillio o Offerynnau Ariannol: Risg Credyd, Risg Hylifedd, Ailgyllido a Risg Aeddfedrwydd, Risgiau i'r Farchnad<br><br>Mae ymgynghorydd trysorlys yr Awdurdod, Arlingclose, yn darparu templed ar gyfer yr uchod bob blwyddyn.<br><br>Bydd yr Awdurdod yn dyfarnu ar lefel y manylion sydd i'w datgelu am offerynnau ariannol penodol, gan ystyried arwyddocâd cymharol yr offerynnau hynny.<br><br>Er mwyn i'r wybodaeth fod yn ddealladwy, ni ddylai gwybodaeth berthnasol gael ei chuddio gan wybodaeth amherthnasol neu drwy gydgasglu eitemau perthnasol sydd â gwahanol natur neu swyddogaethau. |
| Archwilio Mewnol ac Allanol. | Yn gyffredinol, mae Archwilio Mewnol yn cynnal adolygiad blynyddol o'r swyddogaeth rheoli trysorlys.<br><br>Bydd yr archwilwyr mewnol ac allanol yn cael mynediad at wybodaeth/dogfennaeth rheoli trysorlys fel sy'n ofynnol ganddynt. |
| Rhestr o'r wybodaeth y bydd archwilwyr allanol yn gofyn amdani | Gofynnir am y wybodaeth ganlynol* gan yr archwilydd allanol a dylid ei ystyried hyn yn gais cychwynnol am wybodaeth. Fel arfer, caiff ei ddilyn gan waith profi archwilio manylach sy'n aml yn gofyn am ragor o wybodaeth a/neu esboniadau gan swyddogion yr Awdurdod.<br><br>*Mae gwybodaeth yn y cyd-destun hwn yn cynnwys dogfennau a gynhyrchir yn fewnol gan gynnwys dogfennau o System Rheoli Trysorlys yr Awdurdod, dogfennau a gynhyrchir yn allanol, arsylwi arferion rheoli'r trysorlys sy'n cefnogi ac yn egluro gweithrediad a gweithgareddau'r swyddogaeth rheoli trysorlys.<br><br>▪ Penderfynu ar Derfyn Benthyca Fforddiadwy o dan Adran 3 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2003<br>▪ Dangosyddion Darbodus<br>▪ Y Strategaeth Rheoli Trysorlys gan gynnwys y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol<br><br><u>Benthyca allanol</u><br><br>• Benthyciadau newydd a fenthycwyd yn ystod y flwyddyn: Tystysgrifau / dogfennaeth PWLB mewn perthynas â benthyciadau marchnad a fenthycwyd (gan gynnwys copi o gytundebau, atodlen ymrwymiadau)<br>• Manylion ynghylch dyddiadau aeddfedu benthyciadau |

<table>
<tr><td></td><td><ul><li>Cydymffurfiaeth ag arfer cyfrifyddu priodol, rheoliadau a phenderfyniadau ar gyfer amorteiddio premiymau a gostyngiadau sy'n codi ar fenthyciadau a ailstrwythurwyd yn ystod y flwyddyn a'r blynyddoedd blaenorol.</li><li>Dadansoddiad o'r benthyciadau sy'n ddyledus ar ddiwedd y flwyddyn gan gynnwys dadansoddiad o aeddfedrwydd</li><li>Dadansoddiad o fenthyca rhwng tymor hir a thymor byr</li><li>Costau rheoli ac ariannu dyledion<ul><li>cyfrifo (i) llog a dalwyd (ii) llog cronedig</li><li>llog a dalwyd</li></ul></li><li>Cyfrifiadau MRP a dadansoddiad o symudiad yn y CFR.</li><li>Sefyllfa o ran gorddrafft banc.</li><li>Costau’n ymwneud â broceriaeth, comisiynau a thrafodion</li></ul><br><u>Buddsoddiadau</u><ul><li>Trafodion buddsoddi yn ystod y flwyddyn gan gynnwys unrhyw gostau cysylltiedig â thrafodion</li><li>Balansau arian parod a banc ar ddiwedd y flwyddyn</li><li>Buddsoddiadau tymor byr ar ddiwedd y flwyddyn</li><li>Buddsoddiadau tymor hir ar ddiwedd y flwyddyn (gan gynnwys buddsoddiadau mewn cymdeithion a mentrau ar y cyd) yn ôl math o asedau, gan gynnwys enillion neu golledion heb eu gwireddu ar ddiwedd y flwyddyn</li><li>Cyfrifo (i) llog a dderbyniwyd (ii) llog cronedig</li><li>Llog gwirioneddol a dderbyniwyd</li><li>Tystiolaeth o fodolaeth buddsoddiadau a’u teitlau (datganiadau diwedd mis / diwedd chwarter)</li></ul><u>Llif Arian</u><ul><li>Cysoni’r symudiad mewn arian parod i'r symudiad yn y ddyled net</li><li>Arian sy’n llifo i mewn ac allan (mewn perthynas ag ariannu tymor hir)</li><li>Arian sy’n llifo i mewn ac allan (mewn perthynas â phrynu/gwerthu buddsoddiadau tymor hir)</li><li>Cynnydd/gostyngiad net yn y (i) benthyciadau tymor byr, (ii) adneuon tymor byr, (iii) ffynonellau hylifol eraill.</li></ul><u>Arall</u><ul><li>Manylion digwyddiadau perthnasol (cysylltiedig â'r trysorlys) ar ôl dyddiad y fantolen heb eu hadlewyrchu yn y datganiadau ariannol.</li><li>Taliadau cynghorwyr/ymgynghorwyr allanol</li></ul></td></tr>
<tr><td>Dangosyddion Darbodus</td><td>Rhaid ystyried dangosyddion rheoli trysorlys ynghyd â dangosyddion yn y Cod Darbodus fel rhan o'r broses o gymeradwyo'r gyllideb.<br><br>Bydd monitro dangosyddion rheoli trysorlys yn cael eu hadrodd bob chwarter (ynghyd â'r dangosyddion darbodus eraill) fel rhan o fonitro refeniw a chyfalaf cyffredinol yr Awdurdod.</td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| Cydymffurfiaeth â Chod Rheoli Trysorlys CIPFA a Chodau Darbodus | Efallai y bydd archwilwyr angen tystiolaeth/arddangosiad o gydymffurfiaeth â pholisïau a strategaeth rheoli trysorlys allanol a mewnol.<br><br>Efallai y bydd disgwyl iddynt hefyd holi a yw'r Cod Rheoli Trysorlys wedi'i fabwysiadu ac a yw ei egwyddorion a'i argymhellion wedi'u gweithredu a'u dilyn.<br><br>Dylid dwyn unrhyw achos difrifol o dorri argymhellion y Cod Rheoli Trysorlys neu Ddangosyddion Darbodus i sylw'r archwilydd allanol. |
| Costau rheoli trysorlys | Mae'r gyllideb ar gyfer rheoli trysorlys yn rhan o ganolfannau cost Cyllid a Chaffael ac Ariannu Cyfalaf ac mae'n cynnwys<br><br>• niferoedd staff a chostau cysylltiedig<br>• costau eiddo a chostau gweinyddol eraill<br>• llog ac incwm buddsoddi arall<br>• costau dyledion a chostau ariannu eraill (neu daliadau am ddefnyddio asedau)<br>• taliadau banc a gorddrafft<br>• costau'n ymwneud â broceriaeth, comisiynau a thrafodion<br>• taliadau cynghorwyr/ymgynghorwyr allanol. |

**ARhT8: RHEOLI ARIAN PAROD A LLIF ARIAN**

Oni bai bod gofynion statudol neu reoleiddiol yn mynnu'n wahanol, bydd yr holl arian sydd yn nwylo'r Awdurdod yn cael ei reoli gan y Pennaeth Cyllid a Chaffael, a bydd yn cael ei gydgasglu at ddibenion rheoli llif arian a buddsoddiadau. Bydd rhagamcanion o'r llif arian parod yn cael eu paratoi'n rheolaidd ac yn amserol, a bydd y Pennaeth Cyllid a Chaffael yn sicrhau bod y rhain yn ddigonol at ddibenion monitro cydymffurfiaeth ag ***ARhT1[2] Rheoli Risg Hylifedd***, ac at y diben o nodi anghenion benthyca yn y dyfodol (gan ddefnyddio meincnod rhwymedigaeth lle bo hynny'n briodol). Mae'r trefniadau presennol ar gyfer paratoi rhagamcanion llif arian a'u ffurf wedi'u nodi yn yr atodlen isod.

**Atodlen**

| | |
|---|---|
| Trefniadau ar gyfer paratoi/cyflwyno datganiadau llif arian parod | Bydd rhagolygon llif arian yn cael eu gweld dros orwelion amser <u>3 blynedd</u> a byddant yn cael eu defnyddio i lunio strategaeth benthyca a buddsoddi'r Awdurdod drwy nodi cyfnodau o brinder neu ormodedd o arian parod.<br><br>Mae'r rhagolygon a'r datganiadau llif arian yn cael eu cynnal ar lefel weithredol.<br><br>Caiff model **amlinelliad llif arian tymor canolig** ei baratoi fel rhan o'r broses gyllideb, gyda rhagamcanion ar gyfer <u>3</u> blynedd ychwanegol. Mae'n crynhoi'n fanwl ac yn edrych yn bennaf ar lifoedd arian sy'n deillio o'r rhaglen gyfalaf, y gofyniad ariannu cyfalaf yn ystod y flwyddyn, ad-daliadau benthyciadau wedi'u trefnu a dyddiadau aeddfedu buddsoddiadau tymor hir, a symudiadau disgwyliedig mewn cronfeydd wrth gefn.<br><br>Caiff **llif arian blynyddol manwl** ei baratoi ar gyfer y flwyddyn ariannol unwaith y bydd y gyllideb ar gyfer y flwyddyn i ddod wedi'i chytuno, a chaiff ei fonitro a'i ddiweddaru'n wythnosol. Mae'n nodi'r symiau mawr sy'n llifo i mewn ac allan fesul mis.<br><br>Caiff ei baratoi gan ddefnyddio'r gyllideb refeniw a'r rhaglen gyfalaf y cytunwyd arni ar gyfer y flwyddyn ariannol ac mae'n seiliedig ar y wybodaeth a gafwyd o adrannau gwasanaeth amrywiol yr Awdurdod sy'n ysgwyddo'r gwariant/derbyn yr incwm a gellir ei ategu gan y profiad o flynyddoedd blaenorol.<br><br>Mae **llifoedd arian dyddiol** yn dangos rhagolygon a symudiadau arian parod wedi'u cynllunio yn ddyddiol, gan gynnwys paru arian sy'n llifo i mewn a thaliadau hysbys. Caiff hyn ei gofnodi ar daenlenni Excel. |

| | |
|---|---|
| Meincnod Rhwymedigaeth: | Mae'r Meincnod Rwymedigaeth yn cynorthwyo i sefydlu a yw'r Awdurdod yn debygol o fod yn fenthyciwr tymor hir neu'n fuddsoddwr tymor hir yn y dyfodol, ac yn cynrychioli amcangyfrif o swm cronnol y benthyca allanol y mae'n rhaid i'r Awdurdod ei gynnal er mwyn ariannu ei gynlluniau cyfalaf a refeniw presennol, gan gadw buddsoddiadau'r trysorlys ar y lefel isaf i reoli llif arian o ddydd i ddydd.<br><br>Bydd y Meincnod Rwymedigaeth yn cael ei ddiweddaru'n rheolaidd drwy'r flwyddyn gan yr Awdurdod gyda datblygiadau a/neu newidiadau amseru yn y rhaglen gyfalaf yn ogystal â newidiadau i adnoddau ar y fantolen.<br><br>***Gweler ARhT 5 am fwy o wybodaeth am ei ddefnydd.*** |
| Cynnwys ac amlder cyllidebau llif arian parod | Mae'r model llif arian blynyddol manwl yn cynnwys y canlynol:<br>• incwm refeniw a gwariant yn seiliedig ar y gyllideb,<br>• proffil o incwm cyfalaf a gwariant proffil yn unol â'r rhaglen gyfalaf,<br>• proffil o gyllid grant.<br><br>**Gweithgareddau refeniw**<br><br><u>Mewnlifoedd</u><br>▪ Ardollau o Gynghorau<br>▪ Grantiau'r llywodraeth a dderbyniwyd<br>▪ Arian parod am nwyddau a gwasanaethau<br>▪ Derbynebau arian parod gweithredu eraill<br><br><u>All-lifoedd</u><br>▪ Cyflogau a thaliadau ar ran gweithwyr<br>▪ Taliadau arian parod gweithredu<br>▪ Taliadau pensiwn Diffoddwyr Tân<br><br>**Gweithgareddau cyfalaf gan gynnwys ariannu**<br><br><u>Mewnlifoedd</u><br>▪ Grantiau cyfalaf a dderbyniwyd<br>▪ Gwerthu asedau sefydlog<br>▪ Derbyniadau arian cyfalaf eraill<br><br><u>All-lifoedd</u><br>▪ Prynu asedau sefydlog<br>▪ Taliadau arian cyfalaf eraill<br><br>**Ariannu, gwasanaethu cyllid/enillion ar fuddsoddiadau**<br><br><u>Mewnlifoedd</u><br>▪ Benthyciadau tymor hir newydd a godwyd<br>▪ Benthyciadau tymor byr newydd a godwyd<br>▪ Llog a dderbynnir<br>▪ Disgownt ar ad-dalu benthyciad yn gynnar |

| | |
|---|---|
| | <u>All-lifoedd</u><br>▪ Ad-daliadau benthyciad<br>▪ Premiwn ar ad-dalu benthyciad yn gynnar<br>▪ Buddsoddiadau byrdymor<br>▪ Elfen gyfalaf o daliadau rhent prydlesi cyllid<br>▪ Llog a dalwyd<br>▪ Elfen llog o daliadau rhent prydlesi cyllid |
| Monitro, amlder diweddariadau llif arian parod | Mae'r datganiad llif arian blynyddol yn cael ei ddiweddaru'n wythnosol gyda'r mewnlifiadau a'r all-lifiadau arian parod gwirioneddol ar ôl ystyried unrhyw ddiwygiadau gan gynnwys y rhai sy'n ymwneud ag incwm grant a gwariant cyfalaf a bydd yn cael ei gysoni â:<br>• Ardollau'r cynghorau cyfansoddol<br>• Cyflogau gwirioneddol a chostau cyflogeion eraill a delir o gyfriflenni banc cyfrif<br>• Taliadau gwirioneddol i Gyllid y Wlad o gyfriflenni banc cyfrif cyffredinol<br>• Gwariant a derbynebau gwirionedd y rhaglen gyfalaf |
| Gweithdrefnau cyfriflenni banc | Gall yr Awdurdod gyrchu datganiadau banc, drwy'r porth bancio yn ôl yr angen. Mae'r rhain yn cael eu postio gan yr Uwch Swyddog Cyllid (Cyfrifyddu Ariannol) ac fe'u cysonir â'r cyfriflyfr cyffredinol bob dydd fel arfer, drwy'r system ariannol. |
| Amserlennu taliadau a thelerau masnachu cytunedig gyda chredydwyr | Mae gan yr Awdurdod bolisi o dalu cyflenwyr, o fewn 30 diwrnod neu yn unol â thelerau masnachu y cytunwyd arnynt (os yn wahanol) |
| Trefniadau ar gyfer monitro lefelau dyledwyr/credydwyr | Mae lefelau dyledwyr yn cael eu monitro'n fisol gan ddefnyddio'r system ariannol.<br><br>Mae lefel yr anfonebau credydwyr sy'n cael eu prosesu/sy'n dal heb eu talu yn cael ei monitro'n wythnosol gan yr Uwch Swyddog Cyllid (Cyfrifyddu Ariannol). Cynhyrchir adroddiad wythnosol sy'n manylu ar yr holl daliadau BACS am y 7 diwrnod nesaf ymlaen llaw a'i gofnodi fel rhan o'r rhediad talu yn y system ariannol. |
| Gweithdrefnau ar gyfer bancio arian | Mae cyfarwyddiadau ar gyfer bancio incwm wedi'u nodi yn y Rheoliadau Ariannol. Mae arian parod a sieciau a dderbynnir, gan yr Adran Cyllid a Chaffael yn cael eu bancio yn ôl yr angen. Mae'r Adran Gyllid yn hyrwyddo talu drwy ddebyd uniongyrchol, archeb sefydlog a throsglwyddiad banc i leihau faint o arian parod a sieciau a dderbynnir.<br><br>Hysbysir holl adrannau'r Awdurdod o'r gofyniad i fancio'n rheolaidd i gydymffurfio â'r arfer gorau a argymhellir a hefyd aros o fewn y terfynau yswiriant penodol ar gyfer eiddo'r Awdurdod. |

| | |
|---|---|
| Rhestru ffynonellau gwybodaeth | Mae'r swyddogaeth rheoli trysorlys yn derbyn y rhan fwyaf o wybodaeth am lif arian gan staff yn yr Adran Cyllid a Chaffael.<br>Mae Adran y Fflyd yn rhoi manylion cerbydau ac offer sydd wedi cael eu gwaredu. |
| Arferion sy'n ymwneud â rhagdaliadau i sicrhau buddion | Dilynir yr arferion canlynol sy'n ymwneud â rhagdaliadau i gael costau is.<br><br>Cwblhau dadansoddiad budd u a chost i gadarnhau gwerth am arian, lle mae opsiwn i ragdalu - er enghraifft trwyddedau cyfrifiadurol y gellir eu prynu am 3 blynedd am gost is. |

**ARhT9: GWYNGALCHU ARIAN**

Mae'r Awdurdod yn effro i'r posibilrwydd y gallai fod yn destun ymgais i'w dynnu i mewn i weithred gwyngalchu arian. Yn unol â hynny, bydd yn cynnal gweithdrefnau ar gyfer gwirio a chofnodi pwy yw'r gwrthbartïon ac adrodd ar unrhyw amheuon, a bydd yn sicrhau bod staff sy'n ymwneud â hyn yn cael eu hyfforddi'n briodol. Mae'r trefniadau presennol, gan gynnwys enw'r swyddog y dylid rhoi gwybod iddo/iddi, wedi eu cynnwys yn yr atodlen isod.

**Atodlen**

| | |
|---|---|
| Polisi atal gwyngalchu arian | Polisi'r Awdurdod hwn yw atal, lle bynnag y bo'n bosibl, y sefydliad a'i weithwyr rhag bod yn agored i wyngalchu arian, nodi'r meysydd posibl lle y gallai ddigwydd, a chydymffurfio â'r holl ofynion cyfreithiol a rheoleiddiol, yn enwedig o ran rhoi gwybod am achosion gwirioneddol neu achosion tybiedig.<br><br>Mae'r Awdurdod wedi derbyn cyfrifoldeb i sicrhau bod ei staff sydd fwyaf tebygol o fod yn agored i wyngalchu arian yn gallu gwneud eu hunain yn gwbl ymwybodol o'r gyfraith a, lle bo angen, wedi'u hyfforddi'n briodol. |
| Prif droseddau yn ymwneud â gwyngalchu arian | Mae **Deddf Enillion Troseddau (POCA) 2002** yn nodi'r prif droseddau yn ymwneud â gwyngalchu arian. Dyma'r troseddau, yn gryno:<br>• cuddio, ffugio, trosi, trosglwyddo neu symud eiddo troseddol o Gymru a Lloegr, o'r Alban neu o Ogledd Iwerddon<br>• ymwneud â threfniant y mae person yn gwybod neu'n amau ei fod yn hwyluso caffael, cadw, defnyddio neu reoli eiddo troseddol<br>• caffael, defnyddio neu feddu ar eiddo troseddol.<br>Mae'r rhain yn berthnasol i bob person yn y Deyrnas Unedig yng ngyd-destun personol a phroffesiynol. Mae unrhyw berson sy'n ymwneud ag unrhyw weithgaredd gwyngalchu arian sy'n hysbys neu'n cael ei amau yn y DU mewn perygl o gael euogfarn droseddol.<br><br>Mae troseddau eraill yn cynnwys:<br>• methu â datgelu troseddau gwyngalchu arian<br>• rhoi gwybodaeth i rywun dan amheuaeth, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol<br>• gwneud rhywbeth a allai niweidio ymchwiliad - er enghraifft, ffugio dogfen.<br><br>Mae **Deddf Terfysgaeth 2000** yn nodi bod ymwneud â threfniant sy'n ymwneud â chadw neu reoli eiddo sy'n debygol o gael ei ddefnyddio at ddibenion terfysgaeth neu o ganlyniad i weithredoedd terfysgol yn drosedd gwyngalchu arian.<br><br>Mae'n ofynnol i bob unigolyn a busnes yn y DU roi gwybod am wybodaeth, sail resymol dros gredu neu amheuaeth ynghylch yr elw o, neu gyllid sy'n debygol o gael ei ddefnyddio ar gyfer, terfysgaeth neu wyngalchu, lle mae'n ymwneud â gwybodaeth sy'n dod iddynt yn ystod eu busnes neu gyflogaeth. |

| | |
|---|---|
| Dogfennaeth | Bydd yr Awdurdod yn adlewyrchu'r mesurau atal gwyngalchu arian sydd ganddo ar waith. Mae'r mesurau hyn yn cynnwys:<br>• Ymwybyddiaeth o'r hyn sy'n gyfystyr â gwyngalchu arian a hyfforddiant i weithwyr sydd fwyaf tebygol o ddod ar ei draws,<br>• Y rhwymedigaeth i adrodd gwybodaeth am/bod â sail resymol dros gredu y gallai trosedd gael ei chyflawni, a<br>• Cynnal mandadau delio uniongyrchol a SSI cyfoes gyda gwrthbartïon |
| Enwebu Swyddog(ion) Cyfrifol | (a) Mae'r Awdurdod wedi enwebu'r Pennaeth Cyllid a Chaffael i fod yn swyddog cyfrifol y bydd unrhyw amheuon yn ymwneud â thrafodion sy'n ymwneud â'r Awdurdod yn cael eu cyfleu iddo.<br>(b) Bydd y Pennaeth Cyllid a Chaffael yn gyfarwydd â gofynion Deddf Enillion Troseddau 2002 a bydd yn sicrhau bod staff perthnasol wedi'u hyfforddi a'u hysbysu'n briodol fel eu bod yn effro i drafodion amheus.<br>(c) Bydd y Pennaeth Cyllid a Chaffael yn gwneud trefniadau i dderbyn a rheoli pryderon staff am wyngalchu arian a'u hamheuaeth ohono, i wneud ymholiadau mewnol ac, mewn ymgynghoriad â'r PSTC (Cyllid ac Adnoddau) a'r Trysorydd, bydd yn gwneud adroddiadau, lle bo angen, i'r Gwasanaethau Cudd-wybodaeth Troseddol Cenedlaethol (NCIS). |
| Gweithdrefnau ar gyfer sefydlu pwy yw Benthycwyr a'u dilysrwydd | (a) Yn ystod ei weithgareddau trysorlys, ni fydd yr Awdurdod ond yn benthyca o ffynonellau a ganiateir a nodwyd yn ARhT4 *Offerynnau, dulliau a thechnegau cymeradwy.*<br>(b) Ni fydd yr Awdurdod yn derbyn benthyciadau gan unigolion.<br>(c) Yn ystod ei weithgareddau trysorlys, ni fydd yr Awdurdod ond yn buddsoddi gyda'r gwrthbartïon hynny sydd ar ei restr fenthyca gymeradwy.<br>(d) Bydd hunaniaeth a dilysrwydd sefydliadau masnachol (banciau, cymdeithasau adeiladu a sefydliadau ariannol eraill) a awdurdodir i gynnal gweithgarwch benthyca yn y DU yn cael ei wirio drwy wefan Banc Lloegr/Yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus - https://www.bankofengland.co.uk/prudential-regulation/authorisations/which-firms-does-the-pra-regulate<br>(e) Bydd yr holl dderbynebau/alldaliadau ariannol yn cael eu gwneud trwy drefniant BACS. |

| | |
|---|---|
| | (f) Mandadau delio uniongyrchol: Bydd yr Awdurdod yn darparu (yn achos benthyca i eraill)/cael (yn achos benthyca) ac yn cynnal ar ffeil fandadau delio gydag unrhyw wrthbarti marchnad arian newydd. Dylai'r mandadau fod ar bapur â phennawd, wedi'u dyddio a'u llofnodi.<br><br>(g) Bydd yr holl drafodion bancio ond yn cael eu gwneud gan y personél sydd â'r awdurdod i weithredu cyfrifon banciau'r awdurdod.<br><br>(h) Os bydd yr Awdurdod yn cymryd/darparu benthyciadau gan unigolion, bydd yn sefydlu gweithdrefnau cadarn ar gyfer gwirio a chofnodi gwybodaeth ariannol a phersonol briodol unigolion o'r fath.<br><br>(i) Wrth dderbyn ceisiadau am newid manylion talu, bydd gofal dyladwy yn cael ei arfer i sicrhau bod y cais yn un bona fide ac osgoi twyll posibl. Bydd gwiriadau ychwanegol yn cael eu gwneud drwy fanylion cyswllt sy'n bodoli eisoes ar gyfer y talai cyn diwygio manylion talu. |
| | Wrth fenthyca/buddsoddi arian at ddibenion rheoli trysorlys, ni fydd yr Awdurdod ond yn benthyca oddi wrth, a buddsodi mewn ffynonellau a gwrthbartïon fel y nodwyd yn y Strategaeth Rheoli Trysorlys. Mae'r meini prawf ar gyfer llunio a rheoli'r rhestr fenthyca wedi'u rhestru yn ARhT1 *Rheoli Risg*. |

**ARhT10:  HYFFORDDIANT A CHYMWYSTERAU**

Mae'r Awdurdod yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod yr holl staff sy'n gysylltiedig â swyddogaeth rheoli'r trysorlys wedi'u harfogi'n llawn i ymgymryd â'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau sydd wedi'u neilltuo iddynt. Bydd felly'n ceisio penodi unigolion sydd yn fedrus ac yn brofiadol, a bydd yn darparu hyfforddiant ar gyfer staff i'w galluogi i ennill a chynnal lefel briodol o arbenigedd, gwybodaeth a sgiliau.  Bydd y Pennaeth Cyllid a Chaffael yn argymell ac yn gweithredu'r trefniadau angenrheidiol, gan gynnwys manyleb yr arbenigedd, y wybodaeth a'r sgiliau sy'n ofynnol gan bob rôl neu aelod o staff.

Bydd PSTC (Cyllid ac Adnoddau) yn sicrhau bod aelodau sydd â chyfrifoldebau rheoli'r trysorlys, gan gynnwys y rheiny â chyfrifoldebau craffu, yn cael mynediad at hyfforddiant sy'n addas i'w hanghenion a'u cyfrifoldebau.

Mae'r rheini sydd â chyfrifoldeb llywodraethu yn deall eu cyfrifoldeb unigol i sicrhau bod ganddynt y sgiliau angenrheidiol i ymgymryd â'u rôl yn effeithiol.

Mae'r trefniadau presennol i'w gweld yn yr atodlen isod.

**Atodlen**

| | |
|---|---|
| Manylion y cymwysterau cymeradwy | Dylai'r Pennaeth a'r Dirprwy Bennaeth Cyllid a Chaffael fod yn gyfrifyddion cymwys.<br><br>Dylai Uwch Swyddog Cyllid fod wedi cwblhau'r cymhwyster AAT. |
| Manylion cyrsiau hyfforddi cymeradwy | Y cyrsiau/digwyddiadau y byddai'r Awdurdod yn disgwyl i'w bersonél trysorlys eu hystyried yw -<br>▪ Cyrsiau hyfforddi ar gyfer Cyfrifyddu, Cyllidebu, Ariannu Cyfalaf a Benthyca, Rheolaeth Ariannol a ddarperir gan CIPFA, Cymdeithas y Trysoryddion Corfforaethol, a sefydliadau priodol eraill.<br>▪ Unrhyw weithdai/seminarau a ddarperir gan yr ymgynghorwyr Rheoli Trysorlys (mae Arlingclose yn darparu hyfforddiant rheolaidd ac ad-hoc).<br>▪ Mynychu Cynhadledd CIPFA a digwyddiadau proffesiynol perthnasol eraill.<br>▪ Y rhai sy'n gyfrifol am graffu ar swyddogaeth y trysorlys yn mynychu hyfforddiant. |
| Cofnodion o hyfforddiant a dderbyniwyd gan staff y trysorlys a staff perthnasol eraill | Mae cofnodion hyfforddiant sy'n gysylltiedig â'r Trysorlys yn cael eu cadw gan yr Adran Hyfforddi. Dylai mynychwyr lenwi ffurflen FIN09 a'i chyflwyno i'r Adran Hyfforddi. |
| Cofnodion o hyfforddiant a dderbyniwyd gan y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu | Caiff cofnodion hyfforddiant eu cadw ar gyfer aelodau/pwyllgorau sy'n gyfrifol am lywodraethu rheolaeth trysorlys gan y Swyddog Monitro. |

**ARhT11: DEFNYDDIO DARPARWYR GWASANAETH ALLANOL**

Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod cyfrifoldeb am benderfyniadau rheoli'r trysorlys yn aros gyda'r Awdurdod bob amser. Mae'n cydnabod gwerth posibl defnyddio darparwyr gwasanaethau rheoli trysorlys allanol er mwyn sicrhau sgiliau ac adnoddau arbenigol. Pan fydd yn defnyddio darparwyr gwasanaeth o'r fath, bydd yn sicrhau ei fod yn gwneud hynny am resymau a fydd wedi bod yn destun gwerthusiad llawn o'r costau a'r buddion. Bydd hefyd yn sicrhau bod telerau penodiad y darparwyr, a'r dulliau a fydd yn cael eu defnyddio i asesu eu gwerth, yn cael eu cytuno a'u dogfennu'n gywir ac yn cael eu hadolygu'n rheolaidd. Bydd hefyd yn sicrhau, lle bo hynny'n ymarferol ac yn angenrheidiol, fod amrediad o ddarparwyr gwasanaethau'n cael ei ddefnyddio, er mwyn osgoi gorddibyniaeth ar un cwmni neu ar nifer fechan o gwmnïau. Lle mae gwasanaethau'n destun trefniadau tendro neu aildendro, bydd gofynion deddfwriaethol yn cael eu parchu bob amser.

Y Pennaeth Cyllid a Chaffael sy'n gyfrifol am fonitro trefniadau o'r fath ac mae manylion y trefniadau presennol wedi'u nodi yn yr atodlen isod.

**Atodlen**

| | |
|---|---|
| Trothwy contractau | Mae Rheoliadau Ariannol yr Awdurdod yn mynnu bod contract ar waith gyda darparwyr gwasanaethau allanol lle mae gwerth y contract yn £0.040m ac uwch. Bydd y contract yn nodi'n glir y gwasanaethau sydd i'w darparu a'r telerau y byddant yn cael eu darparu arnynt. |
| Manylion contractau gyda darparwyr gwasanaethau, gan gynnwys bancwyr, broceriaid, ymgynghorwyr, cynghorwyr a manylion y gwasanaethau a ddarperir | (a) Bancwyr i'r Awdurdod<br>Barclays 0345 8359532<br>Cyfnod y contract: parhaus<br>Cytundeb ffurfiol ar waith: oes<br>Gwasanaethau a ddarperir: gwasanaethau bancio, i-borth, buddsoddiadau<br><br>(b) Ymgynghorwyr y Trysorlys:<br>Arlingclose 08448 808200 info@arlingclose.com<br>Cyfnod y contract: 01/04/22 i 31/03/25<br>Cytundeb ffurfiol ar waith: oes<br>Gwasanaethau a ddarperir: Cyngor ar Reoli Trysorlys<br>Mae'r Awdurdod yn cydnabod bod cyfrifoldeb am fenthyca, buddsoddiadau a rheoli risg yn parhau gyda'r Awdurdod.<br><br>(c) Broceriaid<br>Oherwydd y gweithgaredd presennol, mae'r Awdurdod yn defnyddio un brocer.<br>Tradition, 020 7198 1500<br>Cyfnod y contract: amh<br>Cytundeb ffurfiol ar waith: nag oes<br>Gwasanaethau a ddarperir: chwilio am fenthyciadau tymor byr<br><br>Mae'r Awdurdod yn cydnabod nad rôl broceriaid yw darparu cyngor ar deilyngdod credyd y sefydliadau hynny y gall yr Awdurdod fenthyca iddynt. |

| | |
|---|---|
| Statws rheoleiddiol gwasanaethau a ddarperir | Rhestrir statws rheoleiddiol darparwyr gwasanaethau allanol yr Awdurdod isod:<br><br>• Bancwyr i'r Awdurdod – rheoleiddir gan yr Awdurdod Rheoleiddio Darbodus<br>• Ymgynghorydd y Trysorlys – rheoleiddir gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol<br>• Brocer 1 – Rheoleiddir gan yr Awdurdod Ymddygiad Ariannol |
| Deddf Llwgrwobrwyo | Mae'r Awdurdod yn ystyried gofynion Deddf Llwgrwobrwyo 2011 wrth ymdrin â darparwyr allanol. |

**ARhT12: LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL**

Mae'r Awdurdod wedi ymrwymo i geisio sicrhau trefn llywodraethu corfforaethol briodol ym mhob agwedd o'i fusnesau a'i wasanaethau, ac i sefydlu'r egwyddorion a'r arferion ar gyfer cyflawni hyn. O'r herwydd, bydd y bydd y swyddogaeth rheoli trysorlys a'i gweithgareddau yn cael eu cynnal yn agored, yn dryloyw a chyda gonestrwydd, uniondeb ac atebolrwydd.

Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu, ac wedi gweithredu, egwyddorion allweddol Cod Ymarfer Rheoli'r Trysorlys.

Ystyrir bod hyn, ynghyd â'r trefniadau eraill y manylir arnynt yn yr atodlen isod, yn hanfodol i sicrhau llywodraethiant corfforaethol priodol wrth reoli'r trysorlys. Bydd y Pennaeth Cyllid a Chaffael yn monitro ac, os a phan fo angen, yn adrodd ar effeithiolrwydd y trefniadau hyn.

**Atodlen**

| | |
|---|---|
| Cyfrifoldebau stiwardiaeth | Bydd *Y Pennaeth Cyllid a Chaffael* yn sicrhau'r canlynol:<br>▪ Mae systemau'n bodoli i ddarparu gweinyddiaeth a rheolaeth ariannol briodol a chynnal fframwaith ar gyfer goruchwylio ac adolygu'r swyddogaeth rheoli trysorlys.<br>▪ Bydd dogfennau polisi ffurfiol yn diffinio gweithdrefnau clir ar gyfer monitro, rheoli a gwirio mewnol a bydd llinellau adrodd wedi'u diffinio'n dda. |
| Rhestr o ddogfennau sydd ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio | Mae'r dogfennau canlynol ar gael i'r cyhoedd eu harchwilio'n rhydd:<br>▪ Datganiad o Gyfrifon Blynyddol.<br>▪ Cynllun Cyfalaf 10 Mlynedd<br>▪ Polisi Rheoli Trysorlys<br>▪ Strategaeth Gyfalaf<br>▪ Strategaeth Rheoli Trysorlys gan gynnwys y Strategaeth Fuddsoddi Flynyddol (a fydd yn cynnwys buddsoddiadau'r trysorlys a buddsoddiadau nad ydynt yn rhai'r trysorlys)<br>▪ Adroddiadau Monitro'r Gyllideb<br>▪ Adroddiadau Blynyddol a Chwarterol y Trysorlys |
| Gwefan yr Awdurdod | Mae gwybodaeth ariannol hefyd ar gael ar wefan yr Awdurdod – tudalen ariannol. |

| | |
|---|---|
| Cyfrifoldeb am reoli trysorlys | Bydd *Y Pennaeth Cyllid a Chaffae*l yn sicrhau'r canlynol:<br>▪ mae gan y rhai sy'n gyfrifol am y polisi rheoli trysorlys, yn bennaf y Pwyllgor Archwilio (chwarterol) a'r Awdurdod Tân (blynyddol) yr holl wybodaeth a chyngor sy'n angenrheidiol i'w galluogi i gyflawni eu rhwymedigaethau'n agored. Maent yn cael eu hysbysu'n llawn am weithgareddau rheoli trysorlys yr awdurdod ac fe ymgynghorir â hwy yn rheolaidd.<br>▪ mae'r gweithdrefnau ar gyfer monitro'r gweithgareddau rheoli trysorlys drwy archwilio, craffu ac arolygu yn gadarn ac yn cael eu cymhwyso'n drylwyr, gyda mynediad agored at wybodaeth a threfniadau wedi'u diffinio'n dda ar gyfer adolygu a gweithredu argymhellion ar gyfer newid. |

**ARFERION RHEOLI BUDDSODDIADAU AR GYFER BUDDSODDIADAU NAD YDYNT YN RHAN O GWEITHGAREDDAU RHEOLI'R TRYSORLYS**

Nid yw ATAGC yn ymgymryd â **buddsoddiadau at ddibenion gwasanaeth (neu fuddsoddiadau gwasanaeth).**

Nid yw ATAGC yn ymgymryd â **buddsoddiadau at ddibenion masnachol (neu fuddsoddiadau masnachol).**

*This document is available in English.* **Eitem Agenda 10**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **18 Mawrth 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur – Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Helen Howard – Pennaeth Cyllid a Chaffael** |
| Pwnc | **Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2024-25** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno i Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys arfaethedig ar gyfer y cyfnod Ebrill 2024 – Mawrth 2025, a rhoi manylion ac esboniadau o'r Strategaeth arfaethedig i Aelodau'r Pwyllgor Archwilio, er mwyn:

i. hwyluso cefnogaeth yr Aelodau ar gyfer cymeradwyaeth gan yr Awdurdod ar 15 Ebrill, a
ii. rhoi sylfaen gadarn i Aelodau'r Pwyllgor Archwilio er mwyn iddynt fonitro a chraffu'n chwarterol ar weithgarwch Rheoli Trysorlys gwirioneddol yn ystod 2024-25.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Mae'r Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (y Strategaeth) yn dangos sut y bydd yr Awdurdod yn rheoli ei fenthyciadau (benthyciadau o'r PWLB) a'i fuddsoddiadau (adneuon arian parod mewn banciau yn bennaf) ar gyfer y flwyddyn i ddod, ac yn gosod y polisïau y bydd swyddogaeth Rheoli'r Trysorlys yn gweithredu o'u mewn.

3 Datblygwyd y Strategaeth hon ar y cyd â'r cyllidebau refeniw a chyfalaf ar gyfer 2024/25, a'r Strategaeth Adnoddau Tymor Canolig, a gymeradwywyd gan yr Awdurdod yn ei gyfarfod ar 22 Ionawr 2024, yn ogystal â'r Strategaeth Gyfalaf, sydd hefyd yn cael ei chyflwyno heddiw.

## ARGYMHELLION

4 Gofynnir i'r Aelodau:

**i) gymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2024/25; ac**
**ii) argymell cymeradwyaeth gan yr Awdurdod.**

**CEFNDIR**

5 Mae Cod Ymarfer y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth ar Reoli'r Trysorlys ("Cod TM CIPFA") yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gymeradwyo'r Strategaeth a'r Dangosyddion Darbodus yn flynyddol. Mae'n ofynnol i'r Pwyllgor Archwilio adolygu'r adroddiad hwn cyn iddo gael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod ar 15 Ebrill 2024.

6 Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi cael y dasg o sicrhau craffu effeithiol ar strategaeth a pherfformiad y swyddogaeth rheoli'r trysorlys. Yn seiliedig ar ei ganfyddiadau, bydd y Pwyllgor Archwilio yn gwneud argymhellion perthnasol i'r Awdurdod.

**GWYBODAETH**

7 Mae'r Strategaeth, a'r Dangosyddion Darbodus cysylltiedig, wedi'u cynnwys yn Atodiad 1 gan roi trosolwg o ddull yr Awdurdod o fenthyca i ariannu'r cynlluniau gwariant cyfalaf. Mae'r Strategaeth hefyd yn ymgorffori'r dull o reoli buddsoddiadau, er y dylai Aelodau nodi bod hyn yn ymgorffori rheoli arian sydd dros ben yn y tymor byr yn unig.

8 Mae Rheoli'r Trysorlys yn golygu gofalu am arian parod yr Awdurdod, sy'n rhan hanfodol o waith yr Awdurdod, gan fod oddeutu £46m yn mynd trwy gyfrif banc yr Awdurdod bob blwyddyn.

9 Yn ystod y flwyddyn, mae'r Awdurdod wedi cael lefelau amrywiol o arian parod ar gael i'w fuddsoddi yn y tymor byr, yn amrywio o £3m - £12m, yn 2023/24. O ganlyniad, mae angen iddo sicrhau'r gyfradd enillion orau bosibl heb beryglu'r arian yn ddiangen. Mae risg yn cael ei leihau trwy arallgyfeirio, sy'n golygu bod arian yr Awdurdod yn cael ei fuddsoddi gyda nifer o sefydliadau ariannol.

10 Wrth fuddsoddi, bydd yr Awdurdod yn cadw at yr egwyddorion canlynol. Mae trefn y tair egwyddor hyn yn bwysig, gyda Diogelwch yn brif flaenoriaeth.

- Diogelwch: Cadw arian yn ddiogel
- Hylifedd: Sicrhau bod arian ar gael pan fydd ei angen
- Arenillion: Sicrhau cyfradd enillion weddus

11 Bydd yr Awdurdod yn parhau i fenthyca i ariannu gwariant cyfalaf. Ar gyfer 2024/25, amcangyfrifir y bydd yn benthyca £5.676m, i ariannu'r gwariant cyfalaf. Disgwylir y bydd hyn yn cynyddu'r benthyca i £24.493m erbyn 31 Mawrth 2025 (amcangyfrif Mawrth 2024: £20.787m).

12 Amcangyfrifir mai'r llog ar fenthyciadau cyfredol a newydd ar gyfer 2024/25 fydd £0852m. Rhagwelir y bydd y cyfraddau llog ar gyfer benthyciadau newydd yn 5.25%.

13 Cefnogir yr Awdurdod drwy ddefnyddio ymgynghorwyr proffesiynol, Arlingclose, sy'n darparu cyngor ac arweiniad mewn perthynas â gweithgareddau rheoli'r trysorlys.

14 Bydd y dangosyddion Darbodus Cyfalaf yn cael eu hadrodd fel rhan o'r Strategaeth Gyfalaf.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu ag amcanion llesiant hirdymor yr Awdurdod drwy sicrhau bod prynu asedau i gefnogi cyflwyno gwasanaethau rheng-flaen yn ddarbodus, fforddiadwy a chynaliadwy. Mae'r Strategaeth Gyfalaf wedi'i chynllunio i sicrhau bod digon o fuddsoddiad yn cael ei wneud mewn seilwaith i alluogi'r gwasanaeth i ddarparu ymatebion brys a gwaith atal ymhell i'r dyfodol. |
| Cyllideb | Mae'r strategaethau'n cysylltu â'r gyllideb refeniw a chyfalaf sy'n ystyried fforddiadwyedd tymor hwy |
| Cyfreithiol | Mae'r fframwaith rheoleiddio wedi'i nodi yn yr atodiadau i'r adroddiad. |
| Staffio | Dim |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/y Gymraeg | Dim |
| Risgiau | Mae'r adroddiadau'n nodi'r risgiau ariannol sy'n gysylltiedig â gweithgareddau benthyca a buddsoddi. |

# Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2024-25

Gwasanaeth Tân ac Achub

Gogledd Cymru

# CYNNWYS


| ADRAN | | TUDALEN |
|---|---|---|
| 1 | Cyflwyniad | 2 |
| 2 | Cyd-destun Allanol | 2 |
| 3 | Cyd-destun Lleol | 3 |
| 4 | Strategaeth Fenthyca | 5 |
| 5 | Strategaeth Buddsoddi'r Trysorlys | 7 |
| 6 | Dangosyddion Darbodus Rheoli'r Trysorlys | 10 |
| 7 | Materion Cysylltiedig | 12 |
| 8 | Goblygiadau Ariannol | 12 |
| 9 | Opsiynau Eraill a Ystyrir | 12 |
| Atodiad A | Rhagolygon Economaidd a Chyfradd Llog Arlingclose | 14 |
| Atodiad B | Gofynion ychwanegol Canllawiau Buddsoddi Llywodraeth Cymru | 16 |

## 1 Cyflwyniad

1.1 Rheoli'r trysorlys yw rheoli llif arian, benthyciadau a buddsoddiadau'r Awdurdod, a'r risgiau cysylltiedig. Mae'r Awdurdod wedi benthyca symiau sylweddol o arian ac felly mae'n agored i risgiau ariannol gan gynnwys colli arian a fuddsoddwyd ac effaith refeniw newid cyfraddau llog. Felly mae dynodi, monitro a rheoli risg ariannol yn llwyddiannus yn ganolog i reolaeth ariannol ddarbodus yr Awdurdod.

1.2 Mae rheoli risg trysorlys yn yr Awdurdod yn cael ei wneud o fewn fframwaith y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth *Treasury Management in the Public Services: Code of Practice 2021 Edition* (Cod CIPFA) sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gymeradwyo strategaeth rheoli'r trysorlys cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. Yn ogystal, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (LlC) Ganllawiau diwygiedig ar Fuddsoddiadau Awdurdodau Lleol ym mis Tachwedd 2019 sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gymeradwyo strategaeth fuddsoddi cyn dechrau pob blwyddyn ariannol. Mae'r adroddiad hwn yn cyflawni rhwymedigaeth gyfreithiol yr Awdurdod dan *Deddf Llywodraeth Leol 2003* i ystyried Cod CIPFA a Chanllawiau LlC.

1.3 **Strategaeth ddiwygiedig:** Yn unol â Chanllawiau LlC, gofynnir i'r Awdurdod gymeradwyo Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys diwygiedig os bydd y tybiaethau y mae'r adroddiad hwn yn seiliedig arnynt yn newid yn sylweddol. Byddai amgylchiadau o'r fath yn cynnwys, er enghraifft, newid mawr annisgwyl mewn cyfraddau llog, gyda goblygiadau i raglen gyfalaf yr Awdurdod.

## 2 Cyd-destun Allanol

2.1 **Cefndir economaidd:** Bydd effaith cyfraddau llog a chwyddiant uwch ar y DU, ynghyd â rhagolwg economaidd sy'n gwaethygu, hinsawdd wleidyddol ansicr oherwydd yr etholiad cyffredinol sydd ar ddod, ynghyd â'r rhyfel yn yr Wcráin a'r Dwyrain Canol, yn ddylanwadau mawr ar strategaeth rheoli trysorlys yr Awdurdod ar gyfer 2024/25.

2.2 **Rhagolwg cyfradd llog (Rhagfyr 2023):** Er bod chwyddiant y DU a thwf cyflog yn parhau yn uchel, mae ymgynghorydd rheoli trysorlys yr Awdurdod (Arlingclose) yn rhagweld bod cyfradd y banc wedi cyrraedd ei huchafbwynt ar 5.25%. Bydd Pwyllgor Polisi Ariannol Banc Lloegr yn dechrau gostwng cyfraddau yn 2024 i ysgogi economi'r DU, ond bydd yn amharod i wneud hynny nes ei fod yn sicr na fydd unrhyw effeithiau ail-rownd yn parhau. Mae Arlingclose yn rhagweld toriadau mewn cyfraddau o Ch3 2024 i lefel isel o tua 3% erbyn dechrau i ganol 2026.

2.3 Mae rhagolwg manylach ar faterion economaidd a chyfraddau llog gan Arlingclose yn Atodiad A.

2.4 At ddibenion pennu'r gyllideb, tybiwyd y bydd benthyciadau newydd hirdymor yn cael eu benthyg ar gyfradd gyfartalog o 5.25%.

## 3 Cyd-destun Lleol

3.1 Ar 31 Rhagfyr 2023, roedd gan yr Awdurdod £21.620m o fenthyciadau a £7.743m o fuddsoddiadau trysorlys, fel y nodir isod.

| | *Rhagfyr 2023 Portffolio gwirioneddol £m* | **Rhagfyr 2023 Cyfradd gyfartalog %** |
|---|---|---|
| **Benthyciadau allanol:** | | |
| Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus | 18.620 | 2.46% |
| Awdurdodau lleol | 3.000 | 4.35% |
| **Cyfanswm benthyciadau allanol** | **21.620** | |
| **Rhwymedigaethau hirdymor eraill:** | | |
| Prydlesi Cyllid | 0 | |
| **Cyfanswm dyled allanol gros** | **21.620** | |
| **Buddsoddiadau Trysorlys** | | |
| Llywodraeth y DU | 3.400 | 5.19% |
| Banciau (ansicredig) | 4.343 | 4.65 - 5.38% |
| **Cyfanswm buddsoddiadau'r trysorlys** | **7.743** | |
| **Dyled net** | **13.877** | |

3.2 Ar hyn o bryd mae'r holl brydlesi yn cael eu trin fel prydlesi gweithredol, fodd bynnag o 1 Ebrill 2024, bydd adrodd am brydlesi yn newid a bydd rhai prydlesi yn cael eu hystyried yn asedau Hawl Defnyddio (ROU) – er enghraifft, prydlesi eiddo a byddant yn ymddangos o fewn yr wybodaeth fenthyca ar adroddiadau yn y dyfodol.

3.3 Dangosir y newidiadau a ragwelir yn y symiau hyn yn y dadansoddiad mantolen yn nhabl 1 isod.

*Tabl 1: Crynodeb a rhagolwg y fantolen*

| | **31.3.23 Gwirioneddol £m** | **31.3.24 Amcangyfrif £m** | **31.3.25 Rhagolwg £m** | **31.3.26 Rhagolwg £m** | **31.3.27 Rhagolwg £m** |
|---|---|---|---|---|---|
| Gofyniad ariannu cyfalaf | 28.877 | 32.350 | 36.391 | 40.948 | 42.765 |
| Llai: Rhwymedigaethau dyledion eraill * | 0.000 | 0.000 | -0.225 | -0.252 | -0.302 |
| CFR Benthyciadau | 28.877 | 32.350 | 36.616 | 41.200 | 43.067 |
| Llai: Benthyca allanol ** | -26.460 | -20.787 | -17.073 | -11.456 | -10.137 |
| Benthyca mewnol/(gor-fenthyca) | **2.417** | **11.563** | **19.543** | **29.744** | **32.930** |
| Llai: Adnoddau mantolen | -6.594 | -5.600 | -4.700 | -4.200 | -3.700 |
| Buddsoddiadau/ (benthyciadau newydd) | **4.177** | **-5.963** | **-14.843** | **-25.544** | **-29.230** |

* prydlesi sy'n ffurfio rhan o gyfanswm dyledion yr Awdurdod

** yn dangos dim ond benthyciadau y mae'r Awdurdod wedi ymrwymo iddynt ac yn eithrio ailariannu dewisol

3.4 Mae'r angen sylfaenol i fenthyca at ddibenion cyfalaf yn cael ei fesur gan y Gofyniad Ariannu Cyfalaf (CFR), ac adnoddau mantolen yw'r symiau sylfaenol sydd ar gael i'w buddsoddi. Strategaeth gyfredol yr Awdurdod yw cynnal benthyca a buddsoddiadau islaw eu lefelau sylfaenol, a elwir weithiau yn fenthyca mewnol.

3.5 Mae gan yr Awdurdod CFR cynyddol oherwydd y rhaglen gyfalaf, ond ychydig iawn o fuddsoddiadau ac felly bydd gofyn iddo fenthyca hyd at £16.568m dros y cyfnod 2024-2027.

Mae *Prudential Code for Capital Finance in Local Authorities* CIPFA yn argymell y dylai cyfanswm dyled yr Awdurdod fod yn is na'i CFR uchaf a ragwelwyd dros y tair blynedd nesaf. Mae Tabl 1 yn dangos bod yr Awdurdod yn disgwyl cydymffurfio â'r argymhelliad hwn yn rhwydd yn ystod 2024/25.

3.6 **Meincnod rhwymedigaeth:** Er mwyn cymharu benthyciadau gwirioneddol yr Awdurdod yn erbyn strategaeth amgen, mae meincnod rhwymedigaeth wedi'i gyfrifo sy'n dangos y lefel risg isaf o fenthyca. Mae hyn yn tybio'r un rhagolygon â thabl 1 uchod, ond bod balansau arian parod a buddsoddiad yn cael eu cadw i isafswm o £2m ar ddiwedd pob blwyddyn i gynnal hylifedd digonol ond lleihau risg credyd.


3.7 Mae'r meincnod rhwymedigaeth yn offeryn pwysig i helpu i benderfynu a yw'r Awdurdod yn debygol o fod yn fenthyciwr hirdymor neu'n fuddsoddwr hirdymor yn y dyfodol, ac i addasu ei ffocws strategol a'i benderfyniadau yn sgil hynny. Mae'r meincnod rhwymedigaeth ei hun yn cynrychioli amcangyfrif o swm cronnus y benthyca allanol y mae'n rhaid i'r Awdurdod ei gael i ariannu ei gynlluniau cyfalaf a refeniw cyfredol gan gadw buddsoddiadau'r trysorlys ar y lefel isaf sy'n ofynnol i reoli llif arian o ddydd i ddydd.

*Tabl 2: Dangosydd Darbodus: Meincnod rhwymedigaeth*

| | **31.3.23 Gwirioneddol £m** | **31.3.24 Amcangyfrif £m** | **31.3.25 Rhagolwg £m** | **31.3.26 Rhagolwg £m** | **31.3.27 Rhagolwg £m** |
|---|---|---|---|---|---|
| CFR Benthyciadau | 28.877 | 32.350 | 36.616 | 41.200 | 43.067 |
| Llai: Adnoddau mantolen | -6.594 | -5.600 | -4.700 | -4.200 | -3.700 |
| Gofyniad benthyciadau net | 22.283 | 26.750 | 31.916 | 36.800 | 39.367 |
| A: Lwfans hylifedd | 2.000 | 2.000 | 2.000 | 2.000 | 2.000 |
| Meincnod rhwymedigaeth | **24.283** | **28.750** | **33.916** | **38.800** | **41.367** |

3.8 Yn dilyn ymlaen o'r rhagolygon tymor canolig yn nhabl 2 uchod, mae'r meincnod rhwymedigaeth hirdymor yn rhagdybio y bydd gwariant cyfalaf yn cael ei ariannu drwy fenthyca £5.676m yn 2024/25, £6.424m yn 2025/26 a £4.468m yn 2026/27.

3.9 Mae'r ddarpariaeth isafswm refeniw ar wariant cyfalaf newydd yn seiliedig ar eu hoes ased ar gyfer y dosbarth asedau (er enghraifft 50 mlynedd ar gyfer adeiladau, 15 mlynedd ar gyfer peiriannau tân) ac incwm, gwariant a chronfeydd wrth gefn i gyd yn cynyddu gan chwyddiant o 2.5% y flwyddyn. Dangosir hyn yn y siart isod ynghyd â phroffil aeddfedrwydd benthyciadau presennol yr Awdurdod:




3.10 Bydd yr Awdurdod yn parhau i fod yn fenthyciwr gan nad yw'r awdurdod yn dal buddsoddiadau na chronfeydd wrth gefn i ariannu'r cynllun cyfalaf. Mae'r llinell las yn dynodi'r angen i ariannu gwariant cyfalaf drwy fenthyca. Mae'r llinellau coch yn cynrychioli'r angen i ariannu gwariant cyfalaf trwy fenthyca unwaith y bydd cronfeydd wrth gefn a gwargedion (neu ddiffygion) cyfalaf gweithio wedi'u hystyried – mewn gwirionedd dyma'r gwir angen i fenthyca y mae CIPFA wedi'i ddiffinio fel y Meincnod Rhwymedigaeth. Mae'r llinell goch doredig yn cynrychioli'r sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn ac mae'r llinell solet yn cynrychioli'r sefyllfa ganol blwyddyn ar gyfartaledd. Mae'r rhannau llwyd yn dangos benthyciadau gwirioneddol. Pan fydd y rhan lwyd yn gostwng o dan y llinellau coch, mae'n golygu bod angen benthyca.

## 4 Strategaeth Fenthyca

4.1 Ar hyn o bryd, mae gan yr Awdurdod £21.602m o fenthyciadau, gostyngiad o £4.840m ar y balans ar 31 Mawrth 2023, fel rhan o'i strategaeth ar gyfer ariannu rhaglenni cyfalaf y blynyddoedd blaenorol. Mae rhagolwg y fantolen yn nhabl 1 yn dangos bod yr Awdurdod yn disgwyl benthyca hyd at £14.843m yn 2024/25. Gall yr Awdurdod hefyd fenthyca symiau ychwanegol i ragariannu gofynion blynyddoedd i ddod, ar yr amod nad yw hyn yn fwy na'r terfyn awdurdodedig ar gyfer benthyca o £36.616m.

4.2 **Amcanion:** Prif amcan yr Awdurdod wrth fenthyca arian yw i gael cydbwysedd risg isel priodol rhwng sicrhau costau llog isel a chael sicrwydd ynghylch y costau hynny dros y cyfnod y mae angen cyllid ar ei gyfer. Mae'r hyblygrwydd i ailnegodi benthyciadau, pe bai cynlluniau hirdymor yr Awdurdod yn newid, yn amcan eilaidd.

4.3 **Strategaeth:** O ystyried y toriadau sylweddol i wariant cyhoeddus ac yn arbennig i gyllid llywodraeth leol, mae strategaeth fenthyca'r Awdurdod yn parhau i ymdrin â mater allweddol fforddiadwyedd heb beryglu sefydlogrwydd tymor hwy y portffolio dyledion. Ar hyn o bryd mae cyfraddau llog tymor byr ar uchafbwynt 15 mlynedd ond disgwylir iddynt ostwng yn y blynyddoedd i ddod. Felly mae'n debygol o fod yn fwy cost-effeithiol yn y tymor canolig i fenthyg benthyciadau tymor byr yn lle hynny. Drwy wneud hynny, mae'r Awdurdod yn gallu lleihau costau benthyca net a lleihau risg gyffredinol y trysorlys. Bydd manteision benthyca tymor byr yn cael eu monitro'n rheolaidd yn erbyn y potensial ar gyfer ysgwyddo costau ychwanegol drwy ohirio benthyca i'r blynyddoedd i ddod pan ragwelir y bydd cyfraddau benthyca hirdymor yn codi'n gymedrol. Bydd Arlingclose yn cynorthwyo'r Awdurdod gyda'r dadansoddiad 'cost cario' ac adennill costau hwn. Gall ei allbwn benderfynu a fydd yr Awdurdod yn benthyca symiau ychwanegol ar gyfraddau sefydlog hirdymor yn 2024/25 gyda'r bwriad o gadw costau llog yn y dyfodol yn isel, hyd yn oed os yw hyn yn achosi costau ychwanegol yn y tymor byr.

4.4 Yn y gorffennol mae'r Awdurdod wedi codi'r cyfan o'i fenthyciadau hirdymor oddi wrth y PWLB ond bydd yn ystyried benthyciadau hirdymor o ffynonellau eraill gan gynnwys banciau, cronfeydd pensiwn a/neu awdurdodau lleol, er mwyn lleihau costau llog a lleihau gorddibyniaeth ar un ffynhonnell ariannu, yn unol â Chod CIPFA. Nid yw benthyciadau PWLB bellach ar gael i awdurdodau lleol sy'n bwriadu prynu asedau buddsoddi ar gyfer arenillion yn bennaf; bydd yr Awdurdod yn parhau i osgoi'r gweithgaredd hwn er mwyn parhau i gael mynediad at fenthyciadau PWLB.

4.5 Fel arall, gall yr Awdurdod drefnu benthyciadau cychwyn ymlaen llaw, lle mae'r gyfradd llog wedi'i gosod ymlaen llaw, ond bod yr arian parod yn cael ei dderbyn mewn blynyddoedd diweddarach. Byddai hyn yn galluogi sicrwydd cost heb ddioddef cost cario yn y cyfamser.

4.6 Yn ogystal, gall yr Awdurdod fenthyca rhagor o fenthyciadau tymor byr i dalu am brinder llif arian nas cynlluniwyd.

4.7 **Ffynonellau benthyca:** Y ffynonellau cymeradwy ar gyfer benthyca tymor hir a thymor byr yw:

- Cyfleuster benthyca PWLB Trysorlys EF (y cyn Fwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus)
- unrhyw sefydliad a gymeradwywyd ar gyfer buddsoddiadau (gweler isod)
- unrhyw fanc neu gymdeithas adeiladu arall a awdurdodwyd i weithredu yn y DU
- unrhyw gorff sector cyhoeddus arall yn y DU
- cronfeydd pensiwn sector cyhoeddus a phreifat y DU (ac eithrio Cronfa Bensiwn Clwyd - Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol)
- UK Municipal Bonds Agency plc a chwmnïau pwrpas arbennig eraill a grëwyd i alluogi cyhoeddi bondiau awdurdodau lleol

4.8 **Ffynonellau cyllid dyled eraill:** Yn ogystal, gellir codi cyllid cyfalaf drwy'r dulliau canlynol nad ydynt yn fenthyciadau, ond y gellir eu cyfrif fel rhwymedigaethau dyledion eraill:

- prydlesu
- gwerthu ac adlesu
- cyllid tebyg sy'n seiliedig ar asedau

4.9 **Municipal Bonds Agency:** Sefydlwyd yr UK Municipal Bonds Agency plc yn 2014 gan y Gymdeithas Llywodraeth Leol fel dewis amgen i'r PWLB. Mae'n cyhoeddi bondiau ar y marchnadoedd cyfalaf ac yn benthyca'r elw i awdurdodau lleol. Mae hon yn ffynhonnell fwy cymhleth o gyllid na'r PWLB am ddau reswm: mae'n ofynnol i awdurdodau benthyca roi gwarant i fuddsoddwyr bond i ad-dalu eu buddsoddiad os na fydd yr asiantaeth yn gallu gwneud hynny am unrhyw reswm; a cheir cyfnod arweiniol o sawl mis rhwng ymrwymo i fenthyca a gwybod y gyfradd llog sy'n daladwy. Bydd unrhyw benderfyniad i fenthyca gan yr Asiantaeth felly yn destun adroddiad ar wahân i'r Pwyllgor Archwilio.

4.10 **Benthyciadau tymor byr a chyfradd amrywiol:** Mae'r benthyciadau hyn yn gadael yr Awdurdod yn agored i'r risg o godiadau cyfradd llog tymor byr ac felly maent yn amodol ar y terfynau cyfradd llog yn y dangosyddion rheoli trysorlys isod. Gellir defnyddio deilliadau ariannol i reoli'r risg cyfradd llog hon (gweler yr adran isod).

4.11 **Aildrefnu dyled:** Mae'r PWLB yn caniatáu i awdurdodau ad-dalu benthyciadau cyn aeddfedrwydd a thalu premiwm neu dderbyn gostyngiad yn unol â fformiwla benodol yn seiliedig ar gyfraddau llog cyfredol. Efallai y bydd benthycwyr eraill hefyd yn barod i drafod telerau adbrynu cynamserol. Gall yr Awdurdod fanteisio ar hyn a rhoi benthyciadau newydd yn lle rhai benthyciadau, neu ad-dalu benthyciadau heb eu disodli, lle disgwylir i hyn arwain at arbediad cost cyffredinol neu ostyngiad mewn risg. Mae'r cynnydd diweddar mewn cyfraddau llog yn golygu y dylai cyfleoedd mwy ffafriol i aildrefnu dyled godi nag yn y blynyddoedd blaenorol.

## 5 Strategaeth Buddsoddi'r Trysorlys

5.1 Mae'r Awdurdod yn dal cronfeydd sydd wedi'u buddsoddi, sy'n cynrychioli incwm a dderbyniwyd o flaen gwariant, ynghyd â balansau a chronfeydd wrth gefn a ddelir. Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae balans buddsoddiad trysorlys yr Awdurdod wedi amrywio rhwng £3.737m a £14.616m miliwn. Disgwylir i lefelau buddsoddi fod yn is yn y flwyddyn i ddod, yn rhannol oherwydd swm y grant y gellir ei dderbyn gan Lywodraeth Cymru mewn perthynas â Chronfa Bensiwn y Diffoddwyr Tân.

5.2 **Amcanion:** Mae Cod CIPFA a Chanllawiau LlC yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod fuddsoddi ei gronfeydd trysorlys yn ddarbodus, ac ystyried diogelwch a hylifedd ei fuddsoddiadau cyn ceisio'r gyfradd enillion neu'r arenillion uchaf. Amcan yr Awdurdod wrth fuddsoddi arian yw cael y cydbwysedd priodol rhwng risg ac adenillion, gan leihau'r risg o golledion oherwydd diffygdalu a'r risg o dderbyn incwm buddsoddi anaddas o isel. Lle y disgwylir buddsoddi balansau am fwy na blwyddyn, bydd yr Awdurdod yn anelu i sicrhau cyfanswm elw sy'n gydradd â'r gyfradd chwyddiant gyffredinol neu'n uwch na hynny, er mwyn cynnal pŵer gwario'r swm a fuddsoddwyd. Nod yr Awdurdod yw bod yn fuddsoddwr cyfrifol a bydd yn ystyried materion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (ESG) wrth fuddsoddi.

5.3 **Strategaeth:** Fel y dangosir gan y meincnod rhwymedigaeth uchod, nid yw'r Awdurdod yn disgwyl bod yn fenthyciwr tymor hir ac felly bydd buddsoddiadau trysorlys newydd yn cael eu gwneud yn bennaf i reoli llif arian o ddydd i ddydd gan ddefnyddio offerynnau risg isel tymor byr.

5.4 **Polisi ESG**: Mae ystyriaethau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu (ESG) yn ffactor cynyddol wrth i fuddsoddwyr byd-eang wneud penderfyniadau, ond mae'r fframwaith ar gyfer gwerthuso cyfleoedd buddsoddi yn dal i ddatblygu ac felly nid yw polisi ESG yr Awdurdod ar hyn o bryd yn cynnwys sgoriau ESG neu feini prawf ESG amser real eraill ar lefel buddsoddiad unigol. Wrth fuddsoddi mewn banciau a chronfeydd, bydd yr Awdurdod yn blaenoriaethu banciau sydd wedi llofnodi Egwyddorion Bancio Cyfrifol y Cenhedloedd Unedig a chronfeydd a weithredir gan reolwyr sydd wedi llofnodi Egwyddorion Bancio Cyfrifol y Cenhedloedd Unedig, Cynghrair Rheolwyr Asedau Sero Net a/neu Cod Stiwardiaeth y DU.

5.5 **Gwrthbartïon cymeradwy:** Gall yr Awdurdod fuddsoddi ei arian dros ben gydag unrhyw un o'r gwrthbartïon yn nhabl 3 isod, yn amodol ar y terfynau a ddangosir.

*Tabl 3: Gwrthbartïon a therfynau buddsoddi'r trysorlys*

| Sector | Terfyn amser | Terfyn gwrthbarti | Terfyn sector |
|---|---|---|---|
| Llywodraeth y DU | 50 mlynedd | Diderfyn | amherthnasol |
| Awdurdodau lleol ac endidau eraill y llywodraeth | 25 mlynedd | £2m | Diderfyn |
| Banciau (anwarantedig) | 13 mis | £5m | Diderfyn |
| Cymdeithasau adeiladu (anwarantedig) * | 13 mis | £5m | Diderfyn |
| Darparwyr cofrestredig (anwarantedig) * | 5 mlynedd | £1m | Diderfyn |
| Cronfeydd marchnad arian * | amherthnasol | £1m | Diderfyn |
| Buddsoddiadau eraill * | 5 mlynedd | £1m | Diderfyn |

Mae'n rhaid darllen y tabl hwn ar y cyd â'r nodiadau isod

*** Isafswm sgôr credyd:** Dim ond gydag endidau nad yw eu statws credyd hirdymor isaf a gyhoeddwyd yn is nag A- y bydd buddsoddiadau'r trysorlys yn y sectorau sydd wedi'u marcio â seren yn cael eu gwneud. Os yw ar gael, defnyddir y statws credyd sy'n berthnasol i'r buddsoddiad penodol neu ddosbarth penodol o fuddsoddiad, fel arall defnyddir statws credyd y gwrthbarti. Fodd bynnag, nid yw penderfyniadau buddsoddi byth yn cael eu gwneud ar sail statws credyd yn unig, a bydd yr holl ffactorau perthnasol eraill gan gynnwys cyngor allanol yn cael eu hystyried.

5.6 **Y Llywodraeth:** Benthyciadau i, a bondiau a biliau a gyhoeddir neu a warentir gan lywodraethau cenedlaethol, awdurdodau rhanbarthol a lleol a banciau datblygu amlochrog. Nid yw'r buddsoddiadau hyn yn destun '*bail-in*', ac yn gyffredinol mae'r risg ansolfedd yn is, er nad ydynt yn risg sero. Ystyrir bod buddsoddiadau gyda Llywodraeth y DU yn sero risg credyd oherwydd ei gallu i greu arian cyfred ychwanegol ac felly gellir eu gwneud mewn symiau anghyfyngedig am hyd at 50 mlynedd.

5.7 **Banciau a Chymdeithasau Adeiladu (anwarantedig):** Cyfrifon, adneuon, tystysgrifau adneuon a bondiau diwarant uwch gyda banciau a chymdeithasau adeiladu, ac eithrio banciau datblygu amlochrog. Mae'r buddsoddiadau hyn yn agored i'r risg o golli credyd drwy '*bail-in*' pe bai'r rheolydd yn penderfynu bod y banc yn methu neu'n debygol o fethu. Gweler isod am drefniadau sy'n ymwneud â chyfrifon banc gweithredol.

5.8 **Cronfeydd marchnad arian:** Cronfeydd cyfun sy'n cynnig hylifedd ar yr un diwrnod neu'n fyr rybudd ac ansefydlogrwydd isel iawn neu ddim o gwbl o ran prisiau drwy fuddsoddi mewn marchnadoedd arian tymor byr. Mae ganddynt y fantais dros gyfrifon banc o ddarparu amrywiaeth eang o risgiau buddsoddi, ynghyd â gwasanaethau rheolwr cronfeydd proffesiynol yn gyfnewid am ffi fach. Er nad oes terfyn sector yn berthnasol i gronfeydd y farchnad arian, bydd yr Awdurdod yn sicrhau ei fod yn arallgyfeirio ei fuddsoddiadau hylifol ar draws amrywiaeth o ddarparwyr er mwyn sicrhau mynediad at arian parod bob amser.

5.9 **Cyfrifon banc gweithredol:** Gall yr Awdurdod achosi datguddiadau gweithredol, er enghraifft drwy gyfrifon cyfredol, cyfrifon casglu a gwasanaethau caffael masnachwyr, i unrhyw fanc yn y DU sydd â statws credyd heb fod yn is na BBB- ac sydd ag asedau sy'n fwy na £25 biliwn. Nid yw'r rhain yn cael eu dosbarthu fel buddsoddiadau ond maent yn dal i fod yn agored i risg o fechnïaeth y banc, ac felly bydd balansau'n cael eu cadw o dan £5m y banc. Mae Banc Lloegr wedi datgan, os bydd methiant, bod banciau ag asedau o fwy na £25 biliwn yn fwy tebygol o gael eu hachub ar fechnïaeth na'u gwneud yn fethdalwyr, gan gynyddu'r siawns y bydd yr Awdurdod yn cynnal parhad gweithredol.

5.10 **Asesiad risg a statws credyd:** Caiff statws credyd ei sicrhau a'i fonitro gan ymgynghorwyr trysorlys yr Awdurdod, a fydd yn rhoi gwybod am newidiadau mewn graddfeydd wrth iddynt ddigwydd. Rhestrir yr asiantaethau statws credyd a ddefnyddir ar hyn o bryd yn y ddogfen Arferion Rheoli'r Trysorlys. Pan fo statws credyd endid wedi'i israddio fel ei fod yn methu â bodloni'r meini prawf buddsoddi cymeradwy, yna:

- ni wneir unrhyw fuddsoddiadau newydd,
- bydd buddsoddiadau presennol y gellir eu hadalw neu eu gwerthu heb unrhyw gost yn cael eu hadalw neu eu gwerthu, a
- rhoddir ystyriaeth lawn i adalw neu werthu'r holl fuddsoddiadau presennol eraill gyda'r gwrthbarti yr effeithir arno.

5.11 Pan fydd asiantaeth statws credyd yn cyhoeddi bod statws credyd yn cael ei adolygu ar gyfer israddio posibl (a elwir hefyd yn "wyliadwriaeth negyddol") fel y gall ddisgyn yn is na'r meini prawf statws cymeradwy, yna dim ond buddsoddiadau y gellir eu tynnu'n ôl fydd yn cael eu gwneud gyda'r sefydliad hwnnw tan cyhoeddi canlyniad yr adolygiad.  Ni fydd y polisi hwn yn berthnasol i ragolygon negyddol, sy'n dynodi cyfeiriad hirdymor yn hytrach na newid graddfa sydd ar fin digwydd.

5.12 **Agweddau ar enw da:** Mae'r Awdurdod yn ymwybodol y gallai buddsoddiad gyda rhai gwrthbartïon, er ei fod yn cael ei ystyried yn ddiogel o safbwynt ariannol yn unig, ei adael yn agored i feirniadaeth, yn ddilys neu fel arall, a allai effeithio ar ei enw da, ac felly bydd y risg hon yn cael ei hystyried wrth wneud penderfyniadau buddsoddi.

5.13 Pan fydd dirywiad yn amodau'r farchnad ariannol yn effeithio ar deilyngdod credyd pob sefydliad, fel y digwyddodd yn 2008 a 2020, nid yw hyn yn cael ei adlewyrchu'n gyffredinol ar statws credyd, ond mae i'w weld mewn mesurau marchnad eraill. O dan yr amgylchiadau hyn, bydd yr Awdurdod yn cyfyngu ei fuddsoddiadau i'r sefydliadau hynny o ansawdd credyd uwch ac yn lleihau hyd ei fuddsoddiadau i gynnal y lefel ofynnol o sicrwydd. Bydd maint y cyfyngiadau hyn yn unol ag amodau'r farchnad ariannol ar y pryd. Os yw'r cyfyngiadau hyn yn golygu nad oes digon o sefydliadau masnachol o ansawdd credyd uchel ar gael i fuddsoddi balansau arian parod yr Awdurdod, yna bydd y gwarged yn cael ei adneuo gyda Llywodraeth y DU, neu gydag awdurdodau lleol eraill. Bydd hyn yn achosi i enillion buddsoddi ostwng ond bydd yn diogelu'r prif swm a fuddsoddwyd.

5.14 **Rheoli hylifedd**:  Mae'r Awdurdod yn cynnal rhagolygon llif arian er mwyn pennu'r cyfnod hwyaf y gellir ymrwymo arian yn ddarbodus ar ei gyfer.  Mae'r rhagolwg yn cael ei lunio ar sail ddarbodus i leihau'r risg y bydd yr Awdurdod yn cael ei orfodi i fenthyca ar delerau anffafriol i gwrdd â'i ymrwymiadau ariannol. Ni wneir unrhyw fuddsoddiadau hirdymor. Bydd yr Awdurdod yn lledaenu ei arian parod hylifol dros o leiaf dau ddarparwr (e.e. cyfrifon banc a chronfeydd marchnad arian) i sicrhau bod modd cael mynediad at arian parod os bydd anawsterau gweithredol i unrhyw un darparwr.

## 6 Dangosyddion Darbodus Rheoli'r Trysorlys

6.1 Mae'r Awdurdod yn mesur ac yn rheoli ei amlygiadau i risgiau rheoli'r trysorlys gan ddefnyddio'r dangosyddion canlynol.

6.2 **Diogelwch:** Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol i ddangos ei amlygiad i risgiau credyd drwy fonitro statws credyd cyfartalog ei bortffolio buddsoddiadau, wedi'i bwysoli yn ôl gwerth.  Cyfrifir hyn drwy roi sgôr i bob buddsoddiad (AAA=1, AA+=2 ac ati) a chymryd y cyfartaledd rhifyddol, wedi'i bwysoli yn ôl maint pob buddsoddiad. Neilltuir sgôr ar gyfer buddsoddiadau nad ydynt wedi eu graddio yn seiliedig ar eu risg canfyddedig.

| **Dangosydd risg credyd** | **Targed** |
|---|---|
| Credyd cyfartalog portffolio | A |

6.3 **Hylifedd:** Mae'r Awdurdod wedi mabwysiadu mesur gwirfoddol i ddangos ei amlygiad i risgiau hylifedd drwy fonitro faint o arian parod sydd ar gael i fodloni taliadau annisgwyl o fewn pob cyfnod treigl o dri mis, heb fenthyca ychwanegol.

| **Dangosydd risg hylifedd** | **Targed** |
|---|---|
| Cyfanswm arian parod ar gael o fewn 3 mis | £2m |

6.4 **Amlygiad i gyfraddau llog** Mae'r dangosydd hwn yn rheoli amlygiad yr Awdurdod i risgiau cyfraddau llog. Y terfynau uchaf ar effaith refeniw blwyddyn o gynnydd neu ostyngiad o 1% mewn cyfraddau llog fydd:

| **Dangosydd risg cyfraddau llog** | **Terfyn** |
|---|---|
| Terfyn uchaf ar effaith refeniw blwyddyn o gynnydd o 1% mewn cyfraddau llog | -£0.030m |
| Terfyn uchaf ar effaith refeniw blwyddyn o ostyngiad o 1% mewn cyfraddau llog | £0.030m |

Cyfrifir effaith newid mewn cyfraddau llog ar y dybiaeth y bydd benthyciadau a buddsoddiadau sy'n aeddfedu yn cael eu disodli gan rai ar gyfraddau marchnad newydd.

6.5 **Strwythur aeddfedrwydd benthyciadau:** Mae'r dangosydd hwn yn rheoli amlygiad yr Awdurdod i risg ailariannu. Y terfynau uchaf ac isaf ar strwythur aeddfedrwydd benthyca fydd:

| **Dangosydd risg cyfradd ailariannu** | **Gwirioneddol** | **Terfyn uchaf** | **Terfyn isaf** |
|---|---|---|---|
| O dan 12 mis | 26% | 30% | 0% |
| 12 mis ac o fewn 24 mis | 11% | 30% | 0% |
| 24 mis ac o fewn 5 mlynedd | 28% | 40% | 0% |
| 5 mlynedd ac o fewn 10 mlynedd | 3% | 30% | 0% |
| 10 mlynedd a mwy | 32% | 100% | 0% |

Mae'r cyfnodau amser yn dechrau ar ddiwrnod cyntaf pob blwyddyn ariannol. Y dyddiad aeddfedu ar gyfer benthyca yw'r dyddiad cynharaf y gall y benthyciwr fynnu ad-daliad.

## 7 Materion Perthnasol

Mae Cod CIPFA yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gynnwys y canlynol yn ei strategaeth rheoli'r trysorlys.

7.1 **Deilliadau ariannol:** Yn absenoldeb unrhyw bŵer cyfreithiol penodol i wneud hynny, ni fydd yr Awdurdod yn defnyddio deilliadau ariannol annibynnol (megis cyfnewidiadau, blaensymiau, dyfodol ac opsiynau). Gellir defnyddio deilliadau sydd wedi'u hymgorffori mewn benthyciadau a buddsoddiadau, gan gynnwys cronfeydd cyfun a thrafodion sy'n cychwyn ymlaen llaw, a bydd y risgiau a gyflwynir ganddynt yn cael eu rheoli yn unol â strategaeth gyffredinol rheoli risg y trysorlys.

7.2 **Cyfarwyddeb Marchnadoedd mewn Offerynnau Ariannol:** Mae'r Awdurdod wedi cadw statws cleient manwerthu gyda'i ddarparwyr gwasanaethau ariannol, gan gynnwys ymgynghorwyr, banciau, broceriaid a rheolwyr cronfeydd, gan ganiatáu iddo gael mynediad at ystod lai o wasanaethau ond gyda'r diogelwch rheoleiddiol ehangach a roddir i unigolion a chwmnïau bach. O ystyried maint ac ystod gweithgareddau rheoli trysorlys yr Awdurdod, mae swyddogion yr Awdurdod o'r farn mai dyma'r statws mwyaf priodol.

7.3 **Canllawiau'r Llywodraeth:** Mae materion pellach sy'n ofynnol gan Ganllawiau LlC wedi'u cynnwys yn Atodiad B.

## 8 Goblygiadau Ariannol

8.1 Nid oes gan yr Awdurdod bortffolio buddsoddi ac felly nid oes cyllideb ar gyfer incwm buddsoddi yn 2024/25. Mae unrhyw incwm buddsoddi yn ymwneud â lleoli arian sydd dros ben dros nos. Y gyllideb ar gyfer llog dyled a dalwyd yn 2024/25 yw £0.852m, yn seiliedig ar bortffolio dyled cyfartalog o £24.493m ar gyfradd llog gyfartalog o 5.25%. Os bydd lefelau gwirioneddol buddsoddiadau a benthyca, neu gyfraddau llog gwirioneddol, yn wahanol i'r rhai a ragwelwyd, bydd perfformiad yn erbyn y gyllideb yn gyfatebol wahanol.

## 9 Opsiynau Eraill a Ystyrir

9.1 Nid yw Canllawiau LlC na Chod CIPFA yn rhagnodi unrhyw strategaeth rheoli'r trysorlys benodol i awdurdodau lleol ei mabwysiadu. Cred y Trysorydd fod y strategaeth uchod yn cynrychioli cydbwysedd priodol rhwng rheoli risg ac effeithiolrwydd cost. Mae rhai strategaethau amgen, gyda'u goblygiadau ariannol a rheoli risg, wedi'u rhestru isod.

| Amgen | Effaith ar incwm a gwariant | Effaith ar reoli risg |
|---|---|---|
| Buddsoddi mewn ystod fwy cyfyng o wrthbartïon a/neu am gyfnodau byrrach | Bydd incwm llog yn is | Llai o siawns o golledion o ganlyniad i ddiffygdalu'n ymwneud â chredyd, er gallai unrhyw golledion o'r fath fod yn fwy |
| Buddsoddi mewn ystod ehangach o wrthbartïon a/neu am gyfnodau hwy | Bydd incwm llog yn uwch | Mwy o risg o golledion o ganlyniad i ddiffygdalu'n ymwneud â chredyd, ond gallai unrhyw golledion o'r fath fod yn llai |
| Benthyca symiau ychwanegol ar gyfraddau llog sefydlog hirdymor | Bydd costau llog ar ddyledion yn codi; mae'n annhebygol y gellid gwrthbwyso hyn gan incwm buddsoddi uwch | Cydbwysedd buddsoddi uwch yn arwain at fwy o effaith yn achos diffygdalu; fodd bynnag gallai costau llog hirdymor fod yn fwy sicr |
| Benthyciadau byrdymor neu amrywiol yn lle rhai â chyfraddau sefydlog hirdymor | Bydd costau llog dyledion yn is i ddechrau | Bydd y cynnydd yn y costau llog ar ddyledion yn cael ei wrthbwyso i raddau gan y cynnydd yn yr incwm buddsoddi yn y tymor canolig, ond gall y costau hirdymor fod yn llai sicr |
| Lleihau lefel y benthyciadau | Mae arbedion ar log dyledion yn debygol o fod yn fwy na'r incwm buddsoddi a gollir | Llai o gydbwysedd buddsoddi yn arwain at effaith is os bydd diffygdalu; fodd bynnag gall costau llog hirdymor fod yn llai sicr |

**Atodiad A – Rhagolwg Economaidd a Chyfradd Llog Arlingclose – Rhagfyr 2023**

**Tybiaethau sylfaenol:**

- Mae chwyddiant y DU a thwf cyflog yn parhau i fod yn uchel ond maent wedi lleddfu dros y ddau fis diwethaf gan arwain at ddisgwyliadau y bydd cyfraddau yn gostwng. Mae toriadau i gyfraddau yn y tymor agos yn parhau'n annhebygol, er y bydd risgiau yn cynyddu wrth i economi'r DU lithrio i ddirwasgiad.
- Mae neges yr MPC yn parhau heb newid wrth i'r Pwyllgor geisio cynnal amodau cyllidol llymach. Bydd polisi ariannol yn parhau'n dynn gan fod disgwyl i chwyddiant gymedroli i'r targed yn araf, er bod rhai mesurau cyflog a chwyddiant yn is na rhagolygon diwethaf y Banc.
- Er gwaethaf dirywiad mewn data gweithgarwch, mae economi'r DU yn parhau i fod yn wydn yn wyneb polisi ariannol tynnach. Mae data diweddar wedi bod yn feddal ond yn gymysg; mae'r ffigurau PMI mwy amserol yn awgrymu bod y sector gwasanaethau yn gwella yn dilyn Ch3 gwan. Fodd bynnag, bydd polisi tynnach yn lleihau gweithgarwch domestig ac allanol wrth i gyfraddau llog frathu.
- Mae'r galw am gyflogaeth yn llacio. Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod recriwtio a thwf cyflogau yn arafu, ac rydym yn disgwyl i ddiweithdra godi ymhellach. Wrth i ddiweithdra godi a chyfraddau llog barhau'n uchel, bydd teimladau defnyddwyr yn dirywio. Felly bydd gwariant cartrefi a busnesau yn wan.
- Bydd chwyddiant yn gostwng dros y 12 mis nesaf. Ni fydd y llwybr at y targed yn llyfn, gyda phrisiau ynni uwch ac effeithiau sylfaen yn torri ar draws y duedd ar i lawr ar adegau. Bydd sylw'r MPC yn parhau ar fesurau chwyddiant sylfaenol a data cyflogau. Credwn y bydd cyfraddau polisi yn aros ar eu huchaf am 10 mis arall, neu hyd nes y bydd yr MPC yn gyfforddus bod y risg o effeithiau 'ail-rownd' pellach wedi lleihau.
- Bydd cynnal polisi ariannol mewn tiriogaeth gyfyngol cyhyd, a'r economi eisoes yn ei chael hi'n anodd, yn gofyn am lacio sylweddol yn y dyfodol i hybu gweithgarwch.
- Bydd arenillion bondiau byd-eang yn parhau i fod yn gyfnewidiol. Ar hyn o bryd mae marchnadoedd yn disgwyl toriadau i gyfraddau yn yr Unol Daleithiau yn y tymor agos, a hynny wedi'i danio ychydig yn annisgwyl gan lunwyr polisi yr UD eu hunain. Mae premia tymor ac arenillion bondiau wedi profi dirywiad amlwg. Ni fyddai'n syndod gweld gwrthdroad os nad yw pwyntiau data yn cefnogi'r naratif, ond mae'r arenillion 10 mlynedd presennol yn ymddangos yn fras yn adlewyrchiad o lefel tymor canolig is ar gyfer Cyfradd y Banc.
- Mae risg uwch o bolisi cyllidol a/neu ddigwyddiadau geo-wleidyddol yn achosi anwadalrwydd sylweddol mewn arenillion.

**Rhagolwg:**

- Daliodd yr MPC gyfradd y banc ar 5.25% ym mis Rhagfyr. Credwn mai hwn yw'r uchafbwynt ar gyfer Cyfradd y Banc.
- Bydd yr MPC yn torri cyfraddau yn y tymor canolig i ysgogi economi'r DU ond bydd yn amharod i wneud hynny nes ei fod yn sicr na fydd unrhyw effeithiau ail-rownd yn parhau. Rydym yn rhagweld toriadau mewn cyfraddau o Ch3 2024 i lefel isel o tua 3% erbyn dechrau i ganol 2026.
- Mae'r risgiau uniongyrchol ynghylch Cyfradd y Banc wedi dod yn fwy cytbwys, oherwydd bod economi'r DU yn gwanhau ac effeithiau niweidiol ar chwyddiant. Mae hyn yn symud i'r ochr isaf yn y tymor byr wrth i'r economi wanhau.
- Mae arenillion giltiau hirdymor bellach yn sylweddol is. Mae Arlingclose yn disgwyl i arenillion fod yn wastad oddi yma dros y tymor byr gan adlewyrchu rhagolygon Cyfradd y Banc tymor canolig. Mae anwadalrwydd cyfnodol yn debygol.

| | Current | Dec-23 | Mar-24 | Jun-24 | Sep-24 | Dec-24 | Mar-25 | Jun-25 | Sep-25 | Dec-25 | Mar-26 | Jun-26 | Sep-26 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Official Bank Rate | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.00 | 0.00 | 0.25 | 0.25 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.75 | 0.75 | 1.00 | 1.00 |
| Central Case | 5.25 | 5.25 | 5.25 | 5.25 | 5.00 | 4.75 | 4.25 | 4.00 | 3.75 | 3.50 | 3.25 | 3.00 | 3.00 |
| Downside risk | 0.00 | 0.00 | -0.25 | -0.50 | -0.75 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -1.00 |
| 3-month money market rate | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.00 | 0.00 | 0.25 | 0.25 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.50 | 0.75 | 0.75 | 1.00 | 1.00 |
| Central Case | 5.40 | 5.40 | 5.40 | 5.30 | 5.15 | 4.80 | 4.30 | 4.10 | 3.80 | 3.50 | 3.25 | 3.05 | 3.05 |
| Downside risk | 0.00 | 0.00 | -0.25 | -0.50 | -0.75 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -1.00 |
| 5yr gilt yield | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.00 | 0.25 | 0.75 | 0.85 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 |
| Central Case | 3.77 | 3.75 | 3.75 | 3.75 | 3.70 | 3.60 | 3.50 | 3.50 | 3.40 | 3.30 | 3.30 | 3.30 | 3.35 |
| Downside risk | 0.00 | -0.25 | -0.75 | -0.85 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -1.00 |
| 10yr gilt yield | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.00 | 0.25 | 0.75 | 0.85 | 0.85 | 0.90 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 |
| Central Case | 3.72 | 3.75 | 3.80 | 3.80 | 3.80 | 3.80 | 3.80 | 3.80 | 3.75 | 3.65 | 3.60 | 3.65 | 3.70 |
| Downside risk | 0.00 | -0.25 | -0.75 | -0.85 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -1.00 |
| 20yr gilt yield | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.00 | 0.25 | 0.75 | 0.85 | 0.85 | 0.90 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 |
| Central Case | 4.16 | 4.20 | 4.20 | 4.20 | 4.20 | 4.20 | 4.20 | 4.20 | 4.20 | 4.20 | 4.20 | 4.20 | 4.25 |
| Downside risk | 0.00 | -0.25 | -0.75 | -0.85 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -1.00 |
| 50yr gilt yield | | | | | | | | | | | | | |
| Upside risk | 0.00 | 0.25 | 0.75 | 0.85 | 0.85 | 0.90 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 | 1.00 |
| Central Case | 3.76 | 3.80 | 3.85 | 3.90 | 3.90 | 3.90 | 3.90 | 3.90 | 3.90 | 3.90 | 3.95 | 3.95 | 3.95 |
| Downside risk | 0.00 | -0.25 | -0.75 | -0.85 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -1.00 | -1.00 |

Cyfradd Safonol PWLB = Arenillion giltiau + 1.00%
Cyfradd Sicrwydd PWLB = Arenillion giltiau + 0.80%
Cyfradd HRA PWLB = Arenillion giltiau + 0.40%
Cyfradd Banc Seilwaith y DU = Arenillion giltiau + 0.40%

**Atodiad B – Gofynion ychwanegol Canllawiau Buddsoddi Llywodraeth Cymru**
Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru (LlC) Ganllawiau Buddsoddi diwygiedig yn Nhachwedd 2019 sydd yn gosod gofynion adrodd ychwanegol ar awdurdodau lleol nad ydynt yn rhan annatod o brosesau rheoli trysorlys yr Awdurdod hwn. Mae'r canllawiau hefyd yn cynnwys buddsoddiadau nad ydynt yn rhan o reoli trysorlys, er enghraifft eiddo buddsoddi a benthyciadau i sefydliadau lleol.

**Cyfraniad:** Mae buddsoddiadau'r Awdurdod yn cyfrannu at ei amcanion darparu gwasanaethau a/neu hyrwyddo lles fel a ganlyn:

- mae buddsoddiadau rheoli trysorlys yn cefnogi gweithgareddau rheoli trysorlys effeithiol

**Newid yn yr hinsawdd:** Mae penderfyniadau buddsoddi'r Awdurdod yn ystyried risgiau hirdymor i'r hinsawdd er mwyn cefnogi economi carbon isel i'r graddau y bydd yr Awdurdod yn blaenoriaethu banciau sydd wedi llofnodi Egwyddorion Bancio Cyfrifol y Cenhedloedd Unedig a chronfeydd a weithredir gan reolwyr sydd wedi llofnodi Egwyddorion Bancio Cyfrifol y Cenhedloedd Unedig, Cynghrair Rheolwyr Asedau Sero Net a/neu Cod Stiwardiaeth y DU.

**Buddsoddiadau penodol**: Mae Canllawiau LlC yn diffinio buddsoddiadau penodol fel rhai:

- a fynegir mewn punnoedd sterling,
- sydd i fod i gael eu had-dalu o fewn 12 mis o'r trefniant oni bai bod y gwrthbarti'n awdurdod lleol,
- nas diffinnir fel gwariant cyfalaf gan ddeddfwriaeth, ac
- a fuddsoddir gydag un o'r canlynol:
    - Llywodraeth y DU,
    - awdurdod lleol yn y DU, cyngor plwyf neu gyngor cymuned, neu
    - gorff neu gynllun buddsoddi ag "ansawdd credyd uchel".

Mae'r Awdurdod yn diffinio sefydliad a gwarantau "ansawdd credyd uchel" fel rhai sydd â statws credyd A- neu uwch sydd yn hanu o'r DU neu wlad dramor gyda sgôr sofran o AA+ neu uwch. Ar gyfer cronfeydd y farchnad arian a chronfeydd cronedig eraill diffinnir "ansawdd credyd uchel" fel y rhai sydd â sgôr credyd o A- neu uwch.

**Benthyciadau:** Mae Canllawiau LlC yn diffinio benthyciad fel cytundeb llafar neu ysgrifenedig pan fo'r awdurdod yn trosglwyddo arian parod dros dro i drydydd parti, menter ar y cyd, is-endid neu gyswllt sydd yn cytuno ar ad-daliad yn unol â thelerau ac amodau derbyn y benthyciad, ac eithrio pan mai awdurdod lleol arall yw'r trydydd parti.

Nid oes gan yr Awdurdod unrhyw amlygiad ariannol i fenthyciadau i fentrau lleol, elusennau lleol, cwmnïau mewn perchnogaeth lwyr a mentrau ar y cyd.

**Buddsoddiadau amhenodol:** Nid oes gan yr Awdurdod unrhyw fuddsoddiadau amhenodol.
**Buddsoddiadau nad ydynt yn ariannol:** Nid oes gan yr Awdurdod unrhyw fuddsoddiadau nad ydynt yn ariannol.
**Ymgynghorwyr buddsoddi:** Mae'r Awdurdod wedi penodi Arlingclose Limited fel ymgynghorwyr rheoli'r trysorlys. Mae ansawdd y gwasanaethau hyn yn cael ei reoli drwy adolygu mewnol.
**Capasiti a sgiliau:** Mae'r Awdurdod yn cyflogi staff proffesiynol cymwys a phrofiadol mewn swyddi uwch gyda chyfrifoldeb am wneud penderfyniadau gwariant cyfalaf, benthyca a buddsoddi. Er enghraifft, mae'r Trysorydd, y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau), a'r Pennaeth Cyllid a Chaffael yn gyfrifwyr cymwys sydd â blynyddoedd lawer o brofiad.

Ar hyn o bryd mae'r Awdurdod yn cyflogi Arlingclose Limited fel ymgynghorwyr rheoli'r trysorlys. Mae'r dull hwn yn fwy cost-effeithiol na chyflogi staff o'r fath yn uniongyrchol, ac mae'n sicrhau bod gan yr Awdurdod fynediad at wybodaeth a sgiliau sy'n gymesur â'i archwaeth risg.

Mae Arlingclose wedi darparu hyfforddiant i aelodau'r Pwyllgor Archwilio, sydd â chyfrifoldeb am adolygu gweithgareddau rheoli'r trysorlys.

**Llywodraethu corfforaethol:** Adroddir ar holl weithgarwch y trysorlys i'r Pwyllgor Archwilio a'r Awdurdod Tân, bob chwarter. Cyflwynir yr adroddiadau gan y Trysorydd neu'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau). Caiff yr aelodau gyfle i ofyn cwestiynau, yn dilyn y cyflwyniadau.

*This document is available in English.* **Eitem Agenda 11**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **18 Mawrth 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur – Prif Swyddog Tân Cynorthwyol** |
| Swyddog Cyswllt | **Helen Howard, Pennaeth Cyllid a Chaffael** |
| Pwnc | **Strategaeth Gyfalaf 2024-34** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno i Aelodau'r Pwyllgor Archwilio y Strategaeth Gyfalaf arfaethedig ar gyfer y cyfnod rhwng Ebrill 2024 a Mawrth 2034, a darparu manylion ac esboniadau o'r Strategaeth arfaethedig, er mwyn hwyluso cefnogaeth yr Aelodau i'w chymeradwyo gan Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) ar 15 Ebrill.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Pwrpas y Strategaeth Gyfalaf yw nodi sut mae'r Awdurdod yn bwriadu defnyddio ei adnoddau cyfalaf er mwyn ei gynorthwyo i gyflawni ei amcanion corfforaethol a gwasanaeth. Mae'r adroddiad ar y strategaeth gyfalaf yn rhoi trosolwg lefel uchel o sut mae gwariant cyfalaf, ariannu cyfalaf a gweithgarwch rheoli trysorlys yn cyfrannu at ddarparu gwasanaethau cyhoeddus lleol, ynghyd â throsolwg o sut y rheolir risg gysylltiedig a'r goblygiadau ar gyfer cynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol.

3 Datblygwyd y Strategaeth hon ar y cyd â'r cyllidebau refeniw a chyfalaf ar gyfer 2024/25, a'r Strategaeth Adnoddau Tymor Canolig, a gymeradwywyd gan yr Awdurdod ar 22 Ionawr 2024, yn ogystal â'r Strategaeth Rheoli Trysorlys, sydd hefyd yn cael ei chyflwyno heddiw.

## ARGYMHELLION

4 Gofynnir i'r Aelodau:

**i) gymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2024-2034; ac**
**ii) argymell cymeradwyaeth gan yr Awdurdod Tân ac Achub.**

## CEFNDIR

5 Mae Cod Darbodus y Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol lunio strategaeth gyfalaf i ddangos bod penderfyniadau gwariant a buddsoddi cyfalaf yn cael eu gwneud yn unol ag amcanion y Gwasanaeth ac yn cymryd i ystyriaeth stiwardiaeth, gwerth am arian, darbodusrwydd, cynaliadwyedd a fforddiadwyedd.

6 Cyhoeddodd CIPFA ganllawiau Strategaeth Gyfalaf yn 2021. Datblygwyd y strategaeth yn unol â'r canllawiau hyn.

7 Mae'r Strategaeth Gyfalaf yn cefnogi Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2024-2029 a Chynllun Gweithredu 2024/25, i gyflawni'r egwyddorion ar gyfer Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (y Gwasanaeth).

8 Mae'r Pwyllgor Archwilio wedi cael y dasg o sicrhau craffu effeithiol ar reolaeth a pherfformiad trysorlys. Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio adolygu’r Strategaeth Gyfalaf cyn iddi gael ei chyflwyno i'w chymeradwyo'n ffurfiol gan yr Awdurdod ar 15 Ebrill 2024.

## GWYBODAETH

9 Mae'r Strategaeth Gyfalaf (y Strategaeth), a'r Dangosyddion Darbodus cysylltiedig, wedi'i chynnwys yn Atodiad 1 ac mae'n rhoi trosolwg o wariant cyfalaf a ragwelir ar gyfer y 10 mlynedd nesaf, a gofynion ariannu cyfalaf a gweithgaredd rheoli trysorlys, am y 3 blynedd nesaf.

10 Gwariant cyfalaf yw pan fydd yr Awdurdod yn gwario arian ar asedau, megis eiddo, neu gerbydau, neu offer a ddefnyddir am fwy na blwyddyn. Mae gan yr Awdurdod rywfaint o ddisgresiwn cyfyngedig ar yr hyn sy'n cyfrif fel gwariant cyfalaf, er enghraifft nid yw asedau sy'n costio llai na £10,000 yn cael eu cyfalafu a chânt eu codi ar y gyllideb refeniw yn ystod y flwyddyn.

11 Mae’r Strategaeth Gyfalaf yn cefnogi’r Cynllun Rheoli Risg Cymunedol 2024-2029 drwy ddarparu adnoddau i fynd i’r afael â materion sy’n codi o un neu fwy o’r egwyddorion yn y Cynllun, yn ogystal â darparu cyllid i gynnal asedau fel eu bod yn parhau i fod yn addas i’r diben..

12 Mae Rheolwyr y Gwasanaeth yn ‘cynnig’ yn flynyddol ym mis Medi i gynnwys prosiectau yn rhaglen gyfalaf yr Awdurdod. Mae’r cynigion yn cael eu casglu gan yr Adran Cyllid a Chaffael. Derbyniwyd cynigion cychwynnol gwerth mwy na £10m ar gyfer 2024/25. Mae'r cynigion yn cael eu sgorio ar sail amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys bodloni'r egwyddorion yn y Cynllun Rheoli Risg Cymunedol, gofynion statudol, y gallu i wneud arbedion, a'u heffaith amgylcheddol.

13 Yn dilyn yr adolygiad a thrafodaethau gyda rheolwyr y gwasanaeth, cyflwynwyd cynllun cyfalaf o £5.676m i'r Gweithgor Craffu ar y Gyllideb, sydd wedi'i grynhoi ar dudalen 8 o'r Strategaeth. Bydd y gwariant cyfalaf arfaethedig hwn yn cael ei ariannu drwy fenthyca.

14 Mae rhagor o fanylion ynglŷn â benthyca wedi'u cynnwys yn y Strategaeth Rheoli Trysorlys, ynghyd â'r dangosyddion darbodus rheoli trysorlys.

15 Dim ond ffynhonnell dros dro o gyllid yw dyled, gan fod yn rhaid ad-dalu benthyciadau a phrydlesi, ac felly caiff hyn ei ddisodli dros amser gan gyllid arall, fel arfer o refeniw. Gelwir cyfanswm y cyfraniadau refeniw hyn yn ddarpariaeth isafswm refeniw (MRP). Disgwylir i'r tâl MRP ar gyfer 2024/25 fod yn £1.885m, gan godi i £2.601m yn 2026/27.

16 Disgwylir i gostau cyllido fod yn 5.62% o gyllideb 2024/25 gan godi i 7.47% yn 2026/27.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r adroddiad hwn yn cysylltu ag amcanion llesiant hirdymor yr Awdurdod drwy sicrhau bod prynu asedau i gefnogi darpariaeth gwasanaethau rheng flaen yn ddarbodus, fforddiadwy a chynaliadwy. Mae'r Strategaeth Gyfalaf wedi'i chynllunio i sicrhau bod buddsoddiad digonol mewn seilwaith i alluogi'r gwasanaeth i ddarparu ymatebion brys a gwaith atal ymhell i'r dyfodol. |
| Cyllideb | Mae'r strategaethau'n cysylltu â'r gwaith o bennu'r cyllidebau refeniw a chyfalaf sy'n ystyried fforddiadwyedd tymor hwy |
| Cyfreithiol | Mae'r fframwaith rheoleiddio wedi'i nodi yn yr atodiadau i'r adroddiad. |
| Staffio | Dim |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/y Gymraeg | Dim |
| Risgiau | Mae'r adroddiadau'n nodi'r risgiau ariannol sy'n gysylltiedig â gweithgareddau benthyca a buddsoddi. |



# Strategaeth Gyfalaf 2024-2034

Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

# CYNNWYS

**ADRAN**


| | | |
|---|---|---|
| **1** | **Pwrpas y Strategaeth Gyfalaf** ........................................................................ | **3** |
| **2** | **Amcanion a Blaenoriaethau Allweddol** .............................................................. | **4** |
| **3** | **Ffactorau sy'n Dylanwadu ar y Rhaglen Gyfalaf** ........................................................ | **6** |
| **4** | **Gwariant Cyfalaf ac Ariannu** ...................................................................... | **7** |
| **5** | **Rheoli Trysorlys** ................................................................................. | **10** |
| **6** | **Goblygiadau Cyllideb Refeniw** ..................................................................... | **13** |
| **7** | **Gwybodaeth a Sgiliau** ............................................................................. | **14** |
| **Atodiad 1** | **Datganiad Darpariaeth Isafswm Refeniw** ........................................................... | **15** |

## 1 Pwrpas y Strategaeth Gyfalaf

1.1 Pwrpas y Strategaeth Gyfalaf yw nodi sut mae Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) yn bwriadu defnyddio ei adnoddau cyfalaf er mwyn ei gynorthwyo i gyflawni ei amcanion corfforaethol a gwasanaeth. Mae'n ystyried strategaethau, polisïau a chynlluniau perthnasol eraill, a barn partneriaid a phartïon sydd â diddordeb y mae'r Awdurdod yn ymwneud â nhw. Bydd yn bwynt cyfeirio defnyddiol wrth benderfynu ar y Rhaglen Gyfalaf neu ei hadolygu.

1.2 Gwariant cyfalaf yw pan fydd yr Awdurdod yn gwario arian ar asedau, fel eiddo neu gerbydau, a fydd yn cael eu defnyddio am fwy na blwyddyn.

1.3 Mae'r adroddiad strategaeth gyfalaf hwn yn rhoi trosolwg lefel uchel o sut mae gwariant cyfalaf, ariannu cyfalaf a gweithgarwch rheoli trysorlys yn cyfrannu at ddarparu gwasanaethau cyhoeddus lleol ynghyd â throsolwg o sut y rheolir y risgiau cysylltiedig a'r goblygiadau ar gyfer cynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol.

1.4 Bydd penderfyniadau a wneir eleni ar reoli cyfalaf a thrysorlys yn arwain at ganlyniadau ariannol i'r Awdurdod am flynyddoedd lawer i'r dyfodol. Felly, mae'r penderfyniadau hyn yn ddarostyngedig i fframwaith rheoleiddio cenedlaethol a fframwaith polisi lleol, fel y crynhoir yn yr adroddiad hwn.

1.5 Mae'r Strategaeth Gyfalaf gyffredinol yn ceisio cynorthwyo i gyflawni Cynllun Rheoli Risg Cymunedol yr Awdurdod (CRhRC) 2024-2029.


1.6 Oherwydd effaith barhaus chwyddiant uwch, cyfraddau llog uwch, ansicrwydd o ran polisïau'r llywodraeth, a dirywiad yn y rhagolygon economaidd, rhoddwyd pwysau ariannol ychwanegol ar yr Awdurdod. Wrth ystyried y pwysau hyn, cynhaliwyd adolygiad o raglen gyfalaf 2023/24 a rhoddwyd blaenoriaeth i gyflawni prosiectau hanfodol. Mae'r rhaglen gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2023/24 yn gyfanswm o £5.290m ac fe'i crynhoir isod:

| Cynllun | Dyraniad Gwreiddiol £m | Dyraniad Diwygiedig £m | Rhagolwg £m | Arian Treigl £m |
|---|---|---|---|---|
| **2023/2024** | | | | |
| Adnewyddu Peiriannau Tân | 1.430 | 0.475 | 0.475 | 0.960 |
| Faniau amlbwrpas | 0.189 | 0.189 | 0.269 | |
| Peilot Fan Trydan | - | - | 0.107 | |
| Unedau Lles | 0.150 | 0.150 | 0.150 | |
| Adfywio Gorchymyn a Rheoli | 0.600 | 0.600 | - | - |
| Man Waith Adeiladu | 0.483 | 0.100 | 0.100 | |
| Tyrau Hyfforddi | 0.250 | 0.250 | - | 0.250 |
| Fflyd - system rhwystro cwympiadau a gwaith to | 0.100 | 0.126 | 0.126 | |
| Drysau bae peiriannau | 0.180 | 0.180 | 0.180 | 0.057 |
| Uwchraddio Gwresogi Llandudno | 0.150 | 0.150 | - | 0.150 |
| Gwaith yn Nhŷ Mwg Dolgellau | - | 0.365 | 0.256 | |
| Tir canolfan hyfforddi arfaethedig | 3.000 | 3.000 | 3.000 | |
| Heb ei ddyrannu | - | 0.947 | - | |
| **Cyfanswm: Cynllun Cyfalaf** | **6.532** | **6.532** | **4.663** | **1.417** |
| **Arian Treigl 2022/23** | | | | |
| Tyrau Hyfforddi | 0.307 | 0.307 | 0.307 | |
| Faniau gorsaf amlbwrpas | 0.160 | 0.160 | 0.162 | |
| Adeiladau - Man Waith | 0.158 | 0.158 | 0.158 | |
| **Cyfanswm: Arian Treigl** | **0.625** | **0.625** | **0.627** | **-** |
| **Cyfanswm** | **7.157** | **7.157** | **5.290** | **1.417** |

## 2 Amcanion a Blaenoriaethau Allweddol

2.1 Un o'r prif amcanion ar gyfer Gwasanaethau Tân ac Achub yng Nghymru yw mynd ati’n barhaus ac mewn modd cynaliadwy i leihau risg a gwella diogelwch dinasyddion a chymunedau. Nod Cynllun Rheoli Risg Cymunedol yw nodi risgiau sy'n wynebu'r gymuned ac mae'n disgrifio sut y bydd yr Awdurdod Tân ac Achub yn rheoli'r risgiau hynny, ac yn parhau i atal ac ymateb i danau ac argyfyngau eraill.

2.2 Bydd ein Cynllun Rheoli Risg Cymunedol ar gyfer 2024-2029 yn cael ei gyhoeddi ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Mawrth. Mae'r Cynllun Rheoli Risg Cymunedol yn cynnwys 5 egwyddor:




- O fewn pob un o'r egwyddorion mae camau/amcanion sy'n ofynnol er mwyn cyflawni'r cynllun.
- Yn ogystal, mae cynllun Gweithredu wedi'i ddatblygu, sy'n tynnu sylw at y camau a fydd yn cael eu cymryd yn ystod 2024/25.
- Mae'r wybodaeth hon yn cael ei hystyried wrth ddatblygu'r Rhaglen Gyfalaf.

2.3 Bydd prosiectau buddsoddi cyfalaf yn cael eu cynnwys yn y Rhaglen Gyfalaf ar y sail eu bod yn mynd i'r afael â materion sy'n codi o un neu fwy o'r egwyddorion. Bydd cynigion newydd ar gyfer buddsoddi cyfalaf yn cael eu hasesu yn erbyn yr egwyddorion corfforaethol a'r cynllun gweithredu i sicrhau y byddant yn cyfrannu tuag at gyflawni'r nodau a fynegwyd. Bydd yr asesiad hwn yn cael ei gynnal fel rhan o'r broses arfarnu ar gyfer prosiectau newydd.

2.4 Lle gellir nodi prosiectau "Buddsoddi i Arbed" addas, bydd yr Awdurdod yn mynd ar drywydd prosiectau o'r fath gan ei fod yn cydnabod y buddion, ar ffurf llai o gostau i Gyfrif Refeniw'r Gronfa Gyffredinol, a all ddeillio o fuddsoddiad o'r fath.

2.5 Bydd yr Awdurdod hefyd yn ymdrechu, drwy ei raglen o fuddsoddi cyfalaf, i gynnal ei asedau i safon fel eu bod yn parhau i fod yn addas i'r diben, gan alluogi parhad cyflwyno gwasanaethau. Yn benodol, bydd yn cynnal arolygon rheolaidd o'i stoc o adeiladau a strwythurau i ganfod eu cyflwr ac unrhyw waith adfer a all fod yn angenrheidiol. Bydd gwaith atgyweirio neu wella sy'n deillio o arolygon o'r fath yn cael ei wneud yn amodol ar argaeledd adnoddau ac ystyriaeth o rôl yr adeilad wrth gyflwyno gwasanaethau. Os nad oes angen adeilad mwyach i gyflwyno gwasanaethau, rhoddir ystyriaeth i'w waredu a defnyddio'r arian ar gyfer buddsoddi cyfalaf yn y dyfodol mewn meysydd blaenoriaeth. Mae'r holl asedau eiddo yn cael eu cadw i gyflwyno gwasanaethau.

2.6 Bydd yr Awdurdod yn ceisio, lle bo hynny'n ymarferol ac y gellir ei gyfiawnhau yn economaidd, datblygu ei brosiectau buddsoddi gan ystyried egwyddorion cynaliadwyedd, er enghraifft trwy ystyried y deunyddiau a ddefnyddir, a dulliau gweithredu sy'n gyfeillgar i'r amgylchedd yn dilyn adeiladu neu brynu.

2.7 Mae rheolwyr gwasanaeth yn 'gwneud cais' yn flynyddol, ym mis Medi, i gynnwys prosiectau yn rhaglen gyfalaf yr Awdurdod. Mae ceisiadau'n cael eu casglu gan yr Adran Cyllid a Chaffael. Derbyniwyd ceisiadau cychwynnol o fwy na £10m ar gyfer 2024/25. Caiff y ceisiadau eu sgorio yn seiliedig ar amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys bodloni'r egwyddorion yn y Cynllun Rheoli Risg Cymunedol, gofyniad statudol, y gallu i wneud arbedion, ac effaith amgylcheddol.

2.8 Yn dilyn yr adolygiad a thrafodaethau gyda rheolwyr y gwasanaeth, cyflwynwyd cynllun cyfalaf o £5.676m i'r Gweithgor Craffu ar y Gyllideb, sy'n is-grŵp o'r Pwyllgor Archwilio. Mae'r grŵp hwn yn cynnwys 6 aelod, un o bob awdurdod cyfansoddol. Cafodd y Gweithgor Craffu ar y Gyllideb ei sefydlu i graffu ar y broses o osod cyllideb, gan gynnwys pob maes incwm a gwariant. Cytunodd y gweithgor i'r rhaglen gyfalaf gael ei chynnwys yn adroddiad yr Awdurdod Tân.

2.9 Yna cyflwynir y rhaglen gyfalaf derfynol, i'w chymeradwyo, i'r Awdurdod Tân ym mis Ionawr bob blwyddyn.

## 3 Ffactorau sy'n Dylanwadu ar y Rhaglen Gyfalaf

3.1 Mae prosiectau i'w cynnwys yn y rhaglen gyfalaf yn deillio o amrywiaeth o ffynonellau, rhai ohonynt yn cael eu cynhyrchu'n fewnol a rhai yn deillio o ffactorau allanol. Gellir crynhoi'r ffactorau mwyaf arwyddocaol ar ffurf diagram fel a ganlyn:

| FFACTORAU MEWNOL | FFACTORAU ALLANOL |
|---|---|
| Egwyddorion y Cynllun Rheoli Risg Cymunedol a'r Cynllun Gweithredu | Gwaith brys annisgwyl |
| Buddsoddiad a nodwyd mewn Strategaethau, polisïau a chynlluniau | Gwaith sy'n ofynnol i gydymffurfio â deddfwriaeth – e.e. mynediad i bobl anabl, iechyd a diogelwch |
| Gwaith sydd ei angen i gynnal asedau eiddo | Argaeledd cyllid allanol |
| Anghenion amnewid cerbydau, peiriannau ac offer | Disgwyliad y cyhoedd y dylai gwaith gael ei wneud |
| Buddsoddiad ac amnewid TGCh | Prosiectau sy'n deillio o Weithgareddau Partneriaeth |
| Prosiectau Buddsoddi i Arbed | |

| STRATEGAETHAU, POLISÏAU A CHYNLLUNIAU |
|---|
| Strategaeth Adnoddau Tymor Canolig |
| Strategaeth yr Amgylchedd a Chynllun Datgarboneiddio'r Fflyd |
| Polisi Iechyd a Lles |
| Strategaeth Rheoli Trysorlys |
| Strategaeth Gaffael |
| Arolygon cyflwr adeiladau |

## 4 Gwariant Cyfalaf ac Ariannu

4.1 Paratowyd y Strategaeth yn erbyn cefndir o ostyngiadau parhaus yn y cyllid a ddarperir i awdurdodau lleol gan Lywodraeth Cymru, a'r gofyniad o ganlyniad i'r Awdurdod Tân adolygu ei ofyniad cyllido. Mae hyn yn deillio o'r angen i gyfyngu ar wariant cyhoeddus oherwydd yr amodau economaidd parhaus ac i ailgydbwyso cyllid cyhoeddus. Nid yw'r Awdurdod yn derbyn cyllid i ariannu prosiectau cyfalaf, felly mae'r costau'n cael eu talu drwy fenthyca.

4.2 Ar gyfer 2024/25, mae’r Awdurdod wedi datblygu cynllun cyfalaf 10 mlynedd ac yn cynllunio gwariant cyfalaf o £5.676m, ar gyfer 2024/25, fel y manylir yn y Strategaeth Adnoddau Tymor Canolig a gymeradwywyd gan yr Awdurdod llawn ar 22 Ionawr 2024. Mae'r 3 blynedd hyd at 31 Mawrth 2027 wedi'u crynhoi isod

*Tabl 1: Dangosydd Darbodus: Amcangyfrifon o Wariant Cyfalaf mewn £ miliynau*

| | **gwirioneddol 2022/23** | **amcangyfrif 2023/24** | **Cyllideb 2024/25 *** | **Cyllideb 2025/26*** | **Cyllideb 2026/27*** |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau'r Gronfa Gyffredinol | £3.366m | £5.290m | £5.676m | £6.424m | £4.468m |
| Prydlesi | 0 | 0 | £0.225m | £0.252m | £0.302m |
| **Cyfanswm** | £3.66m | £5.290m | £5.901m | £6.676m | £4.770m |

* Newid yn y cyfrifon ar gyfer prydlesi, yn dilyn gweithredu IFRS16.

4.3 Mae prosiectau cyfalaf y Gronfa Gyffredinol yn cynnwys gwaith adeiladu mewn gorsafoedd, offer TGCh newydd ar gyfer ymateb i ddigwyddiadau, seilwaith tuag at gyrraedd sero net erbyn 2030, a cherbydau newydd. Nid yw'r costau ar gyfer y dyfodol a nodir yn y Strategaeth hon yn cynnwys datblygiad arfaethedig canolfan hyfforddi newydd, gan y bydd yr achos busnes dros hyn yn cael ei gyflwyno i'r Awdurdod Tân yn 2024/25. Dadansoddir rhagor o fanylion am gostau'r prosiectau cyfalaf hynny a gynhwysir dros y deng mlynedd nesaf yn y tabl isod:

| Disgrifiad o'r Prosiect | 2023/24 £m | 2024/25 £m | 2025/26 £m | 2026/27 £m | 2027/28 £m | 2028/29 £m | 2029/30 £m | 2030/31 £m | 2031/32 £m | 2032/33 £m | 2033/34 £m |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwella TGCh | | 0.827 | 0.232 | 0.495 | 0.350 | - | 0.125 | 0.072 | 1.827 | 0.160 | 0.450 |
| Tyrau hyfforddi | 0.307 | 0.305 | 0.305 | 0.305 | 0.305 | 0.305 | 0.305 | 0.305 | 0.305 | 0.305 | 0.305 |
| Gwella gorsafoedd | 0.820 | 1.100 | 0.485 | 0.510 | 3.925 | 0.500 | 0.625 | 0.375 | 0.225 | 0.225 | 0.075 |
| Gwaith cynaliadwyedd | | 0.470 | - | 1.000 | - | - | - | - | - | - | - |
| Gwella Cyfleusterau Hyfforddi | | 0.300 | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Peiriannau Tân | 0.475 | 0.427 | 0.940 | - | - | 2.241 | 4.412 | - | - | 1.540 | - |
| Cerbydau Arbenigol (Fflyd Goch) | 0.150 | - | 2.800 | 1.350 | 1.950 | 0.500 | 0.975 | - | 0.650 | - | 0.300 |
| Cerbydau Ysgafn | 0.538 | 0.166 | 0.400 | 0.447 | - | - | - | 0.329 | 0.895 | 0.447 | - |
| Cerbydau Ysgafn Arbenigol | | 0.632 | 0.530 | 0.210 | - | 0.336 | - | 0.090 | 1.289 | 0.040 | 0.090 |
| Offer yr Ochr Weithredol | | 0.290 | 0.595 | 0.150 | 0.300 | 0.100 | 1.200 | - | 0.075 | - | - |
| Offer Fflyd | | 0.050 | 0.136 | - | - | 0.033 | 0.020 | - | - | - | - |
| Tir y Ganolfan Hyfforddi | 3.000 | | | | | | | | | | |
| **Trosglwyddo Cyllid Ymlaen** | | | | | | | | | | | |
| Peiriannau Tân | | 0.960 | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Gwaith cynaliadwyedd | | 0.150 | - | - | - | - | - | - | - | - | - |
| **Gwariant Cyfalaf a Gynlluniwyd** | **5.290** | **5.676** | **6.424** | **4.468** | **6.830** | **4.015** | **7.662** | **1.171** | **5.266** | **2.717** | **1.220** |

4.4 Rhaid i'r holl wariant cyfalaf gael ei ariannu, naill ai o ffynonellau allanol (grantiau'r llywodraeth a chyfraniadau eraill), neu adnoddau'r Awdurdod ei hun (refeniw, cronfeydd wrth gefn a derbynion cyfalaf), neu ddyled (benthyca, prydlesu a Menter Cyllid Preifat). Mae'r cyllid a gynlluniwyd ar gyfer y gwariant uchod fel a ganlyn:

*Tabl 2: Cyllid cyfalaf mewn £ miliynau*

| | **Gwirioneddol 2022/23** £m | **Amcangyfrif 2023/24** £m | **cyllideb £m 2024/25** | **cyllideb 2025/26** £m | **cyllideb 2026/27** £m |
|---|---|---|---|---|---|
| Adnoddau Mewnol | 0.525 | 0.727 | 0.000 | 0.000 | 0.000 |
| Cyllid Grant | 0.490 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 |
| Dyled | 2.351 | 4.563 | 5.901 | 6.424 | 4.468 |
| **CYFANSWM** | **3.366** | **5.290** | **5.901** | **6.676** | **4.468** |

* Mae £0.225m o ariannu dyled yn 2024/25 yn deillio o newid yn y cyfrifon ar gyfer prydlesi ac nid yw'n cynrychioli gwariant arian parod

4.5 Dim ond ffynhonnell gyllid dros dro yw dyled, gan fod yn rhaid ad-dalu benthyciadau a phrydlesi, ac felly caiff hyn ei ddisodli dros amser gan gyllid arall, fel arfer o refeniw a elwir yn ddarpariaeth isafswm refeniw (MRP). Fel arall, gellir defnyddio'r elw o werthu asedau cyfalaf (a elwir yn dderbynion cyfalaf) i gymryd lle cyllid dyled. Mae'r ddarpariaeth isafswm refeniw a'r defnydd o dderbynion cyfalaf a gynlluniwyd fel a ganlyn:

*Tabl 3: Amnewid cyllid dyledion blynyddoedd blaenorol mewn £ miliynau*

| | **Gwirioneddol 2022/23** £m | **Amcangyfrif 2023/24** £m | **cyllideb 2024/25 £m** | **cyllideb 2025/26** £m | **cyllideb 2026/27** £m |
|---|---|---|---|---|---|
| Darpariaeth Isafswm Refeniw | 1.959 | 1.902 | 1.885 | 2.267 | 2.601 |
| Derbynion Cyfalaf | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 |
| **CYFANSWM** | **1.959** | **1.902** | **1.885** | **2.267** | **2.601** |

- Mae datganiad darpariaeth isafswm refeniw llawn yr Awdurdod ar gael yn Atodiad 1.

4.6 Mae swm cronnol yr Awdurdod o gyllid dyled sy'n weddill yn cael ei fesur gan y gofyniad ariannu cyfalaf (CFR). Mae hyn yn cynyddu gyda gwariant cyfalaf newydd a ariennir gan ddyled ac yn lleihau gyda darpariaeth isafswm refeniw a derbynion cyfalaf a ddefnyddir i ddisodli dyled. Yn seiliedig ar y ffigurau uchod ar gyfer gwariant ac ariannu, amcangyfrifir bod CFR yr Awdurdod fel a ganlyn:

*Tabl 4: Dangosydd Darbodus: Amcangyfrifon o Ofyniad Ariannu Cyfalaf mewn £ miliynau*

| | **gwirioneddol 31.3.2023** | **rhagolwg 31.3.2024** | **Cyllideb 31.3.2025*** | **Cyllideb 31.3.2026*** | **Cyllideb 31.3.2027** |
|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaethau'r Gronfa Gyffredinol | 28.877 | 32.350 | 36.391 | 40.948 | 42.765 |
| **CYFANSWM CFR** | **28.877** | **32.350** | **36.391** | **40.498** | **42.765** |

* Mae £0.225m o'r cynnydd yn y CFR yn 2024/25 yn deillio o newid yn y cyfrifyddu ar gyfer prydlesi

4.7 **Rheoli asedau:** Er mwyn sicrhau bod asedau cyfalaf yn parhau i fod o ddefnydd yn y tymor hir, mae'r Awdurdod yn datblygu strategaeth rheoli asedau yn 2024/25. Bydd hyn yn gwella'r wybodaeth sydd eisoes ar gael o'r arolygon cyflwr adeiladau.

4.8 Yn ystod 2024/25, cynhelir adolygiad o gerbydau ysgafn, h.y. cerbydau nad ydynt yn cael eu defnyddio i ymateb i ddigwyddiadau. Bydd hyn yn sicrhau bod gan y Gwasanaeth fflyd effeithiol ac effeithlon, yn unol â dyheadau Cynllun Datgarboneiddio’r Fflyd.

4.9 **Gwarediadau asedau:** Pan nad oes angen ased cyfalaf mwyach, gellir ei werthu fel y gellir gwario’r enillion, a elwir yn dderbynion cyfalaf, ar asedau newydd neu i ad-dalu dyled. Nid yw'r Awdurdod yn disgwyl derbyn unrhyw dderbynion cyfalaf sylweddol yn y flwyddyn ariannol nesaf.

## 5 Rheoli Trysorlys

5.1 Mae rheoli trysorlys yn ymwneud â chadw digon o arian parod, ond nid gormod, ar gael i ddiwallu anghenion gwario'r Awdurdod, gan reoli'r risgiau dan sylw ar yr un pryd. Mae arian dros ben yn cael ei fuddsoddi hyd nes y bydd ei angen, tra bydd prinder arian yn cael ei ddatrys drwy fenthyca, er mwyn osgoi balans credyd neu orddrafft gormodol yn y cyfrif cyfredol yn y banc. Mae'r Awdurdod fel arfer â digon o arian yn y tymor byr, gan fod incwm refeniw yn cael ei dderbyn cyn iddo gael ei wario. Serch hynny, does dim digon o arian yn y tymor hir gan fod gwariant cyfalaf yn cael ei wario cyn cael ei ariannu. Mae'r gwargedion arian refeniw yn cael eu gwrthbwyso yn erbyn diffygion arian cyfalaf (cyfeirir at hyn fel 'benthyca mewnol') i leihau’r benthyca cyffredinol.

5.2 Oherwydd penderfyniadau a wnaed yn y gorffennol, roedd gan yr Awdurdod ym mis Rhagfyr 2023 fenthyciadau o £21.620m ar gyfradd llog cyfartalog y Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLB) o 2.46% a chyfradd llog tymor byr o 4.35%. Cyfanswm y buddsoddiadau trysorlys oedd £7.73m ar gyfraddau rhwng 4.65% a 5.38%. Rhagwelir y bydd y balans arian parod tua £2m ar ddiwedd y flwyddyn (31/03/2024), os yw’r gwariant cyfalaf yn ôl y disgwyl.

5.3 **Strategaeth fenthyca:** Prif amcanion yr Awdurdod wrth fenthyg yw sicrhau cyllid ar gost isel ond penodol, gan gadw hyblygrwydd pe bai cynlluniau'n newid yn y dyfodol. Mae'r amcanion hyn yn aml yn gwrthdaro, ac felly mae'r Awdurdod yn ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng benthyciadau tymor byr rhatach a benthyciadau tymor hir ar gyfradd osodedig lle mae'r gost yn y dyfodol yn hysbys ond yn uwch.

5.4 Nid yw'r Awdurdod yn benthyca i fuddsoddi â’r prif ddiben o sicrhau enillion ariannol, ac felly mae'n cadw mynediad llawn i'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus. Dangosir lefelau rhagamcanol o gyfanswm dyled yr Awdurdod sy'n weddill (sy'n cynnwys benthyca a phrydlesi) isod, o'i gymharu â'r gofyniad ariannu cyfalaf (gweler uchod).

*Tabl 6: Dangosydd Darbodus: Dyled Gros a'r Gofyniad Ariannu Cyfalaf mewn £ miliynau*

| | **Gwirioneddol 31.12.23** £m | **rhagolwg 31.3.2024 £m** | **cyllideb 31.3.2025 £m** | **cyllideb 31.3.2026 £m** | **cyllideb 31.3.2027 £m** |
|---|---|---|---|---|---|
| Dyled | 26.460 | 20.787 | 24.493 | 28.508 | 30.234 |
| prydlesi | 0.000 | 0.000 | 0.225 | 0.252 | 0.302 |
| **Cyfanswm y ddyled** | **26.460** | **20.787** | **24.718** | **28.760** | **30.536** |
| Gofyniad Ariannu Cyfalaf | 28.877 | 32.350 | 36.391 | 40.948 | 42.765 |

5.5 Mae canllawiau statudol yn nodi y dylai dyled aros yn is na'r gofyniad ariannu cyfalaf, ac eithrio yn y tymor byr. Fel y gwelir o dabl 6, mae'r Awdurdod yn disgwyl cydymffurfio â hyn yn y tymor canolig.

5.6 **Meincnod rhwymedigaeth:** Er mwyn cymharu benthyca gwirioneddol yr Awdurdod yn erbyn strategaeth amgen, mae meincnod rhwymedigaeth wedi’i gyfrifo i ddangos y lefel risg isaf o fenthyca. Mae hyn yn tybio bod balansau arian a buddsoddi yn cael eu cadw i isafswm o £2m ar ddiwedd pob blwyddyn. Ar hyn o bryd mae'r meincnod hwn yn £28.750m a rhagwelir y bydd yn codi i £41.367m dros y tair blynedd nesaf.

*Tabl 7: Benthyca a'r Meincnod Rhwymedigaeth mewn £ miliynau*

| | **gwirioneddol 31.12.23** £m | **rhagolwg 31.3.2024** £m | **cyllideb 31.3.2025** £m | **cyllideb 31.3.2026** £m | **cyllideb 31.3.2027** £m |
|---|---|---|---|---|---|
| Benthyca a ragolygir | 26.460 | 20.787 | 24.493 | 28.508 | 30.234 |
| Meincnod rhwymedigaeth | 24.283 | 28.750 | 33.916 | 38.800 | 41.367 |

5.7 Mae'r tabl yn dangos bod yr Awdurdod yn disgwyl benthyg o dan ei feincnod rhwymedigaeth, gan ei fod yn defnyddio benthyca mewnol, lle bo hynny'n bosibl. Yn 2023/24, sicrhawyd benthyca cyn bod angen, gan fod yr Awdurdod wedi manteisio ar gyfraddau llog isel. Defnyddiwyd y benthyca hwn i ariannu'r rhaglen gyfalaf ar gyfer 2024/25. Mae'r tabl uchod yn tybio na fydd unrhyw fenthyca pellach yn cael ei weithredu yn 2023/24. Fodd bynnag, os oes cyfle i fenthyca ar gyfradd is, cyn diwedd y flwyddyn, yna yn unol â'r cyngor gan gynghorwyr trysorlys yr Awdurdod (Arlingclose), bydd benthyciadau pellach yn cael eu sicrhau.

5.8 **Terfyn benthyca fforddiadwy:** Mae'n ofynnol yn gyfreithiol i'r Awdurdod osod terfyn benthyca fforddiadwy (a elwir hefyd yn derfyn awdurdodedig ar gyfer dyled allanol) bob blwyddyn. Yn unol â chanllawiau statudol, mae "ffin weithredol" is hefyd yn cael ei gosod fel lefel rhybudd pe bai’r ddyled yn nesáu at y terfyn.

*Tabl 8: Dangosyddion Darbodus: Y terfyn awdurdodedig a'r ffin weithredol ar gyfer dyled allanol mewn £ miliynau*

| | **Terfyn 2023/24 £m** | **Terfyn 2024/25 £m** | **Terfyn 2025/26 £m** | **Terfyn 2026/27 £m** |
|---|---|---|---|---|
| Terfyn awdurdodedig - benthyca | 30.999 | 38.391 | 42.948 | 44.765 |
| Terfyn awdurdodedig - prydlesi | 0.000 | 0.250 | 0.275 | 0.330 |
| Terfyn awdurdodedig - cyfanswm y ddyled allanol | 30.999 | 38.641 | 43.223 | 45.095 |
| Ffin weithredol - benthyca | 28.999 | 36.391 | 40.948 | 42.765 |
| Ffin weithredol - prydlesi | 0.000 | 0.225 | 0.252 | 0.302 |
| Ffin weithredol - cyfanswm dyled allanol | 28.999 | 36.616 | 41.200 | 43.067 |

- Mae rhagor o fanylion am fenthyca yn y Strategaeth Rheoli Trysorlys.

5.9 **Strategaeth Buddsoddi Trysorlys:** Mae buddsoddiadau trysorlys yn deillio o dderbyn arian cyn iddo gael ei dalu allan eto. Yn gyffredinol, nid yw buddsoddiadau a wneir am resymau gwasanaeth neu elw ariannol pur yn cael eu hystyried yn rhan o reoli trysorlys.

5.10 Polisi’r Awdurdod ar fuddsoddiadau trysorlys yw rhoi blaenoriaeth i sicrwydd a hylifedd dros y maint, hynny yw canolbwyntio ar leihau risg yn hytrach na sicrhau’r enillion mwyaf posibl. Mae arian yn cael ei fuddsoddi'n ddiogel, er enghraifft gyda'r llywodraeth, awdurdodau lleol eraill, neu fanciau dethol o ansawdd uchel, i leihau'r risg o golled.

- Mae rhagor o fanylion am fuddsoddiadau trysorlys yn y strategaeth rheoli trysorlys.

5.11 **Rheoli risg:** Mae rheoli risg yn effeithiol yn un o brif amcanion gweithgareddau rheoli trysorlys yr Awdurdod. Felly, mae'r strategaeth rheoli trysorlys yn nodi gwahanol ddangosyddion a therfynau i gyfyngu ar y risg o golledion annisgwyl ac yn manylu ar i ba raddau y gellir defnyddio deilliadau ariannol i reoli risgiau trysorlys.

- Mae'r dangosyddion darbodus rheoli trysorlys ar dudalennau 10 i 11 y strategaeth rheoli trysorlys.

5.12 **Llywodraethu:** Mae penderfyniadau ar fuddsoddiadau a benthyca rheoli trysorlys yn cael eu gwneud yn ddyddiol, ac felly yn cael eu dirprwyo i'r Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau) a'r staff Cyllid, sy'n gorfod gweithredu yn unol â'r strategaeth rheoli trysorlys a'r arferion rheoli trysorlys. Mae adroddiadau chwarterol ar weithgarwch rheoli trysorlys yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio. Y Pwyllgor Archwilio sy'n gyfrifol am graffu ar benderfyniadau rheoli trysorlys.

## 6 Goblygiadau i'r Gyllideb Refeniw

6.1 Er na chaiff gwariant cyfalaf ei godi'n uniongyrchol ar y gyllideb refeniw, mae llog sy'n daladwy ar fenthyciadau ac MRP yn cael eu codi ar y gyllideb refeniw. Gelwir y tâl blynyddol net yn gostau ariannu; mae hyn yn cael ei gymharu â'r ffrwd refeniw net, h.y. y swm a ariennir o'r ardoll a dderbyniwyd gan awdurdodau cyfansoddol a grantiau cyffredinol y llywodraeth. Gallai'r costau cyllido uwch a ragwelir isod ar gyfer 2025/26 a 2026/27 fod yn is os bydd cyfraddau llog yn y dyfodol yn disgyn yn is na'r lefelau a ragwelir.

*Tabl 9: Dangosydd Darbodus: Cyfran costau cyllido i'r llif refeniw net*

| | **Gwirioneddol 2022/23** £m | **Rhagolwg 2023/24** £m | **cyllideb 2024/25** £m | **cyllideb 2025/26** £m | **cyllideb 2026/27** £m |
|---|---|---|---|---|---|
| Costau ariannu (£m) | 2.424 | 2.600 | 2.737 | 3.454 | 4.081 |
| Cyfran y llif refeniw net | 6.15% | 5.85% | 5.62% | 6.50% | 7.47% |

- Manylion pellach ar oblygiadau refeniw gwariant cyfalaf yn Adran 14 y Strategaeth Adnoddau Tymor Canolig.

6.2 **Cynaliadwyedd:** Oherwydd natur hynod o hirdymor gwariant ac ariannu cyfalaf, bydd y goblygiadau i'r gyllideb refeniw yn sgil gwariant a wneir yn ystod yr ychydig flynyddoedd nesaf yn ymestyn am hyd at 50 mlynedd i'r dyfodol. Mae'r Trysorydd (Swyddog A151) yn fodlon bod y rhaglen gyfalaf arfaethedig yn ddarbodus, fforddiadwy a chynaliadwy, oherwydd mae'r cynllun wedi cael ei adolygu a'i gadw yn unol â gwariant a benthyca cyfalaf blaenorol.

## 7 Gwybodaeth a Sgiliau

7.1 Mae'r Awdurdod yn cyflogi staff proffesiynol cymwys a phrofiadol mewn swyddi uwch gyda chyfrifoldeb am wneud penderfyniadau gwariant cyfalaf, benthyca a buddsoddi. Er enghraifft, mae'r Trysorydd, y Prif Swyddog Tân Cynorthwyol (Cyllid ac Adnoddau), a'r Pennaeth Cyllid a Chaffael yn gyfrifwyr cymwys sydd â blynyddoedd lawer o brofiad. Yn ogystal, ceir ymgynghoriad gyda staff cyfleusterau drwy gytundeb lefel gwasanaeth, a chyda Rheolwr yr Amgylchedd a Newid Hinsawdd.

7.2 Gwneir defnydd hefyd o gynghorwyr allanol ac ymgynghorwyr sy'n arbenigwyr yn eu meysydd. Ar hyn o bryd mae'r Awdurdod yn cyflogi Arlingclose Limited fel cynghorwyr rheoli trysorlys. Mae'r dull hwn yn fwy cost-effeithiol na chyflogi staff o'r fath yn uniongyrchol, ac mae'n sicrhau bod gan yr Awdurdod fynediad at wybodaeth a sgiliau sy'n gymesur â'i archwaeth risg.

**ATODIAD 1**

## Datganiad Darpariaeth Isafswm Refeniw 2024/25

Pan fydd yr Awdurdod yn ariannu gwariant cyfalaf drwy ddyled, rhaid iddo neilltuo adnoddau i ad-dalu'r ddyled honno yn y blynyddoedd diweddarach. Gelwir y swm a godir ar y gyllideb refeniw ar gyfer ad-dalu dyled yn Darpariaeth Isafswm Refeniw (MRP), er na fu isafswm statudol ers 2008. Mae *Deddf Llywodraeth Leol 2003* ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod roi sylw i *Canllawiau ar Ddarpariaeth Isafswm Refeniw* Llywodraeth Cymru (Canllawiau'r LlC) a gyhoeddwyd yn fwyaf diweddar yn 2018.

Nod eang canllawiau LlC yw sicrhau bod gwariant cyfalaf yn cael ei ariannu dros gyfnod sydd naill ai'n rhesymol gymesur â'r cyfnod y mae'r gwariant cyfalaf yn darparu buddion drosto, neu, yn achos benthyca a gefnogir gan Grant Cynnal Refeniw y Llywodraeth, sy'n rhesymol gymesur â'r cyfnod sy'n ymhlyg wrth benderfynu ar y grant hwnnw.

Mae Canllawiau LlC yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod gymeradwyo Datganiad Blynyddol o'r MRP bob blwyddyn ac yn argymell nifer o opsiynau ar gyfer cyfrifo swm darbodus o MRP. Mae'r datganiad canlynol yn cynnwys opsiynau a argymhellir yn y Canllawiau

- Ar gyfer gwariant cyfalaf ar ôl 31 Mawrth 2008, bydd MRP yn cael ei bennu trwy godi'r gwariant dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig yr ased perthnasol mewn rhandaliadau cyfartal, gan ddechrau yn y flwyddyn ar ôl i'r ased ddod yn weithredol. Bydd MRP ar brynu tir rhydd-ddaliad yn cael ei godi dros 50 mlynedd. Bydd MRP ar wariant nad yw'n gysylltiedig ag asedau sefydlog ond sydd wedi'i gyfalafu gan reoleiddio neu gyfarwyddyd yn cael ei godi dros 20 mlynedd.

- Ar gyfer asedau a gaffaelwyd trwy brydlesi neu unrhyw Fenter Cyllid Preifat (nid oes gan ATAGC unrhyw gynlluniau PFI), bydd MRP yn cael ei bennu fel un sy'n hafal i'r elfen o'r rhent neu'r tâl sy'n mynd i ddibrisio rhwymedigaeth y fantolen.

- Lle mae prydlesi gweithredu blaenorol wedi'u dwyn i'r fantolen oherwydd mabwysiadu safon cyfrifo Prydlesi IFRS 16, a bod gwerthoedd yr asedau wedi'u haddasu ar gyfer croniadau, rhagdaliadau, premiymau a/neu gymhellion, yna bydd y taliadau MRP blynyddol yn cael eu haddasu. fel na fydd y safon newydd yn effeithio ar gyfanswm y tâl ar y gyllideb refeniw.

Ni fydd gwariant cyfalaf a wneir yn ystod 2023/24 yn destun tâl MRP tan 2024/25 neu'n hwyrach. Yn seiliedig ar amcangyfrif diweddaraf yr Awdurdod o'i ofyniad ariannu cyfalaf (CFR) ar 31 Mawrth 2024, mae'r gyllideb ar gyfer MRP wedi'i gosod fel a ganlyn:

| | **Amcangyfrif CFR 31.03.2024 £m** | **Amcangyfrif MRP 2024/25 £** |
|---|---|---|
| **Cronfa Gyffredinol** | **32.350** | **1.885** |

*This document is available in English*

**Eitem Agenda 12**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **18 Mawrth 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol, Cyllid ac Adnoddau** |
| Swyddog Cyswllt | **Angharad Ellis (MIAA)** |
| Pwnc | **Diweddariad Archwilio Mewnol** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi diweddariad i'r Aelodau ar y gwaith a wnaed gan ddarparwyr archwilio mewnol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod), MIAA, am y cyfnod 1 Rhagfyr 2023 i 29 Chwefror 2024.

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Mae'n ofynnol i'r Awdurdod roi trefniadau ar waith ar gyfer archwilio systemau rheoli. Penodwyd MIAA ym mis Mehefin 2023 i ddarparu gwasanaethau archwilio mewnol i'r Awdurdod.

3 Mae'r adroddiad yn Atodiad 1 yn rhoi trosolwg o'r gwaith a wnaed yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24 yn erbyn y cynllun archwilio mewnol y cytunwyd arno. Mae'r adroddiad yn cadarnhau canfyddiadau adolygiadau a gynhaliwyd rhwng 1 Rhagfyr 2023 a 29 Chwefror 2024.

4 Mae'r adroddiadau manwl sy'n ymwneud â'r adolygiadau a gwblhawyd wedi'u nodi yn atodiadau 2-5 ac yn rhoi sicrwydd ar fodolaeth a gweithrediad rheolaethau allweddol. Cytunwyd ar argymhellion ar gyfer gwelliannau pellach gan gynnwys amserlenni ar gyfer gweithredu.

## ARGYMHELLION

5 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

i) **Nodi'r gwaith a wnaed gan MIAA yn ystod 2023/24; a**
ii) **Nodi'r gwaith sydd wedi'i gwblhau rhwng 1 Rhagfyr 2023 a 29 Chwefror 2024, gan gynnwys yr argymhellion y cytunwyd arnynt ar gyfer gwelliant pellach.**

**CEFNDIR**

6 Mae Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (y Rheoliadau) yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod wneud trefniadau priodol ac effeithiol ar gyfer systemau rheoli mewnol. Mae hyn yn cynnwys y trefniadau ar gyfer rheoli risg a rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol.

7 Mae'r Rheoliadau hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gynnal archwiliad mewnol digonol ac effeithiol o'r systemau rheoli mewnol, y mae'n rhaid hysbysu Aelodau'r Awdurdod am ei ganfyddiadau. Mae'n ofynnol i'r Awdurdod gymeradwyo'r Datganiad Rheolaeth Fewnol yn flynyddol.

8 Penododd yr Awdurdod MIAA fel ei archwilydd mewnol yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio ar 18 Mehefin 2023. Cymeradwywyd y Cynllun Archwilio gan y Pwyllgor Archwilio yn ei gyfarfod ar 18 Medi 2023.

**GWYBODAETH**

9 Mae'r adroddiad a gynhwysir yn Atodiad 1 yn rhoi trosolwg o'r gwaith a wnaed yn ystod 2023/24 ac yn cadarnhau bod yr adolygiadau canlynol wedi'u cwblhau yn y cyfnod adrodd:

- Rheolaethau Prosesu Trafodion Ariannol Allweddol
- Y Fenter Twyll Genedlaethol (NFI)
- Trefniadau Rheoli Risg

10 Darperir yr adroddiadau manwl o fewn atodiadau 2-4 ac maent yn amlinellu'r meysydd a fu’n destun adolygiad a'r canfyddiadau allweddol. Mae'r adolygiadau wedi tynnu sylw at argymhellion ar gyfer gwaith a gwelliannau pellach y cytunwyd arnynt hefyd.

## GOBLYGIADAU

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae gweithredu systemau ariannol sy'n cael eu rheoli'n briodol yn cefnogi cyflawni'r amcanion llesiant a chynaliadwyedd tymor hwy gwasanaethau. |
| Cyllideb | Mae sicrwydd ynghylch bodolaeth a gweithrediad rheolaethau mewnol yn cefnogi'r broses o bennu cyllideb effeithiol. |
| Cyfreithiol | Mae trefniant archwilio mewnol effeithiol yn un o ofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 |
| Staffio | Mae'r adolygiad o systemau ariannol allweddol gan gynnwys y gyflogres yn rhoi sicrwydd bod rheolaethau yn bresennol a bod taliadau yn cyd-fynd â pholisïau a gweithdrefnau y cytunwyd arnynt. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/<br>y Gymraeg | Mae'r arweinydd ymgysylltu o fewn MIAA yn ddwyieithog a bydd yr adroddiadau'n mynd drwy'r prosesau cyfieithu arferol. |
| Risgiau | Mae'r Datganiad Sicrwydd yn cael ei gyflwyno yn unol â'r Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio a Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Heb sicrwydd o'r fath, ni fyddai'r Aelodau'n ymwybodol o ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu corfforaethol, rheoli risg a rheolaeth fewnol a'i allu cysylltiedig i gyflawni ei amcanion.<br><br>Ni fyddai unrhyw faterion neu wendidau arwyddocaol a nodwyd gan Archwilio Mewnol yn cael eu hystyried wrth baratoi'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. |

# Adroddiad Cynnydd Archwilio Mewnol Pwyllgor Archwilio (Mawrth 2024)

## Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru



miaa

# Cynnwys

1 Cyflwyniad

2 Negeseuon Allweddol i Sylw'r Pwyllgor Archwilio

Atodiad A: Perfformiad y Contract

Atodiad B: Dangosyddion Perfformiad

Atodiad C: Diffiniadau Sicrwydd a Dosbarthiadau Risg

## Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus

Cwblhawyd ein gwaith yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus ac mae'n cydymffurfio â'r Safonau Rhyngwladol ar gyfer Arfer Archwilio Mewnol Proffesiynol.

## Crynodeb Gweithredol

Mae'r adroddiad hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor Archwilio mewn perthynas â'r cynnydd a wnaed yn erbyn y Cynllun Archwilio Mewnol ar gyfer 2023/24 ac yn dwyn eich sylw at faterion sy'n berthnasol i'ch cyfrifoldebau fel aelodau o'r Pwyllgor Archwilio.

Mae'r adroddiad cynnydd hwn yn rhoi crynodeb o weithgarwch Archwilio Mewnol ac yn cydymffurfio â gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus.

Darperir adroddiadau cynhwysfawr sy'n manylu ar ganfyddiadau, argymhellion a chamau gweithredu y cytunwyd arnynt i'r sefydliad, ac maent wedi'u cynnwys ym mhapurau'r Pwyllgor Archwilio. Yn ogystal, adroddir ar y sefyllfa ddilynol gyfunol o bryd i'w gilydd i'r Pwyllgor Archwilio.

Mae'r adroddiad cynnydd hwn yn ymdrin â'r cyfnod 1 Rhagfyr i 29 Chwefror 2024.

## 3 Crynodeb Gweithredol

| Adolygiadau Archwilio 2023/24 |
| --- |
| Mae'r adolygiadau canlynol wedi'u cwblhau:<br>• TG – Rheolaethau Sefydliadol Seiber (Sicrwydd Cymedrol)<br>Er bod yr adolygiad wedi nodi rhai meysydd o arfer da, roedd cyfleoedd hefyd i gryfhau rheolaethau mewn nifer o feysydd allweddol gan gynnwys llywodraethu seiber a diwylliant, rheoli digwyddiadau, rheoli trydydd partïon, dogfennaeth, adroddiadau risg a sicrwydd.<br>• Adolygiad Rheolaethau Prosesu Trafodol Ariannol Allweddol (Sicrwydd Sylweddol)<br>Ar y cyfan, roedd system dda o reolaeth fewnol ar waith a gynlluniwyd i gyflawni amcanion y system, fodd bynnag, nodwyd rhai meysydd i'w gwella. Mae tystiolaeth gynhwysfawr bod rheolaethau ariannol yn gweithredu'n gadarn o fewn y sefydliad, a chanfuwyd meysydd o arfer da yn y rhan fwyaf o achosion o'n profion samplu a'n hadolygiad o'r ddogfennaeth.<br>• Rheoli Risg – Rheolaethau Craidd (Ddim yn berthnasol)<br>Nododd ein hadolygiad fod angen nifer o welliannau i ddogfennaeth prosesau rheoli risg. Nid oedd rolau a chyfrifoldebau mewn perthynas â rheoli risg wedi'u diffinio'n glir, roedd hyn yn cynnwys y broses uwchraddio risg drwy'r strwythur llywodraethu. Dylid adolygu a diwygio'r ddarpariaeth hyfforddiant bresennol. Dylid nodi anghenion hyfforddiant rheoli risg yn glir ar gyfer yr holl staff ac mae angen eglurhad ar drefniadau ar gyfer monitro cydymffurfiaeth. Mae prosesau ar gyfer sicrhau bod risgiau'n cael eu nodi, eu hadolygu'n gyson, eu sgorio, eu cofnodi a'u monitro ar draws y sefydliad yn gofyn am |

ddatblygiad pellach. Nid yw trefniadau llywodraethu ar gyfer adrodd sicrwydd yn erbyn risgiau dirprwyedig yn cael eu hamlinellu'n glir. Er bod y risgiau strategol yn cael eu hadrodd i Banel Gweithredol yr Awdurdod Tân, mae angen datblygu prosesau ar gyfer adrodd yn rheolaidd i'r Awdurdod Tân ar brif risgiau ac asesiadau ar effeithiolrwydd prosesau rheoli risg y sefydliad.

- Menter Twyll Genedlaethol (NFI) (Ddim yn berthnasol)

Cadarnhaodd MIAA yr ymchwiliwyd i bob achos o baru ac ni nodwyd unrhyw achosion o dwyll neu ordaliad. Mae'r ymchwiliad bellach ar gau.

***Mae'r adroddiadau llawn wedi'u cynnwys ar wahân ym mhapurau'r Pwyllgor Archwilio.***

## Dilyniant

Rydym wrthi'n dilyn hynt yr argymhellion a godwyd yn ystod 2023/24 a bydd diweddariad yn cael ei ddarparu yn y Pwyllgor Archwilio nesaf ym mis Mehefin 2024.

## Newidiadau i'r Cynllun Archwilio

Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Archwilio ar gyfer unrhyw ddiwygiadau i'r cynllun gwreiddiol ac fe'u hamlygir ar wahân isod i hwyluso'r broses fonitro.

Nid oes unrhyw gynigion ar hyn o bryd i ddiwygio'r cynllun archwilio a gymeradwywyd.

## Gwerth Ychwanegol

### Digwyddiadau

- Arweinyddiaeth sy'n Wybodus ynghylch Trawma (23 Chwefror 2024)
- Hyfforddiant a Mentora: Dywedwch Lai, Gofynnwch Fwy! (14 Mawrth 2024)

Mae'r digwyddiadau yn rhad ac am ddim i bob cleient a gellir archebu lle drwy glicio ar y ddolen uchod neu drwy ein gwefan www.miaa.nhs.uk a chlicio ar Events.

## Atodiad A:  Perfformiad y Contract

Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) yn datgan 'Rhaid i'r prif swyddog gweithredol archwilio ddarparu barn archwilio fewnol ac adroddiad blynyddol y gall y sefydliad eu defnyddio i lywio ei ddatganiad llywodraethu.'

Isod ceir trosolwg cyflawni ar gyfer Barn eich Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 23/24:

| Maes Barn y Pennaeth Archwilio | Cytuno ar TOR | Statws | Lefel Sicrwydd | Adrodd i'r Pwyllgor Archwilio |
|---|---|---|---|---|
| Rheolaethau Craidd Rheoli Risgiau | ✓ | Cwblhawyd | Amh. | Mawrth 2024 |
| Systemau Ariannol Allweddol | ✓ | Cwblhawyd | Sylweddol | Mawrth 2024 |
| Y Fenter Twyll Genedlaethol (NFI) | Amh. | Briffio Cychwynnol – Cwblhawyd<br>Adroddiad Llawn - Cwblhawyd | Amh. | Rhagfyr 2023<br>Mawrth 2024 |
| Cyflogres a Rheoli Presenoldeb | ✓ | Cwblhawyd | Sylweddol | Rhagfyr 2023 |
| TG – Rheolaethau Sefydliadol Seiber | ✓ | Cwblhawyd | Cymedrol | Mawrth 2024 |
| Dilyniant | | | | |
| C1 | Amh. | Cwblhawyd gan Archwilwyr Cyngor Conwy | Amh. | Mehefin 2023 |
| C4 | Amh. | Ar y gweill | Amh. | Mehefin 2024 |

| **Maes Barn y Pennaeth Archwilio** | **Cytuno ar TOR** | **Statws** | **Lefel Sicrwydd** | **Adrodd i'r Pwyllgor Archwilio** |
|---|---|---|---|---|
| Wrth gefn – Cymorth a Chanllawiau Gwerth Ychwanegol | | | | |
| Adolygiad Polisi a Gweithdrefn<br><br>Polisi chwythu'r chwiban, Gwrth-dwyll a Llygredd ac Anrhegion a Lletygarwch | Amh. | Cwblhawyd | Amh. | Amh. |

Os nad ydyn ni'n gallu sicrhau digon o ddyfnder neu gwmpas oherwydd amgylchiadau y tu hwnt i'n rheolaeth, efallai y bydd angen i ni roi rhybudd ar gyfer barn ac egluro effaith hyn a beth fydd yn cael ei wneud i adfer y sefyllfa yn y dyfodol.

## Atodiad B: Dangosyddion Perfformiad

Prif fesur perfformiad eich archwilydd mewnol yw'r allbynnau sy'n deillio o'r gwaith a wnaed. Mae'r canlynol yn darparu gwybodaeth am ddangosyddion perfformiad i gefnogi'r Pwyllgor wrth asesu perfformiad Archwilio Mewnol.

| Elfen | Amlder Adrodd | Statws | Crynodeb |
|---|---|---|---|
| Cyflwyno Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol (Cynnydd yn erbyn y Cynllun) | Pob Pwyllgor Archwilio | Gwyrdd | Dim materion i'w hadrodd |
| Cyflwyno Holiadur Boddhad Cleientiaid ar ôl cwblhau pob archwiliad. | Mae pob adroddiad terfynol yn cynnwys holiadur ar gyfer adborth cleientiaid | Gwyrdd | |
| Canran yr argymhellion a godwyd y cytunir arnynt | Pob Pwyllgor Archwilio | Gwyrdd | |
| Canran yr argymhellion sy'n cael eu gweithredu | Adroddir ar ddilyniant ddwywaith y flwyddyn | Gwyrdd | |
| Staff Cymwysedig | Blynyddol | Gwyrdd | Mae gan MIAA weithlu cymwys ac amrywiol iawn sy'n cynnwys 75% o staff cymwys. |
| Ansawdd | Blynyddol | Gwyrdd | Mae MIAA yn gweithredu systemau i safonau ansawdd ISO. Mae'r Asesiad Ansawdd Allanol, a gynhelir gan CIPFA, yn rhoi sicrwydd o gydymffurfiaeth MIAA â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. Mae MIAA yn cydymffurfio â Chod Moeseg Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus. |

## Atodiad C: Diffiniadau Sicrwydd a Dosbarthiadau Risg

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| Uchel | Mae system gref o reolaeth fewnol sydd wedi'i chynllunio'n effeithiol i gyflawni amcanion y system, ac mae rheolaethau'n cael eu cymhwyso'n gyson ym mhob maes a adolygir. |
| Sylweddol | Mae system dda o reolaeth fewnol wedi'i chynllunio i fodloni amcanion y system, ac mae rheolaethau'n cael eu cymhwyso'n gyson ar y cyfan. |
| Cymedrol | Mae system ddigonol o reolaeth fewnol; fodd bynnag, mewn rhai meysydd mae gwendidau o ran dylunio a/neu gymhwyso rheolaethau'n anghyson yn peryglu cyflawni rhai agweddau ar amcanion y system. |
| Cyfyngedig | Mae'r system o reolaeth fewnol dan fygythiad gan fod gwendidau wrth ddylunio a / neu gymhwyso rheolaethau yn anghyson yn peryglu cyflawni amcanion y system. |
| Dim | Mae system annigonol o reolaeth fewnol gan y gallai gwendidau mewn rheolaeth a/neu ddiffyg cydymffurfio cyson â rheolaethau arwain at fethu â chyflawni amcanion y system, neu eu bod eisoes wedi arwain at hynny. |

| Sgôr Risg | Rhesymeg Asesu |
|---|---|
| Critigol | Gwendid rheoli a allai gael effaith sylweddol nid yn unig ar amcanion y system, swyddogaeth neu broses ond hefyd ar gyflawni amcanion y sefydliad mewn perthynas â:<br>• defnydd effeithlon ac effeithiol o adnoddau<br>• diogelu asedau<br>• paratoi gwybodaeth ariannol a gweithredol ddibynadwy<br>• cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. |
| Uchel | Gwendid rheoli sydd wedi neu sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar gyflawni amcanion allweddol y system, swyddogaeth neu broses. Nid yw'r gwendid hwn, er bod effaith fawr ar y system, swyddogaeth neu broses, yn cael effaith sylweddol ar gyflawni amcanion cyffredinol y sefydliad. |
| Canolig | Gwendid rheoli<br>• sy'n cael effaith isel ar gyflawni amcanion allweddol y system, swyddogaeth neu broses;<br>• sydd wedi golygu bod y system, swyddogaeth neu'r broses yn agored i risg allweddol, ond mae'r tebygolrwydd y bydd y risg hon yn digwydd yn isel. |
| Isel | Gwendid rheoli nad yw'n effeithio ar gyflawni amcanion allweddol y system, swyddogaeth neu broses; fodd bynnag, byddai gweithredu'r argymhelliad yn gwella rheolaeth gyffredinol. |

## Cyfyngiadau

Dim ond y materion a ddaeth i'n sylw yn ystod ein gwaith archwilio mewnol yw’r rhai a godir yn yr adroddiad hwn, ac nid ydynt o reidrwydd yn ddatganiad cynhwysfawr o'r holl wendidau sy'n bodoli, nac o'r holl welliannau y gallai fod eu hangen. Er bod pob gofal wedi'i gymryd i sicrhau bod yr wybodaeth yn yr adroddiad hwn mor gywir â phosibl, yn seiliedig ar yr wybodaeth a ddarparwyd a'r ddogfennaeth a adolygwyd, ni ellir rhoi gwarant gyflawn o ran y cyngor a'r wybodaeth a gynhwysir yma. Nid yw ein gwaith yn rhoi sicrwydd llwyr nad yw gwallau, colled na thwyll materol yn bodoli.

Mae'r cyfrifoldeb am system gadarn o reolaethau mewnol ac atal a chanfod twyll ac afreoleidd-dra arall yn parhau i fod ar y rheolwyr ac ni ddylid dibynnu ar waith a gyflawnir gan archwiliad mewnol i nodi'r holl gryfderau a gwendidau mewn rheolaethau mewnol, na dibynnu arno i nodi pob amgylchiad o dwyll neu afreoleidd-dra. Mae gweithredu ein hargymhellion yn effeithiol ac yn amserol gan reolwyr yn bwysig ar gyfer cynnal system reoli fewnol ddibynadwy.

Mae adroddiadau a baratowyd gan MIAA yn cael eu paratoi at eich defnydd chi yn unig ac nid yw MIAA na'r archwilwyr yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw gyfarwyddwr neu swyddog yn rhinwedd eu swyddogaeth unigol. Ni dderbynnir cyfrifoldeb i unrhyw drydydd parti gan nad yw’r adroddiad wedi’i baratoi ar gyfer, ac nid yw wedi’i fwriadu ar gyfer, unrhyw ddiben arall ac ni fydd gan berson nad yw’n barti i’r cytundeb ar gyfer darparu Archwiliad Mewnol unrhyw hawliau o dan Ddeddf Contractau (Hawliau Trydydd Partïon) 1999.

**Anne-marie Harrop**

Cyfarwyddwr Sicrwydd Rhanbarthol

Ffôn: 07920 150313

Cyfeiriad e-bost: Anne-marie.harrop@miaa.nhs.uk

**Angharad Ellis**

Uwch Reolwr Archwilio

Ffôn: 07469 378328

Cyfeiriad e-bost: Ann.ellis@miaa.nhs.uk


# Adolygiad o Reolaethau Prosesu Trafodion Ariannol Allweddol

# Adroddiad Aseiniad 2023/24 (Terfynol)

## Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

## 304NWFRS_2324_001

Barn Gyffredinol ynghylch y Sicrwydd


Moderate
Substantial
Limited
No
High

# Cynnwys


1 Crynodeb Gweithredol

2 Canfyddiadau a Chamau Gweithredu ar gyfer Rheolwyr

| | |
|---|---|
| Atodiad A: | Cwmpas yr Ymgysylltu |
| Atodiad B: | Diffiniadau Sicrwydd a Dosbarthiadau Risg |
| Atodiad C: | Rhestr Ddosbarthu'r Adroddiad |


Hoffai MIAA ddiolch i'r holl staff am eu cydweithrediad a'u cymorth wrth gwblhau'r adolygiad hwn.

Paratowyd yr adroddiad hwn fel y'i comisiynwyd gan y sefydliad ac mae i'w ddefnyddio gennych chi yn unig. Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r adolygiad hwn, cysylltwch â'r Rheolwr Ymgysylltu. I drafod unrhyw faterion eraill, cysylltwch â'r Cyfarwyddwr.

# 1 Crynodeb Gweithredol

**Amcan Cyffredinol yr Archwiliad:** Amcan cyffredinol yr adolygiad oedd cynnig sicrwydd bod y rheolaethau allweddol mwyaf arwyddocaol yn y meysydd a nodir yn y cwmpas, a amlinellir yn Atodiad A, wedi'u dylunio'n briodol a'u bod yn gweithredu'n effeithiol yn ymarferol.

**Cyfyngiadau'r Cwmpas:** Roedd y rheolaethau a adolygwyd yn ymwneud â blwyddyn ariannol 2023-24 hyd yma.

### Canfyddiadau Allweddol/Casgliad

Ar y cyfan, roedd system dda o reolaethau mewnol wedi'i llunio i fodloni amcanion y system, ond roedd rhai meysydd i'w gwella wedi'u nodi.

Roedd y prif feysydd arfer da yn ymwneud â Rheoli Trysorlys. Canfu profion systemau sydd ar waith ar gyfer Rheoli'r Trysorlys fod y broses o drosglwyddo taliadau BACS yn cael ei rheoli'n dda a bod cyfansymiau rhediadau taliadau BACS yn cael eu cysoni â'r cyfansymiau rheoli cyn awdurdodi. Nododd ein profion Cyfrifon Derbyniadwy ymhellach fod cymeradwyaeth briodol ar waith ar gyfer anfonebau dyledwyr a nodiadau credyd a godwyd. Yn ogystal, nododd ein profion ar y Cyfriflyfr Cyffredinol fod dyddlyfrau wedi'u cymeradwyo'n briodol gan sicrhau bod dyletswyddau wedi'u gwahanu'n ddigonol.

Dylid gwella prosesau sefydlu cyflenwyr a diwygiadau i gyflenwyr i sicrhau bod trywydd archwilio clir yn cael ei gynnal at ddibenion gwiriadau dilysu a gwblheir. Dylai gwiriadau gael eu harchwilio'n rheolaidd gan uwch-reolwyr.

| Amcanion a Adolygwyd | Sgôr Coch/Ambr/Gwyrdd |
|---|---|
| Cyfriflyfr Cyffredinol | Gwyrdd |
| Cyfrifon Derbyniadwy | Gwyrdd |
| Cyfrifon Taladwy | Ambr |
| Rheoli Trysorlys | Gwyrdd |
| **Sgôr Sicrwydd Cyffredinol** | **Sylweddol** |

| Argymhellion | | |
|---|---|---|
| Sgôr Risg | Dyluniad Rheolaethau | Effeithiolrwydd Gweithredol |
| Critigol | | |
| Uchel | | |
| Canolig | | 1 |
| Isel | 3 | |
| **Cyfanswm** | **3** | **1** |

## Meysydd lle ceir Arferion Da

Cyfriflyfr Cyffredinol

- Ers mis Hydref 2023, mae cysoniadau cyfrif banc yn cael eu cwblhau'n fisol. Caiff y cwblhau ei gofnodi ar adroddiad misol, sy'n cysoni'r gweddill prawf yn erbyn gweddill y gyfriflen banc.
- Canfu profion MIAA ar sampl o 20 o ddyddlyfrau fod tystiolaeth o gymeradwyaeth ar wahân yn y system TechOne.
- Cadarnhaodd adolygiad archwilio o'r adroddiad ynghylch Amrywiant yn y Gyllideb Gorfforaethol (Hydref 2023) i'r Pwyllgor Monitro'r Gyllideb a Chaffael y cysoniad cywir o'r union ffigurau ar gyfer y flwyddyn hyd yma o gymharu â'r gyllideb, i system TechOne.
- Ym mis Mawrth 2023, cyflwynodd y gwasanaeth gyfarfodydd Pwyllgor Monitro'r Gyllideb a Chaffael. Cyflwynwyd cyllideb 2023/24 ym mis Ionawr 2023 a chafodd ei chymeradwyo gan yr Awdurdod Tân ym mis Ebrill 2023. Roedd hon yn manylu ar y ffigurau yn y gyllideb ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24. Cyflwynwyd yr asesiad cynllunio ariannol cychwynnol ar gyfer 2024/25 ym mis Hydref 2023.

Cyfrifon Taladwy

- Mae Rheoliadau Ariannol Sefydlog (SFRs) ar waith ac yn nodi rolau a chyfrifoldebau a ategir gan hierarchaeth gweithwyr a gynhelir o fewn y system. Cadarnhaodd ein profion ar sampl o 20 o derfynau dirprwyedig a sefydlwyd yn TechOne eu bod wedi'u sefydlu'n gywir yn unol â'r Rheoliadau.
- Canfu profion gan MIAA o sampl o 10 taliad a wnaed gydag archeb brynu gymeradwy fod gwahaniad digonol o ddyletswyddau a chymeradwyaeth yn cael ei orfodi o fewn system TechOne. Canfuwyd bod 10 taliad a wnaed heb orchymyn prynu wedi'u cymeradwyo'n briodol yn unol â'r terfynau ariannol a osodwyd.

Cyfrifon Derbyniadwy

- Amlygodd profion archwilio ar 10 anfoneb gwerthiant fod cymeradwyaeth briodol a dogfennaeth ategol wedi'u cadw.
- Nododd adolygiad archwilio o 6 nodyn credyd a godwyd ers mis Ebrill 2023 fod cyfiawnhad dilys wedi'i ddarparu ar gyfer canslo'r ddyled, â thystiolaeth o awdurdodiad priodol.
- Ni welwyd tystiolaeth o unrhyw ddyledion hirdymor neu werth uchel yn yr adroddiad dadansoddi hen ddyledion diweddaraf.
- Cadarnhawyd na ddilëwyd unrhyw ddyledion yn ystod y flwyddyn. Caiff unrhyw ddyledion a ddilëir eu hadrodd yn flynyddol i'r Awdurdod Tân ac Achub.

Rheoli Trysorlys

- Mae taliadau BACS yn cael eu prosesu'n wythnosol ac yn amodol ar gymeradwyaeth y Dirprwy Bennaeth Cyllid a Chaffael a'r Pennaeth Cyllid a Chaffael.
- Gorfodir gwahanu dyletswyddau wrth gyrchu porth ar-lein Barclays i brosesu rhediadau taliadau.
- Roedd staff a gynhwyswyd ym Mandad Banc y Gwasanaeth Tân yn briodol i'w rôl ac roedd newidiadau a broseswyd ym mis Mawrth 2023 wedi'u hawdurdodi'n briodol.

| Canfyddiadau Allweddol - Materion a Nodwyd | |
| --- | --- |
| Canolig | 1.1 Ni chedwid llwybrau archwilio i ddangos tystiolaeth o wiriadau dilysu cyflenwyr ar gyfer 5 o'r 10 o ddiwygiadau banc cyflenwyr a brofwyd.<br><br>Ni orfodwyd gwahanu dyletswyddau rhwng prosesu a chymeradwyaeth ar gyfer pob un o'r 10 o ddiwygiadau banc cyflenwyr a brofwyd.<br><br>Nid oedd dogfennaeth diwygio cyflenwyr a chyflenwyr newydd yn cyfeirio at ganllawiau atal twyll mandad banc.<br><br>Ar adeg yr adolygiad, nodwyd bod y Rheolwr Caffael a Chontractau yn drafftio canllawiau ar gyfer gofynion gwiriadau gwirio. Dylai hyn gynnwys nodiadau gweithdrefn ar gyfer sefydlu cyflenwyr newydd a diwygiadau i fanylion cyfrifon banc cyflenwyr presennol.<br><br>Ni welwyd tystiolaeth o adolygiad rheolaidd o ddiwygiadau i fanylion cyfrif banc cyflenwyr a sefydlu cyflenwyr newydd. |
| Isel | 1.2 Nid oes gan y gwasanaeth bolisi ffurfiol ynghylch hen ddyledion.<br><br>1.3 Dylid darparu tystiolaeth o wiriadau cysoniadau banc i gadarnhau pwy baratôdd y cysoniad banc ac a oedd y cysoniad banc wedi'i adolygu, er mwyn sicrhau bod y dyletswyddau'n cael eu gwahanu'n ddigonol. Ar adeg yr adolygiad, nid oedd cysoniadau Nwyddau a Dderbyniwyd Heb eu Hanfonebu eto (GRNI) yn cael eu cynnal.<br><br>1.4 Nid yw'r gwasanaeth yn adrodd yn rheolaidd ar ddadansoddiad ariannol safonol o incwm a gwariant gwirioneddol, ac arian parod gan gynnwys y sefyllfa net. |

## 2 Canfyddiadau a Chamau Gweithredu ar gyfer Rheolwyr

| 1. **Cyfrifon Taladwy - Gwirio cyflenwyr a chanllawiau atal twyll** | | **Sgôr Risg: Canolig** |
|---|---|---|
| Effeithiolrwydd Gweithredu | | |
| **Canfyddiad Allweddol** - Ni chedwid llwybrau archwilio i ddangos tystiolaeth o wiriadau dilysu cyflenwyr ar gyfer 5 o'r 10 o ddiwygiadau banc cyflenwyr a brofwyd.<br>Ni orfodwyd gwahanu dyletswyddau rhwng prosesu a chymeradwyaeth ar gyfer pob un o'r 10 o ddiwygiadau banc cyflenwyr a brofwyd.<br>Nid oedd dogfennaeth diwygio cyflenwyr a chyflenwyr newydd yn cyfeirio at ganllawiau atal twyll mandad banc.<br>Ar adeg yr adolygiad, nodwyd bod y Rheolwr Caffael a Chontractau wrthi'n drafftio canllawiau ar gyfer gofynion gwiriadau gwirio. Dylai hyn gynnwys nodiadau gweithdrefn ar gyfer sefydlu cyflenwyr newydd a diwygiadau i fanylion cyfrifon banc cyflenwyr presennol.<br>Ni welwyd tystiolaeth o adolygiad rheolaidd o ddiwygiadau i fanylion cyfrif banc cyflenwyr a sefydlu cyflenwyr newydd. | **Risg Benodol -** Mae'r gwasanaeth mewn mwy o berygl o brofi gweithgarwch twyllodrus | **Argymhelliad** – Dylai'r gwasanaeth sicrhau'r canlynol:<br>Cedwir tystiolaeth o wiriadau gwirio ar gyfer pob cyflenwr newydd a newidiadau i fanylion cyfrifon banc gan gynnwys dyddiad y gwiriad a'r unigolyn (gan gynnwys y rôl) y siaradwyd â hwy, er mwyn cryfhau'r rheolaethau presennol sydd ar waith. Dylai gwiriadau gwirio gael eu cymeradwyo'n annibynnol cyn rhediadau taliadau.<br>Dylai canllawiau diwygio cyflenwyr a chyflenwyr newydd, ar ôl iddynt gael eu drafftio, gan gynnwys nodiadau gweithdrefnau a ffurflenni perthnasol, gyfeirio at ganllawiau gwrth-dwyll mandad banc.<br>Dylai'r gwasanaeth ystyried defnyddio gwasanaethau gwirio a dilysu cyfrifon banc megis Experian ar gyfer pob cyflenwr newydd a diwygio manylion cyfrifon banc.<br>Caiff adroddiad cyfnodol ynghylch cyflenwyr newydd a diwygio manylion cyflenwyr ei lunio o leiaf bob chwarter i'w adolygu gan oruchwylwyr, ac mae'n cynnwys tystiolaeth i gadarnhau gwirio sampl o unrhyw newidiadau a gwblhawyd a sefydlu cyflenwyr newydd. |
| **Ymateb gan Reolwyr** – Mae'r Rheolwr Caffael a Chontractau wrthi'n drafftio canllawiau ar gyfer gofynion o ran gwiriadau gwirio. Rydym wedi dechrau cwblhau chwiliad cwmni sylfaenol ar gyfer pob cais gan gyflenwyr newydd, ac mae Swyddogion Cyllid yn ymwybodol o'r gofyniad i ddogfennu unrhyw ddiwygiadau yn unol â'r cyfrif. | | Tystiolaeth i gadarnhau gweithredu – Gweithdrefnau arweiniad.<br>Dogfennaeth i ategu newidiadau i fanylion cyfrifon banc cyflenwyr. |

| | |
|---|---|
| Bydd adroddiadau'n cael eu creu i ddangos y gweithgarwch diwethaf (i anactifadu unrhyw gyfrifon 'heb eu defnyddio'), ac i fonitro newidiadau i gyfrifon.<br>Swyddog Cyfrifol – Uwch Swyddogion Cyllid, Rheolwr Caffael a Chontractau<br>Dyddiad Gweithredu - Mai 2024 | |

| 2. **Cyfrifon Derbyniadwy - Polisi ynghylch Hen Ddyledion** | | **Sgôr Risg: Isel** |
|---|---|---|
| Dyluniad Rheolaethau | | |
| **Canfyddiad Allweddol** - Nid oes gan y gwasanaeth bolisi ffurfiol ynghylch hen ddyledion. | **Risg Benodol** - Mae'n bosibl na fydd polisi a thrywyddion archwilio digonol yn cael eu cadw i gefnogi'r gwasanaeth i fynd ar drywydd dyledwyr. | **Argymhelliad** – Dylai'r gwasanaeth sicrhau bod polisi/gweithdrefn rheoli dyled yn cael ei ffurfioli, a dylai'r polisi/gweithdrefn nodi amserlenni ar gyfer dilyniant ac uwchgyfeirio dyledion megis dileu dyledion ac atgyfeirio dyledion. |
| **Ymateb gan Reolwyr** – Mae'r Gwasanaeth wrthi'n adolygu nifer fawr o bolisïau ar hyn o bryd. Yn y cyfamser, bydd anfonebau'n parhau i gael eu codi'n gywir ac yn brydlon, gan ddefnyddio'r system ariannol gymeradwy, â thystiolaeth ategol wedi'i chynnwys i ategu hynny. Cymerir camau adennill priodol a chymesur, a chaiff dyledion heb eu talu eu hadrodd i'r Pwyllgor Archwilio.<br>(Mae'r rhan fwyaf o'n dyledion â chyrff sector cyhoeddus eraill y mae gennym CLG neu gytundebau eraill yn eu lle â hwy.  Mae gweddill y ddyled yn symiau bach yn ymwneud â gordaliadau cyflogres, lle cynigir cynlluniau talu.)<br>Swyddog Cyfrifol – Uwch Swyddog Cyllid, Dirprwy Bennaeth Cyllid a Chaffael<br>Dyddiad Gweithredu - Gorffennaf 2024 | | Tystiolaeth i gadarnhau gweithredu - Polisi ynghylch hen ddyledion |

<table>
<tr><th colspan="2">3. Cyfriflyfr Cyffredinol - Cysoniadau Cyfrif Rheoli</th><th>Sgôr Risg: Isel</th></tr>
<tr><td colspan="3">Dyluniad Rheolaethau</td></tr>
<tr><td>Canfyddiad Allweddol - Ers mis Hydref 2023, mae'r gwasanaeth yn gweithredu adroddiadau cysoni banc. Caiff TechOne ei ddiweddaru'n rheolaidd â'r gweddill arian parod o'r gyfriflen banc. Mae adroddiad cysoni yn cael ei redeg yn fisol ac mae cysoniad banc yn cael ei gwblhau. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cadarnhau pwy wnaeth baratoi’r cysoniad banc ac a oedd y cysoniad banc wedi’i adolygu, er mwyn sicrhau bod y dyletswyddau’n cael eu gwahanu’n ddigonol.<br><br>Ar adeg yr adolygiad, nid oedd cysoniadau GRNI yn cael eu cynnal. Dylai'r Adran Gyllid ymgymryd â'r rhain yn rheolaidd er mwyn sicrhau nad oes unrhyw hen GRNIs.</td><td>Risg Benodol – Efallai na fydd cyfrifon rheoli mantolen yn cael eu cysoni'n ffurfiol a'u hadolygu'n fisol.</td><td>Argymhelliad – Dylid dogfennu cysoniadau cyfrif banc i gadarnhau pwy sydd wedi paratoi ac adolygu'r cysoniadau ac i sicrhau bod y rhain yn cael eu cyflawni’n brydlon. Dylai'r Adran Gyllid ymgymryd â chysoniadau GRNI yn rheolaidd er mwyn sicrhau nad oes unrhyw hen GRNIs.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Ymateb gan Reolwyr – Bydd cysoniadau banc yn parhau i gael eu cwblhau gan yr Uwch Swyddog Cyllid, â goruchwyliaeth gan y Pennaeth / Dirprwy Bennaeth Cyllid a Chaffael. Mae hanes trywydd archwilio ar gael yn y system ariannol.<br><br>Bydd y tîm cyllid yn parhau i annog defnyddwyr i wneud gwaith cymhennu rheolaidd ar y system ariannol, i ddileu unrhyw archebion a derbynebau nad oes eu hangen mwyach. Gofynnir i gyflenwyr gyflwyno anfonebau yn electronig, yn uniongyrchol i'r tîm AP, gan ddyfynnu cyfeirnod rhif archeb brynu dilys er mwyn osgoi oedi diangen.<br><br>Swyddog Cyfrifol – Uwch Swyddog Cyllid, Swyddog Cyllid<br><br>Dyddiad Gweithredu - Amherthnasol</td><td>Tystiolaeth i gadarnhau gweithredu – cysoniadau banc a hanes trywydd archwilio yn y system ariannol</td></tr>
</table>

<table>
<tr><td colspan="2">4. Cyfriflyfr Cyffredinol - Adrodd ar Berfformiad Ariannol</td><td>Sgôr Risg: Isel</td></tr>
<tr><td colspan="3">Dyluniad Rheolaethau</td></tr>
<tr><td>Canfyddiad Allweddol - Nid yw'r gwasanaeth yn adrodd yn rheolaidd ar ddadansoddiad ariannol safonol o incwm a gwariant gwirioneddol (cyfredol), ac arian parod gan gynnwys y sefyllfa net eglur.</td><td>Risg Benodol - Nid yw perfformiad ariannol yn cael ei gyfleu'n gywir yn y trefniadau llywodraethu.</td><td>Argymhelliad – Dylai adroddiadau cyllid chwarterol gynnwys crynodeb o'r incwm a’r gwariant gwirioneddol (cyfredol), ac arian parod gan gynnwys sefyllfa net eglur.</td></tr>
<tr><td colspan="2">Ymateb gan Reolwyr – Bydd y Gwasanaeth yn parhau i ddarparu rhagolwg ariannol blwyddyn gyfan, a adroddir i'r Uwch Dîm Arweinyddol a'r Awdurdod Tân ac Achub.<br><br>Mae deiliaid cyllidebau ar draws y Gwasanaeth yn gallu cyrchu gwybodaeth ariannol amser real sy'n ymwneud â meysydd eu cyllideb trwy system ariannol Technology One. Rhennir yr wybodaeth hon hefyd yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Monitro'r Gyllideb a Chaffael, a chaiff ei thrafod fel rhan o'r cyfarfodydd monitro cyllidebau rheolaidd rhwng deiliaid cyllidebau a'r Uwch Swyddog Cyllid.<br>Swyddog Cyfrifol – Pennaeth / Dirprwy Bennaeth Cyllid a Chaffael<br><br>Dyddiad Gweithredu - Amherthnasol</td><td>Tystiolaeth i gadarnhau gweithredu – Gwybodaeth ariannol amser real trwy system ariannol Technology One.</td></tr>
</table>

# Atodiad A: Cwmpas yr Ymgysylltu

## Cwmpas

Fe wnaeth yr adolygiad ganolbwyntio ar y rheolaethau allweddol yn y meysydd isod i ategu cyflawni dyletswyddau ariannol allweddol y sefydliad ac i leihau'r risg o gamgymeriadau, cam-berchnogi a thwyll.

**Cyfriflyfr Cyffredinol**

- Cyfrifon Rheoli a Dros Dro
- Dyddlyfrau
- Prosesau i ategu Adrodd i'r Bwrdd

**Cyfrifon Taladwy**

- Rheolaethau'r System Archebion Prynu
- Taliadau Heb Archeb Prynu
- Monitro ac Adrodd am Nwyddau a Dderbyniwyd Heb Eu Hanfonebu
- Rheolaethau Rhediadau Taliadau BACS
- Manylion Cyfrifon Banc Cyflenwyr Newydd/Newidiadau i Fanylion Cyfrifon Banc Cyflenwyr

**Cyfrifon Derbyniadwy**

- Codi Cyfrifon Dyledwyr
- Defnyddio Nodiadau Credyd
- Rheoli Credyd
- Adrodd am Hen Ddyledion a'u Dadansoddi
- Dileu Dyledion

**Rheoli Trysorlys**

- Adrodd am Lif Arian
- Rheoli Cyfrifon Banc
- Prosesau ynghylch Taliadau Brys
- Cysoniadau Banc

## Cyfyngiadau'r Cwmpas

Roedd y rheolaethau a adolygwyd yn ymwneud â blwyddyn ariannol 2023-24 hyd yma.

Nid oedd yr adolygiad yn cwmpasu gweinyddu a rheoli'r system TG .

## Cyfyngiadau

Dim ond y materion a godwyd yn yr adroddiad hwn a ddaeth i'n sylw yn ystod ein gwaith archwilio mewnol ac nid ydynt o reidrwydd yn ddatganiad cynhwysfawr o'r holl wendidau sy'n bodoli, nac o'r holl welliannau y gallai fod eu hangen. Er bod pob gofal wedi'i gymryd i sicrhau bod yr wybodaeth yn yr adroddiad hwn mor gywir â phosibl, yn seiliedig ar yr wybodaeth a ddarparwyd a'r ddogfennaeth a adolygwyd, ni ellir rhoi sicrwydd llwyr o ran y cyngor a'r wybodaeth a gynhwysir yma. Nid yw ein gwaith yn rhoi sicrwydd llwyr nad oes gwallau, colled na thwyll materol yn bodoli.

Y rheolwyr sy'n gyfrifol am system gadarn o reolaethau mewnol ac atal a chanfod twyll ac afreoleidd-dra arall ac ni ddylid dibynnu ar waith a gyflawnir gan archwiliad mewnol i nodi holl gryfderau a gwendidau'r rheolaethau mewnol, nac i nodi pob amgylchiad o dwyll neu afreoleidd-dra. Mae gweithredu ein hargymhellion yn effeithiol ac yn amserol gan reolwyr yn bwysig ar gyfer cynnal system reoli fewnol ddibynadwy.

## Atodiad B: Diffiniadau Sicrwydd a Dosbarthiadau Risg

| Lefel Sicrwydd | Disgrifiad |
|---|---|
| Uchel | Mae system gref o reolaeth fewnol sydd wedi'i chynllunio'n effeithiol i gyflawni amcanion y system, ac mae rheolaethau'n cael eu cymhwyso'n gyson ym mhob maes a adolygir. |
| Sylweddol | Mae system dda o reolaeth fewnol sydd wedi'i chynllunio i gyflawni amcanion y system, ac mae rheolaethau'n cael eu cymhwyso'n gyson yn gyffredinol. |
| Cymedrol | Mae system ddigonol o reolaeth fewnol, fodd bynnag, mewn rhai meysydd mae gwendidau o ran dylunio a/neu gymhwyso rheolaethau'n anghyson yn peryglu cyflawni rhai agweddau ar amcanion y system. |
| Cyfyngedig | Mae'r system o reolaeth fewnol wedi'i pheryglu oherwydd bod gwendidau o ran dylunio a/neu gymhwyso rheolaethau'n anghyson yn peryglu cyflawni amcanion y system. |
| Dim | Mae system annigonol o reolaeth fewnol gan y gallai gwendidau mewn rheolaeth, a/neu ddiffyg cydymffurfio cyson â rheolaethau arwain at, neu mae wedi arwain at, fethu â chyflawni amcanion y system. |

| Sgôr Risg | Rhesymeg Asesu |
|---|---|
| Critigol | Gwendid yn y rheolaethau a allai gael effaith sylweddol ar, nid yn unig amcanion y system, swyddogaeth neu broses, ond hefyd cyflawni amcanion y sefydliad mewn perthynas â:<br>• defnydd effeithlon ac effeithiol o adnoddau<br>• diogelu asedau<br>• paratoi gwybodaeth ariannol a gweithredol ddibynadwy<br>• cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. |
| Uchel | Gwendid yn y rheolaethau sydd wedi neu sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar gyflawni amcanion allweddol y system, swyddogaeth neu broses. Nid yw'r gwendid hwn, er ei fod yn cael effaith fawr ar y system, swyddogaeth neu broses, yn cael effaith sylweddol ar gyflawni amcanion cyffredinol y sefydliad. |
| Canolig | Gwendid yn y rheolaethau:<br>• sy'n cael effaith fechan ar gyflawni amcanion allweddol y system, swyddogaeth neu broses;<br>• sy'n golygu bod y system, swyddogaeth neu'r broses yn agored i risg allweddol, ond mae'r tebygolrwydd y bydd y risg hon yn digwydd yn isel. |
| Isel | Gwendid yn y rheolaethau nad yw'n effeithio ar gyflawni amcanion allweddol y system, swyddogaeth neu broses; fodd bynnag, byddai gweithredu'r argymhelliad yn gwella rheolaeth gyffredinol. |

## Atodiad C: Rhestr Ddosbarthu'r Adroddiad

| Enw | Teitl |
|---|---|
| Helen MacArthur | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |
| Helen Howard | Pennaeth Cyllid |
| Dawn Docx | Prif Swyddog Tân |
| Stewart Forshaw | Dirprwy Brif Swyddog Tân |
| Dafydd Edwards | Trysorydd yr Awdurdod Tân ac Achub |

**Angharad Ellis**

Uwch Reolwr Archwilio

Rhif ffôn: 07469378328

Cyfeiriad e-bost: Angharad.Ellis@miaa.nhs.uk

**Charlotte Cain**

Prif Archwilydd

Rhif ffôn: 07469908056

Cyfeiriad e-bost: Charlotte.Cain@miaa.nhs.uk

**William Beech**

Archwilydd

Rhif ffôn: 07552296413

Cyfeiriad e-bost: William.Beech@miaa.nhs.uk

miaa

## Cyfyngiadau

Mae adroddiadau a baratowyd gan MIAA yn cael eu paratoi at eich defnydd chi yn unig ac nid yw MIAA na'r archwilwyr yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw gyfarwyddwr neu swyddog yn rhinwedd eu swyddogaeth unigol. Ni dderbynnir unrhyw gyfrifoldeb i unrhyw drydydd parti gan nad yw'r adroddiad wedi'i baratoi ar gyfer, ac nid yw wedi'i fwriadu ar gyfer, unrhyw ddiben arall ac ni fydd gan berson nad yw'n barti i'r cytundeb ar gyfer darparu Archwilio Mewnol unrhyw hawliau o dan Ddeddf Contractau (Hawliau Trydydd Partïon) 1999.

## Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus

Cwblhawyd ein gwaith yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus ac mae'n cydymffurfio â'r Safonau Rhyngwladol ar gyfer Arfer Archwilio Mewnol Proffesiynol.

| | |
|---|---|
| At: | Helen MacArthur – Prif Swyddog Tân Cynorthwyol<br>Helen Howard – Pennaeth Cyllid a Chaffael<br>Katie Owen - Dirprwy Bennaeth Cyllid a Chaffael |
| Oddi wrth: | Angharad Ellis – Uwch Reolwr Archwilio<br>Jeanette Sharp – Arbenigwraig ar Atal Twyll |
| Dyddiad: | Chwefror 2024 |
| Parthed: | Y Fenter Twyll Genedlaethol 2022/23 – Adroddiad Terfynol |

# 1 Cyflwyniad a Chefndir

Mae'r 'Nodyn Briffio' hwn yn cynnig crynodeb o gyfatebiaethau data Awdurdod Tân Gogledd Cymru sydd wedi'u hadolygu, cyfatebiaethau sydd heb eu hadolygu eto ac unrhyw ordaliadau a nodwyd fel rhan o gylch y Fenter Twyll Genedlaethol ar gyfer 2022/23. Mae'n darparu'r wybodaeth ddiweddaraf am y papur briffio blaenorol a gyhoeddwyd ym mis Medi 2023 pan ryddhawyd cyfatebiaethau data.

# 2 Cyfatebiaethau y Gweithredwyd yn eu Cylch

Mae'r cyfranogiad hwn yn cynnig amrywiaeth o gyfatebiaethau (cyflogres a chredydwyr) sydd wedi'u cynllunio i dargedu twyll yn ogystal â chynnig sicrwydd ynghylch amrywiaeth o faterion llywodraethu corfforaethol. Yn ogystal, mae cynnwys eich data yn helpu i nodi gordaliadau ac yn datgelu twyll mewn cyrff eraill sy'n cyfranogi. Mae'r tabl isod yn dangos y cyfatebiaethau a adolygwyd a'r canlyniadau cysylltiedig.

Gwybodaeth ynghylch Cyfatebiaethau Data gan yr Arbenigwr Atal Twyll ar 13 Chwefror 2024.



miaa

| Enw'r Adroddiad | Statws Blaenoriaeth* | Nifer y Cyfatebiaeth a dderbyniwyd | Nifer y Cyfatebiaethau a adolygwyd | Nifer y Cyfatebiaethau sydd heb eu hadolygu eto | Unigolyn sy'n gyfrifol | Gordaliadau a Nodwyd (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **66 – Cyflogres i Gyflogres** 🔑 | Uchel | 33 | 33 | 0 | AAT | £0 |
| **68.1 – Cyflogres i Gyflogres – Rhif Ffôn** | Isel | 6 | 6 | 0 | AAT | £0 |
| **701 – Credydwyr dyblyg yn ôl enw credydwr** | Uchel | 1 | 1 | 0 | AAT/Cyllid | £0 |
| **702 – Credydwyr dyblyg yn ôl manylion cyfeiriad** | Uchel | 2 | 2 | 0 | AAT/Cyllid | £0 |
| **703 – Credydwyr dyblyg yn ôl rhif cyfrif banc** | Uchel | 3 | 3 | 0 | AAT/Cyllid | £0 |
| **707 – Cofnodion dyblyg yn ôl cyfeirnod, swm a chyfeirnod credydwr** | Uchel | 2 | 2 | 0 | AAT/Cyllid | £0 |
| **708 – Cofnodion dyblyg yn ôl cyfanswm yr anfoneb a chyfeirnod credydwr** 🔑 | Uchel | 46 | 46 | 0 | AAT/Cyllid | £0 |

| Enw'r Adroddiad | Statws Blaenoriaeth* | Nifer y Cyfatebiaeth a dderbyniwyd | Nifer y Cyfatebiaethau a adolygwyd | Nifer y Cyfatebiaethau sydd heb eu hadolygu eto | Unigolyn sy'n gyfrifol | Gordaliadau a Nodwyd (£) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **711 – Cofnodion dyblyg yn ôl rhif a chyfanswm yr anfoneb ond gwahanol gyfeirnod ac enw credydwr** | Uchel | 1 | 1 | 0 | AAT/Cyllid | £0 |
| **750 – Caffael – Cyflogres i Dŷ'r Cwmnïau (Cyfarwyddwr)** | Uchel | 1 | 1 | 0 | AAT/Cyllid | £0 |
| **750 – Caffael – Cyflogres i Dŷ'r Cwmnïau (Cyfarwyddwr)** | Uchel | 1 | 1 | 0 | AAT/Cyllid | £0 |

Ceir baner (allwedd aur) wrth rai adroddiadau penodol i nodi pa adroddiadau y mae'r tîm NFI yn eu hystyried yn flaenoriaeth.

## 3 Crynodeb Rheoli

Mae MIAA yn cadarnhau eu bod wedi ymchwilio i'r holl gyfatebiaethau ac na nodwyd unrhyw achosion o dwyll na gordalu. Mae'r ymarferiad bellach wedi dod i ben.

# Rheoli Risg - Adolygiadau o Reolaethau Craidd

# Adroddiad Aseiniad 2023/24 (Terfynol)

## Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cy

**304NWFRS_2324_001**

# Cynnwys

1 Crynodeb Gweithredol

2 Argymhellion Manwl

Atodiad A: Cwmpas yr Ymgysylltu

Atodiad B: Rhestr Ddosbarthu'r Adroddiad

Hoffai MIAA ddiolch i'r holl staff am eu cydweithrediad a'u cymorth wrth gwblhau'r adolygiad hwn.

Paratowyd yr adroddiad hwn fel y'i comisiynwyd gan y sefydliad ac mae i'w ddefnyddio gennych chi yn unig. Os oes gennych unrhyw ymholiadau ynglŷn â'r adolygiad hwn, cysylltwch â'r Rheolwr Ymgysylltu. I drafod unrhyw faterion eraill, cysylltwch â'r Cyfarwyddwr.

# 1 Crynodeb Gweithredol

**Amcan Cyffredinol yr Archwiliad:** Asesu'r rheolaethau rheoli risg craidd sydd ar waith i sicrhau eu bod wedi'u dylunio'n ddigonol.

*Cyfyngiadau'r Cwmpas: Fe wnaeth yr adolygiad ganolbwyntio ar reolaethau rheoli risg craidd yn unig â phwyslais ar ddyluniad rheolaethau. Ni chynhaliwyd profion manwl ar gydymffurfiaeth â rheolaethau e.e., adolygiad o risgiau penodol, cofrestrau risgiau ac ati, fel rhan o'r adolygiad hwn.* Ffocws yr adolygiad hwn oedd darparu datganiad sefyllfa ynghylch y rheolaethau craidd sydd ar waith at ddibenion rheoli risg â ffocws ar ddyluniad rheolaethau.

**Canfyddiadau/Casgliad:**

Ar adeg yr adolygiad, roedd Polisi Rheoli Risg Corfforaethol wrthi'n cael ei ddrafftio. Mae gan y Gwasanaeth ddogfen Canllawiau Ymarferwyr Rheoli Risg ar waith, ond nododd ein hadolygiad fod angen nifer o welliannau o ran dogfennu prosesau rheoli risg.

Nid oedd rolau a chyfrifoldebau mewn perthynas â rheoli risg wedi'u diffinio'n eglur, ac roedd hyn yn cynnwys y broses uwchgyfeirio risg drwy'r strwythur llywodraethu.

Er bod rhywfaint o hyfforddiant asesu risg yn cael ei ddarparu, dylid adolygu a diwygio'r hyfforddiant presennol a ddarperir. Dylid nodi anghenion hyfforddiant rheoli risg yn glir ar gyfer yr holl staff ac mae angen egluro trefniadau at ddibenion monitro cydymffurfiaeth.

Mae angen rhagor o waith i ddatblygu prosesau ar gyfer sicrhau bod risgiau'n cael eu nodi, eu hadolygu'n gyson, eu sgorio, eu cofnodi a'u monitro ar draws y sefydliad. Ymhlith y meysydd i'w datblygu mae sefydlu Grŵp Rheoli Risg newydd i adolygu'r Cofrestrau Risgiau Gweithredol a Strategol yn rheolaidd. Nododd ein hadolygiad nifer o feysydd lle mae angen datblygu fformat y gofrestr risg weithredol a'r gofrestr risg strategol e.e. sgorio risgiau ar lefelau gros, gweddilliol a tharged.

Nid yw trefniadau llywodraethu ar gyfer adrodd ar sicrwydd ynghylch risgiau dirprwyedig wedi'u hamlinellu'n glir.

Er bod y risgiau strategol yn cael eu hadrodd i Banel Gweithredol yr Awdurdod Tân, mae angen datblygu prosesau ar gyfer adrodd yn rheolaidd i'r Awdurdod Tân ynghylch y prif risgiau ac asesiadau ynghylch effeithiolrwydd prosesau rheoli risg y sefydliad.

## 2. Argymhellion Manwl

| Mater a Nodwyd | Argymhelliad | Gweithred Gytunedig |
|---|---|---|
| <u>Llywodraethu ac Arwain</u><br><br>Ar adeg yr adolygiad, roedd Polisi Rheoli Risg Corfforaethol wrthi'n cael ei ddrafftio. Mae gan y Gwasanaeth ddogfen Canllawiau Ymarferwyr Rheoli Risg yn ei lle, fodd bynnag nid yw'r ddogfen arweiniad yn cynnwys yr Arweinydd Gweithredol ar gyfer rheoli risg.<br><br>Nid yw'r Gwasanaeth wedi diffinio ei archwaeth risg. | Dylai'r Arweinydd Gweithredol ar gyfer rheoli risg gael ei nodi'n glir a'i gynnwys yn y Polisi Rheoli Risg Corfforaethol drafft.<br><br>Dylai'r Gwasanaeth adolygu ei archwaeth risg yn ffurfiol a dylai hyn gael ei ddiffinio a'i gofnodi'n glir. Dylid cysylltu'r rhain yn eglur ag amcanion strategol y sefydliad. Dylid defnyddio'r archwaeth risg i lywio'r gwaith o reoli'r gofrestr risg strategol. | Fel rhan o'n Cynllunio Adrannol ar gyfer 2024/25, roeddem eisoes wedi nodi'r angen i wella ein trefniadau rheoli risg, gan gynnwys datblygu Polisi Rheoli Risg y Gwasanaeth. Fel rhan o'r gwaith hwnnw, byddwn yn nodi arweinydd strategol ac yn nodi ein harchwaeth risg, â chysylltiadau eglur â'r amcanion strategol. Bydd hyn yn cynnwys adolygiad ynghylch sut caiff ein cofrestr risgiau strategol ei rheoli.<br><br>**Swyddog Cyfrifol:** Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid<br><br>**Dyddiad Gweithredu:** 31.03.25 |
| <u>Rolau a Chyfrifoldebau</u><br><br>Er bod y ddogfen arweiniad yn cynnwys cyfrifoldeb Panel Gweithredol yr Awdurdod Tân, y Bwrdd Perfformiad a Gwella, y Pwyllgor Monitro'r Gyllideb a Chaffael, yr Uwch Dîm Arweinyddol a'r Awdurdod Tân mewn perthynas â rheoli risg, nid yw'r broses uwchgyfeirio risg | Dylai rolau a chyfrifoldebau ar gyfer rheoli risg ar bob lefel, gan gynnwys yr holl staff yn gyffredinol, gael eu diffinio'n glir yn y Polisi Rheoli Risg Corfforaethol drafft.<br><br>Dylai'r Polisi Rheoli Risg Corfforaethol a gweithdrefnau cysylltiedig eraill fod ar gael i'r holl staff ar fewnrwyd Hwb Tân. | Fel y nodir uchod, bydd y Polisi yn nodi rolau a chyfrifoldebau perthnasol ar bob lefel o'r sefydliad a bydd yn cael ei hyrwyddo a'i gyhoeddi ar Hwb Tân.<br><br>**Swyddog Cyfrifol:** Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid |

| Mater a Nodwyd | Argymhelliad | Gweithred Gytunedig |
|---|---|---|
| drwy'r strwythur llywodraethu wedi'i diffinio'n glir (e.e. Grŵp Gwybodaeth Risg, Pwyllgor Dysgu a Pharodrwydd Gweithredol, Pwyllgor Iechyd a Diogelwch a Lles).<br><br>Nododd ein hadolygiad hefyd nad yw rolau a chyfrifoldebau'r Penaethiaid Adrannau wedi'u diffinio'n glir; maent yn gyfrifol am eu risgiau adrannol eu hunain ac asesu risgiau. | | **Dyddiad Gweithredu:** 31.03.25 |
| <u>Ymwybyddiaeth Staff a Hyfforddiant ar eu cyfer</u><br><br>Mae modiwl E-ddysgu wedi'i gyflwyno'n ddiweddar (Hydref 2023) ynghylch Iechyd a Diogelwch a Rheoli Risg ac mae'n cynnwys elfen sy'n ymdrin ag asesiadau risg. Nododd trafodaethau â'r Rheolwr Diogelwch, Risg a Hawliadau fod y modiwl E-ddysgu cyfredol yn orfodol ar gyfer rheolwyr gan gynnwys Penaethiaid Adrannau (llyfr llwyd yn unig). | Dylid gwella'r hyfforddiant presennol i gynnwys nodi ac ystyried risgiau sy'n dod i'r amlwg, asesu risg, monitro, rheoli a lliniaru risgiau yn hytrach na chanolbwyntio ar lunio asesiadau risg.<br><br>Dylid nodi anghenion hyfforddiant rheoli risg yn eglur ar gyfer yr holl staff, gan gynnwys dadansoddiad manwl o anghenion hyfforddi a dylid diffinio trefniadau ar gyfer monitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant. Argymhellir bod hyfforddiant Rheoli Risg yn cael ei ddarparu i'r holl staff. | Bydd ymwybyddiaeth staff a hyfforddiant ar eu cyfer yn cael eu hystyried gan Grŵp Risg newydd a fydd yn rhan o'r fframwaith llywodraethu.<br><br>**Swyddog Cyfrifol:** Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid<br><br>**Dyddiad Gweithredu:** Dylid gweithredu'r grŵp erbyn diwedd Ch2 2024/25. |

| Mater a Nodwyd | Argymhelliad | Gweithred Gytunedig |
| --- | --- | --- |
| | Dylid cynnwys rhaglen hyfforddiant ymwybyddiaeth Rheoli Risg o fewn y polisi Rheoli Risg Corfforaethol drafft sy'n nodi'r holl unigolion y mae arnynt angen hyfforddiant Rheoli Risg (e.e. Penaethiaid Adrannau, aelodau'r Uwch Dîm Arweinyddol a'r gweithwyr hynny y mae risg yn berthnasol i'w rôl) ac amlder yr hyfforddiant sy'n ofynnol (e.e. blynyddol). | |
| <u>Prosesau Rheoli Risg</u><br><br>Mae'n ofynnol i Benaethiaid Adrannau adolygu Risgiau Gweithredol bob chwarter. Caiff y rhain eu cronni a chaiff y Gofrestr Risgiau Gweithredol ei diweddaru. Fodd bynnag, ni chynhelir adolygiad pellach o'r Gofrestr Risgiau Gweithredol.<br><br>Ar hyn o bryd, cedwir y cofrestrau risgiau gweithredol yn y meysydd sydd â chynllun adrannol. Dylai'r gofrestr risg gwmpasu pob maes yn y sefydliad.<br><br>O ran y gofrestr risgiau strategol, caiff y rhain eu hadolygu gan yr Uwch Dîm Arweinyddol bob 6 wythnos, ac yna, cânt eu hadrodd i Banel Gweithredol yr Awdurdod Tân bob 6 mis. | Dylid ystyried sefydlu Grŵp Rheoli Risg ffurfiol i adolygu'r Cofrestrau Risgiau Gweithredol a Strategol yn rheolaidd.<br><br>Dylid mynd ati'n rheolaidd i ymdrin â risgiau gweithredol sydd eisoes wedi'u nodi yn y gofrestr risg ac ystyried risgiau newydd. Dylid sefydlu proses benodedig at ddibenion dwyn risgiau sylweddol i sylw'r Uwch Dîm Arweinyddol a Phanel Gweithredol yr Awdurdod Tân yn gyflymach na'r hyn sy'n ofynnol â sbardunau cytûn ar gyfer gwneud hynny fel rhan o adrodd am risg. | Fel y nodir uchod, bydd Grŵp Risg newydd yn cael ei sefydlu a bydd yn adrodd o fewn y fframwaith llywodraethu sefydledig. Bydd hwn yn adrodd i riant bwyllgor, a fydd yn ei dro yn adrodd i'r Uwch Dîm Arweinyddol a'r Awdurdod Tân ac Achub yn ôl yr angen. Bydd cylch gorchwyl y grŵp yn cael ei ddatblygu i sicrhau y caiff risgiau yn holl feysydd busnes y sefydliad eu hymgorffori yn y gofrestr risg.<br><br>**Swyddog Cyfrifol:** Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid<br><br>**Dyddiad Gweithredu:** Dylid gweithredu'r grŵp erbyn diwedd Ch2 2024/25. |

| Mater a Nodwyd | Argymhelliad | Gweithred Gytunedig |
|---|---|---|
| | Dylid rhoi sicrwydd bod y gofrestr risgiau gweithredol yn cwmpasu pob maes yn y sefydliad.<br><br>Dylid adolygu risgiau strategol yn amlach. Ar hyn o bryd, caiff y gofrestr risgiau strategol ei hadolygu bob 6 wythnos gan yr Uwch Dîm Arweinyddol a phob 6 mis gan Banel Gweithredol yr Awdurdod Tân.<br><br>Dylai'r prosesau rheoli risg mewn perthynas â'r gofrestr risgiau gweithredol a'r gofrestr risgiau strategol gael eu diffinio'n glir yn y Polisi Rheoli Risg Corfforaethol drafft. | |
| <u>Cofrestrau Risgiau</u><br>Mae’r Gofrestr Risgiau Strategol a’r Gofrestr Risgiau Gweithredol yn cynnwys y canlynol:<br>• Thema;<br>• Rhif y risg;<br>• Dyddiad ychwanegu’r Risg;<br>• Adran; | Mae angen gwella fformat y gofrestr risgiau gweithredol a’r gofrestr risgiau strategol fel a ganlyn:<br>• Sgorio risgiau ar lefelau gros, gweddilliol a tharged;<br>• Sefydlu rheolaethau i liniaru’r risgiau a nodwyd;<br>• Sicrwydd sydd ar gael;<br>• Camau y dylid eu gweithredu; | Fel rhan o'r Grŵp Risg newydd, ac wrth i'r polisi gael ei ddatblygu, bydd y gwelliannau uchod i'r gofrestr risg strategol yn cael eu hystyried.<br>**Swyddog Cyfrifol:** Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid<br>**Dyddiad Gweithredu:** Dylid gweithredu’r grŵp erbyn diwedd Ch2 2024/25. Gwelliannau i’r Gofrestr Risg erbyn diwedd Ch3 fan bellaf. |

| Mater a Nodwyd | Argymhelliad | Gweithred Gytunedig |
|---|---|---|
| • Perchennog y Risg;<br>• Disgrifiad o'r Risg<br>• Effaith;<br>• Sgôr tebygolrwydd;<br>• Sgôr effaith;<br>• Sgôr risg presennol;<br>• Statws cyffredinol y risg, e.e. Uchel;<br>• Dull Lliniaru/Ymateb. | • Dylid clustnodi swyddog cyfrifol a therfynau amser ar gyfer pob cam gweithredu. | |
| <u>Adrodd am Risg</u><br>O ran y gofrestr risgiau strategol, fe wnaethom nodi y caiff y rhain eu hadolygu gan yr Uwch Dîm Arweinyddol bob 6 wythnos, ac yna, cânt eu hadrodd i Banel Gweithredol yr Awdurdod Tân bob 6 mis. Fodd bynnag, argymhellir y dylid rhoi sicrwydd i'r Awdurdod Tân mewn perthynas â rheoli risg yn rheolaidd. | Dylid cyflwyno adroddiadau rheolaidd i'r Awdurdod Tân sy'n cynnig asesiad cytbwys o'r prif risgiau ac effeithiolrwydd rheoli risg. | Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu polisi byddwn yn parhau i adrodd i Banel Gweithredol yr Awdurdod ac ystyried sut i adrodd am risgiau strategol i'r Awdurdod llawn.<br>**Swyddog Cyfrifol:** Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid<br>**Dyddiad Gweithredu:** Dylid gweithredu'r grŵp erbyn diwedd Ch2 2024/25. Dylid diffinio'r dull o Adrodd am y Gofrestr Risgiau Strategol i'r Awdurdod Tân ac Achub llawn erbyn diwedd Ch3 fan bellaf. |

## Dilyniant

Cynhelir ymarferiad dilynol yn ystod 2024/25 i werthuso'r cynnydd a wnaed o ran y materion a godwyd. Bydd hyn yn cynnwys caffael tystiolaeth ddogfennol i brofi bod y camau y cytunwyd arnynt fel rhan o'r adolygiad hwn wedi'u rhoi ar waith.

# Atodiad A: Cwmpas yr Ymgysylltu

## Cwmpas

Yr amcan cyffredinol oedd asesu'r rheolaethau rheoli risg craidd sydd ar waith i sicrhau eu bod wedi'u dylunio'n ddigonol.

Fe wnaethom adolygu'r amcan a nodwyd uchod mewn perthynas â Rheoli Risg - Rheolaethau Craidd trwy adolygu dyluniad rheolaethau mewn perthynas â'r meysydd canlynol:

- Llywodraethu ac arwain;
- Rolau a chyfrifoldebau;
- Ymwybyddiaeth a hyfforddiant staff;
- Prosesau rheoli risg
- Monitro ac Adborth; ac
- Adrodd am risg.

Dyma gyfyngiadau'r cwmpas:

- Fe wnaeth yr adolygiad ganolbwyntio ar reolaethau rheoli risg craidd yn unig â phwyslais ar ddylunio rheolaethau. Ni chynhaliwyd profion manwl ar gydymffurfiaeth â rheolaethau e.e. adolygiadau o risgiau penodol, cofrestrau risgiau ac ati, fel rhan o'r adolygiad hwn.

## Cyfyngiadau

Dim ond y materion a godwyd yn yr adroddiad hwn a ddaeth i'n sylw yn ystod ein gwaith archwilio mewnol ac nid ydynt o reidrwydd yn ddatganiad cynhwysfawr o'r holl wendidau sy'n bodoli, nac o'r holl welliannau y gallai fod eu hangen. Er bod pob gofal wedi'i gymryd i sicrhau bod yr wybodaeth yn yr adroddiad hwn mor gywir â phosibl, yn seiliedig ar yr wybodaeth a ddarparwyd a'r ddogfennaeth a adolygwyd, ni ellir rhoi sicrwydd llwyr o ran y cyngor a'r wybodaeth a gynhwysir yma. Nid yw ein gwaith yn rhoi sicrwydd llwyr nad oes gwallau, colled na thwyll materol yn bodoli.

Y rheolwyr sy'n gyfrifol am system gadarn o reolaethau mewnol ac atal a chanfod twyll ac afreoleidd-dra arall, ac ni ddylid dibynnu ar waith a gyflawnir gan archwiliad mewnol i nodi'r holl gryfderau a gwendidau mewn rheolaethau mewnol, nac i nodi pob amgylchiad o dwyll neu afreoleidd-dra. Mae gweithredu ein hargymhellion yn effeithiol ac yn amserol gan reolwyr yn bwysig ar gyfer cynnal system reoli fewnol ddibynadwy.

Mae adroddiadau a baratowyd gan MIAA yn cael eu paratoi at eich defnydd chi yn unig ac nid yw MIAA na'r archwilwyr yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw gyfarwyddwr neu swyddog yn rhinwedd eu swyddogaeth unigol. Ni dderbynnir unrhyw gyfrifoldeb i unrhyw drydydd parti gan nad yw'r adroddiad wedi'i baratoi ar gyfer, ac nid yw wedi'i fwriadu ar gyfer, unrhyw ddiben arall ac ni fydd gan berson nad yw'n barti i'r cytundeb ar gyfer darparu Archwilio Mewnol unrhyw hawliau o dan Ddeddf Contractau (Hawliau Trydydd Partïon) 1999.

## Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus

Cwblhawyd ein gwaith yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus ac mae'n cydymffurfio â'r Cyfyngiadau Rhyngwladol.

Dim ond y materion a godwyd yn yr adroddiad hwn a ddaeth i'n sylw yn ystod ein gwaith archwilio mewnol ac nid ydynt o reidrwydd yn ddatganiad cynhwysfawr o'r holl wendidau sy'n bodoli, nac o'r holl welliannau y gallai fod eu hangen. Er bod pob gofal wedi'i gymryd i sicrhau bod yr wybodaeth yn yr

adroddiad hwn mor gywir â phosibl, yn seiliedig ar yr wybodaeth a ddarparwyd a'r ddogfennaeth a adolygwyd, ni ellir rhoi sicrwydd llwyr o ran y cyngor a'r wybodaeth a gynhwysir yma. Nid yw ein gwaith yn rhoi sicrwydd llwyr nad oes gwallau, colled na thwyll materol yn bodoli.

Y rheolwyr sy'n gyfrifol am system gadarn o reolaethau mewnol ac atal a chanfod twyll ac afreoleidd-dra arall ac ni ddylid dibynnu ar waith a gyflawnir gan archwiliad mewnol i nodi'r holl gryfderau a gwendidau mewn rheolaethau mewnol, nac i nodi pob amgylchiad o dwyll neu afreoleidd-dra. Mae gweithredu ein hargymhellion yn effeithiol ac yn amserol gan reolwyr yn bwysig ar gyfer cynnal system reoli fewnol ddibynadwy.

## Atodiad B: Rhestr Ddosbarthu'r Adroddiad

| Enw | Teitl | |
| --- | --- | --- |
| Helen MacArthur | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol | Drafft/Terfynol |
| Anthony Jones | Pennaeth Cynllunio, Perfformiad a Thrawsnewid | Drafft/Terfynol |
| Gary Ashton | Rheolwr Cynllunio Corfforaethol a Pherfformiad | Drafft/Terfynol |

**Angharad Ellis**
Uwch Reolwr Archwilio
Rhif ffôn: 07469378328
E-bost: Angharad.Ellis@miaa.nhs.uk

**Anne-marie Harrop**
Cyfarwyddwr Sicrwydd Rhanbarthol
Rhif ffôn: 07920150313
E-bost: Anne-marie.Harrop@miaa.nhs.uk

## Cyfyngiadau

Mae adroddiadau a baratowyd gan MIAA yn cael eu paratoi at eich defnydd chi yn unig ac nid yw MIAA na'r archwilwyr yn cymryd cyfrifoldeb i unrhyw gyfarwyddwr neu swyddog yn rhinwedd eu swyddogaeth unigol. Ni dderbynnir unrhyw gyfrifoldeb i unrhyw drydydd parti gan nad yw'r adroddiad wedi'i baratoi ar gyfer, ac nid yw wedi'i fwriadu ar gyfer, unrhyw ddiben arall ac nid oes gan berson nad yw'n barti i'r cytundeb ar gyfer darparu Archwilio Mewnol unrhyw hawliau o dan Ddeddf Contractau (Hawliau Trydydd Partïon) 1999.

## Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus

Cwblhawyd ein gwaith yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus ac mae'n cydymffurfio â'r Safonau Rhyngwladol ar gyfer Arfer Archwilio Mewnol Proffesiynol.

*This document is available in English* **Eitem Agenda 13**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **18 Mawrth 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Cyllid ac Adnoddau** |
| Swyddog Cyswllt | **Angharad Ellis (MIAA)** |
| Pwnc | **Cynllun Archwilio Mewnol 2024/25** |

**PWRPAS YR ADRODDIAD**

1 Diben yr adroddiad hwn yw cyflwyno'r cynllun archwilio mewnol arfaethedig ar gyfer blwyddyn ariannol 2024/25 i'r Aelodau.

**CRYNODEB GWEITHREDOL**

2 Rhaid i Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod) sefydlu trefniadau ar gyfer archwilio systemau rheoli. Mae hyn yn cynnwys rheoli risg yn ogystal â sicrhau bod rheolaeth ariannol yn ddigonol ac yn effeithiol.

3 Mae angen rheolaethau mewnol priodol fel sylfaen i drefniadau llywodraethu'r Awdurdod a rhaid i'r Awdurdod gymeradwyo Datganiad Rheolaeth Fewnol blynyddol. Pan fyddant yn cymeradwyo'r Datganiad Rheolaeth Fewnol, mae'r Awdurdod yn dibynnu ar waith archwilio mewnol ac felly mae'n rhaid i'r trefniadau archwilio mewnol fod yn ddigon i roi sicrwydd.

4 Mae swyddogaeth archwilio fewnol yr Awdurdod yn cael ei chyflawni gan Mersey Internal Audit Agency (MIAA). Mae adolygiadau archwilio mewnol yn cael eu cynllunio a'u blaenoriaethu gan ddefnyddio dull sy'n seiliedig ar risg ac sy'n sicrhau bod rheolaethau allweddol yn cael eu hadolygu ar gylch tair blynedd. Mae'r dull arfaethedig ar gyfer 2024/25 wedi'i nodi yn Atodiad 1.

**ARGYMHELLION**

5 Argymhellir bod yr Aelodau'n:

**i) Cymeradwyo'r rhaglen waith archwilio arfaethedig ar gyfer 2024/25 a chymeradwyo'r cynllun strategol tair blynedd.**

**CEFNDIR**

6 Mae rheolaethau effeithiol yn hanfodol i'r trefniadau llywodraethu cyffredinol ac maen nhw'n galluogi'r Awdurdod i gyflawni ei gyfrifoldebau mewn perthynas â'r Datganiad Rheolaeth Fewnol a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

7 Penodwyd archwilydd mewnol yr Awdurdod, MIAA, ym mis Mehefin 2023. Mae gwaith MIAA yn cael ei lywodraethu gan safonau proffesiynol sy'n sicrhau dull systematig a chadarn.

**GWYBODAETH**

8 Mae'r gwaith manwl a wneir gan MIAA yn cael ei gynllunio a'i flaenoriaethu yn ôl asesiadau risg sy'n ystyried risgiau lleol a risgiau cenedlaethol. Mae'r cynllun strategol tair blynedd yn cael ei ddatblygu er mwyn sicrhau bod meysydd rheoli allweddol yn cael eu hadolygu ar gylch tair blynedd, fel y nodir yn Atodiad 1.

9 Mae'r cynllun manwl ar gyfer 2024/25 wedi'i gynnwys yn Atodiad 1 ac mae'n cadarnhau'r rhaglen archwilio arfaethedig.

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae rheoli a gweithredu systemau ariannol a systemau allweddol eraill mewn ffordd briodol yn cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion llesiant yn ogystal â chynaliadwyedd tymor hwy ein gwasanaethau. |
| Cyllideb | Mae sicrwydd ynghylch bodolaeth a gweithrediad rheolaethau mewnol yn cefnogi'r prosesau ar gyfer gosod a monitro cyllidebau yn effeithiol ac yn rhoi sicrwydd bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol. |
| Cyfreithiol | Mae trefniant archwilio mewnol effeithiol yn un o ofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 |
| Staffio | Mae'r adolygiad o systemau allweddol yn rhoi sicrwydd bod rheolaethau yn bresennol ac yn gweithredu yn unol â'r polisïau a'r gweithdrefnau y cytunwyd arnynt. |
| Cydraddoldeb/Hawliau Dynol/<br>y Gymraeg | Mae'r arweinydd ymgysylltu o fewn MIAA yn ddwyieithog a bydd yr adroddiadau'n mynd drwy'r prosesau cyfieithu arferol. |
| Risgiau | Mae gwaith MIAA yn cadarnhau bod risgiau'n cael eu rheoli ac/neu mae'n gwneud argymhellion ar sut i wella. |

# Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru

Cynllun Archwilio Mewnol Drafft 2024/2025

# Cynnwys

1. Crynodeb Gweithredol
2. Eich Gwasanaeth Archwilio, Sicrwydd a Datrysiadau Mewnol
3. Eich cefnogi chi trwy Ychwanegu Gwerth
4. Deall Eich Gweledigaeth, Eich Amcanion a'ch Risgiau
5. Asesiad Risg Archwilio Mewnol
6. Y Cynllun Archwilio Mewnol Ar Un Dudalen
7. Cynllun Archwilio Mewnol Gweithredol 2024/25

Atodiad A: Cynllun Strategol Tair Blynedd ar gyfer Archwilio Mewnol

Atodiad B: Dangosyddion Perfformiad Allweddol Archwilio Mewnol

**Eich Tîm Archwilio Mewnol**



**Anne-marie Harrop**
*Arweinydd Ymgysylltu*
07920 150313
Anne-marie.harrop@miaa.nhs.uk



**Angharad Ellis**
*Rheolwr Ymgysylltu*
07469378328
Ann.ellis@miaa.nhs.uk




**Charles Black**
*Rheolwr Cyflawni*
07554 332410
Charles.Black@miaa.nhs.uk

# 1 Crynodeb Gweithredol

## 1.1 Mewn partneriaeth gyda chi

MIAA Assurance, yn darparu sicrwydd, dealltwriaeth a rhagolygon am bris teg. Er mwyn sicrhau bod ein gwasanaethau yn bersonol ac ymatebol, ac er mwyn sicrhau'r profiad gorau posibl i'n cwsmeriaid, rydym yn eu darparu mewn partneriaeth â chi.




## 1.2 Eich Asesiad Risg

Mae'r Cynllun Archwilio Mewnol wedi'i seilio ar asesiad risg cadarn. Roedd hwn yn canolbwyntio ar Fframwaith Cenedlaethol Tân ac Achub 2016, eich Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2021 – 2024, eich Cynllun Ariannol Tymor Canolig, ac ar gwmpas y cynllun archwilio blaenorol a dadansoddi risg. Mae crynodeb o'r rhain i'w gael yn Atodiad A.

## 1.3 Eich Cynllun Archwilio Mewnol Chi

Mae eich gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cynnwys sicrwydd craidd, meysydd risg cenedlaethol a rhanbarthol, a risgiau strategol o'ch Cofrestr Risg. Mae'r cynllun drafft yn seiliedig ar asesiad risg cychwynnol a bydd yn rhoi syniad i'r sefydliad o'r hyn a fydd yn cael ei gynnwys. Er hyn, bydd y cynllun yn parhau i fod yn hyblyg er mwyn caniatáu iddo ymateb i heriau posibl y gallai'r sefydliad eu hwynebu.

Mae eich cynllun blynyddol gweithredol yn Adran 5 yn rhan o Gynllun Strategol tair blynedd y sefydliad (sydd i'w weld yn Atodiad A). Bydd hwn yn cael ei adolygu fel rhan o'n proses asesu risg barhaus er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i ganolbwyntio ar risgiau a heriau allweddol y sefydliad a'i fod yn ychwanegu gwerth.

Byddwn yn ymgysylltu ar draws y sefydliad er mwyn cael dealltwriaeth drylwyr o'ch risgiau ac er mwyn sicrhau ein bod yn canolbwyntio ar y meysydd lle cawn fwyaf o effaith.

Bydd dealltwriaeth, briffiau a digwyddiadau MIAA yn rhan annatod o'ch cynllun.

Eich ffi ar gyfer 2024/25 yw £23,450.

# 7 Cynllun Archwilio Mewnol Gweithredol 24/25

| Adolygu a Chwmpas | Risg / Rhesymeg | Darpariaeth Arfaethedig | Arweinydd |
|---|---|---|---|
| Llywodraethu, Risg a Chyfreithlondeb | | | |
| **Rheoli Risg:** Yn dilyn adolygiad Rheolaethau Craidd Rheoli Risg a gynhaliwyd yn 2023/24, byddwn yn asesu'r trefniadau rheoli risg datblygedig gan gynnwys y systemau sydd ar waith i gofnodi risg a'r prosesau sydd ar waith i sicrhau bod risgiau sylweddol yn cael eu huwchgyfeirio i'r gofrestr risg strategol. | **Gofyniad HOIA** | Ch4 | Dirprwy Brif Swyddog Tân |
| Pobl | | | |
| **System Roster/Dyletswydd Llawn Amser:** Gwerthuso effeithiolrwydd y systemau a'r prosesau sydd ar waith i rheoli trefniadau amser gweithio ar gyfer Cyfwerth ag Amser Llawn (WTE). Bydd yr adolygiad hwn hefyd yn ystyried Amser i ffwrdd yn Lle (TOIL). | **Sicrwydd Craidd/Asesiad Risg** | Ch2 | Dirprwy Brif Swyddog Tân |
| Cyllid a Chynaliadwyedd | | | |
| **Systemau Ariannol Allweddol:** Gwerthusiad blynyddol o'r rheolaethau ariannol allweddol, gan gynnwys y Cyfriflyfr Cyffredinol, Incwm, Dyledwyr, y Trysorlys, Rheolaeth Gyllidebol ac Adrodd . | **Sicrwydd Craidd** | Ch3 | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |
| **Caffael:** Gwerthuso effeithiolrwydd y prosesau caffael sydd ar waith gan gynnwys y defnydd o dendrau ag eithriadau. | **Sicrwydd Craidd/Asesiad Risg** | Ch1 | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |
| **Presenoldeb mewn cyfarfodydd Craffu'r Gyllideb:** Mynychu a goruchwylio cyfarfodydd Craffu'r Gyllideb (yn ôl yr angen) | **Cais rheoli** | Ch1 – Ch4 | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |
| Dilyniant ac Wrth Gefn | | | |
| **Dilyniant ac Wrth Gefn** | **Gofyniad PSIAS** | Ch1 – Ch4 | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |
| Cynllunio ac Adrodd | | | |
| **Cynllunio, Rheoli, Adrodd a Chyfarfodydd** | **Gofyniad PSIAS** | Ch1 – Ch4 | Prif Swyddog Tân Cynorthwyol |

# Atodiad A – Cynllun Strategol Tair Blynedd ar gyfer Archwilio Mewnol

Rydym wedi mapio eich amcanion strategol a'ch risgiau strategol yn erbyn y Cynllun Strategol Tair Blynedd ar gyfer Archwilio Mewnol. Bydd hwn yn cael ei adolygu fel rhan o'n proses asesu risg er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i ganolbwyntio ar risgiau a heriau allweddol y sefydliad a'i fod yn ychwanegu gwerth.

| Amcanion Strategol |
|---|
| Gweithio tuag at wneud gwelliannau i iechyd, diogelwch a lles pobl yng Ngogledd Cymru. |
| Parhau i weithio ar y cyd er mwyn helpu cymunedau i wella pa mor gydnerth ydyn nhw. |
| Gweithredu mor effeithiol ac effeithlon â phosibl, gan wneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael. |
| **Parhau i nodi cyfleoedd i annog mwy o ymgysylltu â phobl, â chymunedau, â staff ac â rhanddeiliaid.** |
| **Cynnal gweithlu sy'n amrywiol, cydnerth, medrus, proffesiynol a hyblyg.** |
| **Datblygu ffyrdd o ddod yn fwy ymwybodol o'r amgylchedd er mwyn lleihau effaith ein gweithgaredd ar yr amgylchedd.** |
| **Sicrhau bod gwerth cymdeithasol a chynaliadwyedd yn cael eu hystyried, gan gynnwys yn ystod prosesau caffael.** |

Ardaloedd Arolygu wedi'u mapio yn erbyn amcanion

| 23/24 | 24/25 | 25/26 |
|---|---|---|
| Cyflogres a Rheoli Absenoldeb | Presenoldeb mewn cyfarfodydd Craffu ar y Gyllideb | Cynllunio Cyllidebau ac Effeithlonrwydd |
| Rheolaethau Sefydliadol Seiber | Rhestr Ddyletswyddau Amser Cyflawn | Partneriaethau a Chydweithio |
| Y Fenter Twyll Genedlaethol | Caffael | Strategaeth TG |
| Rheolaethau Ariannol Allweddol | Rheolaethau Ariannol Allweddol | Rheolaethau Ariannol Allweddol |
| Rheolaethau Rheoli Risg Craidd | Fframwaith Rheoli Risg | Rheolaethau Rheoli Risg Craidd |

## Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus

Cwblhawyd ein gwaith yn unol â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus ac mae'n cydymffurfio â'r Safonau Rhyngwladol ar gyfer Arfer Archwilio Mewnol Proffesiynol.

## Cyfyngiadau

Nid yw ein gwaith yn rhoi sicrwydd llwyr nad oes gwallau, colled na thwyll materol yn bodoli. Mae'r cyfrifoldeb am system gadarn o reolaethau mewnol ac atal a chanfod twyll ac afreoleidd-dra arall yn dibynnu ar reolwyr ac ni ddylid dibynnu ar waith a gyflawnir gan archwiliad mewnol i nodi'r holl gryfderau a gwendidau mewn rheolaethau mewnol, nac i nodi pob amgylchiad o dwyll neu afreoleidd-dra. Er mwyn cynnal system reoli fewnol ddibynadwy, mae'n bwysig bod rheolwyr yn gweithredu ein hargymhellion yn effeithiol ac yn brydlon.

Mae adroddiadau'r MIAA yn cael eu paratoi at eich defnydd chi yn unig ac nid oes gan yr MIAA na'r archwilwyr gyfrifoldeb i unrhyw gyfarwyddwr neu swyddog yn rhinwedd eu swyddogaethau unigol. Ni dderbynnir unrhyw gyfrifoldeb i unrhyw drydydd parti gan nad yw'r adroddiad wedi'i baratoi ar gyfer unrhyw ddiben arall, ac nid yw wedi'i fwriadu ar gyfer unrhyw ddiben arall, ac ni fydd gan unrhyw un nad ydynt yn barti i'r cytundeb ar gyfer darparu Archwilio Mewnol unrhyw hawliau o dan Ddeddf Contractau (Hawliau Trydydd Partïon) 1999.

*This document is available in English* **Eitem Agenda 14**

| | |
|---|---|
| Adroddiad i | **Y Pwyllgor Archwilio** |
| Dyddiad | **18 Mawrth 2024** |
| Swyddog Arweiniol | **Helen MacArthur, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol Cyllid ac Adnoddau** |
| Swyddog Cyswllt | **Helen MacArthur** |
| Pwnc | **Archwilio Cymru - Crynodeb Archwilio Blynyddol 2023** |

## PWRPAS YR ADRODDIAD

1 Rhoi Crynodeb Archwilio Blynyddol 2023, a gynhyrchwyd gan Archwilio Cymru, i Aelodau Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru (yr Awdurdod).

## CRYNODEB GWEITHREDOL

2 Yr Archwilydd Cyffredinol yw'r archwilydd allanol statudol ar gyfer y rhan fwyaf o'r sector cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys yr Awdurdod. Mae rôl yr Archwilydd Cyffredinol yn cynnwys archwilio sut mae cyrff cyhoeddus yn rheoli ac yn gwario arian cyhoeddus, gan gynnwys sut maen nhw'n sicrhau gwerth wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

3 Mae Crynodeb Archwilio Blynyddol 2023 yn cynnwys cadarnhau'r gwaith a wnaed gan Archwilio Cymru ac mae'n cynnwys archwiliad o'r datganiadau ariannol a'r datganiad llywodraethu blynyddol, ardystiad o rwymedigaethau gwella'r Awdurdod, a phrosiect lleol ar drefniadau'r Awdurdod i ymateb i larymau tân masnachol awtomatig.

4 Mae'r holl faterion a geir o fewn Crynodeb Archwilio Blynyddol 2023 eisoes wedi cael eu hadrodd i'r Awdurdod.

## ARGYMHELLION

5 Gofynnir i'r Aelodau:

**i) Nodi'r crynodeb archwilio blynyddol.**

**GOBLYGIADAU**

| | |
|---|---|
| Amcanion Llesiant | Mae'r gwaith a wnaed ar ran yr Archwilydd Cyffredinol yn darparu asesiad gwrthrychol o berfformiad yr Awdurdod. |
| Cyllideb | Mae'r gwaith sydd wedi ei wneud yn cynnwys ystyried gwerth am arian. |
| Cyfreithiol | Yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd statudol Cymru |
| Staffio | Dim |
| Cydraddoldeb/ Hawliau Dynol/y Gymraeg | Dim |
| Risgiau ac Ansicrwydd | Mae'r asesiad gwrthrychol mewn nifer o feysydd allweddol yn cefnogi gwaith yr Awdurdod i nodi ac i reoli risg. |

Archwilio Cymru
Audit Wales

# Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

## Crynodeb Archwilio Blynyddol 2023



Dyma ein crynodeb archwilio ar gyfer Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru. Mae'n dangos y gwaith a gwblhawyd ers y Crynodeb Archwilio Blynyddol diwethaf, a gyhoeddwyd  ym mis Ionawr 2023. Mae ein crynodeb archwilio yn rhan o ddyletswyddau Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Ceir rhagor o wybodaeth am y dyletswyddau hyn ar ein gwefan.

## Ynglŷn â'r Awdurdod Tân ac Achub

| **Prif ffeithiau** |
|---|
| Mae'r Awdurdodau Tân ac Achub (yr Awdurdod) yn cynnwys aelodau etholedig enwebedig, sy'n cynrychioli'r awdurdodau lleol ar draws ardal yr Awdurdod yn gyffredinol.<br>Mae Awdurdod Tân ac Achub De Cymru yn cynnwys 28 o gynghorwyr sy'n cynrychioli eu hawdurdodau cyfansoddol a'r pleidiau gwleidyddol canlynol:<br>• Ceidwadwyr: 3<br>• Annibynnol: 11<br>• Llafur 6<br>• Plaid Cymru 8 |
| Gwariodd yr Awdurdod £38.64 miliwn ar ddarparu gwasanaethau yn ystod 2022-23, sy'n leihad o 4.97% ar 2021-22.[1] |
| Ar 31 Mawrth 2023, roedd gan yr Awdurdod £1.48 miliwn o gronfeydd wrth gefn cyffredinol a £6.22 miliwn mewn cronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi. |
| Mae gan Awdurdodau Tân ac Achub rwymedigaeth statudol o dan Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 i gynnal Gwasanaeth Tân ac Achub sy'n gallu ymdopi'n effeithiol â'r holl alwadau am gymorth mewn achosion o dân ac argyfyngau eraill.<br>Mae gan Lywodraeth Cymru gyfrifoldeb cyffredinol dros benderfynu ar bolisi Awdurdodau Tân ac Achub. Ar lefel leol, rhaid i Awdurdodau Tân ac Achub fodloni gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn ogystal â'r Fframwaith Cenedlaethol Cymaeg ar gyfer y Gwasanaethau Tân ac Achub. |

[1] Ffynhonnell: Datganiad o Gyfrifon 2022-23

**Prif ffeithiau**

Mae'r rhan fwyaf o'r cyllid ar gyfer y tri Awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru yn cael ei dderbyn trwy ardoll gan yr awdurdodau unedol lleol o fewn eu hardal. Mae'r cyfraniad yn seiliedig ar niferoedd y boblogaeth.

# Dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol

## Gwnaethom waith yn ystod 2022-23 i gyflawni'r dyletswyddau canlynol

- **Archwilio Cyfrifon**

  Bob blwyddyn mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio datganiadau ariannol yr Awdurdod i wneud yn siŵr bod arian cyhoeddus yn cael ei gyfrifyddu yn iawn.
- **Gwelliant parhaus**

  Mae'n rhaid i’r Awdurdod hefyd roi trefniadau ar waith i wneud gwelliannau parhaus, gan gynnwys cynlluniau ac adroddiadau cysylltiedig, ac mae’n rhaid i’r Archwilydd Cyffredinol asesu a yw'r Awdurdod wedi bodloni'r gofynion hyn.
- **Gwerth am arian**

  Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio a yw'r Awdurdod wedi cyflwyno trefniadau i gael gwerth am arian am yr adnoddau mae'n eu defnyddio, ac mae'n rhaid iddo fod yn fodlon ei fod wedi gwneud hyn.
- **Egwyddor datblygu cynaliadwy**

  Mae angen i gyrff cyhoeddus gydymffurfio â'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth osod a chymryd camau i gyflawni eu hamcanion llesiant. Rhaid i'r Archwilydd Cyffredinol asesu i ba raddau y maent yn gwneud hyn.

**Er mwyn cyflawni dyletswyddau'r Archwilydd Cyffredinol, rydym yn cwblhau prosiectau penodol. Rydym yn ystyried canfyddiadau ein gwaith archwilio wrth asesu a yw'r Awdurdod wedi cyflwyno trefniadau i sicrhau gwerth am arian. Crynhoir ein canfyddiadau a'n casgliadau isod.**

# Yr hyn a ganfuom

## Archwilio cyfrifon 2022-23 Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru

Bob blwyddyn rydym yn archwilio datganiadau ariannol yr Awdurdod.

### Ar gyfer 2022-23:

- cyflwynwyd y datganiadau drafft i'w harchwilio ar 3 Gorffennaf 2023. Roedd hyn cyn y dyddiad cau ar 31 Gorffennaf 2023 a bennwyd gan Lywodraeth Cymru
- roedd y datganiadau drafft a gyflwynwyd i'w harchwilio o ansawdd uchel.
- rhoddodd yr Archwilydd Cyffredinol farn wir a theg diamod ar ddatganiadau ariannol yr Awdurdod ar 24 Hydref, cyn y dyddiad cau cytunwyd gyda Llywodraeth Cymru, sef 30 Tachwedd 2023 . Cyflwynwyd yr archwiliad yn ddiweddarach nag yn y blynyddoedd blaenorol oherwydd effaith gofynion safonol archwilio newydd. Ymdriniwyd â’r rhain yn ein cynllun archwilio a ystyriwyd gan y Pwyllgor Archwilio ar 18 Medi 2023.
- paratowyd Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac Adroddiad Naratif yr Awdurdod yn unol â Chod CIPFA a chanllawiau perthnasol. Roeddent hefyd yn gyson â'r datganiadau ariannol a baratowyd gan yr Awdurdod a gyda'n gwybodaeth am yr Awdurdod.
- gwnaed nifer fach o newidiadau i ddatganiadau ariannol yr Awdurdod yn deillio o'n gwaith archwilio, a adroddwyd i'r Pwyllgor Cyllid, Archwilio a Rheoli Perfformiad yn ein Hadroddiad Archwilio Datganiadau Ariannol ym mis Hydref 2023.
- cyhoeddodd yr Archwilydd Cyffredinol y dystysgrif sy'n cadarnhau bod archwiliad cyfrifon 2022-23 wedi'i gwblhau.

## Gwelliant parhaus

Ardystiodd yr Archwilydd Cyffredinol fod yr Awdurdod wedi cyflawni ei ddyletswyddau cyfreithiol ar gyfer cynllunio ac adrodd gwelliannau ac mae'n credu ei fod yn debygol o fodloni gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 yn ystod 2022-23.

## Lleihau galwadau tân diangen

Ym mis Hydref 2023 cyhoeddwyd ein hadroddiad ar leihau larymau tân ffug o fewn yr Awdurdod. Daethom i'r casgliad bod yr Awdurdod wedi lleihau nifer y galwadau tân diangen annomestig y mae'n ymateb iddynt yn sylweddol ond mae angen iddo fynd i'r afael â risgiau ariannol a materion o ran capasiti i sicrhau bod ei ddull seiliedig-ar-risg yn gynaliadwy. Cyhoeddwyd ein canfyddiadau ar draws tri Awdurdod Tân Cymru mewn adroddiad cenedlaethol ym mis Hydref 2023

## Astudiaethau llywodraeth leol

Yn ogystal â gwaith lleol ym mhob awdurdod, bob blwyddyn rydym hefyd yn cynnal astudiaethau ar draws y sector llywodraeth leol i wneud argymhellion i wella gwerth am arian. Ers yr adroddiad gwelliant blynyddol diwethaf, rydym wedi cyhoeddi'r adroddiadau canlynol ar ein gwefan:

- Llamu Ymlaen: Gwersi o'n gwaith ar y gweithlu ac asedau
- 'Craciau yn y Sylfeini' – Diogelwch Adeiladau yng Nghymru

## Gwaith wedi ei gynllunio ar gyfer 2023-24

Buom hefyd yn edrych ar yr heriau a'r cyfleoedd allweddol sy'n wynebu'r Awdurdod. Gallai'r rhain gael effaith ar allu'r Awdurdod i gyflawni ei rwymedigaethau cyfreithiol yn gysylltiedig â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gwelliant parhaus a'r defnydd o'i adnoddau.

Mae ein gwaith arfaethedig ar gyfer 2023-24 yn cynnwys:

- Atal risg uchel

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn annibynnol ar y llywodraeth, a chafodd ei benodi gan Ei Mawrhydi'r Frenhines. Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn ymgymryd â'i waith gan ddefnyddio staff ac adnoddau eraill a ddarperir gan Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n fwrdd statudol a sefydlwyd at y diben hwnnw ac i fonitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol. Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn cael ei dwyn i gyfrif gan y Senedd.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio cyrff llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys awdurdodau unedol, yr heddlu, awdurdodau tân ac achub, parciau cenedlaethol, cynghorau cymuned. Mae hefyd yn cynnal astudiaethau gwerth am arian llywodraeth leol, gan asesu cydymffurfiaeth â gweddill gofynion Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009 a gallai gynnal arolygiadau arbennig o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Y tu hwnt i lywodraeth leol, yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilydd allanol Llywodraeth Cymru a'i chyrff cyhoeddus noddedig a chysylltiedig, Comisiwn y Senedd, a chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol yng Nghymru.

Archwilio Cymru yw enw cyfunol anstatudol Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân gyda'u swyddogaethau cyfreithiol eu hunain, fel y disgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg.